# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 02/06/2015

Cynnwys Contents

Datganiad gan y Dirprwy Lywydd
Statement by the Deputy Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
3. Motions to Elect Members to Committees

4. Datganiad: Y Camau a Gymerwyd mewn Ymateb i'r Adroddiad Annibynnol ar Tawel Fan
4. Statement: Action Taken in response to the Independent Tawel Fan Report

Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69
Proposal for an Urgent Debate under Standing Order 12.69

5. Datganiad: Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf—Cyflawni ein Hymrwymiad i Gyfiawnder Ieuenctid yn Llwyddiannus
5. Statement: Children and Young People First—Successfully Delivering Our Commitments on Youth Justice

6. Datganiad: Y Diweddaraf am y Gronfa Buddsoddi i Arbed
6. Statement: Update on the Invest-to-save Fund

7. Datganiad: Adroddiad o Gynnydd Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20
7. Statement: EU Structural Funds 2014-20 Progress Report

8. Datganiad: Cydlyniant Cymunedol—Cynnydd a Heriau
8. Statement: Community Cohesion—Progress and Challenges

9. Y Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015
9. The Smoke-free (Private Vehicles) Regulations 2015

10. Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015
10. The National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015

11. Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015
11. The Regulation of Private Rented Housing (Licensing Authority Training Requirements) (Wales) Regulations 2015

12. Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 Bil Cymwysterau Cymru
12. Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Qualifications Wales Bill

13. Cyfnod Pleidleisio
13. Voting Time

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:31

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order, order. The National Assembly is now in session.

Trefn, trefn. Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

13:31

## Datganiad gan y Dirprwy Lywydd

## Statement by the Deputy Presiding Officer

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

It is my pleasure to welcome a new Member this afternoon, Janet Haworth, who is the new Conservative Member for the North Wales region. We're very pleased to see you here, and we look forward to your contributions here in the Siambr and beyond. I would now like to invite you to say a few words.

Mae'n bleser gennyf groesawu Aelod newydd y prynhawn yma, Janet Haworth, sef yr Aelod Ceidwadol newydd dros ranbarth Gogledd Cymru. Rydym yn falch iawn o'ch gweld chi yma, ac edrychwn ymlaen at eich cyfraniadau yma yn y Siambr a thu hwnt. Hoffwn eich gwahodd nawr i ddweud ychydig eiriau.

13:31 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. As this is my first opportunity to speak in the Chamber, I would like to extend my thanks to the Assembly staff and fellow Members, who are all helping me to settle in—you are. I'm very appreciative. My predecessor, Antoinette Sandbach MP—I do like saying that—is very much in my thoughts as I stand here picking up the baton she has passed to me. I aim to continue Antoinette's good work, on behalf of the people of north Wales. The residents of Eddisbury are very fortunate to have her as their Member of Parliament.

Diolch yn fawr. Gan mai hwn yw fy nghyfle cyntaf i siarad yn y Siambr, hoffwn ddiolch i staff y Cynulliad a'm cyd Aelodau, sydd i gyd yn fy helpu i ymgartrefu—mi ydych chi. Rwy'n ei werthfawrogi'n fawr. Mae fy rhagflaenydd, Antoinette Sandbach AS—rwyf yn hoffi dweud hynna—yn flaenllaw iawn yn fy meddwl wrth i mi sefyll yma'n codi'r baton y mae hi wedi ei roi i mi. Rwy'n bwriadu parhau gwaith da Antoinette, ar ran pobl y gogledd. Mae trigolion Eddisbury yn ffodus iawn o'i chael hi fel eu Haelod Seneddol.

Foremost in my thoughts, of course, is the shadow environment and sustainability brief, which has passed to me. It seems to me we can't have one without the other. They are the bedrock of the future of Wales. This is also an exciting time to be joining the Welsh Assembly: a time of change. Cicero once described politics as history on the wing. There is the opportunity in this Chamber to make history. An education service that offers equality of opportunity, and a national health service free at the point of need—these two services are admired across the world, and it is important we celebrate their successes. But we must not shy away from highlighting where they are failing. I will not be afraid to stand up for the concerns of my constituents in North Wales.

Yr hyn sydd flaenaf yn fy meddyliau, wrth gwrs, yw briff amgylchedd a chynaliadwyedd yr wrthblaid, sydd wedi trosglwyddo i mi. Mae'n ymddangos i mi na allwn ni gael yr un heb y llall. Maen nhw'n sylfaen i ddyfodol Cymru. Mae hwn hefyd yn amser cyffrous i ymuno â Chynulliad Cymru: cyfnod o newid. Disgrifiodd Cicero gwleidyddiaeth unwaith fel hanes ar yr adain. Ceir cyfle yn y Siambr hon i greu hanes. Gwasanaeth addysg sy'n cynnig cyfle cyfartal, a gwasanaeth iechyd gwladol sydd am ddim ar y pwynt angen—edmygir y ddau wasanaeth hyn ledled y byd, ac mae'n bwysig ein bod yn dathlu eu llwyddiannau. Ond mae'n rhaid i ni beidio ag osgoi tynnu sylw at ble maen nhw'n methu. Ni fyddaf i yn ofni sefyll dros bryderon fy etholwyr yng Ngogledd Cymru.

But I would like to finish on a lighter note. Colleagues, I know that you are all avid watchers of the Welsh news, and I know you would've seen the feature on the Girl Guides, where the girls were being asked to think about the opportunities for women to become more involved in politics. I was once a girl guide, and, if any of those girls are watching today, I would just like to say to them: 'Come on in; you can do this'.

Ond hoffwn orffen ar nodyn ysgafnach. Gydweithwyr, gwn eich bod i gyd yn wylwyr brwd newyddion Cymru, a gwn y byddwch chi wedi gweld y darn ar y Geidiaid, pryd y gofynnwyd i'r merched feddwl am y cyfleoedd i fenywod gymryd mwy o ran mewn gwleidyddiaeth. Roeddwn i'n geid ar un adeg, ac, os oes unrhyw un o'r merched hynny'n gwylio heddiw, hoffwn ddweud wrthyn nhw: 'Dewch i mewn; gallwch chi wneud hyn'.

Thank you. [Applause.]

Diolch yn fawr. [Cymeradwyaeth.]

13:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

13:33

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 1: questions to the First Minister. Question 1 is from Aled Roberts.

Eitem 1: Cwestiynau i'r Prif Weinidog. Daw Cwestiwn 1 gan Aled Roberts.

### Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

### Betsi Cadwaladr University Local Health Board

13:33 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro ymateb Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i bwysau ar wasanaethau brys yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)2305(FM)*

*1. What steps is the Welsh Government taking to monitor the response of Betsi Cadwaladr University Local Health Board to pressures on emergency services in North Wales? OAQ(4)2305(FM)*

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r byrddau iechyd, gan gynnwys bwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr, wrth gwrs, ac rydym ni'n gwneud hwnnw'n ddyddiol, i fonitro'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau ambiwlans.

Welsh Government works with health boards including Betsi Cadwaladr university health board, of course, and we do that on a daily basis, to monitor pressures on A&E and ambulance services.

13:34 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am yr ymateb.

Thank you for the response.

I was going to refer to a number of reports that I've had the misfortune of reading over the past week, as far as the performance of Betsi Cadwaladr is concerned, and I had thought that we would have the opportunity to consider that in a statement this afternoon, although I understand that now that has been withdrawn. I would therefore ask you to outline what steps the Welsh Government has taken with regard to unannounced inspection reports at the accident and emergency department at Wrexham Maelor Hospital in September and October, which led to an action plan being agreed by Betsi Cadwaladr in December 2014, an action plan that did not appear on the Healthcare Inspectorate Wales website until my office requested a copy on 28 May. That included a review being undertaken at A&E in Wrexham, which identified that it was understaffed by 15.81 whole-time equivalents, and had a budget deficit of £664,000. It also mentioned that that emergency department had not met any of the Welsh Government's emergency targets either during or after the review. I can see no discussion of that report subsequent to January 2014. What have Healthcare Inspectorate Wales and the Welsh Government done to ensure that Betsi has actually responded to that one particular report, if none other?

Roeddwn i'n mynd i gyfeirio at nifer o adroddiadau i mi fod yn ddigon anffodus o orfod eu darllen dros yr wythnos ddiwethaf, cyn belled ag y mae perfformiad Betsi Cadwaladr yn y cwestiwn, ac roeddwn i wedi meddwl y byddem ni'n cael y cyfle i ystyried hynny mewn datganiad y prynhawn yma, er fy mod i'n deall bod hwnnw wedi ei dynnu'n ôl erbyn hyn. Byddwn yn gofyn i chi felly amlinellu pa gamau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd o ran adroddiadau arolygu dirybudd yn yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam ym mis Medi a mis Hydref, a arweiniodd at gynllun gweithredu y cytunwyd arno gan Betsi Cadwaladr ym mis Rhagfyr 2014, cynllun gweithredu na ymddangosodd ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru tan i fy swyddfa i ofyn am gopi ar 28 Mai. Roedd hwnnw'n cynnwys cynnal adolygiad yn adran damweiniau ac achosion brys Wrecsam, a nododd ei fod yn brin o 15.81 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn o ran staff, a bod diffyg o £664,000 yn y gyllideb. Soniodd hefyd nad oedd yr adran achosion brys wedi bodloni unrhyw un o dargedau brys Llywodraeth Cymru naill ai yn ystod nac ar ôl yr adolygiad. Ni allaf weld unrhyw drafodaeth ar yr adroddiad hwnnw ar ôl Ionawr 2014. Beth mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i sicrhau bod Betsi wedi ymateb i'r un adroddiad penodol hwnnw, os nad unrhyw un arall?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, we've been very clear with Betsi that patient flow has to improve at the Maelor emergency department. The health board itself has provided assurance that it will be focusing on the four-hour target specifically over the coming months and, of course, focus is being placed on actions to prevent patients from being admitted to hospital, where that's appropriate, including the use of a pharmacy pilot in the emergency department itself. There are other examples of what has happened since. New hospital directors have taken up post. There's been increased integration with social services for timely discharge, and implementation of updated discharge policy to provide patients and carers with information on choice. There is a Welsh Ambulance Services NHS Trust pathfinder project that's been put in place to show how to redirect triage category blue patients to alternative pathways, and outreach from the emergency department to care homes to maintain patients in their normal place of residence, other than having to come into hospital. That's specific to Ysbyty Glan Clwyd, I should mention. We know that emergency services are an issue across the whole of the UK, in terms of increasing demand. Nevertheless, much has been done in the Maelor in order to seek to improve the service.

Ydym, rydym ni wedi bod yn eglur iawn gyda Betsi bod yn rhaid i lif cleifion wella yn adran achosion brys Maelor. Mae'r bwrdd iechyd ei hun wedi rhoi sicrwydd y bydd yn canolbwyntio ar y targed pedair awr yn benodol dros y misoedd nesaf ac, wrth gwrs, mae pwyslais yn cael ei roi ar gamau gweithredu i atal cleifion rhag cael eu derbyn i'r ysbyty, pan fo hynny'n briodol, gan gynnwys defnyddio cynllun arbrofol fferylliaeth yn yr adran achosion brys ei hun. Ceir enghreifftiau eraill o'r hyn sydd wedi digwydd ers hynny. Mae cyfarwyddwyr ysbyty newydd wedi dechrau yn eu swyddi. Bu integreiddio cynyddol â gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer rhyddhau cleifion yn amserol, a gweithredu polisi rhyddhau wedi'i ddiweddaru i roi gwybodaeth am ddewis i gleifion a gofalwyr. Ceir prosiect braenaru Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a roddwyd ar waith i ddangos sut i ailgyfeirio cleifion categori brysbennu glas i lwybrau amgen, ac allgymorth o'r adran achosion brys i gartrefi gofal i gadw cleifion yn eu mannau preswyl arferol, yn hytrach na gorfod dod i mewn i'r ysbyty. Mae hynny'n benodol i Ysbyty Glan Clwyd, dylwn i ddweud. Gwyddom fod gwasanaethau brys yn broblem ar draws y DU gyfan, o ran y galw cynyddol. Serch hynny, mae llawer wedi ei wneud ym Maelor er mwyn ceisio gwella'r gwasanaeth.

13:36 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, following the critical report on the out-of-hours GP services, especially from Glan Clwyd Hospital, I think, at the time, I raised the issue about the fact that there are many issues that many people will turn up at A&E for, without having to. Part of that problem is the out-of-hours service not functioning as they correctly believe it should. The other problem, of course, is GPs and people not being able to get appointments at a GP. I remember a time when somebody once—

Brif Weinidog, yn dilyn yr adroddiad beirniadol ar y gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol, yn enwedig o Ysbyty Glan Clwyd, rwy'n credu, ar y pryd, i mi godi'r mater ynghylch y ffaith bod yna lawer o faterion y bydd llawer o bobl yn troi i fyny mewn adrannau damweiniau ac achosion brys o'u herwydd, heb fod angen. Rhan o'r broblem honno yw'r ffaith nad yw'r gwasanaeth y tu allan i oriau arferol yn gweithredu fel maen nhw'n credu'n gywir y dylai. Y broblem arall, wrth gwrs, yw meddygon teulu a'r ffaith nad yw pobl yn gallu cael apwyntiadau gyda meddyg teulu. Rwy'n cofio adeg pan ddywedodd rhywun wrthyf unwaith—

13:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question now, please.

Cwestiwn nawr, os gwelwch yn dda.

13:37 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Somebody once said to me that they would wait until after 6 o'clock and turn up at the A&E. What's your Government doing to ensure that we have that seamless transfer through, for people to get those appointments, so they don't have to attend A&E?

Dywedodd rhywun wrthyf unwaith y byddai'n aros tan ar ôl 6 o'r gloch a mynd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y trosglwyddiad di-dor hwnnw gennym, i bobl gael yr apwyntiadau hynny, fel nad oes rhaid iddyn nhw fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we have, of course, increased the percentage of surgeries that are open at least one evening a week. The Member will know, of course, our manifesto pledge with regard to that and weekends. It's more difficult, of course, because GPs are private contractors. They technically don't work for the health service in that sense. To an extent, they operate as independent contractors—those that are part of the independent contractor model.

Wel, rydym ni wedi, wrth gwrs, cynyddu canran y meddygfeydd sydd ar agor o leiaf un noswaith yr wythnos. Bydd yr Aelod yn gwybod, wrth gwrs, ein haddewid maniffesto o ran hynny ac ar benwythnosau. Mae'n anoddach, wrth gwrs, gan fod meddygon teulu yn gontractwyr preifat. Nid ydynt yn gweithio i'r gwasanaeth iechyd yn dechnegol yn yr ystyr hwnnw. I raddau, maen nhw'n gweithredu fel contractwyr annibynnol—y rhai sy'n rhan o'r model contractwyr annibynnol.

In terms of diverting people away from A&E when they don't need to attend A&E, I know that Betsi Cadwaladr have an active Choose Well campaign highlighted on their web page. They also host an all-Wales, 24-hour telephone advice line for mental health, called CALL Helpline, which offers both a listening and directional support service for those who are in need.

O ran dargyfeirio pobl oddi wrth adrannau damweiniau ac achosion brys pan nad oes angen iddyn nhw fynd i adrannau damweiniau ac achosion brys, gwn fod gan Betsi Cadwaladr ymgyrch Dewis Doeth weithredol wedi'i hamlygu ar eu gwefan. Maen nhw hefyd yn cynnal, llinell gyngor 24 awr Cymru gyfan ar gyfer iechyd meddwl, o'r enw Llinell Gymorth CALL, sy'n cynnig gwasanaeth gwrando a chymorth cyfeirio i'r rhai hynny sydd mewn angen.

13:38 **Darren Millar** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

First Minister, one critical part of our unscheduled care system, of course, is that GP out-of-hours service, but we know from the report that was published by the Betsi Cadwaladr health board that there are some serious failings in the governance arrangements around that service. As a result of those, 84 per cent of the people who work within it feel that the service is not always safe, and that the information that's flowing back to the Welsh Government is that that service is failing on every measure for the people of north Wales. Given that it's being reported back to you on a weekly basis, what action is your Government going to take to improve the situation in GP out-of-hours services in north Wales, so that people can have confidence when they use them?

Brif Weinidog, un rhan hanfodol o'n system gofal heb ei drefnu, wrth gwrs, yw'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau hwnnw, ond gwyddom o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr bod rhai methiannau difrifol yn y trefniadau llywodraethu ynghylch y gwasanaeth hwnnw. O ganlyniad i'r rheini, mae 84 y cant o'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn teimlo nad yw bob amser yn ddiogel, ac mai'r wybodaeth sy'n llifo yn ôl i Lywodraeth Cymru yw bod y gwasanaeth hwnnw yn methu o ran bob mesur ar gyfer pobl y gogledd. O ystyried bod hyn yn cael ei adrodd yn ôl i chi'n wythnosol, pa gamau mae eich Llywodraeth yn mynd i'w cymryd i wella'r sefyllfa mewn gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yn y gogledd, fel y gall pobl fod yn hyderus pan fyddant yn eu defnyddio?

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We expect the local health board, of course, to take cognisance of the report and to act upon it. It's important that, where people feel that out-of-hours is not providing as it should, the LHB takes such steps in order to ensure that it does. It's not always as easy as it sounds, because it does depend on the goodwill of GPs. As I said, they don't work for the health service. Nevertheless, it is important that GPs feel supported when it comes to them wishing to work out of hours. I expect the LHB to take steps as quickly as possible to ensure the situation is as it should be.

Rydym yn disgwyl i'r bwrdd iechyd lleol, wrth gwrs, gymryd sylw o'r adroddiad a gweithredu arno. Mae'n bwysig, pan fo pobl yn teimlo nad yw'r gwasanaeth y tu allan i oriau'n cyflawni fel y dylai, bod y BILl yn cymryd camau o'r fath er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud hynny. Nid yw bob amser mor hawdd ag y mae'n swnio, gan ei fod yn dibynnu ar ewyllys da meddygon teulu. Fel y dywedais, nid ydynt yn gweithio i'r gwasanaeth iechyd. Serch hynny, mae'n bwysig bod meddygon teulu yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi pan eu bod yn dymuno gweithio y tu allan i oriau arferol. Rwy'n disgwyl i'r BILl gymryd camau cyn gynted â phosibl i sicrhau bod y sefyllfa fel y dylai fod.

13:39 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Un o'r pethau sy'n cyfrannu, wrth gwrs, at beth o'r pwysau sydd ar y gwasanaeth iechyd yw'r ffaith nad oes yna ddigon o wlâu yn y system a bod gwlâu'n cael eu blocio o fewn y drefn, a bod yna oblygiadau wedyn, wrth gwrs, i ryddhau pobl o'r unedau brys a damweiniau. A fyddech chi'n cytuno â mi bod y ffaith ein bod ni wedi colli cymaint o ysbytai cymunedol wedi cyfrannu at y broblem yna?

One of the things that contributes, of course, to some of the pressures on the health service is the fact that there aren't enough beds in the system and that bedblocking happens, which then has implications, of course, in terms of discharging people from accident and emergency units. Would you agree with me that the fact that we have lost so many community hospitals has contributed to this problem?

13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Na, nid wy'n credu bod hynny'n wir yn gyfan gwbl. Beth sy'n bwysig yw bod yna ffordd o sicrhau bod pobl yn gallu mynd tua thref pan maen nhw'n gallu. Rydym ni'n gweld, wrth gwrs, fod trosglwyddiadau o ofal—sef 'transfers of care'—wedi lleihau yng Nghymru yn ddiweddar. Mae hwnnw'n rhywbeth i'w groesawu, ond beth sy'n bwysig yw bod pobl yn gallu mynd tua thref mor gynted ag sy'n bosibl. A hefyd, wrth gwrs, mae yna lot fawr o driniaethau nawr sydd ar gael lle o'r blaen roedd pobl yn mynd i'r ysbyty, efallai dros nos; nid oes eisiau iddyn nhw wneud hynny. Ond beth sy'n bwysig yw bod awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu mynd tua thref pan maen nhw'n barod i wneud hynny.

No, I don't believe that that is entirely the case. What's important is that we ensure that there is a way for people to go home when they can. We've seen, of course, that the number of transfers of care has reduced in Wales recently. That is something to be welcomed, but what is important is that people can go home as quickly as possible. And also, of course, there are a great many treatments available now where previously people had to go to hospital, perhaps overnight; there is no longer any need for them to do so. But what's important is that local authorities work with the health boards to ensure that people can go home when they are ready to do so.

## Adeiladu Tai Newydd

## Building New Homes

13:40 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*2. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru? OAQ(4)2297(FM)*

*2. How is the Welsh Government increasing the number of new homes being built in Wales? OAQ(4)2297(FM)*

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A number of measures: Help to Buy—Wales, the social housing grant programme, reforming the planning system, and a new housing finance grant.

Ceir nifer o fesurau: Cymorth i Brynu—Cymru, y rhaglen grant tai cymdeithasol, diwygio'r system gynllunio, a grant cyllid tai newydd.

13:40 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Well, how will the Welsh Government be responding to the two new reports completed by NLP Planning for the house-building industry in Wales, which confirm the link between market supply and housing market affordability, but which stated that Wales will need 11,660 new homes built a year, and that new-house building in Wales is currently more than 50 per cent down on what is needed, even excluding catch-up for those who've been waiting for the opportunity to form their own households and economic factors?

Diolch yn fawr. Wel, sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r ddau adroddiad newydd a gwblhawyd gan NLP Planning ar gyfer y diwydiant adeiladu tai yng Nghymru, sy'n cadarnhau'r cysylltiad rhwng cyflenwad y farchnad a fforddiadwyedd y farchnad dai, ond a nododd y bydd angen adeiladu 11,660 o gartrefi newydd y flwyddyn yng Nghymru, a bod gwaith adeiladu tai newydd yng Nghymru yn fwy na 50 y cant yn is na'r hyn sydd ei angen ar hyn o bryd, hyd yn oed heb gynnwys mesurau dal i fyny i'r rhai sydd wedi bod yn aros am y cyfle i ffurfio eu haelwydydd eu hunain a ffactorau economaidd?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, recent figures show an increase of 31 per cent in the number of new houses started in Wales during October to December of last year, compared to the same quarter in 2013-14. The number of new dwellings completed also increased, up by 12 per cent on the same quarter the previous year. We know that, during 2013-14, the number of new houses started in Wales was up 9 per cent on the previous year, and National House-Building Council figures for 2014 as a whole show that new housing registrations in Wales were up by a third, which is the largest increase reported of any nation or region in the UK. So, I don't recognise the figures that the Member has put forward as being representative of housing in Wales.

Wel, mae ffigurau diweddar yn dangos cynnydd o 31 y cant i nifer y tai newydd a ddechreuwyd yng Nghymru rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr y llynedd, o'i gymharu â'r un chwarter yn 2013-14. Cynyddodd nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd hefyd, cynnydd o 12 y cant ar yr un chwarter y flwyddyn flaenorol. Rydym yn gwybod, yn ystod 2013-14, bod nifer y tai newydd a ddechreuwyd yng Nghymru 9 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac mae ffigurau'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol ar gyfer 2014 yn ei chyfanrwydd yn dangos bod cofrestriadau tai newydd yng Nghymru wedi cynyddu o draean, sef y cynnydd mwyaf a adroddwyd o unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU. Felly, nid wyf yn cydnabod bod y ffigurau y mae'r Aelod wedi eu cyflwyno yn gynrychiadol o dai yng Nghymru.

One thing we will not do, I can promise, is sell off social housing stock, as his party wants to do in England—will do in England—and wants to do in Wales. That is the equivalent of trying to fill up a bath with the plug out. So, we will make sure that affordable housing is available in Wales, even as his party reduces the amount of affordable housing available in England.

Un peth na fyddwn yn ei wneud, gallaf addo, yw gwerthu stoc tai cymdeithasol, fel y mae ei blaid ef eisiau ei wneud yn Lloegr—fel y bydd yn ei wneud yn Lloegr—ac eisiau ei wneud yng Nghymru. Mae hynny'n cyfateb i geisio llenwi bath gyda'r plwg heb fod yn ei le. Felly, byddwn yn sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael yng Nghymru, hyd yn oed wrth i'w blaid ef leihau nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael yn Lloegr.

13:42 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

People on average earnings in my constituency, where they've got two earners in the household, are unable to afford to buy a place, so I'm keen to find out what the Government can offer in the way of co-operative housing, self-build housing or further council housing to enable people to be appropriately housed?

Nid yw pobl ar enillion cyfartalog yn fy etholaeth i, lle mae ganddyn nhw ddau sy'n ennill arian yn y cartref, yn gallu fforddio prynu lle, felly rwy'n awyddus i ddarganfod beth all y Llywodraeth ei gynnig o ran tai cydweithredol, tai hunanadeiladu neu ragor o dai cyngor i alluogi pobl i gael eu cartrefu'n briodol?

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, the Member will know that councils have begun to build houses in Wales again after a break of many, many years. Money has been made available to help councils to refurbish homes, to bring them back into use. That's been successful across Wales. She asks specifically about co-operative housing. I know it's an issue that interests her particularly—and, indeed, the Member for Swansea East, as it's something that he has asked me about before. We are building a platform for co-operative housing to grow and to develop further in Wales, and, with that in mind, we have provided nearly £2 million to support three co-operative housing pilot schemes in Cardiff, Newport and Carmarthen, and they will deliver between them around 100 additional affordable homes.

Wrth gwrs, bydd yr Aelod yn gwybod bod y cynghorau wedi dechrau adeiladu tai yng Nghymru unwaith eto ar ôl toriad o flynyddoedd lawer iawn. Rhoddwyd arian ar gael i helpu cynghorau i ailwampio cartrefi, i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus ledled Cymru. Mae hi'n gofyn yn benodol am dai cydweithredol. Rwy'n gwybod ei fod yn fater sydd o ddiddordeb arbennig iddi—ac, yn wir, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, gan ei fod yn rhywbeth y mae wedi gofyn i mi amdano o'r blaen. Rydym ni'n adeiladu llwyfan i dai cydweithredol dyfu a datblygu ymhellach yng Nghymru, a, chyda hynny mewn golwg, rydym ni wedi darparu bron i £2 filiwn i gefnogi tri chynllun arbrofol ar gyfer tai cydweithredol yng Nghaerdydd, Casnewydd a Chaerfyrddin, a byddant yn darparu tua 100 o dai fforddiadwy ychwanegol rhyngddynt.

13:43 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, there is guidance within new social housing as to the percentage of houses that should be adaptable for the disabled, but there seems to be little recognition that people with different disabilities have very different needs as to what 'adaptable' means. For those with very significant mobility issues, something like an adapted bathroom is inadequate. They may need things like hoists, wider corridors, wider doorways, which can't be retrofitted into a standard home, and they may need houses that are built specifically to be structurally stronger. Could you look at introducing a target for the number of homes that should be significantly strengthened for those kinds of significant adaptabilities?

Brif Weinidog, ceir canllawiau o ran tai cymdeithasol newydd am ganran y tai y dylid gallu eu haddasu ar gyfer pobl anabl, ond mae'n ymddangos mai prin yw'r gydnabyddiaeth bod gan bobl â gwahanol anableddau anghenion gwahanol iawn o ran yr hyn y mae 'addasadwy' yn ei olygu. I'r rhai sydd â phroblemau symudedd sylweddol iawn, mae rhywbeth fel ystafell ymolchi wedi'i haddasu yn annigonol. Efallai y bydd angen pethau fel teclynnau codi, coridorau lletach, drysau lletach arnynt, nad oes modd eu hôl-osod mewn cartref safonol, ac efallai y bydd angen tai arnynt sydd wedi'u hadeiladu'n benodol i fod yn gryfach yn strwythurol. A allech chi ystyried cyflwyno targed ar gyfer nifer y cartrefi y dylid eu cryfhau'n sylweddol ar gyfer y mathau hynny o addasiadau sylweddol?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Member makes a very good point, and that is the tendency sometimes to think of people as having a disability that is similar to all. There's a major difference between somebody who has mobility problems and somebody who has sight problems, for whom, for example, contrast is a major issue. If they go into a building and there's not enough contrast between the colours, it can be quite difficult for people to read, more than anything else, and also to find their way around. I would expect local planning authorities and, indeed, social services departments to plan with regard to what demand is in their own areas when planning applications for building sites come before them, and also, of course, that they understand what the nature of demand is for different disabilities in their own areas. It's something I think local authorities particularly are in a strong position in terms of being able to do.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt da iawn, sef y duedd weithiau i feddwl bod gan bobl anabledd sy'n debyg i anabledd pawb arall. Ceir gwahaniaeth mawr rhwng rhywun sydd â phroblemau symudedd a rhywun sydd â phroblemau golwg, pryd y mae, er enghraifft, cyferbyniad yn fater pwysig. Os byddan nhw'n mynd i mewn i adeilad ac nad oes digon o gyferbyniad rhwng y lliwiau, gall fod yn eithaf anodd i bobl ddarllen, mwy na dim byd arall, a hefyd i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ac, yn wir, adrannau gwasanaethau cymdeithasol i gynllunio gan ystyried beth yw'r galw yn eu hardaloedd eu hunain pan fyddant yn derbyn ceisiadau ar gyfer safleoedd adeiladu, a hefyd, wrth gwrs, eu bod yn deall beth yw natur y galw o ran gwahanol anableddau yn eu hardaloedd eu hunain. Mae'n rhywbeth yr wyf yn meddwl bod awdurdodau lleol yn benodol mewn sefyllfa gref o ran gallu ei wneud.

13:44 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does the First Minister agree with me that the total housing stock will not increase if housing associations are forced to sell property at less than the cost of building them, putting their whole financial viability at stake?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi na fydd cyfanswm y stoc tai yn cynyddu os gorfodir cymdeithasau tai i werthu tai am lai na chost eu hadeiladu, gan roi eu hyfywedd ariannol yn y fantol yn llwyr?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I do. We know that, in many parts of Wales, the social housing stock has diminished greatly over the past 30 years. I remember seeing examples 10 years ago in Powys where half the stock had gone. There were examples in Ceredigion that I know of where flats that were previously council housing flats are now holiday homes, in effect. That's the way it has gone over the past 30 years. So, yes, he's quite right: it is the equivalent of trying to fill up the bath with the plug out. We need to make sure that there is enough affordable housing available in Wales. That's what we intend to do, and we're not prepared to undermine that by selling off the stock that's just been built.

Ydw, mi ydwyf. Rydym ni'n gwybod, mewn llawer o rannau o Gymru, bod y stoc tai cymdeithasol wedi lleihau'n fawr dros y 30 mlynedd diwethaf. Rwy'n cofio gweld enghreifftiau 10 mlynedd yn ôl ym Mhowys lle'r oedd hanner y stoc wedi mynd. Roedd enghreifftiau yng Ngheredigion yr wyf i'n gwybod amdanynt lle mae'r hyn a oedd yn fflatiau tai cyngor gynt yn dai haf, i bob pwrpas, erbyn hyn. Dyna'r ffordd mae hi wedi mynd dros y 30 mlynedd diwethaf. Felly, ydy, mae yn llygad ei le: mae'n cyfateb i geisio llenwi'r bath gyda'r plwg heb fod yn ei le. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod digon o dai fforddiadwy ar gael yng Nghymru. Dyna beth yr ydym ni'n bwriadu ei wneud, ac nid ydym yn barod i danseilio hynny trwy werthu'r stoc sydd newydd gael ei adeiladu.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party leaders to question the First Minister. Leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Galwaf ar arweinwyr y pleidiau nawr i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:45 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. First Minister, last Thursday, a damning report was brought forward over the levels of care at Tawel Fan ward at Ysbyty Glan Clwyd. Everyone would have been very disturbed by the findings of that report. I haven't heard what your views are on that report. I'd be very grateful to hear those views in response to my first question.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, ddydd Iau diwethaf, cyhoeddwyd adroddiad damniol ar y lefelau gofal ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd. Byddai pawb wedi cael eu syfrdanu'n helaeth gan ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw. Nid wyf wedi clywed beth yw eich barn chi ar yr adroddiad hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar iawn o glywed y safbwyntiau hynny mewn ymateb i fy nghwestiwn cyntaf.

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The report details appalling, shocking and unacceptable behaviour on the ward. I can well understand why the families are angry. I think any one of us would be, in the same circumstances. It is right to ask the question: what has been done since? Because what happened in Tawel Fan happened in 2013, mainly. The answer I give to him is this: that the independent report was commissioned. The LHB put their disciplinary processes on hold until the latest process and the report were made public. They will now continue with their disciplinary processes, and they must ensure that that happens.

Mae'r adroddiad yn nodi ymddygiad gwarthus, syfrdanol ac annerbyniol ar y ward. Gallaf ddeall yn iawn pam mae'r teuluoedd yn flin. Rwy'n credu y byddai unrhyw un ohonom ni'n flin, dan yr un amgylchiadau. Mae'n iawn i ofyn y cwestiwn: beth sydd wedi cael ei wneud ers hynny? Oherwydd digwyddodd yr hyn a ddigwyddodd yn Nhawel Fan yn 2013, yn bennaf. Yr ateb a roddaf iddo yw hyn: comisiynwyd yr adroddiad annibynnol. Gohiriodd y BILl ei brosesau disgyblu tan y broses ddiweddaraf a than i'r adroddiad gael ei wneud yn gyhoeddus. Byddant yn parhau gyda'u prosesau disgyblu nawr, ac mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau bod hynny'n digwydd.

In the meantime, spot checks have been introduced at Welsh hospitals, in mental health units. Most of them have been inspected. The results of those spot checks show that, whilst there are some issues in some of those units, we can have some assurance that there is nothing equivalent happening in mental health units across the rest of Wales. Those spot checks have been exceptionally important in providing us with that picture. That will not do anything to—and I understand this full well—resolve the anger of the families who were affected in these circumstances. It is absolutely crucial that the apology given by the local health board is reflected in their future actions, and that lessons—very difficult and strong lessons—are learned by the LHB.

Yn y cyfamser, cyflwynwyd haparchwiliadau mewn ysbytai yng Nghymru, mewn unedau iechyd meddwl. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi cael eu harolygu. Mae canlyniadau'r haparchwiliadau hynny'n dangos, er bod rhai problemau yn rhai o'r unedau hynny, y gallwn fod â rhywfaint o sicrwydd nad oes dim byd tebyg yn digwydd mewn unedau iechyd meddwl ar draws weddill Cymru. Mae'r haparchwiliadau hynny wedi bod yn eithriadol o bwysig o ran rhoi'r darlun hwnnw i ni. Ni fydd hynny'n gwneud unrhyw beth—ac rwy'n deall hyn llwyr—i dawelu llid y teuluoedd yr effeithiwyd arnynt dan yr amgylchiadau hyn. Mae'n gwbl hanfodol bod yr ymddiheuriad a roddwyd gan y bwrdd iechyd lleol yn cael ei adlewyrchu yn eu gweithredoedd yn y dyfodol, a bod gwersi—gwersi anodd a chryf iawn—yn cael eu dysgu gan y BILl.

13:47

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm very grateful for that very detailed answer that you gave me, First Minister. I am disappointed it took you five days to give that type of answer. On Thursday, when this report came out, I found out that you obviously believe Sepp Blatter should resign, but you didn't choose to offer your views on this damning report into the levels of care over a number of years. This wasn't a weekend. This wasn't a week. This wasn't a month. It was a number of years for which this situation had been allowed to develop within that ward, within that hospital. You are the First Minister of Wales—the buck stops with you. Ultimately, the parents, the families, and anyone who depends on this type of service, look to you as First Minister, and your Government, for a response, and also for efficiency in the way you run our health service. What assurances can you give the parents, the patients and some of the nurses and the clinical staff who turned up and did their jobs—but, regrettably, some of them were not doing their jobs, and the managers turned a blind eye?

Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ateb manwl iawn i chi ei roi i mi, Brif Weinidog. Rwy'n siomedig iddi gymryd pum diwrnod i chi roi'r math yna o ateb. Ddydd Iau, pan gyhoeddwyd yr adroddiad hwn, canfûm eich bod yn amlwg yn credu y dylai Sepp Blatter ymddiswyddo, ond ni wnaethoch chi ddewis cynnig eich barn ar yr adroddiad damniol hwn ar lefelau gofal dros nifer o flynyddoedd. Nid penwythnos oedd hwn. Nid wythnos oedd hon. Nid mis oedd hwn. Roedd yn nifer o flynyddoedd pryd y caniatawyd i'r sefyllfa hon ddatblygu ar y ward honno, yn yr ysbyty hwnnw. Chi yw Prif Weinidog Cymru—chi sy'n gyfrifol. Yn y pen draw, mae'r rhieni, y teuluoedd, ac unrhyw un sy'n dibynnu ar y math hwn o wasanaeth, yn edrych arnoch chi fel Prif Weinidog, a'ch Llywodraeth, am ymateb, a hefyd am effeithlonrwydd yn y ffordd yr ydych chi'n rhedeg ein gwasanaeth iechyd. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r rhieni, i'r cleifion ac i rai o'r nyrsys a'r staff clinigol a aeth i'r gwaith a gwneud eu swyddi—ond, yn anffodus, nid oedd rhai ohonynt yn gwneud eu swyddi, ac ni chymerodd y rheolwyr sylw o hynny?

13:48

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, I have to say to the leader of the opposition: I do wish he wouldn't trivialise what is an important issue. I'm not prepared to express a view on Twitter on an important issue such as this. It is absolutely right that these views are expressed on the floor of the National Assembly. We will have a debate tomorrow, I anticipate, on this, and it's absolutely right that those issues should be dealt with in that way, and not in social media.

Yn gyntaf oll, mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid: byddwn yn falch iawn pe na byddai'n bychanu'r hyn sy'n fater pwysig. Nid wyf yn barod i fynegi barn ar Twitter ar fater pwysig fel hwn. Mae'n hollol iawn bod y safbwyntiau hyn yn cael eu mynegi ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol. Byddwn yn cael dadl yfory, rwy'n rhagweld, ar hyn, ac mae'n hollol iawn y dylid ymdrin â'r materion hynny yn y ffordd honno, ac nid yn y cyfryngau cymdeithasol.

He asks a question, and I give him the answer in terms of what the families can expect: the families can expect there to be action by the local health board. The families can expect us as a Government—and I say this publicly: that the local health board will take disciplinary action against those who are responsible. It simply is not good enough simply to say, 'Well, lessons have been learned, but nobody bears responsibility within the LHB'. I don't think that would be a credible position for the LHB to be in, and I don't think the families would accept that for a minute.

Mae'n gofyn cwestiwn, a rhoddaf yr ateb iddo o ran yr hyn y gall y teuluoedd ei ddisgwyl: gall y teuluoedd ddisgwyl y bydd y bwrdd iechyd lleol yn cymryd camau. Gall y teuluoedd ddisgwyl i ni fel Llywodraeth—ac rwy'n dweud hyn yn gyhoeddus: y bydd y bwrdd iechyd lleol yn cymryd camau disgyblu yn erbyn y rhai sy'n gyfrifol. Nid yw'n ddigon da dim ond i ddweud, 'Wel, mae gwersi wedi eu dysgu, ond nid oes unrhyw un yn cymryd cyfrifoldeb o fewn y BILl'. Nid wyf yn credu y byddai honno'n sefyllfa gredadwy i'r BILl fod ynddi, ac nid wyf yn credu y byddai'r teuluoedd yn derbyn hynny am funud.

13:49 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are quite right to lambast me for trivialising it about social media, but the reason I used social media was because that was the only source of comment that I could find from you on that particular day. This report was launched on Thursday. One would expect the most senior politician with ultimate responsibility here in Wales to offer a view on what has been a collapse in care and the duty of care for some of our most vulnerable people within the health service. What people will want is action. Hopefully, we'll have the debate tomorrow and we'll be able to hear from the health Minister what direct action the Welsh Government are going to take. But, what confidence can you give people today that there aren't similar episodes of care going on within the rest of the NHS? You will know that I have called for an inquiry across the NHS to look at all aspects of care the length and breadth of Wales. So, if you will not grant that inquiry, what assurances can you give, that people can have, that this will not be repeated in six, 12 or 18 months' time? I think that is a very fair question.

Rydych chi yn llygad eich lle i fy ngheryddu i am ei fychanu o ran y cyfryngau cymdeithasol, ond y rheswm y defnyddiais i gyfryngau cymdeithasol oedd oherwydd mai dyna oedd yr unig ffynhonnell o sylw y gallwn i ddod o hyd iddi gennych chi ar y diwrnod penodol hwnnw. Lansiwyd yr adroddiad hwn ddydd Iau. Byddai rhywun yn disgwyl i'r prif wleidydd â'r cyfrifoldeb uchaf yma yng Nghymru i gynnig barn ar yr hyn sydd wedi bod yn fethiant o ran gofal a'r ddyletswydd o ofal i rai o'n pobl fwyaf agored i niwed yn y gwasanaeth iechyd. Gweithredu fydd pobl ei eisiau. Y gobaith yw y byddwn yn cael y ddadl yfory ac y byddwn yn gallu clywed gan y Gweinidog iechyd pa gamau uniongyrchol y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w cymryd. Ond, pa sicrwydd allwch chi ei roi i bobl heddiw nad oes achosion tebyg o ofal yn digwydd yng ngweddill y GIG? Byddwch yn gwybod fy mod i wedi galw am ymchwiliad ar draws y GIG i edrych ar bob agwedd ar ofal ar hyd a lled Cymru. Felly, os na wnewch chi gytuno i'r ymchwiliad hwnnw, pa sicrwydd allwch chi ei roi, y gall pobl ei gael, na fydd hyn yn cael ei ailadrodd ymhen chwe, 12 neu 18 mis? Credaf fod hwnnw'n gwestiwn teg iawn.

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Leaving aside the fact there is no case for any kind of public inquiry—that would take about two years to report back. It's money in the pockets of lawyers. I would rather put that money into hospitals. A public inquiry, which is what he's been asking for, does take years. Much better to have, straight away, spot checks, unannounced, in mental health units, which is what has been happening. We know from those spot checks that the assurance is there that Tawel Fan is not being repeated across the rest of Wales. As I've said, that is of no comfort to the families. The families will want to know what is going to be done, who is going to be held responsible and the LHB must make sure that they are transparent in terms of ensuring that they indicate where responsibility lies and that those who shoulder that responsibility understand that they have let people down.

Gan adael o'r neilltu y ffaith nad oes achos am unrhyw fath o ymchwiliad cyhoeddus—byddai hynny'n cymryd tua dwy flynedd i adrodd yn ôl. Arian ym mhocedi cyfreithwyr fyddai hynny. Byddai'n well gen i roi'r arian hwnnw i ysbytai. Mae ymchwiliad cyhoeddus, sef yr hyn y mae wedi bod yn gofyn amdano, yn cymryd blynyddoedd. Mae'n llawer gwell cael, ar unwaith, haparchwiliadau, dirybudd, mewn unedau iechyd meddwl, sef yr hyn sydd wedi bod yn digwydd. Rydym ni'n gwybod o'r haparchwiliadau hynny bod y sicrwydd yna nad yw Tawel Fan yn cael ei ailadrodd ar draws gweddill Cymru. Fel yr wyf wedi ei ddweud, nid yw hyn o unrhyw gysur i'r teuluoedd. Bydd y teuluoedd eisiau gwybod beth sy'n mynd i gael ei wneud, pwy sy'n mynd i fod yn atebol ac mae'n rhaid i'r BILl wneud yn siŵr eu bod yn dryloyw o ran sicrhau eu bod yn dynodi pwy sy'n gyfrifol a bod y rhai sy'n cymryd y cyfrifoldeb hwnnw yn deall eu bod wedi siomi pobl.

13:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Galwaf nawr ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch yn fawr. First Minister, last month's UK general election saw the different countries vote for different parties. This weekend, we've heard that the so-called British Bill of rights could be confined just to England. Scotland look to be able to resist the abolition of the Human Rights Act 1998. As Wales doesn't have its own legal jurisdiction, we could face a situation of 'for Wales, see England' when it comes to human rights legislation. Do you agree that Wales must now have its own legal jurisdiction and will you put this point to the Secretary of State for Wales at the earliest opportunity?

Diolch yn fawr. Brif Weinidog, pleidleisiodd gwahanol siroedd dros wahanol bleidiau yn ystod etholiad cyffredinol y DU fis diwethaf. Y penwythnos hwn, rydym wedi clywed y gallai'r Bil hawliau dynol Prydeinig fel y'i gelwir, gael ei gyfyngu i Loegr yn unig. Mae'n ymddangos y bydd yr Alban yn gallu gwrthsefyll diddymiad Deddf Hawliau Dynol 1998. Gan nad oes gan Gymru ei hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun, gallem wynebu sefyllfa o 'am Gymru, gweler Lloegr' pan ddaw i ddeddfwriaeth hawliau dynol. A ydych chi'n cytuno bod yn rhaid i Gymru gael ei hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun nawr ac a wnewch chi wneud y pwynt hwn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y cyfle cyntaf?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She will know that I'm in favour, certainly in the medium term, of Wales becoming a separate jurisdiction. I think I first suggested it some years ago now. She does make an important point about the Human Rights Act 1998. First of all, if the Human Rights Act 1998 is abolished, it changes the constitution of Wales. That cannot be done without the approval, at least, of this institution, to my mind. Secondly, there is legislation, and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 is one example of it, where the Human Rights Act 1998 is specifically mentioned. What happens if the Human Rights Act 1998 goes? What happens to that legislation? If it was Westminster legislation, of course, the legislation would be amended as new legislation is introduced, but it's never been considered before—what it means when you have separate institutions. So, my view is quite clear. When I met the group that were looking to take forward the British Bill of rights some years ago, it was quite clear to me they had no idea what they wanted to do. They had no conception of devolution and what it meant. They hadn't considered the effect on Northern Ireland, particularly the Good Friday peace agreement. There were many, many unanswered questions. So far, all I've seen from the UK Government is a fudge in terms of how they now propose to take this forward. We'll all wait and see. It was kicked into the long grass in the Queen's Speech. But, it's absolutely clear to me that it would be wholly wrong in principle for the constitution of Wales to be changed without the approval of this, our national institution.

Bydd hi'n gwybod fy mod i o blaid, yn sicr yn y tymor canolig, Cymru'n datblygu'n awdurdodaeth ar wahân. Rwy'n credu i mi ei awgrymu gyntaf rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Mae hi'n gwneud pwynt pwysig am Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Yn gyntaf oll, os caiff Deddf Hawliau Dynol 1998 ei diddymu, bydd yn newid cyfansoddiad Cymru. Ni ellir gwneud hynny heb gymeradwyaeth y sefydliad hwn o leiaf, yn fy marn i. Yn ail, ceir deddfwriaeth, ac mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae Llesiant (Cymru) 2014 yn un enghraifft o hynny, lle caiff Deddf Hawliau Dynol 1998 ei grybwyll yn benodol. Beth fydd yn digwydd os bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 yn mynd? Beth sy'n digwydd i'r ddeddfwriaeth honno? Pe byddai'n ddeddfwriaeth San Steffan, wrth gwrs, byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio wrth i ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno, ond nid yw hynny erioed wedi ei ystyried o'r blaen—yr hyn mae'n ei olygu pan fydd gennych chi sefydliadau ar wahân. Felly, mae fy marn i yn gwbl eglur. Pan gyfarfûm â'r grŵp a oedd yn edrych i fwrw ymlaen â Bil hawliau dynol Prydain rai blynyddoedd yn ôl, roedd yn eithaf amlwg i mi nad oedd ganddyn nhw unrhyw syniad beth roedden nhw eisiau ei wneud. Nid oedd ganddyn nhw syniad am ddatganoli na'r hyn yr oedd yn ei olygu. Nid oedden nhw wedi ystyried yr effaith ar Ogledd Iwerddon, yn enwedig cytundeb heddwch dydd Gwener y Groglith. Roedd llawer iawn, iawn o gwestiynau heb eu hateb. Hyd yn hyn, y cwbl yr wyf i wedi ei weld gan Lywodraeth y DU yw dryswch o ran sut maen nhw'n bwriadu bwrw ymlaen â hyn nawr. Byddwn i gyd yn aros i weld. Cafodd ei gicio i ganol y gwair hir yn Araith y Frenhines. Ond, mae'n gwbl eglur i mi y byddai'n gwbl anghywir mewn egwyddor i gyfansoddiad Cymru gael ei newid heb gymeradwyaeth y lle hwn, ein sefydliad cenedlaethol.

13:53 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, and I would agree with your sentiment there. You've outlined plenty of problems and issues. The problem is, though, that things are moving far too slowly. The situation is evolving far too slowly. Other parts of the UK are moving rapidly. Scotland has a very clear, pro-European vision of where it wants to go. In England, the Conservatives are trying to redefine their human rights as something that isn't dependent upon Europe. Can you tell us what your strategy is? What will you be saying to the Prime Minister, the Secretary of State for Wales and others in the other devolved administrations on resolving the issues that you've outlined so eloquently about the Human Rights Act 1998 in particular?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog, a byddwn yn cytuno â'ch barn yn hynny o beth. Rydych chi wedi amlinellu digonedd o broblemau a materion. Y broblem, fodd bynnag, yw bod pethau'n symud llawer yn rhy araf. Mae'r sefyllfa yn esblygu'n llawer rhy araf. Mae rhannau eraill o'r DU yn symud yn gyflym. Mae gan yr Alban weledigaeth eglur iawn sydd o blaid Ewrop o ran ble mae'n dymuno mynd. Yn Lloegr, mae'r Ceidwadwyr yn ceisio ailddiffinio eu hawliau dynol fel rhywbeth nad yw'n ddibynnol ar Ewrop. A allwch chi ddweud wrthym beth yw eich strategaeth chi? Beth fyddwch chi'n ei ddweud wrth Brif Weinidog y DU, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac eraill yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill am ddatrys y problemau yr ydych chi wedi eu hamlinellu mor huawdl am Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn arbennig?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

‘Hands off human rights in Wales.’ I see nothing wrong with the Human Rights Act 1998. I do deplore the suggestion that, somehow, the Human Rights Act 1998 has been some kind of way of preventing dangerous criminals from being deported. Using extreme examples for legislation that has benefited people immensely is ridiculous. There are two issues here, and first is the issue of human rights. ‘What is wrong with the Human Rights Act?’ would be the first question I’d ask. I’ve not had an answer to that from the UK Government. What does it mean in terms of the UK being a co-signatory of the European convention on human rights, which the UK drafted, effectively? And, if the UK is no longer to be a signatory, like Belarus, of the European convention on human rights, what does that mean for our membership of the European Union? There’s strong evidence to suggest that you cannot be a member of the EU unless you are a signatory of the European convention. There’s that issue, and then, of course, the issue of what it means for Wales. The Human Rights Act was embedded in our constitution in 1999 and since. To change it unilaterally, without the consent of this institution, is wrong.

'Gadewch lonydd i hawliau dynol yng Nghymru.' Nid wyf yn gweld dim byd o'i le ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Rwyf yn gresynu at yr awgrym bod Deddf Hawliau Dynol 1998, rywsut, wedi bod yn rhyw fath o ffordd o atal troseddwyr peryglus rhag cael eu halltudio. Mae defnyddio enghreifftiau eithafol ar gyfer deddfwriaeth sydd wedi bod o fudd aruthrol i bobl yn hurt. Ceir dau fater yma, a’r cyntaf yw’r mater o hawliau dynol. 'Beth sydd o'i le â’r Ddeddf Hawliau Dynol?' fyddai'r cwestiwn cyntaf y byddwn i’n ei ofyn. Nid wyf wedi cael ateb i hwnnw gan Lywodraeth y DU eto. Beth mae'n ei olygu o ran sefyllfa’r DU fel cyd-lofnodwr y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, a ddrafftiwyd gan y DU, i bob pwrpas? Ac, os nad yw'r DU am fod yn un o lofnodwyr y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol mwyach, fel Belarws, beth mae hynny'n ei olygu i’n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd? Ceir tystiolaeth gref i awgrymu na allwch chi fod yn aelod o'r UE oni bai eich bod yn un o lofnodwyr y confensiwn Ewropeaidd. Ceir y mater hwnnw, ac yna, wrth gwrs, y mater o’r hyn y mae'n ei olygu i Gymru. Cafodd y Ddeddf Hawliau Dynol ei hymgorffori yn ein cyfansoddiad ym 1999 ac ers hynny. Mae ei newid yn unochrog, heb ganiatâd y sefydliad hwn, yn anghywir.

13:55 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You’ve pointed out important links between human rights legislation and our membership of the European Union, and there is common ground between us on that question. We would both agree that remaining within the EU is in Wales’s best interests—human rights, peace, agricultural policy and structural funds are some ways in which we benefit, of course, with access to the European single market as well. Now, I’ve already noted today how the Westminster elections produced politically diverse countries within the UK. My hope is very much that all parts of the UK will vote to remain in the EU, but I wouldn’t presume that Wales would vote differently to England or to Scotland, but we must make provision just in case that does happen. So, would you agree with me that we should insist that the EU referendum should be subject to a double majority, where withdrawal would need a majority of UK votes in each of the nations or constituent countries? We are a multinational state, and that point does deserve to be recognised. Now, you have said previously that this is something that’s worth considering, so will you be prepared to announce today that you commit to supporting a double-majority rule in the EU referendum?

Rydych chi wedi nodi cysylltiadau pwysig rhwng deddfwriaeth hawliau dynol a’n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a cheir tir cyffredin rhyngom ni o ran y cwestiwn hwnnw. Byddai’r ddau ohonom ni’n cytuno mai aros yn yr UE fyddai orau i Gymru—mae hawliau dynol, heddwch, polisi amaethyddol a chronfeydd strwythurol yn rhai o'r ffyrdd lle'r ydym ni’n elwa, wrth gwrs, ynghyd â mynediad at farchnad sengl Ewrop hefyd. Nawr, rwyf wedi nodi eisoes heddiw sut y cynhyrchwyd gwledydd amrywiol yn wleidyddol yn y DU yn etholiadau San Steffan. Fy ngobaith mawr iawn i yw y bydd pob rhan o'r DU yn pleidleisio i aros yn yr UE, ond ni fyddwn yn tybio y byddai Cymru’n pleidleisio’n wahanol i Loegr neu i'r Alban, ond mae'n rhaid i ni wneud darpariaeth rhag ofn i hynny ddigwydd. Felly, a fyddech chi’n cytuno â mi y dylem ni fynnu y dylai refferendwm yr UE fod yn destun mwyafrif dwbl, lle byddai angen mwyafrif o bleidleisiau yn y DU ym mhob un o'r cenhedloedd neu'r gwledydd cyfansoddol i dynnu allan? Rydym ni’n wladwriaeth amlwladol, ac mae’r pwynt hwnnw’n haeddu cael ei gydnabod. Nawr, rydych chi wedi dweud yn y gorffennol bod hyn yn rhywbeth sy'n werth ei ystyried, felly a fyddwch chi’n barod i gyhoeddi heddiw eich bod yn ymrwymo i gefnogi rheol mwyafrif dwbl yn refferendwm yr UE?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think legally that's difficult, but morally I think it's absolutely correct. I don't think the UK would survive if the UK were to leave the EU on the basis of votes from one or two of the constituent nations of the UK. I don't think that Scotland would remain part of the UK if the UK was no longer a member of the EU; I think it would create immense constitutional difficulties for Wales as well, none of which is easy to resolve. I do not think it would be in the interests of the UK to leave the European Union if it was done without a majority in Scotland, Wales, and Northern Ireland. Legally difficult, but, morally, I think that's absolutely right because of the effect it would have on the different nations. I took great notice of what the Prime Minister said: that the UK is a family of four nations, and it's important in those circumstances that a family can agree on a way forward.

Rwy'n meddwl bod hynny'n anodd yn gyfreithiol, ond rwy'n credu ei fod yn hollol gywir yn foesol. Nid wyf yn credu y byddai'r DU yn goroesi pe byddai'r DU yn gadael yr UE ar sail pleidleisiau o un neu ddwy o genhedloedd cyfansoddol y DU. Nid wyf yn meddwl y byddai'r Alban yn aros yn rhan o'r DU pe na byddai'r DU yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd mwyach; rwy'n credu y byddai'n creu anawsterau cyfansoddiadol aruthrol i Gymru hefyd, ac nid oes dim o hyn yn hawdd ei ddatrys. Nid wyf yn credu y byddai o les i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd pe byddai'n cael ei wneud heb fwyafrif yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Mae'n anodd yn gyfreithiol, ond, yn foesol, rwy'n credu bod hynny'n gwbl gywir oherwydd yr effaith y byddai'n ei gael ar y gwahanol wledydd. Cymerais sylw mawr o'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog: bod y DU yn deulu o bedair cenedl, ac mae'n bwysig dan yr amgylchiadau hynny bod teulu'n gallu cytuno ar ffordd ymlaen.

13:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Ac arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams nawr.

13:57 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. First Minister, the shocking report into the Tawel Fan unit at Glan Clwyd Hospital revealed institutional abuse. Families started making complaints as early as 2012; why was not that abuse detected sooner or concerns acted upon?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Brif Weinidog, datgelodd yr adroddiad syfrdanol ar uned Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd gam-drin sefydliadol. Dechreuodd teuluoedd wneud cwynion mor gynnar â 2012; pam na chafodd y cam-drin hwnnw ei ganfod yn gynharach neu pam na chymerwyd camau yn sgil pryderon?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's difficult to answer a question about whether something should have been done earlier. In an ideal world, this abuse would never have happened at all. There is a legitimate question about how then the issue was handled. When a pattern of concerns came to the notice of the local health board, there was an independent report, they commissioned that and, of course, they will need to act on that report. As I've said before, it's absolutely crucial that those who are responsible in the LHB shoulder that responsibility. As Government, we have taken steps to ensure, through the spot checks, that we can get assurance this is not a pattern across Wales. The evidence from those spot checks suggests that it isn't a pattern across Wales. That does provide us with that assurance, but, again, the LHB have to make sure that what has happened in Tawel Fan is dealt with properly and openly.

Wel, mae'n anodd ateb cwestiwn ynghylch a ddylid fod wedi gwneud rhywbeth yn gynharach. Mewn byd delfrydol, ni fyddai'r cam-drin hwn erioed wedi digwydd o gwbl. Mae cwestiwn dilys am y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater. Pan ddaeth patrwm o bryderon i sylw'r bwrdd iechyd lleol, bu adroddiad annibynnol, comisiynwyd hwnnw ganddyn nhw ac, wrth gwrs, bydd angen iddyn nhw weithredu ar yr adroddiad hwnnw. Fel yr wyf wedi ei ddweud o'r blaen, mae'n gwbl hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol yn y BILl yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw. Fel Llywodraeth, rydym ni wedi cymryd camau i sicrhau, trwy haparchwiliadau, y gallwn ni gael sicrwydd nad yw hwn yn batrwm ledled Cymru. Mae'r dystiolaeth o'r haparchwiliadau hynny'n awgrymu nad yw hyn yn batrwm ledled Cymru. Mae hynny'n rhoi'r sicrwydd hwnnw i ni, ond, unwaith eto, mae'n rhaid i'r BILl wneud yn siŵr yr ymdrinnir â'r hyn sydd wedi digwydd yn Nhawel Fan yn briodol ac yn agored.

13:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in November 2013, I asked you to assure me that, if there was a care scandal happening in Wales, you would have robust enough procedures in place to detect it and stop it. You told me then

'We, of course, monitor what the health boards are doing, as does the Minister, on a day-to-day basis'.

Brif Weinidog, ym mis Tachwedd 2013, gofynnais i chi fy sicrhau i, os oedd sgandal gofal yn digwydd yng Nghymru, y byddai gennych chi weithdrefnau digon cadarn ar waith i'w ganfod a'i atal. Dywedasoch wrthyf bryd hynny

'Rydym ni, wrth gwrs, yn monitro yr hyn y mae'r byrddau iechyd yn ei wneud, fel y mae'r Gweinidog, o ddydd i ddydd'.

First Minister, those complaints had already been raised and had already been ignored by Betsi Cadwaladr University Local Health Board at that stage. Either you and the Minister don't monitor the health boards, or the way in which you monitor the health boards is failing. Which is it?

Brif Weinidog, roedd y cwynion hynny eisoes wedi eu codi ac eisoes wedi eu hanwybyddu gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar yr adeg honno. Naill ai nid ydych chi a'r Gweinidog yn monitro'r byrddau iechyd, neu mae'r ffordd yr ydych chi'n monitro'r byrddau iechyd yn methu. Pa un yw hi?

13:59

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think she raises an important point about the health inspectorate—and I know that this is an issue that is important to her—and the future of the health inspectorate, with the question being: is it sufficiently independent of Government? We would hope that it is, of course. The last thing we'd want is for an inspectorate to tell us what it thinks we want to hear, not what we need to hear. Now, of course, we did commission a report from Ruth Marks in terms of what the future should be. There will be a Green Paper, which will look at the health inspectorate, its structure, and whether it should merge so that we have a joint health and social services, or health and social care inspectorate, and as part of that process, of course, we want to make sure that we have as robust a system as possible for inspection. So, of course, Ministers are made aware of what is happening via the most robust system possible.

Rwy'n credu ei bod yn codi pwynt pwysig am yr arolygiaeth iechyd—a gwn fod hwn yn fater sy'n bwysig iddi—a dyfodol yr arolygiaeth iechyd, a'r cwestiwn yw hyn: a yw'n ddigon annibynnol ar y Llywodraeth? Byddem yn gobeithio ei bod, wrth gwrs. Y peth olaf y byddem ni ei eisiau yw i arolygiaeth ddweud wrthym ni yr hyn y mae'n ei feddwl yr ydym ni eisiau ei glywed, nid beth yr ydym ni angen ei glywed. Nawr, wrth gwrs, comisiynwyd adroddiad gan Ruth Marks gennym o ran beth ddylai'r dyfodol fod. Bydd Papur Gwyrdd, a fydd yn edrych ar yr arolygiaeth iechyd, ei strwythur, a pha un a ddylai uno fel bod gennym ni wasanaethau iechyd a chymdeithasol ar y cyd, neu arolygiaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn rhan o'r broses honno, wrth gwrs, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr bod gennym system mor gadarn â phosibl ar gyfer arolygu. Felly, wrth gwrs, mae Gweinidogion yn cael eu hysbysu am yr hyn sy'n digwydd drwy'r system fwyaf cadarn posibl.

14:00

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You're right, First Minister: the role and functions of HIW are of extreme importance to me and, unfortunately, we have before us another report where they seem to have been found wanting. I do appreciate the apology that they have given with regard to their actions in this particular case. But, would you now agree that the Green Paper needs to move more quickly? We need to move immediately to a situation where we have a stand-alone inspectorate, completely independent of your or anybody else's Government, so that we can all be assured, especially the patients and the staff who work within the NHS, that the final backstop of quality and assurance in the Welsh NHS is fit for purpose and is resourced and managed appropriately.

Rydych chi'n iawn, Brif Weinidog: mae swyddogaethau AGIC a'r rhan y mae'n ei chwarae o bwysigrwydd mawr i mi ac, yn anffodus, mae gennym adroddiad arall ger ein bron lle mae'n ymddangos nad ydynt yn cyrraedd y nod. Rwy'n gwerthfawrogi'r ymddiheuriad y maen nhw wedi ei roi o ran eu gweithredoedd yn yr achos penodol hwn. Ond, a fyddech chi'n cytuno nawr bod angen i'r Papur Gwyrdd symud yn gyflymach? Mae angen i ni symud ar unwaith i sefyllfa lle mae gennym ni arolygiaeth annibynnol, cwbl annibynnol ar eich Llywodraeth chi neu Lywodraeth unrhyw un arall, fel y gallwn i gyd gael ein sicrhau, yn enwedig y cleifion a'r staff sy'n gweithio yn y GIG, bod y safon derfynol o ran ansawdd a sicrwydd yn y GIG yng Nghymru yn addas i'w diben a bod adnoddau a rheolaeth addas ar gael ar ei chyfer.

14:01

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What we would hope, of course, is that the inspectorate is independent enough now. But, if the evidence shows that there is a need to strengthen that independence, then, clearly, it's in the interest, not just of the public, but in terms of the Government as well, because we need to make sure that we have an inspectorate, as we do in other areas of public policy, that is robust, independent and tells us what we need to hear, not what we want to hear. We take into account, of course, what has happened at Tawel Fan and recognise that it's important to make sure that the health inspectorate, as with every other inspectorate, commands public support and public respect. We bear that very much in mind as we consider now how the Green Paper moves forward.

Yr hyn y byddem ni'n ei obeithio, wrth gwrs, yw bod yr arolygiaeth yn ddigon annibynnol nawr. Ond, os bydd y dystiolaeth yn dangos bod angen cryfhau'r annibyniaeth honno, yna, yn amlwg, mae hynny o fudd i'r cyhoedd yn ogystal â'r Llywodraeth, gan fod angen i ni wneud yn siŵr bod gennym arolygiaeth, fel sydd gennym ni mewn meysydd eraill o bolisi cyhoeddus, sy'n gadarn, yn annibynnol ac yn dweud yr hyn y mae angen i ni ei glywed wrthym, nid yr hyn yr ydym ni eisiau ei glywed. Rydym ni'n cymryd i ystyriaeth, wrth gwrs, yr hyn sydd wedi digwydd yn Nhawel Fan ac yn cydnabod ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr bod yr arolygiaeth iechyd, fel gyda phob arolygiaeth arall, yn ennyn cefnogaeth y cyhoedd a pharch y cyhoedd. Rydym ni'n rhoi ystyriaeth flaenllaw i hynny wrth i ni ystyried sut mae'r Papur Gwyrdd yn symud yn ei flaen.

## Diabetes

## Diabetes

14:01 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i wella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o ddiabetes yng Nghymru? OAQ(4)2299(FM)*

*3. What action will the Welsh Government take in 2015 to improve services for diabetes sufferers in Wales? OAQ(4)2299(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We've shown an improvement in diabetes services and outcomes across a range of indicators and we're accelerating this with an extra investment of £1 million a year to support the implementation of the diabetes delivery plan.

Rydym ni wedi dangos gwelliant i wasanaethau a chanlyniadau diabetes ar draws ystod o ddangosyddion ac rydym ni'n cyflymu hyn gyda buddsoddiad ychwanegol o £1 filiwn y flwyddyn i gefnogi'r gwaith o roi'r cynllun cyflawni ar gyfer diabetes ar waith.

14:02 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. A report last year said there was strong evidence that diabetes specialist nurses could help the NHS in two areas. One is that they can save money for the NHS by helping to reduce the length of time people with diabetes stay in hospital and, secondly, helping to reduce the risk of health complications in the long term for people with diabetes. What study has the Welsh Government made into the cost benefit to the NHS of increasing the number of diabetes specialist nurses in Wales?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Dywedodd adroddiad y llynedd bod tystiolaeth gref y gallai nyrsys diabetes arbenigol helpu'r GIG mewn dau faes. Un yw y gallent arbed arian i'r GIG trwy helpu i leihau faint o amser y mae pobl â diabetes yn aros yn yr ysbyty ac, yn ail, drwy helpu i leihau'r risg o gymhlethdodau iechyd yn yr hirdymor i bobl sydd â diabetes. Pa astudiaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud o gost budd i'r GIG o gynyddu nifer y nyrsys diabetes arbenigol yng Nghymru?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, the chief nursing officer led an audit last year into diabetes specialist nurse staffing levels in response to the recommendations of the Health and Social Care Committee's inquiry. We are working through the findings of this audit and those findings will be published in the next few months. The diabetes implementation group, supported by the national clinical lead, will then consider the appropriate actions from this audit.

Wel, arweiniodd y prif swyddog nyrsio archwiliad y llynedd o lefelau staffio nyrsys diabetes arbenigol mewn ymateb i argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rydym ni'n gweithio trwy ganfyddiadau'r archwiliad hwn a bydd y canfyddiadau hynny'n cael eu cyhoeddi yn y misoedd nesaf. Bydd y grŵp gweithredu ar ddiabetes, gyda chefnogaeth yr arweinydd clinigol cenedlaethol, yn ystyried y camau priodol o'r archwiliad hwn wedyn.

14:03 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, January's annual report notes both mortality and morbidity related to diabetes are increased by socioeconomic deprivation. However, the report also highlights the positive measures Cwm Taf Local Health Board is taking to support children and young people with diabetes, such as early recognition and ensuring supportive school environments. Does the First Minister agree with me that these will lead to long-term benefits in treating diabetes, but how else can we support those poorer communities, including my constituency of the Cynon Valley, to tackle the inequality-related effects of diabetes in the meantime?

Brif Weinidog, mae adroddiad blynyddol mis Ionawr yn nodi y cynyddir marwolaeth ac afiachusrwydd sy'n gysylltiedig â diabetes gan amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r mesurau cadarnhaol y mae Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn eu cymryd i gefnogi plant a phobl ifanc â diabetes, fel nodi cynnar a sicrhau amgylcheddau ysgol cefnogol. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi y bydd y rhain yn arwain at fanteision hirdymor o ran trin diabetes, ond ym mha ffyrdd eraill y gallwn ni gefnogi'r cymunedau tlotach hynny, gan gynnwys fy etholaeth i yng Nghwm Cynon, i fynd i'r afael ag effeithiau diabetes sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb yn y cyfamser?

14:03

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Quite so. First of all, of course, there's the issue of differentiating between type 1 and type 2 diabetes. With type 2 diabetes, lifestyle, of course, plays an important factor and we know that type 2 diabetes is linked to lifestyles that are less than healthy. Can I say that I applaud the approach of Cwm Taf and the other health boards that are working with their partners in public health, in local government and the third sector to intervene early to help people to live healthier lifestyles now, so that they're not at risk of developing type 2 diabetes in the future, and that, of course, will help to prevent the progression of the disease as well among those who have been diagnosed with it. But, we know with type 2 diabetes, that prevention is a particularly important factor in terms of ensuring that fewer and fewer young people do end up being diagnosed with the disease. There are some diseases, of course, where nothing can be done in terms of reducing risk. Some cancers fall into that category, but type 2 diabetes is an example of where lifestyle choices do make a real difference in terms of the likelihood of being diagnosed with the disease in the future.

Yn sicr. Yn gyntaf oll, wrth gwrs, ceir y mater o wahaniaethu rhwng diabetes math 1 a math 2. Gyda diabetes math 2, mae ffordd o fyw, wrth gwrs, yn ffactor pwysig ac rydym ni'n gwybod bod diabetes math 2 yn gysylltiedig â ffyrdd o fyw sy'n llai na iach. A gaf i ddweud fy mod i'n cymeradwyo dull Cwm Taf a'r byrddau iechyd eraill sy'n gweithio gyda'u partneriaid ym maes iechyd y cyhoedd, mewn llywodraeth leol a'r trydydd sector i ymyrryd yn gynnar i helpu pobl i fyw bywydau iachach nawr, fel nad ydynt mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2 yn y dyfodol, a bydd hynny, wrth gwrs, yn helpu i atal datblygiad y clefyd hefyd ymhlith y rhai sydd wedi cael diagnosis ohono. Ond, rydym ni'n gwybod gyda diabetes math 2, bod atal yn ffactor arbennig o bwysig o ran sicrhau bod llai a llai o bobl ifanc yn derbyn diagnosis o'r clefyd yn y pen draw. Ceir rhai clefydau, wrth gwrs, lle na ellir gwneud unrhyw beth o ran lleihau risg. Mae rhai mathau o ganser yn dod o dan y categori hwnnw, ond mae diabetes math 2 yn enghraifft o ble y mae dewisiadau o ran ffordd o fyw yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran y tebygolrwydd o gael diagnosis o'r clefyd yn y dyfodol.

14:05

**William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a constituent recently contacted me as, having been referred by his GP to the diabetes clinic of Betsi Cadwaladr University Local Health Board, he was subsequently discharged due to the board's—and I quote direct from the correspondence—inability to review patients in a timely manner because of ongoing difficulties to recruit to a long-standing vacant consultant post. First Minister, what can the Welsh Government do to ensure that health boards across Wales can more effectively recruit to these specialist posts, particularly in deep rural areas such as Gwynedd?

Brif Weinidog, cysylltodd etholwr â mi yn ddiweddar, oherwydd, ar ôl cael ei atgyfeirio gan ei feddyg teulu i glinig diabetes Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, cafodd ei ryddhau'n ddiweddarach oherwydd anallu'r bwrdd—a dyfynnaf yn uniongyrchol o'r ohebiaeth—i adolygu cleifion yn brydlon oherwydd anawsterau parhaus i recriwtio i swydd ymgynghorydd a fu'n wag ers amser maith. Brif Weinidog, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau y gall byrddau iechyd ledled Cymru recriwtio'n fwy effeithiol i'r swyddi arbenigol hyn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell fel Gwynedd?

14:05

**Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

If the Member provides me with that information, I will, of course, investigate the matter for him. In terms of the diabetes delivery plan, that is being driven forward by Adam Cairns, who is the chief executive of the Cardiff and Vale University Local Health Board, and as part of that diabetes delivery plan, for example, we've established an all-Wales paediatric diabetes network. We know that the management of paediatric diabetes is improving, and, of course, we've had the appointment of a national clinical lead for diabetes. So, it's important, of course, that there is the overarching framework to deal with diabetes, and it's important that local health boards have the right level of medical skill in place in order to provide the service that people would expect. If he provides me with the information, of course I will look at it for him.

Os gwnaiff yr Aelod roi'r wybodaeth honno i mi, byddaf, wrth gwrs, yn ymchwilio i'r mater ar ei ran. O ran y cynllun cyflawni ar gyfer diabetes, y mae Adam Cairns, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn bwrw ymlaen ag ef, ac yn rhan o'r cynllun cyflawni ar gyfer diabetes, er enghraifft, rydym ni wedi sefydlu rhwydwaith diabetes pediatrig Cymru gyfan. Rydym ni'n gwybod bod y gwaith o reoli diabetes pediatrig yn gwella, ac, wrth gwrs, rydym ni wedi gweld penodiad arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer diabetes. Felly, mae'n bwysig, wrth gwrs, bod fframwaith cyffredinol i ymdrin â diabetes, ac mae'n bwysig bod gan fyrddau iechyd lleol y lefel gywir o sgiliau meddygol ar gael er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth y byddai pobl yn ei ddisgwyl. Os gwnaiff roi'r wybodaeth i mi, byddaf yn edrych ar y mater drosto, wrth gwrs.

### Velothon Cymru

### Velothon Wales

14:06

**William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cyfraniad Llywodraeth Cymru at ddigwyddiad beicio Velothon Cymru? OAQ(4)2301(FM)*

*4. Will the First Minister outline the Welsh Government's input into the Velothon Wales cycle event? OAQ(4)2301(FM)*

14:06

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We've provided financial assistance to support the preparation and staging of Velothon Wales, and officials have been working with the event organisers and local authority partners to maximise the benefits of hosting the event.

Rydym ni wedi darparu cymorth ariannol i gefnogi'r gwaith o baratoi a chynnal Velothon Cymru, ac mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda threfnwyr y digwyddiad a phartneriaid awdurdod lleol i wneud y mwyaf o'r manteision o gynnal y digwyddiad.

Senedd.tv Fideo Video

14:06

## William Graham Bywgraffiad Biography

I'm grateful to the First Minister for his reply. My reason for raising this matter this afternoon is that a number of businesses in my region, particularly those in Peterstone and St Bride's Wentloog, are having enormous disruption on them. Unfortunately, the organisers have not engaged with those people to tell them well in advance the days it would happen and the roads that would be closed—they have to rely on public announcements. In future, First Minister, could you make sure that your officials engage with the organisers to make sure that businesses are not disrupted?

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ateb. Fy rheswm am godi'r mater hwn y prynhawn yma yw y ceir tarfu aruthrol ar nifer o fusnesau yn fy rhanbarth i, yn enwedig y rhai yn Llanbedr a Gwynllwg Sain Ffraid. Yn anffodus, nid yw'r trefnwyr wedi ymgysylltu â'r bobl hynny i ddweud wrthynt ymhell ymlaen llaw am y diwrnodau y byddai'n digwydd a'r ffyrdd a fyddai'n cael eu cau—mae'n rhaid iddyn nhw ddibynnu ar gyhoeddiadau cyhoeddus. Yn y dyfodol, Brif Weinidog, a allech chi wneud yn siŵr bod eich swyddogion yn ymgysylltu â'r trefnwyr i sicrhau na amherir ar fusnesau?

Senedd.tv Fideo Video

14:07

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, there are concerns—the Member is right about the organisers' communications strategy in terms of the event. He is right to say that many businesses and, indeed, residents feel that they're not fully familiar with what the event will mean for Cardiff. It's not primarily, of course, an issue for the Welsh Government in terms of organising the event. Nevertheless, we have been co-ordinating daily discussions with the organisers, with the delivery partners—that's the local authorities, the police and the health boards—and those discussions are moving forward. Things, I think, should have been done a lot earlier in terms of the organisation's communication, but, nevertheless, we're confident now that, having facilitated the round-the-table discussions, we will be in a position where the public will be informed as quickly as possible of what the consequences of the event are.

Wel, ceir pryderon—mae'r Aelod yn iawn am strategaeth gyfathrebu'r trefnwyr o ran y digwyddiad. Mae'n iawn i ddweud bod llawer o fusnesau ac, yn wir, trigolion yn teimlo nad ydynt yn gwbl gyfarwydd â'r hyn fydd y digwyddiad yn ei olygu i Gaerdydd. Nid yw'n fater i Lywodraeth Cymru yn bennaf, wrth gwrs, o ran trefnu'r digwyddiad. Serch hynny, rydym ni wedi bod yn cydgysylltu trafodaethau beunyddiol gyda'r trefnwyr, gyda'r partneriaid darparu—sef yr awdurdodau lleol, yr heddlu a'r byrddau—ac mae'r trafodaethau hynny'n symud yn eu blaenau. Dylid bod wedi gwneud pethau, rwy'n meddwl, yn llawer cynharach o ran cyfathrebiad y sefydliad, ond, serch hynny, rydym yn hyderus erbyn hyn, ar ôl hwyluso'r trafodaethau o amgylch y bwrdd, y byddwn ni mewn sefyllfa lle bydd y cyhoedd yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl am ganlyniadau'r digwyddiad.

Senedd.tv Fideo Video

14:08

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Rwy'n siŵr fod pob un ohonom ni sy'n ymddiddori mewn seiclo yn edrych ymlaen at y felothon, ac rwy'n sicr yn dymuno'n dda i'r digwyddiad. Mae o'n cael ei drefnu, wrth gwrs, gan gwmni rhyngwladol, ond pa ymgais all y Llywodraeth ei gwneud i sicrhau bod cwmnïau digwyddiadau—cwmnïau 'events', felly—o Gymru yn cael y cyfle i chwarae rhan mewn cynnal y mathau yma o ddigwyddiadau yn y dyfodol, er mwyn gwneud yn siŵr bod y budd economaidd sy'n dod o drefnu'r digwyddiadau, nid dim ond o gynnal y digwyddiadau, yn cael ei deimlo yma yng Nghymru?

I'm sure that every one of us who takes an interest in cycling looks forward to the velothon, and I certainly wish the event well. It's being organised, of course, by an international company, but what efforts can the Government make to ensure that events companies from Wales have the opportunity to play their part in staging these sorts of events in future, in order to ensure that the economic benefits that accrue from organising these events, not only from staging them, are actually felt here in Wales?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym, wrth gwrs, yn cefnogi llawer o ddigwyddiadau—rhai ohonyn nhw yn fwy na'r lleill—ac mae sawl un o'r digwyddiadau hynny yn ddigwyddiadau sydd wedi tyfu oddi mewn i gymunedau ac yn rhoi lles mawr i gymunedau, nid dim ond i'r rheini sy'n gweithio yn y gwestai, ond hefyd i'r bobl sydd yn gweithio mewn twristiaeth yn fwy cyffredinol. Felly, pan ydym yn siarad am gefnogi digwyddiadau mawr, mae llawer o'r digwyddiadau hynny yn ddigwyddiadau sydd wedi tyfu o'r gymuned leol.

Of course, we do support numerous events—some more so than others—and a number of those are events that have grown from the community and bring great benefits to those communities, not just to those people who work in hotels, but people working in tourism more generally as well. So, when we talk about support for major events, many of those events are ones that have grown from the local community.

Senedd.tv Fideo Video

## Deddf Hawliau Dynol 1998

## The Human Rights Act 1998

14:09 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*5. Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Prif Weinidog wedi'u gomisiynu parthed yr effaith y bydd diddymu neu ddiwygio Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ei chael ar ddatganoli yng Nghymru? OAQ(4)2300(FM)*

*5. What legal advice has the First Minister commissioned on the impact that repealing or revising the Human Rights Act 1998 will have on devolution in Wales? OAQ(4)2300(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ni allaf ddweud, wrth gwrs, a ydym wedi cael cyngor cyfreithiol neu beidio, ond rwy'n credu bod yr Aelod yn deall yn gyfan gwbl beth yw fy marn i ar hyn.

I cannot say, of course, whether we've received legal advice or not, but I'm sure the Member will understand fully my feelings on this.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch, Brif Weinidog. Yn wir, roeddwn yn gwrando ar eich atebion i arweinydd Plaid Cymru gynnau fach, ac rwy'n falch eich bod chi wedi datgan yn glir bod angen i'r lle hwn, y Cynulliad hwn, gydsynio i unrhyw newid yn Neddf Hawliau Dynol gan ei bod yn effeithio ar ein cyfansoddiad ni sydd wedi sefydlu'r Cynulliad. Mae yna wahaniaeth barn gyfreithiol, serch hynny, ar y mater yma. Mae Michael Gove yn amlwg yn meddwl bod modd bwrw ymlaen ar sail Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, a hepgor yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Dominic Grieve, fel y cyn-Dwrnai Cyffredinol, wedi dweud yn glir ei fod ef o'r farn bod angen cydsyniad y lle hwn er mwyn diwygio'r Ddeddf Hawliau Dynol. Felly, rwy'n gofyn eto: a oes modd ichi gomisiynu cyngor cyfreithiol? Yn ail, yn eich barn chi fel Prif Weinidog, a ydy hwn yn fater datganoli, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y mae modd cyfeirio'r mater at y Goruchaf Lys yn ei gylch?

Thank you, First Minister. Indeed, I listened to your responses to the leader of Plaid Cymru a little earlier, and I'm pleased that you stated clearly that this place, this Assembly, must consent to any change in the Human Rights Act as it does impact upon our constitution that established this Assembly. There is a difference of legal opinion on this issue, however. Michael Gove clearly thinks that they can proceed on an England and Wales basis, ignoring Scotland and Northern Ireland. Dominic Grieve, as the former Attorney-General, has stated clearly that he is of the view that there is a need for the assent of this place to amend or reform the Human Rights Act. So, I ask once again: can you commission legal advice? Secondly, in your view as First Minister, is this an issue of devolution, under the Government of Wales Act 2006, that could be referred to the Supreme Court?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ynglŷn â'r ail bwynt, mae hynny'n rhywbeth i'w ystyried. Ynglŷn â'r pwynt cyntaf, fy marn i yw y dylai fod yna gydsyniad cyfreithiol o'r sefydliad hwn, ac, wrth gwrs, byddai'n rhaid cael barn ynglŷn â barn y sefydliad cenedlaethol hwn ynglŷn â beth ddylai ddigwydd i gyfansoddiad Cymru. Felly, mae hynny'n iawn ynglŷn â'r ffordd y mae Cymru yn cael ei thrin, a hefyd, yn fy marn i, yn iawn yn gyfreithiol.

As regards your second point, that's something to be considered. As regards your first point, my view is that there should be consent from this institution and, of course, we would have to get a view on the view of this national institution as to what should happen to the constitution of Wales. So, that's only right in terms of the way Wales is treated, and also, in my opinion, only right in legal terms.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How will the Welsh Government ensure that the effect on existing Welsh legislation, such as the Social Services and Well-Being (Wales) Act 2014 is considered during the consultation on the Human Rights Act proposed in the Queen's Speech?

Sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau yr ystyrir yr effaith ar ddeddfwriaeth bresennol Cymru, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ystod yr ymgynghoriad ar y Ddeddf Hawliau Dynol a gynigiwyd yn Araith y Frenhines?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, the simple answer is that it's never happened before. There's no clear answer on this. What would happen, of course, if Westminster were to repeal a Westminster Act, is that any reference to that Act in other legislation would be repealed at the same time. What we're talking about here is legislation where an Act that would be repealed by Westminster is contained in the Act of a devolved legislature and therefore wouldn't be repealed by Westminster at the same time. It's a mess that has no clear answer. That said, of course, where there are references to UN conventions in the social services Act, they would remain because they don't form part of the Human Rights Act and they will continue to apply, but there are some serious concerns about what would happen to Welsh legislation where there's reference to the Human Rights Act where that Act no longer exists and what that means for legislation. Again, I don't think this has been taken forward or thought of at all in any depth by the UK Government.

Wel, yr ateb syml yw nad yw erioed wedi digwydd o'r blaen. Nid oes ateb eglur ar hyn. Yr hyn fyddai'n digwydd, wrth gwrs, pe byddai San Steffan yn diddymu Deddf San Steffan, yw y byddai unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf honno mewn deddfwriaeth arall yn cael ei ddiddymu ar yr un pryd. Yr hyn yr ydym ni'n sôn amdano yma yw deddfwriaeth lle mae Deddf a fyddai'n cael ei diddymu gan San Steffan yn cael ei chynnwys yn Neddf deddfwrfa ddatganoledig ac na fyddai felly'n cael ei diddymu gan San Steffan ar yr un pryd. Mae'n llanast nad oes ateb eglur iddo. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, lle ceir cyfeiriadau at gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig yn y Ddeddf gwasanaethau cymdeithasol, byddent yn parhau gan nad ydynt yn rhan o'r Ddeddf Hawliau Dynol a byddant yn parhau i fod yn gymwys, ond ceir rhai pryderon difrifol am yr hyn a fyddai'n digwydd i ddeddfwriaeth Cymru lle ceir cyfeiriad at y Ddeddf Hawliau Dynol pan nad yw'r Ddeddf honno'n bodoli mwyach, a'r hyn y mae hynny'n ei olygu i ddeddfwriaeth. Unwaith eto, nid wyf yn credu bod hyn wedi cael ei ddatblygu na'i ystyried o gwbl mewn unrhyw ddyfnder gan Lywodraeth y DU.

### Comisiynu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

### Commissioning Social Care Services

14:12 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed gan Gyngor Sir Powys? OAQ(4)2304(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the commissioning of social care services for the people of Brecon and Radnorshire by Powys County Council? OAQ(4)2304(FM)*

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, the commissioning is a statutory responsibility for local authorities. There have been issues with domiciliary care provision in Powys, and I know the Minister's had a number of meetings with Powys County Council to ensure this is effectively managed.

Wel, wrth gwrs, mae'r comisiynu'n gyfrifoldeb statudol i awdurdodau lleol. Bu problemau gyda'r ddarpariaeth gofal cartref ym Mhowys, a gwn fod y Gweinidog wedi cael nifer o gyfarfodydd gyda Chyngor Sir Powys i sicrhau y rheolir hyn yn effeithiol.

14:12 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Issues' would be an understatement, First Minister. Despite repeated warnings by me and subcontractors that they were not being paid by the main contractor who'd been commissioned by Powys County Council, Powys County Council said there was no evidence of such practice. It now transpires from the liquidator's report that, actually, Powys County Council were lending taxpayers' money to that company to pay their HMRC bill and were in the process of delivering another loan to that company for their subcontractors to be paid when that company became bankrupt. Will you, First Minister, ask your officials to look into the practices of Powys County Council, whether it is legal for them to use taxpayers' money to lend to companies whom they have already paid for a service, and ensure that the commissioning arrangements in Powys going forward are strong and robust to ensure decent services for my constituents and decent value to local taxpayers?

Nid yw 'problemau' yn dweud hanner y stori, Brif Weinidog. Er gwaethaf rhybuddion dro ar ôl tro gennyf i ac isgontractwyr nad oeddent yn cael eu talu gan y prif gontractwr a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Powys, dywedodd Cyngor Sir Powys nad oedd unrhyw dystiolaeth o arfer o'r fath. Mae'n ymddangos erbyn hyn o adroddiad y diddymwr, bod Cyngor Sir Powys, mewn gwirionedd, yn rhoi benthyg arian trethdalwyr i'r cwmni hwnnw i dalu eu bil CThEM ac yn y broses o ddarparu benthyciad arall i'r cwmni hwnnw i'w hisgontractwyr gael eu talu pan aeth y cwmni hwnnw'n fethdalwr. A wnewch chi, Brif Weinidog, ofyn i'ch swyddogion ymchwilio i arferion Cyngor Sir Powys, pa un a yw'n gyfreithlon iddyn nhw ddefnyddio arian trethdalwyr i roi benthyg i gwmnïau y maen nhw eisoes wedi talu iddynt am wasanaeth, a sicrhau bod y trefniadau comisiynu ym Mhowys yn y dyfodol yn gryf a chadarn er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon i'm hetholwyr a gwerth priodol i drethdalwyr lleol?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, ultimately, of course, it is a matter for Powys to justify. Yes, of course, Ministers have a role, but if Powys is doing that, it will have to justify that to their auditors, particularly in terms of whether that is lawful or not. I make no comment about whether it's lawful or not. It's a matter for the auditors to discover, but there is a responsibility on local authorities to deliver a level of care and social services that the public would expect, and I wait to see what the outcome of any audit process is in terms of Powys, and I'll certainly look at this issue myself.

Wel, yn y pen draw, wrth gwrs, mater i Bowys ei gyfiawnhau yw hwn. Oes, wrth gwrs, mae gan Weinidogion swyddogaeth, ond os yw Powys yn gwneud hynny, bydd yn rhaid iddo gyfiawnhau hynny i'w harchwilwyr, yn enwedig o ran a yw hynny'n gyfreithlon ai peidio. Nid wyf yn gwneud unrhyw sylw ynghylch a yw'n gyfreithlon ai peidio. Mae'n fater i'r archwilwyr ei ddarganfod, ond mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu lefel o ofal a gwasanaethau cymdeithasol y byddai'r cyhoedd yn ei ddisgwyl, ac arhosaf i weld beth fydd canlyniad unrhyw broses o archwilio ar gyfer Powys, a byddaf yn sicr yn edrych ar y mater hwn fy hun.

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Last year, a report by the Care and Social Services Inspectorate Wales found that elderly and vulnerable people were seriously let down and that service users experienced physical injury and significant harm in Powys. What has the Welsh Government done to ensure that the errors made in Powys are not replicated in other areas of Wales?

Y llynedd, canfu adroddiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod pobl oedrannus ac agored i niwed yn cael eu siomi'n ddifrifol a bod defnyddwyr gwasanaeth yn dioddef anafiadau corfforol a niwed sylweddol ym Mhowys. Beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i sicrhau nad yw'r camgymeriadau a wnaed ym Mhowys yn cael eu hailadrodd mewn rhannau eraill o Gymru?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, he is a Powys county councillor—

Wel, mae ef yn gynghorydd sir ym Mhowys—

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm asking you about other areas of Wales.

Rwy'n gofyn i chi am rannau eraill o Gymru.

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

At the end of the day, in his role as a county councillor—

Yn y pen draw, yn ei swyddogaeth fel cynghorydd sir—

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Answer the question.

Atebwch y cwestiwn.

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues]—he should ask the county council—

[Parhau]— dylai ofyn i'r cyngor sir—

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Answer the question.

Atebwch y cwestiwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's all right coming here asking a question of the county council. He's not doing it in county hall. That's what happens when you get a dual mandate, I suppose, but it is for him to explain whether he's asking those questions in Powys county hall in Llandrindod Wells. He has the answer that I've given to the leader of the Liberal Democrats on this. It is for Powys County Council to justify what they're doing to their auditors and for their county councillors to hold them accountable.

Mae'n iawn dod yma i ofyn cwestiwn i'r cyngor sir. Nid yw'n gwneud hynny yn neuadd y sir. Dyna beth sy'n digwydd pan fo gennych chi fandad deuol, mae'n debyg, ond ei gyfrifoldeb ef yw esbonio pa un a yw'n gofyn y cwestiynau hynny yn neuadd y sir Powys yn Llandrindod. Mae'r ateb ganddo yr wyf wedi ei roi i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn. Mater i Gyngor Sir Powys yw cyfiawnhau'r hyn maen nhw'n ei wneud i'w harchwilwyr ac i'w cynghorwyr sir eu dwyn i gyfrif.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Minister, we have heard in the Chamber this morning that there is huge dissatisfaction with the services that have been commissioned in Powys. Could I ask you, Minister, that you might at least have a conversation with Powys County Council to outline the need to provide good terms of service, that is, proper pay and proper conditions, which, in turn, might actually deliver good levels of care to those people who desperately need it? That is, I think, to where the conversation really needs to be brought back.

Weinidog, rydym ni wedi clywed yn y Siambr y bore yma fod yna anfodlonrwydd enfawr gyda'r gwasanaethau a gomisiynwyd ym Mhowys. A gaf i ofyn i chi, Weinidog, i chi o leiaf gael sgwrs gyda Chyngor Sir Powys i amlinellu'r angen i ddarparu telerau da o wasanaeth, hynny yw, tâl priodol ac amodau priodol, a allai, yn eu tro, ddarparu'r lefelau da o ofal i'r bobl hynny sydd ei angen yn daer? I'r fan honno, rwy'n credu, mae gwir angen dychwelyd y sgwrs.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I entirely agree with what the Member has said in terms of delivery of services to the public. I can say that the Minister has had two meetings with the council over the last few months to discuss the handling of and to seek assurance about the continuity and quality of domiciliary care services. Officials have been receiving weekly updates from the director of social services in Powys and the inspectorate, and they have been monitoring the situation. What I don't know is whether they're aware of what the leader of the Liberal Democrats has said, but I'll make sure that they are.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Gallaf ddweud bod y Gweinidog wedi cael dau gyfarfod â'r cyngor dros y misoedd diwethaf i drafod y ffordd o ymdrin â gwasanaethau gofal cartref a gofyn am sicrwydd ynghylch eu parhad a'u hansawdd. Mae swyddogion wedi bod yn derbyn diweddariadau wythnosol gan y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ym Mhowys a'r arolygiaeth, ac maen nhw wedi bod yn monitro'r sefyllfa. Yr hyn nad wyf yn ei wybod yw pa un a ydynt yn ymwybodol o'r hyn y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei ddweud, ond byddaf yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Of course, one of the weaknesses of a weak and poorly led authority was recognised in the Williams commission, which suggested that social services in Powys and the health board should actually come together and deliver these kinds of services, perhaps with an eye to improvements in the future. Is that still the intention of the Welsh Government?

Wrth gwrs, cydnabuwyd un o wendidau awdurdod gwan sy'n cael ei arwain yn wael yng nghomisiwn Williams, a awgrymodd y dylai gwasanaethau cymdeithasol ym Mhowys a'r bwrdd iechyd ddod at ei gilydd a darparu'r mathau hyn o wasanaethau, efallai gyda golwg ar welliannau yn y dyfodol. Ai dyna yw bwriad Llywodraeth Cymru o hyd?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

This is an issue that we're still considering. The Member will know that there is not agreement across this Chamber in terms of what the future map of local government should look like. There is general agreement that there needs to be change—that much is true. We are considering at the moment what we should put forward in terms of a discussion map, as far as Wales is concerned. I know other parties will seek to do the same at the election. We all know there are difficulties in local authorities and it will be incumbent on those who are here in this Chamber after 2016, in my mind, to come to a conclusion that provides a sustainable and lasting local government settlement for Wales.

Mae hwn yn fater yr ydym ni'n dal i'w ystyried. Bydd yr Aelod yn gwybod nad oes cytundeb ar draws y Siambr hon o ran sut y dylai'r map llywodraeth leol edrych yn y dyfodol. Ceir cytundeb cyffredinol bod angen newid—mae cymaint â hynny'n wir. Rydym ni'n ystyried ar hyn o bryd beth y dylem ni ei gyflwyno o ran map trafodaeth, cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn. Rwy'n gwybod y bydd pleidiau eraill yn ceisio gwneud yr un peth yn yr etholiad. Rydym ni i gyd yn gwybod bod anawsterau mewn awdurdodau lleol a bydd yn ddyletswydd ar y rhai sydd yma yn y Siambr hon ar ôl 2016, yn fy marn i, i ddod i gasgliad sy'n darparu setliad llywodraeth leol cynaliadwy a pharhaol i Gymru.

## Cyllid Ysgolion

## School Funding

14:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad ei weinyddiaeth i gynyddu cyllid ysgolion 1 y cant yn uwch na'r newid yng ngrant bloc y Cynulliad? OAQ(4)2296(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on his administration's pledge to increase school funding by 1 per cent above the change in the Assembly block grant? OAQ(4)2296(FM)*

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we've made that commitment and, over the current spending review period, we've provided an additional £106 million for schools as a result.

Gwnaf, rydym ni wedi gwneud yr ymrwymiad hwnnw ac, yn ystod y cyfnod adolygu gwariant presennol, rydym ni wedi darparu £106 miliwn arall ar gyfer ysgolion o ganlyniad.

14:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You will know, of course, if you are monitoring the funding that schools are receiving, that many local authorities are actually making real-term cuts in the money available to them. In my region, in particular, there are cuts of 5 per cent in some schools' funding and more in other local authorities. Can I ask you what monitoring you are doing of this and how you are holding local authorities to account for the pledge that you've made on their behalf?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, os ydych chi'n monitro'r cyllid y mae ysgolion yn ei dderbyn, bod llawer o awdurdodau lleol yn gwneud toriadau termau real i'r arian sydd ar gael iddynt. Yn fy rhanbarth i, yn benodol, ceir toriadau o 5 y cant i gyllid rhai ysgolion a mwy mewn awdurdodau lleol eraill. A gaf i ofyn i chi pa fonitro yr ydych chi'n ei wneud o hyn a sut ydych chi'n dwyn awdurdodau lleol i gyfrif am yr addewid rydych chi wedi ei wneud ar eu rhan?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We do monitor what local authorities do in terms of the money. The monitoring data received for the period 2014-15—the last financial year—shows that all local authorities have met or exceeded the 1 per cent protection commitment. We keep a very close eye indeed on the commitment—it was a main commitment for us, as a party in 2011—and we intend to make sure that all local authorities deliver on it.

Rydym ni yn monitro'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud o ran yr arian. Mae'r data monitro a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod 2014-15—y flwyddyn ariannol ddiwethaf—yn dangos bod pob awdurdod lleol wedi cyrraedd neu ragori ar yr ymrwymiad diogelwch o 1 y cant. Rydym ni'n cadw llygad barcud yn wir ar yr ymrwymiad—roedd yn brif ymrwymiad i ni, fel plaid yn 2011—ac rydym ni'n bwriadu gwneud yn siŵr bod pob awdurdod lleol yn cyflawni ar hynny.

## Gofal i Bobl Hŷn Eiddil eu Meddwl

## Care for Elderly Mentally Infirm People

14:18 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ofal i bobl hŷn eiddil eu meddwl yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2307(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on care for elderly mentally infirm people in north Wales? OAQ(4)2307(FM)*

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rŷm ni'n erfyn, wrth gwrs, fod pawb yn y gogledd yn cael y lefel o ofal y byddai pobl yn erfyn, ac yn erfyn pob partner sydd yn gweithredu'r gofal hwnnw i sicrhau bod hynny'n digwydd.

We of course expect that everybody in north Wales should receive the standard of care that people would expect, and we expect every partner that is delivering that care to ensure that that happens.

14:18 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod yna oedi ar hyn o bryd yn y penderfyniad gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr a chyngor Môn i roi'r gorau i gomisiynu gwlâu EMI yng nghartref Sant Tysilio, a hynny ar ôl i gais gael ei wneud i lys wneud dyfarniad ar y mater. Yn hynny o beth ni allaf, yn hawdd, ofyn i'r Prif Weinidog wneud sylw ar y cartref hwnnw na'r penderfyniad. Ond, a ydy'r Prif Weinidog yn cytuno â fi fod hyn wedi amlygu problemau ehangach, sef diffyg capasiti yn y gogledd-orllewin yn benodol, a diffyg staff cymwys hefyd, i gynnig gofal i'r cleifion hŷn mwyaf bregus? Sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymateb i'r argyfwng hwnnw?

The First Minister will know that there are currently delays in the decision by the Betsi Cadwaladr health board and Anglesey council to cease commissioning EMI beds in the St Tysilio care home, and that's after a request was made for a court to make a decision on the issue. In that regard I can't very easily ask the First Minister to make a comment on that home or that decision. But, does the First Minister agree with me that this has highlighted broader problems, namely a lack of capacity in north-west Wales specifically and a shortage of qualified staff to provide care for the most vulnerable elderly patients? How does the Government intend to respond to that crisis?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall, wrth gwrs, y sefyllfa yn Sant Tysilio. Nid yw'n ymddangos bod hon yn broblem ar draws y gogledd nac ar draws Cymru, ond mae'n broblem, wrth gwrs, ar yr ynys. Rwy'n gwybod bod yna sawl arolygiad wedi cymryd lle ac, wrth gwrs, rwy'n deall bod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r bwrdd iechyd, a hefyd gyda'r tylwyth a'r rheini sy'n byw yn y cartref ei hun, i sicrhau ym mha ffordd y dylai gofal gael ei roi yn y pen draw. Ond, mae'n bwysig dros ben bod yna ateb yn cael ei ffeindio cyn gynted ag sy'n bosib er mwyn rhoi sicrwydd, nid dim ond i'r bobl, wrth gwrs, sydd yn gweithio yno, ond hefyd i'r bobl sy'n byw yna a'u tylwyth.

I understand the situation in St Tysilio and it doesn't appear to be a north Wales or Wales-wide problem, but I know it's a problem on the island of course. I know that a number of reviews have taken place and I understand, of course, that the local authority is working with the health board, and also with the families and the residents of the home itself, to decide how healthcare will be delivered ultimately. But, it's important that a solution is found as soon as possible to give an assurance not just to those people working there, but those people residing there and their families.

## Cyfarfod Cydbwyllgor y Gweinidogion

## Joint Ministerial Committee Meeting

14:20 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa faterion y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu codi yng nghyfarfod nesaf cydbwyllgor y Gweinidogion? OAQ(4)2306(FM)*

*9. What issues does the First Minister intend to raise at the next Joint Ministerial Committee meeting? OAQ(4)2306(FM)*

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, sawl peth ynglŷn â'r economi, ynglŷn â swyddi ac, wrth gwrs, y cyfansoddiad.

A number of matters regarding the economy, regarding jobs and, of course, the constitution.

14:20 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog. A fydd o'n ceisio sicrwydd oddi wrth Brif Weinidog y Deyrnas Unedig y bydd o'n gweithredu ar yr argymhellion yn 'Pwerau at bwrpas', yn benodol ynglŷn â'r sefydliad hwn, y Cynulliad ei hun, gan sicrhau bod trefniadau datganoli cymhwysedd a gweithredol llawn deddfwriaethol dros etholiadau y Cynulliad yn dod i'r Cynulliad hwn yn y pedwerydd Cynulliad yma?

I thank the First Minister. Will he seek assurances from the UK Prime Minister that he will implement the recommendations in 'Powers for a purpose', specifically regarding this institution, the Assembly itself, ensuring that the arrangements for full legislative competence and responsibility for Assembly elections come to this Assembly in the fourth Assembly?

14:20 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, rwy'n gwneud y pwynt hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol; i fod yn deg iddo fe, nid yw e yn erbyn y syniad o gwbl. Beth ddywedodd e wrthyf i oedd ei fod e'n moyn symud ymlaen nawr gyda beth mae fe'n ei alw'n gytundeb Dydd Gŵyl Dewi a beth fyddwn i'n ei alw'n broses Dydd Gŵyl Dewi ac yn edrych ymlaen nawr i weld hynny'n digwydd. Ond, er bod gennym ni amserlen mewn lle, beth nid ydym ni'n gwybod eto yw'r manylion. Mae pawb yn gytûn y dylai fod yna fodel cadw ynglŷn â phwerau, ond mae'n rhaid inni sicrhau ein bod ni'n deall y manylion ynglŷn â beth ddylai gael ei gadw, fel maen nhw'n dweud, yn San Steffan, a beth ddylai fod yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth gwrs, bydd yn rhaid cadw llygad barcud ar hynny. Ni fyddwn o blaid unrhyw beth sydd yn lleihau'r pwerau presennol sydd gennym ni, ac, wrth gwrs, rydym ni'n gobeithio y byddwn ni'n gallu gweithio drwy'r materion hyn erbyn yr hydref.

I've made this point to the Secretary of State and, to be fair to him, he's not opposed to the idea at all. What he's said to me is that he wants to move forward now with what he calls the St David's Day agreement, but what I would call the St David's Day process, and we're looking forward now to seeing that happening. But, although we have a timetable, we don't have the details. Everybody is agreed that there should be a reserved-powers model, but we must ensure that we understand the detail as to what should be reserved, as they call it, in Westminster and what should be here in Wales in the future. I will keep a very close eye on that. I wouldn't be in favour of anything that diminishes the current powers that we hold and, of course, we would hope that we will be able to work through these matters by the autumn.

14:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Thank you, First Minister.

14:21

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 2 is the business statement and announcement, and I call the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Eitem 2 yw'r datganiad a chyhoeddiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Deputy Presiding Officer. There's one change to report the business statement for this week's business. The Minister for Health and Social Services has withdrawn his oral statement on action taken in response to the independent Tawel Fan report, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae un newid i'w adrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi tynnu'n ôl ei ddatganiad llafar ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i adroddiad annibynnol Tawel Fan, ac mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:22 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Business Minister, I'd be grateful if you could please ask the Minister for the Economy, Science and Transport to bring forward a statement on the feasibility of dualling the A40 in Pembrokeshire. I'm sure you're aware the Minister committed to looking at this specific issue on 12 November last year and said that the work would be completed within six months. Given that the work completion deadline has now passed, I'd be grateful if the Minister for Economy, Science and Transport could, therefore, bring forward a statement as soon as possible on the outcomes of the Welsh Government's work on this matter.

Weinidog Busnes, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gyflwyno datganiad ar ymarferoldeb deuoli'r A40 yn Sir Benfro. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod y Gweinidog wedi ymrwymo i ystyried y mater penodol hwn ar 12 Tachwedd y llynedd a dywedodd y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau o fewn chwe mis. O ystyried bod y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith wedi mynd heibio erbyn hyn, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, felly, gyflwyno datganiad cyn gynted â phosibl ar ganlyniadau gwaith Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I know the Minister has been taking this very seriously, in terms of the opportunities for the dualling of the A40, and she will respond and update in due course.

Gwn fod y Gweinidog wedi bod yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i hyn, o ran y cyfleoedd ar gyfer deuoli'r A40, a bydd yn ymateb ac yn diweddaru maes o law.

14:23 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad gan Weinidogion, os gwelwch yn dda? Yn gyntaf oll yw datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynglŷn â grant rheolaeth amgylchedd Cymru. Rwy'n deall bod y grant yma, a oedd wedi cael ei ragflaenu ar gyfer sawl blwyddyn, yn cael ei dynnu oddi ar nifer o fudiadau ar fyr rybudd, braidd, gan gynnwys un mudiad yn fy rhanbarth i, RAY Ceredigion, sydd yn cefnogi chwarae amgylcheddol i blant a phobl ifanc. Maen nhw'n pryderu bod hyn yn digwydd heb ymgynghori a heb lawer o drafod ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Byddai'n fuddiol i Aelodau felly gael datganiad gan y Gweinidog i esbonio y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad yma, sy'n effeithio, rwy'n meddwl, ar nifer o fudiadau drwy Gymru.

Minister, may I ask for two statements from Ministers, please? First of all is a statement from the Minister for Natural Resources regarding the Welsh environmental control grant. I understand that this grant, which has been in place for many years, is being withdrawn from several organisations at somewhat short notice, including one organisation in my region, RAY Ceredigion, which supports environmental play for children and young people. They are concerned that this is happening without consultation and without much discussion on the way forward. It would be beneficial for Members, therefore, to have a statement from the Minister explaining the rationale behind this decision, which impacts on a number of organisations throughout Wales.

Yr ail ddatganiad yr hoffwn ei glywed—neu wybodaeth o leiaf gan y Gweinidog—yw beth pellach mae'r Llywodraeth yn ei wneud ynglŷn â'r penderfyniad gan yr heddlu ar draws Cymru a Lloegr i dynnu'r hofrennydd awyr oddi ar y safle ym Mhen-bre, a Rhuddlan yn y gogledd hefyd. Mae hwn yn effeithio'n fawr iawn ar y gwasanaeth hofrennydd ac atal trosedd yn yr ardal rwy'n ei chynrychioli, sef Dyfed-Powys yn benodol, ac wrth gwrs mae'n groes i'r addewid a wnaed gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i gadw'r hofrennydd yn y rhanbarth. Felly, byddwn i'n leicio clywed a yw'r Gweinidog, Leighton Andrews, yn benodol, wedi codi'r materion hyn gyda'r comisiynydd, a hefyd gyda'r Llywodraeth yn San Steffan, i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yng Nghymru. Eto, byddai diweddariad gan y Gweinidog o fudd i nifer o Aelodau yn y Siambr.

The second statement that I would like to hear—or at least to have some information from the Minister on—is what else the Government is doing about the decision by police forces across England and Wales to withdraw the helicopter from the site in Pembrey, and Rhuddlan in north Wales also. This will have a serious impact on the police helicopter service and crime prevention in the area that I represent, namely Dyfed-Powys specifically, and of course it is contrary to a pledge made by the Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner to retain the helicopter service in the region. Therefore, I'd like to hear whether the Minister, Leighton Andrews, specifically, has raised these issues with the commissioner, and also with the Westminster Government, to ensure provision remains in Wales. Again, an update from the Minister would be beneficial to many Members in this Chamber.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr, Simon Thomas. As far as the first question, regarding the changes to grants available in terms of the Welsh environmental grant circumstances, a statement has been made in terms of the new arrangements, but the Minister will write to you to update and clarify the situation. Also, on the second point, it was, as you say, a decision that was made not, obviously, in terms of our responsibilities here in this Welsh Government in terms of the withdrawal of police helicopters in your region. I will certainly raise this with the Minister for Public Services to clarify the responsibilities and account for the reasons and the impacts of that decision.

Diolch yn fawr, Simon Thomas. O ran y cwestiwn cyntaf, ynghylch y newidiadau i'r grantiau sydd ar gael o ran amgylchiadau grant amgylcheddol Cymru, gwnaed datganiad ynglŷn â'r trefniadau newydd, ond bydd y Gweinidog yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i egluro'r sefyllfa. Hefyd, ar yr ail bwynt, roedd, fel y dywedwch, yn benderfyniad a wnaed nid, yn amlwg, o ran ein cyfrifoldebau yma yn y Llywodraeth Cymru hon o ran tynnu hofrenyddion yr heddlu yn ôl yn eich rhanbarth. Byddaf yn sicr yn codi hyn gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i egluro'r cyfrifoldebau ac esbonio rhesymau ac effeithiau'r penderfyniad hwnnw.

Senedd.tv
Fideo Video

14:25 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Minister, I was going to ask that we had some discussion around the Donna Ockenden report into Tawel Fan. What I wanted to do was to ask, but I understand from your statement today that things are moving. In all of this I want to make sure that we keep, as a priority—and as a Welsh Government keep as a priority—the families that have been affected by the Tawel Fan report. Something that they have done is kept their dignity, which some of their loved ones didn't have in that report. I want to make sure that they get the justice that they so deservedly need, for closure. Can I ask that you talk to the health Minister, whatever the procedural outcomes of our meeting here today, and can you make sure that we are kept fully informed with regular updates as to what is happening so that we can, once and for all, give those families the closure and the justice that they deserve?

Weinidog, roeddwn i'n mynd i ofyn i ni gael rhywfaint o drafodaeth am adroddiad Donna Ockenden ar Dawel Fan. Yr hyn yr oeddwn i eisiau ei wneud oedd gofyn, ond rwy'n deall o'ch datganiad heddiw bod pethau'n symud. Yn hyn oll, rwyf eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cadw, fel blaenoriaeth—ac yn cadw fel blaenoriaeth o safbwynt Llywodraeth Cymru—y teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan adroddiad Tawel Fan. Rhywbeth y maen nhw wedi ei wneud yw cadw eu hurddas, na chafodd rhai o'u hanwyliaid yn yr adroddiad hwnnw. Rwyf eisiau gwneud yn siŵr eu bod yn cael y cyfiawnder sydd ei angen arnynt mor haeddiannol, i gael diwedd i'r sefyllfa. A gaf i ofyn i chi siarad â'r Gweinidog iechyd, beth bynnag fo canlyniadau gweithdrefnol ein cyfarfod yma heddiw, ac a allwch chi wneud yn siŵr ein bod yn cael ein hysbysu'n llawn gyda diweddariadau rheolaidd ynghylch yr hyn sy'n digwydd fel y gallwn, unwaith ac am byth, roi'r terfyniad a'r cyfiawnder y maen nhw'n eu haeddu i'r teuluoedd hynny?

Senedd.tv
Fideo Video

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank Ann Jones for that question on the business statement this afternoon. As you will be aware from my statement, the Minister for Health and Social Services has withdrawn his oral statement. Of course, a motion for an urgent debate has been tabled for this afternoon. It is vital that the points that you've made are expressed in this Chamber today, and that, of course, the Minister for Health and Social Services will be able to return to the Assembly as and when appropriate in order to reassure not only you, but the people that you represent, and the families and carers of those affected.

Diolchaf i Ann Jones am y cwestiwn yna am y datganiad busnes y prynhawn yma. Fel y byddwch yn ymwybodol o fy natganiad, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi tynnu ei ddatganiad llafar yn ôl. Wrth gwrs, cyflwynwyd cynnig am ddadl frys ar gyfer y prynhawn yma. Mae'n hanfodol bod y pwyntiau yr ydych chi wedi eu gwneud yn cael eu mynegi yn y Siambr hon heddiw, a hefyd, wrth gwrs, y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu dychwelyd i'r Cynulliad pan fo hynny'n briodol, er mwyn tawelu eich meddwl chi yn ogystal â meddyliau'r bobl yr ydych chi'n eu cynrychioli, a theuluoedd a gofalwyr y rhai yr effeithiwyd arnynt.

Senedd.tv
Fideo Video

14:27 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder if I could ask for a statement from the deputy Minister for rural affairs. The Minister is currently out to consultation on a future basic payment scheme for farmers. It would greatly aid some of my constituents' ability to participate in that consultation if they had clarity with regard to the constraints of a re-mapping exercise and the technical challenges that would be presented to the Minister's officials, whether the Minister would commit to a re-mapping exercise, and how long any re-mapping exercise—a comprehensive one that would look at improved and unimproved land—would take. Early information from the Minister in that regard, I think, would greatly assist my constituents, and certainly assist me in being able to respond to her consultation.

Weinidog, tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y dirprwy Weinidog materion gwledig. Mae'r Gweinidog wrthi'n ymgynghori ar gynllun taliad sylfaenol yn y dyfodol i ffermwyr ar hyn o bryd. Byddai o gymorth mawr i rai o'm hetholwyr gael cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw pe byddent yn cael eglurder o ran cyfyngiadau ymarfer ail-fapio a'r heriau technegol a fyddai'n wynebu swyddogion y Gweinidog, pa un a fyddai'r Gweinidog yn ymrwymo i ymarfer ail-fapio, a pha mor hir fyddai unrhyw ymarfer ail-fapio—un cynhwysfawr a fyddai'n edrych ar dir wedi ei wella a heb ei wella—yn ei gymryd. Byddai gwybodaeth gynnar gan y Gweinidog yn y cyswllt hwnnw, rwy'n credu, o gymorth mawr i fy etholwyr, ac yn sicr yn fy nghynorthwyo i o ran gallu ymateb i'w hymgynghoriad hi.

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for that question. The Deputy Minister for Farming and Food will have heard the points that have been raised in terms of the consultation that, of course, will enable you and your constituents to respond regarding the re-mapping exercise.

Diolchaf i Kirsty Williams am y cwestiwn yna. Bydd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi clywed y pwyntiau a godwyd o ran yr ymgynghoriad a fydd, wrth gwrs, yn eich galluogi chi a'ch etholwyr i ymateb o ran yr ymarfer ail-fapio.

14:28 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I echo Kirsty Williams's calls for a re-mapping, or some equivalent, to assist our farmers? I also attended a recent NFU meeting, where I know there were many concerns raised about the current situation and the need to have a mapping exercise at least initiated as soon as possible.

Weinidog, a gaf i ailadrodd galwadau Kirsty Williams am ail-fapio, neu rywbeth cyfatebol, i gynorthwyo ein ffermwyr? Roeddwn innau hefyd yn bresennol mewn cyfarfod NFU diweddar, lle rwy'n gwybod y codwyd llawer o bryderon ynghylch y sefyllfa bresennol a'r angen i o leiaf cychwyn ymarfer mapio cyn gynted â phosibl.

Secondly, can I ask for an update from your Government on the future development of food festivals in Wales? In my own area we have the Abergavenny food festival, but I was also lucky enough to attend the Llanyrafon food festival on the weekend at the fantastic Llanyrafon Manor, opened a couple of years ago by the former Minister, Alun Davies. At that food festival, I met Cardiff curry maker, Paul Willetts, who said that food festivals are a vital avenue for Welsh producers to get their produce out there, but there could be better links made between food festivals and the wider market. That's not happening at the moment. Can we have a comprehensive plan of how you're going to connect those food festivals into the wider UK and global market?

Yn ail, a gaf i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan eich Llywodraeth am ddatblygu gwyliau bwyd yng Nghymru yn y dyfodol? Mae gennym ŵyl fwyd y Fenni yn fy ardal fy hun, ond roeddwn i hefyd yn ddigon ffodus i fynd i ŵyl fwyd Llanyrafon yn ystod y penwythnos ym Maenor odidog Llanyrafon, a agorwyd ychydig flynyddoedd yn ôl gan y cyn-Weinidog, Alun Davies. Yn yr ŵyl fwyd honno, cyfarfûm â'r gwneuthurwr cyri o Gaerdydd, Paul Willetts, a ddywedodd bod gwyliau bwyd yn llwybr hanfodol i gynhyrchwyr o Gymru gael eu cynnyrch allan yna, ond y gellid creu cysylltiadau gwell rhwng gwyliau bwyd a'r farchnad ehangach. Nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. A allwn ni gael cynllun cynhwysfawr o sut yr ydych chi'n mynd i gysylltu'r gwyliau bwyd hynny â marchnad ehangach y DU a'r farchnad fyd-eang?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Nick Ramsay, you will have heard the response I made to Kirsty Williams with regard to the remapping exercise, and the consultation that is undergoing and, obviously, has stimulated some response that's been raised today in the Chamber, and that's the appropriate way, of course, with my business statement, to do that.

Wel, Nick Ramsay, byddwch wedi clywed yr ateb a roddais i Kirsty Williams o ran yr ymarfer ail-fapio, a'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ac, yn amlwg, sydd wedi ysgogi rhywfaint o ymateb a godwyd heddiw yn y Siambr, a dyna'r ffordd briodol, wrth gwrs, gyda fy natganiad busnes, i wneud hynny.

In terms of food festivals, of course, the Deputy Minister for Farming and Food is very supportive, not just of food festivals, and the provision of funding—I was very pleased to attend the Cowbridge Food and Drink Festival, which was extremely successful, but also received a grant from the Welsh Government, for which it was very grateful. But, of course, it's vital that you do make that link between the production of food and, indeed, that is what the Minister is doing in terms of her food policy.

O ran gwyliau bwyd, wrth gwrs, mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn gefnogol iawn, nid yn unig o wyliau bwyd, a'r ddarpariaeth o gyllid—roeddwn i'n falch iawn o fod yn bresennol yng Ngŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen, a oedd yn hynod lwyddiannus, ond a dderbyniodd grant gan Lywodraeth Cymru hefyd, yr oedd yn ddiolchgar iawn amdano. Ond, wrth gwrs, mae'n hanfodol eich bod yn creu'r cysylltiad hwnnw rhwng cynhyrchu bwyd ac, yn wir, dyna beth mae'r Gweinidog yn ei wneud o ran ei pholisi bwyd.

14:30

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I wonder if we could have a statement on communication between the Welsh Government and Swansea University, specifically with regard to Swansea School of Management. I ask because, in First Minister's questions in March, the First Minister said that he would hope that managerial issues there would be resolved swiftly, but you may have seen recently that those issues have not been resolved at the university, and I'm continuing to receive complaints from both lecturers and students about the situation there. Professor Piercy has said that he will set up a forum, where he will be the arbitrator, and that trade unions will be observers to that process. People at the university do not believe that that is sufficient, and would want to see an external panel to assess what is happening there. So, please could we have a statement from the Government, because we really do need some leadership on this issue now, at this stage?

Weinidog, tybed a allem ni gael datganiad ar gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Abertawe, ac yn benodol o ran Ysgol Reolaeth Abertawe. Rwy'n gofyn oherwydd, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ym mis Mawrth, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n gobeithio y byddai problemau rheolaethol yno'n cael eu datrys yn gyflym, ond efallai eich bod wedi gweld yn ddiweddar nad yw'r problemau hynny wedi cael eu datrys yn y brifysgol, ac rwy'n parhau i dderbyn cwynion gan ddarlithwyr a myfyrwyr am y sefyllfa yno. Mae'r Athro Piercy wedi dweud y bydd yn sefydlu fforwm, lle y bydd ef yn gymrodeddwr, ac y bydd undebau llafur yn arsylwyr o'r broses honno. Nid yw pobl yn y brifysgol yn credu bod hynny'n ddigonol, a byddent yn dymuno gweld panel allanol yn asesu'r hyn sy'n digwydd yno. Felly, a allem ni gael datganiad gan y Llywodraeth os gwelwch yn dda, gan fod wir angen rhywfaint o arweinyddiaeth arnom ni o ran y mater hwn nawr, ar y cam hwn?

My second request would be for an update on the situation with Flying Start. I have seen conflicting reports as to what's happening with regards to the future of the service in both Croeserw and Glyncorrwg. Neath Port Talbot—the local authority—has told me that childcare is not being cut, and there is no loss of funding, but, in a letter to parents locally, Action for Children says, and I quote, 'Funding issues meant that it was no longer viable for us to provide these services in the way that we currently do'. So, I think that we need a statement from Welsh Government, so that we can have, again, clarity on this situation.

Mae fy ail gais am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyda Dechrau'n Deg. Rwyf wedi gweld adroddiadau'n gwrthddweud ei gilydd o ran yr hyn sy'n digwydd yng nghyswllt dyfodol y gwasanaeth yng Nghroeserw a Glyncorrwg. Mae Castell-nedd Port Talbot—yr awdurdod lleol—wedi dweud wrthyf nad yw gofal plant yn cael ei dorri, ac nad oes unrhyw golled o gyllid, ond, mewn llythyr at rieni yn lleol, mae Gweithredu dros Blant yn dweud, a dyfynnaf, 'Roedd problemau ariannu'n golygu nad oedd yn ymarferol mwyach i ni ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y ffordd rydym ni'n ei wneud ar hyn o bryd'. Felly, credaf fod angen datganiad gan Lywodraeth Cymru arnom, fel y gallwn, unwaith eto, gael eglurder ar y sefyllfa hon.

14:32

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Bethan Jenkins, of course, you understand clearly that Swansea University is a fully autonomous institution, and, as such, any allegations or concerns are a matter for the university to consider, and we would expect that any allegations, for example, any allegations of bullying within the workplace, or in any education setting, would be fully investigated.

Bethan Jenkins, wrth gwrs, rydych chi'n deall yn eglur bod Prifysgol Abertawe yn sefydliad hollol annibynnol, ac, fel y cyfryw, mae unrhyw honiadau neu bryderon yn fater i'r brifysgol ei ystyried, a byddem yn disgwyl y byddai unrhyw honiadau, er enghraifft, unrhyw honiadau o fwlio yn y gweithle, neu mewn unrhyw leoliad addysg, yn cael eu hymchwilio'n llawn.

On your second point, of course, Flying Start has been extended considerably by this Welsh Government, with the funding to match that, and, indeed, of course, it is the responsibility of the local authority to ensure that that provision is delivered.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mae Dechrau'n Deg wedi cael ei ymestyn yn sylweddol gan y Llywodraeth hon yng Nghymru, gyda'r arian i gyd-fynd â hynny, ac, yn wir, wrth gwrs, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau y darperir y ddarpariaeth honno.

14:33 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could we have a statement on the important drug developments that are happening here in Wales? I'm sure the Minister would want to join me in congratulating scientists at Cardiff University on developing the drug Acelarin, which was presented to cancer specialists at the conference in Chicago last weekend. I think this was actually called 'remarkable'. So, I'm sure the Minister would want to congratulate those scientists, and it would be really good if we could hear about all these really important developments that are happening here in Wales.

A allem ni gael datganiad ar y datblygiadau pwysig o ran cyffuriau sy'n digwydd yma yng Nghymru? Rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog eisiau ymuno â mi i longyfarch gwyddonwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ar ddatblygu'r cyffur Acelarin, a gyflwynwyd i arbenigwyr canser yn y gynhadledd yn Chicago y penwythnos diwethaf. Rwy'n credu bod hyn wedi cael ei alw'n 'rhyfeddol' mewn gwirionedd. Felly, rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog eisiau llongyfarch y gwyddonwyr hynny, a byddai'n dda iawn pe gallem ni glywed am yr holl ddatblygiadau pwysig iawn hyn sy'n digwydd yma yng Nghymru.

14:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, Julie Morgan raises a very important point today, and I think—from just hearing across the Chamber—that we'd all like to congratulate Cardiff University, but specifically congratulate Professor McGuigan and those scientists in his team in the university, on the discovery of what could be an important new drug treatment for cancer. It does reflect the research excellence in Wales, and Cardiff University is ranked, as you well know—and we must put it on the record again—fifth in the UK for research quality, following the Research Excellence Framework for 2014 assessment of all UK universities. But what we have to do is to ensure that such a discovery, which you identify—this new drug, Acelarin, which is developed at Cardiff University—can then be commercialised in Wales.

Wrth gwrs, mae Julie Morgan yn codi pwynt pwysig iawn heddiw, ac rwy'n credu—dim ond o glywed ar draws y Siambr—yr hoffem ni i gyd longyfarch Prifysgol Caerdydd, ond llongyfarch yn benodol yr Athro McGuigan a'r gwyddonwyr hynny yn ei dîm yn y brifysgol, ar ddarganfod yr hyn a allai fod yn driniaeth â chyffuriau newydd pwysig ar gyfer canser. Mae hyn yn adlewyrchu rhagoriaeth yr ymchwil yng Nghymru, ac mae Prifysgol Caerdydd, fel y gwyddoch yn iawn—ac mae'n rhaid i ni ei roi ar y cofnod eto—yn bumed yn y DU o ran ansawdd ymchwil, yn dilyn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ar gyfer asesiad 2014 o holl brifysgolion y DU. Ond yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau y gellir masnacheiddio darganfyddiad o'r fath, fel yr ydych yn ei nodi—y cyffur newydd hwn, Acelarin, sy'n cael ei ddatblygu ym Mhrifysgol Caerdydd—yng Nghymru.

14:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wonder if I might request two statements from the Minister for Economy, Science and Transport, if I may, both on transport matters. Firstly, over recess, there have been reports in the media about the possibility of using surplus London underground units on the Welsh railways. Now, passengers who commute regularly on the Valleys lines and experience the overcrowding there will welcome any sensible solution to those overcrowding issues, but, clearly, there is confusion about how that might actually work in practice, and, if we could have a statement on the rolling stock strategy as we move forward, that would be very helpful.

Tybed a gaf i ofyn am ddau ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, os caf, y ddau ar faterion trafnidiaeth. Yn gyntaf, dros y toriad, cafwyd adroddiadau yn y cyfryngau am y posibilrwydd o ddefnyddio unedau dros ben rheilffyrdd tanddaearol Llundain ar reilffyrdd Cymru. Nawr, bydd teithwyr sy'n cymudo'n rheolaidd ar reilffyrdd y Cymoedd ac yn dioddef y gorlenwi yno'n croesawu unrhyw ateb synhwyrol i'r materion gorlenwi hynny, ond, yn amlwg, ceir dryswch ynglŷn â sut y gallai hynny weithio'n ymarferol, a, pe gallem ni gael datganiad ar y strategaeth cerbydau wrth i ni symud ymlaen, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

A second matter, as regards the airport: we have all been delighted to see Flybe base two aeroplanes at Cardiff Airport, and those services have now started—yesterday, I believe. But I have noticed that Bristol Airport has launched, in retaliation, a significant amount of advertising in south Wales—on buses, at train stations and various things. I'm wondering if we can have a statement on the Welsh Government's support for Cardiff Airport in marketing the new routes, so that we can make sure that they are the success that we would all wish them to be.

Ail fater, o ran y maes awyr: rydym ni i gyd wedi bod yn falch iawn o weld Flybe yn lleoli dwy awyren ym Maes Awyr Caerdydd, ac mae'r gwasanaethau hynny wedi cychwyn erbyn hyn—ddoe, rwy'n credu. Ond rwyf wedi sylwi bod Maes Awyr Bryste wedi lansio, mewn ymateb, llawer iawn o hysbysebu yn ne Cymru—ar fysiau, mewn gorsafoedd trenau ac ar wahanol bethau. Rwy'n meddwl tybed a allwn ni gael datganiad ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Faes Awyr Caerdydd i farchnata'r llwybrau newydd, fel y gallwn ni wneud yn siŵr eu bod yn llwyddo fel y byddem ni i gyd yn dymuno iddyn nhw ei wneud.

14:35 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Eluned Parrott for her questions. Tomorrow, of course, the Minister for Economy, Science and Transport is attending the Enterprise and Business Committee, and I know she will be putting the record straight in terms of your first question. That will be very important in terms of that particular transport issue. I welcome the fact that you are recognising the importance of the Flybe announcement and the new routes that are now going from Cardiff. Of course, part of what happened yesterday with the First Minister, of course, launching those new routes was the marketing, which is, of course, so important, in terms of not only making sure that those new routes are well publicised and that people will then, I am sure, be taking them up, but also recognising the great achievements, in terms of Cardiff Airport, in terms of these new routes and opportunities. And, of course, it is a marketplace.

Diolchaf i Eluned Parrott am ei chwestiynau. Yfory, wrth gwrs, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn bresennol yn y Pwyllgor Menter a Busnes, a gwn y bydd hi'n egluro pethau o ran eich cwestiwn cyntaf. Bydd hynny'n bwysig iawn o ran y mater trafnidiaeth penodol hwnnw. Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn cydnabod pwysigrwydd cyhoeddiad Flybe a'r llwybrau newydd sy'n mynd o Gaerdydd erbyn hyn. Wrth gwrs, rhan o'r hyn a ddigwyddodd ddoe gyda'r Prif Weinidog, wrth gwrs, yn lansio'r llwybrau newydd hynny oedd y marchnata, sydd, wrth gwrs, mor bwysig, nid yn unig o ran gwneud yn siŵr bod y llwybrau newydd hynny'n cael eu hysbysebu'n dda ac y bydd pobl wedyn, rwy'n siŵr, yn manteisio arnynt, ond hefyd dylid cydnabod y llwyddiannau mawr, ynglŷn â Maes Awyr Caerdydd, o ran y llwybrau a'r cyfleoedd newydd hyn. Ac, wrth gwrs, mae'n farchnad.

14:36 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mewn datganiad a lithrodd allan ddydd Gwener diwethaf, cyhoeddodd—mewn datganiad a ddaeth allan dydd Gwener, cyhoeddodd y Llywodraeth eu bod nhw wedi penderfynu newid enw CyMAL, sy'n gofalu am amgueddfeydd, llyfrgelloedd a'r gwasanaeth archifau, i deitl newydd sydd yn cymryd tipyn mwy o amser i'w ddweud. Mae'r uned hon wedi profi llwyddiant dros y blynyddoedd ac mae yna gryn eiddigedd ohoni mewn rhannau eraill o Brydain. A gawn ni ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog yn esbonio beth yw pwrpas hyn, y rheswm dros y newid a'r gost o wneud y newid?

In a statement that slipped out last Friday—in a statement issued last Friday, the Government announced that they had decided to change the name of CyMAL, responsible for museums, libraries and archives, to a new title that takes a lot longer to say. Now, this unit has had some success over the years and there is some envy of it in other parts of Britain. Can we have a statement from the Deputy Minister explaining the purpose of this move, the rationale for the change, and the cost of making that change?

14:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Minister did make that change and he did make a statement, based on the need to ensure that the service and the role of the former CyMAL and the new and enhanced opportunities that come from those services, are clearly described. The Deputy Minister, of course, will respond to any queries on that point.

Wel, wrth gwrs, gwnaeth y Gweinidog y newid hwnnw a gwnaeth ddatganiad, yn seiliedig ar yr angen i sicrhau bod y gwasanaeth a swyddogaeth CyMAL gynt a'r cyfleoedd newydd a gwell sy'n dod o'r gwasanaethau hynny, yn cael eu disgrifio'n eglur. Bydd y Dirprwy Weinidog, wrth gwrs, yn ymateb i unrhyw ymholiadau ynghylch y pwynt hwnnw.

14:38

## 3. Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

## 3. Motions to Elect Members to Committees

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 3, motions to elect Members to committees: unless there are any objections, I propose that the motions are grouped for debate and voted on together. I don't see any objections. I call on a member of the Business Committee to move formally.

Eitem 3, cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau: oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiaf fod y cynigion yn cael eu grwpio i'w trafod ac i bleidleisio arnynt gyda'i gilydd. Nid wyf yn gweld unrhyw wrthwynebiadau. Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i wneud y cynnig yn ffurfiol.

Cynnig NDM5774 Rosemary Butler

Motion NDM5774 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Simon Thomas (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) as a Member of the Constitutional and Legislative Affairs Committee in place of Simon Thomas (Plaid Cymru).

Cynnig NDM5775 Rosemary Butler

Motion NDM5775 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Altaf Hussain (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Janet Finch Saunders (Ceidwadwyr).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Altaf Hussain (Conservatives) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Janet Finch Saunders (Conservatives).

Cynnig NDM5776 Rosemary Butler

Motion NDM5776 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle William Graham (Ceidwadwyr).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Mohammad Asghar (Conservatives) as a member of the Public Accounts Committee in place of William Graham (Conservatives).

Cynnig NDM5777 Rosemary Butler

Motion NDM5777 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Janet Haworth (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.3, elects Janet Haworth (Conservatives) as a member of the Environment and Sustainability Committee.

Cynnig NDM5778 Rosemary Butler

Motion NDM5778 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.3, elects Mohammad Asghar (Conservatives) as a member of the Enterprise and Business Committee.

*Cynigiwyd y cynigion.*

*Motions moved.*

14:38

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yn ffurfiol.

Formally.

14:38

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motions. Does any Member object? The motions are therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar y cynigion. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir y cynigion felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motions agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:38

## 4. Datganiad: Y Camau a Gymerwyd mewn Ymateb i'r Adroddiad Annibynnol ar Tawel Fan

## 4. Statement: Action Taken in response to the Independent Tawel Fan Report

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 4 has been withdrawn.

Tynnwyd Eitem 4 yn ôl.

14:38

## Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69

## Proposal for an Urgent Debate under Standing Order 12.69

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The next item is a motion for an urgent debate. In accordance with Standing Order 12.69, I have accepted a request from Darren Millar to move a motion for an urgent debate. I call on Darren Millar to move the motion.

Yr eitem nesaf yw cynnig ar gyfer dadl frys. Yn unol â Rheol Sefydlog 12.69, rwyf wedi derbyn cais gan Darren Millar i wneud cynnig i gael dadl frys. Galwaf ar Darren Millar i wneud y cynnig.

Cynnig

Motion

Bod y Cynulliad yn ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad i ofal cleifion ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.

That the Assembly considers the findings of an investigation into patient care at the Tawel Fan ward of Bodelwyddan's Glan Clwyd Hospital.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:38

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move the motion for an urgent debate under Standing Order 12.69 on the order paper, that the Assembly considers the findings of an investigation into patient care at the Tawel Fan ward of Bodelwyddan's Glan Clwyd Hospital.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig i gael dadl frys dan Reol Sefydlog 12.69 ar y papur trefn, bod y Cynulliad yn ystyried canfyddiadau ymchwiliad i ofal cleifion ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.

Like everybody in this Chamber, I was absolutely horrified to read the Ockenden report, which was published by the Betsi Cadawladr University Local Health Board last week. The picture it paints of the circumstances that prevailed on the Tawel Fan ward is truly stomach-churning, and I want to see each and every person responsible for the serious failings that have been identified to be held to account for their actions. In moving this motion, I want to thank Ms Ockenden for bringing these matters to light, and for the way in which she's gone about her work. I know, from communication with the families of those affected, that they are very grateful indeed for the sensitive and meticulous way in which she has undertaken her investigation. Of course, the findings of the report make for horrific reading: sickening mistreatment of vulnerable patients on the Tawel Fan ward who, according to family members, were treated like animals; a lack of dignified care; serious breaches of professional standards that nurses and doctors should have upheld but didn't; and failings, of course, not only by front-line staff, but also by managers and clinical leaders within the health board—failings that were not properly identified through the complaints system or, indeed, by Healthcare Inspectorate Wales. And, of course, all of these were in receipt of reports of the concerns by family members and patients going back a number of years. But each one of them failed spectacularly to address those concerns and put them right. Indeed, my own office raised concerns about care on this particular ward on a number of occasions back in 2012, and we were given assurances that everything was okay and in hand by the health board.

Fel pawb yn y Siambr hon, roedd yn gwbl erchyll i mi ddarllen yr adroddiad Ockenden, a gyhoeddwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yr wythnos diwethaf. Mae'r darlun y mae'n ei beintio o'r amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ward Tawel Fan wir yn troi'r stumog, ac rwyf eisiau i bob unigolyn sy'n gyfrifol am y methiannau difrifol a nodwyd fod yn atebol am eu gweithredoedd. Wrth wneud y cynnig hwn, hoffwn ddiolch i Ms Ockenden am ddod â'r materion hyn i'r amlwg, ac am y ffordd y mae hi wedi mynd ati i wneud ei gwaith. Rwy'n gwybod, o gyfathrebu â theuluoedd y rhai a effeithiwyd, eu bod yn ddiolchgar iawn yn wir am y ffordd sensitif a gofalus iawn y mae wedi ymgymryd â'i hymchwiliad. Wrth gwrs, mae canfyddiadau'r adroddiad yn erchyll i'w darllen: camdriniaeth atgas o gleifion agored i niwed ar ward Tawel Fan a gafodd, yn ôl aelodau'r teuluoedd, eu trin fel anifeiliaid; diffyg gofal ag urddas; achosion difrifol o dorri safonau proffesiynol y dylai nyrsys a meddygon fod wedi ei bodloni ond na wnaethant; a methiannau, wrth gwrs, nid yn unig gan staff rheng flaen, ond hefyd gan reolwyr ac arweinwyr clinigol yn y bwrdd iechyd—methiannau na chawsant eu nodi'n briodol drwy'r system gwynion nac, yn wir, gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Ac, wrth gwrs, roedd pob un o'r rhain yn derbyn adroddiadau o'r pryderon gan aelodau'r teuluoedd a chleifion yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd. Ond methodd pob un ohonynt yn syfrdanol i roi sylw i'r pryderon hynny a'u datrys. Yn wir, cododd fy swyddfa fy hun bryderon am ofal ar y ward benodol hon ar sawl achlysur yn ôl yn 2012, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod popeth yn iawn ac mewn llaw gan y bwrdd iechyd.

Healthcare Inspectorate Wales, of course, visited the unit in July 2013, and they did pick up on some issues, but there was a failure, an absolute failure, to follow up on those and ensure that matters were put right. Indeed, the report notes that staff were even discouraged to report concerns to the nurse director at the health board. It is absolutely scandalous.

Ymwelodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â'r uned ym mis Gorffennaf 2013, wrth gwrs, a nodwyd rhai problemau ganddynt, ond bu methiant, methiant llwyr, i wneud gwaith dilynol ar y rheini a sicrhau bod problemau'n cael eu datrys. Yn wir, mae'r adroddiad yn nodi bod staff hyd yn oed wedi cael eu hatal rhag hysbysu'r cyfarwyddwr nyrsio yn y bwrdd iechyd am bryderon. Mae'n gwbl warthus.

The report also, of course, makes 30 recommendations to improve the situation in that particular health board area, and, let's not forget, patient confidence in north Wales is already at rock bottom; this is just the latest in a number of appalling stories that have unfolded in the news over the past few months. And I do believe that it is important that this National Assembly, as a representative of those people in north Wales, considers the matters that are arising from this report, so that the members of the public and all patients in north Wales can have confidence that there's effective scrutiny taking place and that we are doing our job as their elected representatives to bring them to the fore. I move the motion.

Mae'r adroddiad hefyd, wrth gwrs, yn gwneud 30 argymhelliad i wella'r sefyllfa yn ardal y bwrdd iechyd penodol hwnnw, a, gadewch i ni beidio ag anghofio, mae hyder cleifion yn y gogledd eisoes ar ei lefel isaf; dim ond y diweddaraf o nifer o straeon echrydus sydd wedi dod i'r amlwg yn y newyddion yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yw hyn. Ac rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y Cynulliad Cenedlaethol hwn, fel cynrychiolydd y bobl hynny yn y gogledd, yn ystyried y materion sy'n codi o'r adroddiad hwn, fel y gall aelodau'r cyhoedd a'r holl gleifion yn y gogledd fod yn hyderus bod craffu effeithiol yn digwydd a'n bod ni'n gwneud ein gwaith fel eu cynrychiolwyr etholedig i ddod â hwy i'r amlwg. Cynigiaf y cynnig.

14:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services to reply—Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb—Mark Drakeford.

14:41

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Well, the deeply disturbing findings of the Ockenden report deserve serious and sober consideration by this National Assembly. I was fully prepared to make a statement this afternoon and to answer Members' questions on it, but, if Members prefer to have a debate tomorrow afternoon, then that is entirely acceptable to the Government, and we will support the motion this afternoon.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wel, mae canfyddiadau hynod ysgytwol adroddiad Ockenden yn haeddu ystyriaeth ddifrifol a sobr gan y Cynulliad Cenedlaethol hwn. Roeddwn i'n hollol barod i wneud datganiad y prynhawn yma ac i ateb cwestiynau'r Aelodau yn ei gylch, ond, os yw'n well gan yr Aelodau gael dadl brynhawn yfory, yna mae hynny'n hollol dderbyniol i'r Llywodraeth, a byddwn yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma.

14:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If the motion is agreed, the debate will take place in Plenary tomorrow, Wednesday 3 June, immediately after oral questions. The proposal is to agree the motion for an urgent debate. Does any Member object? The motion for urgent debate is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Os caiff y cynnig ei dderbyn, bydd y ddadl yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn yfory, ddydd Mercher 3 Mehefin yn syth ar ôl y cwestiynau llafar. Y cynnig yw derbyn y cynnig i gael dadl frys. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir y cynnig i gael dadl frys, felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

14:42

# 5. Datganiad: Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf—Cyflawni ein Hymrwymiad i Gyfiawnder Ieuenctid yn Llwyddiannus

# 5. Statement: Children and Young People First—Successfully Delivering Our Commitments on Youth Justice

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 5 is a statement by the Minister for Public Services on 'Children and Young People First—Successfully Delivering Our Commitments on Youth Justice', and I call the Minister, Leighton Andrews.

Datganiad yw eitem 5 gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar 'Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf—Llwyddo i Gyflawni ein Hymrwymiadau ar Gyfiawnder Ieuenctid', a galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Llywydd, this is an opportunity to provide Members with a progress report on the first joint strategy of the Welsh Government and the Youth Justice Board for England and Wales, 'Children and Young People First', which was launched last July. We want our work on youth justice to provide life chances for vulnerable young people through our continuing partnership work with the youth justice board and others. The strategy brings together our shared vision and commitment to improve services for children and young people from Wales who are at risk of becoming involved in, or who are already in, the youth justice system.

Ddirprwy Lywydd, dyma gyfle i roi adroddiad i'r Aelodau ar gynnydd y strategaeth gyntaf ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, 'Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf', a lansiwyd fis Gorffennaf diwethaf. Rydym am i'n gwaith ar gyfiawnder ieuenctid ddarparu cyfleoedd bywyd i bobl ifanc agored i niwed drwy ein gwaith partneriaeth parhaus â'r bwrdd cyfiawnder ieuenctid ac eraill. Mae'r strategaeth yn dwyn ynghyd ein gweledigaeth a'n hymroddiad ar y cyd i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc o Gymru sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd eisoes yn rhan ohoni.

We've made significant achievements on preventing and diverting children and young people away from offending. This has resulted in a 54 per cent reduction in the number of first-time entrants into the youth justice system between 2010-11 and 2013-14. We have made similar progress on children and young people in custody, which has reduced by 57 per cent over the same period. Our work is based on three themes: prevention, reducing reoffending, and the effective use of custody. The Welsh Government is providing £5 million in 2015-16 for core funding of projects that contribute to these three themes. They include projects around education, training, leisure, arts, sports, and restorative justice, as well as initiatives to combat substance misuse and divert young people away from crime and anti-social behaviour.

Rydym wedi cyflawni cryn dipyn o ran atal a dargyfeirio plant a phobl ifanc rhag troseddu. Mae hyn wedi arwain at 54 y cant o ostyngiad yn nifer y rhai a aeth i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf rhwng 2010-11 a 2013-14. Rydym wedi gwneud cynnydd tebyg o ran nifer y plant a phobl ifanc yn y ddalfa, sydd wedi gostwng 57 y cant dros yr un cyfnod. Mae ein gwaith yn seiliedig ar dair thema: atal, lleihau aildroseddu, a defnyddio'r ddalfa'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £5 miliwn yn 2015-16 fel cyllid craidd i brosiectau sy'n cyfrannu at y tair thema hyn. Maent yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, hamdden, y celfyddydau, chwaraeon, a chyfiawnder adferol, yn ogystal â mentrau i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau a dargyfeirio pobl ifanc oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

A number of projects in Wales have focused on restorative approaches to dealing with children who've offended for the first time. This means that, instead of being charged, the young person is required to work with the victim of their crime, or to do voluntary work in their community. One example of this is a project called Bureau, a partnership approach between Swansea youth offending team and South Wales Police and which is supported by the wider community safety partnership. The process starts from the point of arrest and provides young people with an opportunity, following various stages of assessment and support, to resolve their offending behaviour and learn from it without receiving a criminal record and therefore blighting their future education and career prospects. Of the 170 children who've been through this restorative approach, 143 have been diverted from the criminal justice system completely.

Mae nifer o brosiectau yng Nghymru wedi canolbwyntio ar ddulliau adferol o ymdrin â phlant sydd wedi troseddu am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r person ifanc, yn hytrach na chael ei gyhuddo, weithio gyda dioddefwr y drosedd, neu wneud gwaith gwirfoddol yn y gymuned. Un enghraifft o hyn yw prosiect o'r enw Biwro, sy'n bartneriaeth rhwng tîm troseddau ieuenctid Abertawe a Heddlu De Cymru gyda chefnogaeth y bartneriaeth diogelwch cymunedol ehangach. Mae'r broses yn dechrau o adeg eu harestio ac yn rhoi cyfle i bobl ifanc, ar ôl gwahanol gamau asesu a chefnogi, i wella eu hymddygiad troseddol a dysgu ohono heb gael record droseddol ac felly amharu ar eu rhagolygon addysg a gyrfa yn y dyfodol. O'r 170 o blant sydd wedi bod drwy'r dull adferol hwn, cafodd 143 eu dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol yn gyfan gwbl.

Another example is the triage project in Cardiff, which is a city-wide diversionary activity programme with a focus on restorative justice, offered at the point of first arrest for a minor offence. The triage process allows for an assessment of the risks and needs of young people at the earliest point after arrest, to inform effective decision making and reduce reoffending. It is delivered by Media Academy Cardiff, which is a voluntary sector organisation, in partnership with South Wales Police.

Enghraifft arall yw'r prosiect brysbennu yng Nghaerdydd, sy'n rhaglen o weithgareddau dargyfeiriol ledled y ddinas sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder adferol, a gynigir pan gaiff rhywun ei arestio gyntaf am fân drosedd. Mae'r broses frysbennu'n golygu y gellir asesu risgiau ac anghenion pobl ifanc yn syth ar ôl eu harestio, i lywio'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol a lleihau aildroseddu. Caiff ei darparu gan Academi Cyfryngau Caerdydd, sefydliad yn y sector gwirfoddol, mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru.

In the second half of 2014-15, 21 young people and their families were helped to maintain accommodation, 30 young people were supported to re-engage with education, training or employment, and 11 young people were referred to the substance misuse service. Other projects have focused on the resettlement of children and young people following a period in custody. Working across Government and external partners, we have developed a specific youth pathway for homelessness services for children, young people and adults in the secure estate. This will ensure that young people in custody, and upon release, get the advice and support they need to assist their resettlement.

Yn ail hanner 2014-15, cafodd 21 o bobl ifanc a'u teuluoedd gymorth i aros yn eu llety, cafodd 30 o bobl ifanc eu cynorthwyo i ymgysylltu o'r newydd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, a chafodd 11 o bobl ifanc eu cyfeirio at y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau. Mae prosiectau eraill wedi canolbwyntio ar ailsefydlu plant a phobl ifanc ar ôl cyfnod yn y ddalfa. Gan weithio ar draws y Llywodraeth a phartneriaid allanol, rydym wedi datblygu llwybr ieuenctid penodol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn sefydliadau diogel. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl ifanc yn y ddalfa, ac ar ôl eu rhyddhau, yn cael y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i ailsefydlu.

We've seen a 9 per cent increase in the frequency of reoffending between 2010-11 and 2012-13. This is partly explained by the increasingly complex needs and persistent patterns of offending of those young people left in the justice system. As well as challenging behaviour, we must ensure that we offer young people the support they need to develop crime-free lives. Resettlement and reintegration on release from custody are a major part of this. Over the last three years, we have worked with the Youth Justice Board for England and Wales to develop effective resettlement support, including housing advice and access to specific support programmes—for example targeting knife crime or substance misuse. I'm pleased that we continue to see the impact of our prevention work, a reduction in first-time entrants and a reduction in custodial sentences. We will build on this over the next year to ensure that all our children and young people are given the chance to fulfil their potential.

Rydym wedi gweld 9 y cant o gynnydd yn amlder aildroseddu rhwng 2010-11 a 2012-13. Mae hyn yn rhannol oherwydd anghenion cynyddol gymhleth a phatrymau troseddu parhaus y bobl ifanc hynny sydd ar ôl yn y system cyfiawnder. Yn ogystal ag ymddygiad heriol, rhaid inni sicrhau ein bod yn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc i ddatblygu bywydau di-drosedd. Mae ailsefydlu ac ailintegreiddio ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa'n rhan fawr o hyn. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweithio gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr i ddatblygu cefnogaeth ailsefydlu effeithiol, gan gynnwys cyngor ar dai a mynediad i raglenni cymorth penodol—er enghraifft targedu troseddau â chyllyll neu gamddefnyddio sylweddau. Rwyf yn falch ein bod yn dal i weld effaith ein gwaith atal, gostyngiad yn nifer y rhai sy'n mynd i sefydliadau diogel am y tro cyntaf a llai o ddedfrydau o garchar. Byddwn yn adeiladu ar hyn dros y flwyddyn nesaf i sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyflawni eu potensial.

14:47

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your statement. You didn't refer to cross-border youth justice matters. We know the number of young offenders sent to secure custody currently cannot be accommodated within Wales—a matter, I know, considered by the Communities and Culture Committee in its inquiry in the last Assembly. I wonder if you could comment, therefore, on arrangements for management of those cross-border custodial sentences. In that 2010 Communities and Culture Committee report on Welsh children in the secure estate, the Welsh Government accepted in principle recommendations applying to the role of support agencies, contact with families and carers, care planning, access to treatment, mental health support, education and much more—but only in principle. At that time, I highlighted the need to bring together the independent third sector with the public sector, putting the child at the centre, which would not be more expensive if we changed the way we did things. I wonder if you could comment, therefore, on the wider role of the independent voluntary sector.

Diolch yn fawr am eich datganiad. Ni chyfeiriasoch at faterion cyfiawnder ieuenctid trawsffiniol. Gwyddom nad oes digon o le yng Nghymru i nifer y troseddwyr ifanc a anfonir i sefydliadau diogel ar hyn o bryd—mater, fe wn, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn ei ymchwiliad yn y Cynulliad diwethaf. Tybed a allech roi sylwadau, felly, am drefniadau i reoli'r dedfrydau trawsffiniol hynny o garchar. Yn yr adroddiad hwnnw yn 2010 gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar blant Cymru mewn sefydliadau diogel, derbyniodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor argymhellion sy'n berthnasol i swyddogaeth asiantaethau cymorth, cyswllt â theuluoedd a gofalwyr, cynllunio gofal, mynediad at driniaeth, cymorth iechyd meddwl, addysg a llawer mwy—ond dim ond mewn egwyddor. Ar y pryd, tynnais sylw at yr angen i ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus, gan roi'r plentyn yn y canol; ni fyddai hynny'n fwy costus pe baem yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Tybed a allech wneud sylw, felly, am swyddogaeth ehangach y sector gwirfoddol annibynnol.

As you indicate, and as the Youth Justice Board Cymru has told me and others, the number of first-time entrants into the youth justice system in Wales is continuing to fall, but reoffending has increased amongst a small group of young people with entrenched patterns of offending behaviour linked to complex needs remaining in the system. These are the very sort of young people for whom restorative justice, for example, might be least effective as a first intervention. I'm wondering what consideration or what engagement you've had regarding this particular group of young people, particularly given evidence to that 2010 committee report from the youth justice board that did indicate a reduction in first-time entrants to the youth justice system, but also said that the figures didn't include those issued with what we then had: penalty notices for disorder. So, again, how can we ensure early intervention with those groups to prevent things deteriorating?

Fel yr ydych yn ei nodi, ac fel y mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru wedi dweud wrthyf fi ac eraill, mae nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf yng Nghymru'n parhau i ostwng, ond mae aildroseddu wedi cynyddu ymhlith grŵp bychan o bobl ifanc â phatrymau sefydledig o ymddygiad troseddol sy'n gysylltiedig ag anghenion cymhleth sy'n dal i fod yn y system. Dyma'n union y math o bobl ifanc y byddai cyfiawnder adferol, er enghraifft, leiaf effeithiol iddynt fel ymyriad cyntaf. Tybed pa ystyriaeth neu pa ymgysylltu ydych chi wedi'i gael ynghylch y grŵp penodol hwn o bobl ifanc, yn enwedig gan fod tystiolaeth gan y bwrdd cyfiawnder ieuenctid i'r adroddiad hwnnw gan y pwyllgor yn 2010 yn awgrymu gostyngiad yn y nifer a oedd yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf, ond hefyd yn dweud nad oedd y ffigurau'n cynnwys y rhai a gafodd yr hyn a oedd gennym ar y pryd: hysbysiadau cosb am anhrefn. Felly, unwaith eto, sut y gallwn sicrhau ymyrraeth gynnar gyda'r grwpiau hynny i atal pethau rhag gwaethygu?

For those at transition from childhood to adult services, they will now fall under the Wales Community Rehabilitation Company owned by Working Links, the private/public/voluntary sector company, working with low and medium-risk offenders, managing community sentences and giving them knowledge, skills and support to enable them to stop offending. So, what engagement does the Welsh Government have with the Wales Community Rehabilitation Company and Working Links on that basis for those young people hitting those key transition points?

Bydd y rheini sy'n pontio o blentyndod i wasanaethau i oedolion yn awr yn dod o dan Gwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, sy'n eiddo i Working Links, y cwmni sector preifat / cyhoeddus / gwirfoddol, sy'n gweithio gyda throseddwyr risg isel a chanolig i reoli dedfrydau cymunedol ac yn rhoi gwybodaeth, sgiliau a chefnogaeth iddynt i'w galluogi i roi'r gorau i droseddu. Felly, sut y mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a Working Links ar y sail honno ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n taro'r cyfnodau pontio allweddol hynny?

Finally—again a plug for north Wales, and I know one endorsed by your own colleagues in north Wales—what consideration have you given to the role, in north Wales, of the Justice in a Day project, which began in Flintshire and was rolled out across the six counties, delivered by the Police Community Trust in partnership with Clwyd Theatr Cymru, discouraging young people from going down the route of criminality by making informed choices, encouraging good citizenship, and giving teenagers an insight into the consequences of offending? Thank you.

Yn olaf—i mi gael hybu'r gogledd unwaith eto, a gwn fod eich cydweithwyr chithau yn y gogledd yn cymeradwyo hyn—pa ystyriaeth ydych chi wedi'i rhoi i swyddogaeth, yn y gogledd, y prosiect Cyfiawnder mewn Diwrnod, a ddechreuodd yn Sir y Fflint ac a gyflwynwyd ar draws y chwe sir, wedi'i ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gymunedol yr Heddlu mewn partneriaeth â Clwyd Theatr Cymru, i annog pobl ifanc i beidio â throi at droseddu drwy wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, annog dinasyddiaeth dda, a rhoi cipolwg i bobl ifanc yn eu harddegau ar ganlyniadau troseddu? Diolch.

14:50

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A number of questions were raised by the Member, to which I will refer. Of course, I had a number of meetings with the previous UK Government in respect of cross-border youth justice issues, including young people who are within the secure estate housed in England. There have been a number of issues that have arisen that we've talked in detail with them around, such as curriculum and educational issues, which would be different if they had been here in Wales, rather than in England. But there are many issues that we've talked about and I think I've provided Members with updates and answers on those over recent months.

Cododd yr Aelod nifer o gwestiynau, a byddaf yn cyfeirio atynt. Wrth gwrs, cefais nifer o gyfarfodydd â Llywodraeth flaenorol y DU ynglŷn â materion cyfiawnder ieuenctid trawsffiniol, gan gynnwys pobl ifanc sydd mewn sefydliadau diogel yn Lloegr. Rydym wedi siarad yn fanwl â hwy ynglŷn â nifer o faterion sydd wedi codi, megis materion cwricwlaidd ac addysgol, a fyddai'n wahanol pe baent yma yng Nghymru, yn hytrach nag yn Lloegr. Ond rydym wedi siarad am lawer o faterion a chredaf fy mod wedi rhoi diweddariadau ac atebion i'r Aelodau am y rheini dros y misoedd diwethaf.

The Member referred to the 2010 committee report. Obviously, we've taken forward many of those recommendations in co-operation with the Youth Justice Board Cymru. The Member is right to draw attention to a number of third sector support agencies, and it's fair to say that there are some excellent agencies doing very good work in this area, but there's also work being carried out, for example by the fire and rescue service, often working with first-time offenders, bringing them into schemes, such as the ones I've seen recently.

Cyfeiriodd yr Aelod at adroddiad y pwyllgor yn 2010. Yn amlwg, rydym wedi bwrw ymlaen â llawer o'r argymhellion hynny mewn cydweithrediad â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Mae'r Aelod yn iawn i dynnu sylw at nifer o asiantaethau cymorth trydydd sector, ac mae'n deg dweud bod rhai asiantaethau rhagorol sy'n gwneud gwaith da iawn yn y maes hwn, ond mae gwaith hefyd yn cael ei wneud, er enghraifft, gan y gwasanaeth tân ac achub, sy'n aml yn gweithio gyda throseddwyr tro cyntaf, gan ddod â hwy i mewn i gynlluniau, fel y rhai yr wyf wedi'u gweld yn ddiweddar.

The Member referred to intervention with first-time offenders in particular. I think some of the schemes I've outlined, such as the triage scheme and the Swansea Bureau scheme have a good record in that regard. We see Youth Justice Board Cymru as being the lead in respect of relationships with organisations such as Working Links and the Wales Community Rehabilitation Company, but of course my officials are engaged fully in that process. There will be a number of issues that have a bearing on the whole issue of youth justice, resulting from the police Bill that was announced in the new UK Government's Queen's Speech, which will have specific implications for Wales. Obviously, we will be looking very closely at those. I'm pleased to hear of the Member's support, and I know that this is extended around the Chamber, for the Justice in a Day project in north Wales. I will seek to visit that project when I am on a future visit to north Wales.

Cyfeiriodd yr Aelod yn benodol at ymyriadau â throseddwyr tro cyntaf. Credaf fod gan rai o'r cynlluniau yr wyf wedi cyfeirio atynt, megis y cynllun brysbennu a chynllun Biwro Abertawe, hanes da yn hynny o beth. Rydym yn gweld Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru fel arweinydd o ran y berthynas â sefydliadau fel Working Links a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, ond wrth gwrs mae fy swyddogion yn cymryd rhan lawn yn y broses honno. Bydd nifer o faterion sy'n berthnasol i gyfiawnder ieuenctid, yn deillio o Fil yr heddlu a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines Llywodraeth newydd y DU, a fydd yn peri goblygiadau penodol i Gymru. Yn amlwg, byddwn yn edrych yn ofalus iawn ar y rheini. Rwyf yn falch o glywed am gefnogaeth yr Aelod, a gwn fod hynny'n wir o amgylch y Siambr, i'r prosiect Cyfiawnder mewn Diwrnod yn y gogledd. Byddaf yn ceisio ymweld â'r prosiect pan fyddaf ar ymweliad â'r gogledd yn y dyfodol.

14:53

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the Minister's statement today. I think this is a good-news story. Obviously, offending is being receded and the number of children and young people in custody has gone down. The area still to tackle is the persistent small group of offenders who reoffend. I think that the projects that the Minister has mentioned today are exactly the sort that will help tackle that.

Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog heddiw. Credaf fod hon yn stori newyddion da. Yn amlwg, mae troseddu'n gostwng ac mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y ddalfa wedi gostwng. Y maes y mae angen rhoi sylw iddo o hyd yw'r grŵp bach o droseddwyr sy'n dal i aildroseddu. Credaf fod y prosiectau y mae'r Gweinidog wedi sôn amdanynt heddiw yn union y math o brosiectau a fydd yn helpu i ymdrin â hynny.

I did have a few questions. The pattern has generally been for children and young offenders to be male. I wondered whether the Minister had any information about what's happened to young female offenders, and whether any particular arrangements were made for them.

Roedd gennyf rai cwestiynau. Y patrwm yn gyffredinol yw mai bechgyn a dynion ifanc yw'r troseddwyr hyn. Tybed a oes gan y Gweinidog unrhyw wybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd i droseddwyr ifanc benywaidd, ac a wnaethpwyd unrhyw drefniadau arbennig ar eu cyfer.

I also wondered, as there's been a great reduction in the number of children and young people in custody. Do we have any idea what number are actually left in Wales? I presume we do have English young people who are placed in secure accommodation in Wales. Again, I wondered how we actually address that issue, because obviously we need to ensure that they receive a good service, as well. So, I think the partnership with the Welsh Government and the youth justice board is absolutely essential. I wish that this progress could be reflected in what is happening to adult offenders, but I think that this is really going along exactly the right lines, and I congratulate the Government on what is being achieved.

Tybed hefyd, gan fod gostyngiad mawr wedi bod yn nifer y plant a phobl ifanc yn y ddalfa, a oes gennym syniad pa nifer sydd ar ôl mewn gwirionedd yng Nghymru? Rwyf yn cymryd bod gennym bobl ifanc o Loegr sy'n cael eu rhoi mewn sefydliadau diogel yng Nghymru. Unwaith eto, tybed sut yr ydym mewn gwirionedd yn ymdrin â hynny, oherwydd wrth gwrs mae angen inni sicrhau eu bod hwythau'n cael gwasanaeth da. Felly, credaf fod y bartneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r bwrdd cyfiawnder ieuenctid yn gwbl hanfodol. Hoffwn weld y cynnydd hwn yn cael ei adlewyrchu yn yr hyn sy'n digwydd i droseddwyr sy'n oedolion, ond credaf fod hyn yn mynd ar hyd y llinellau cywir, ac rwyf yn llongyfarch y Llywodraeth ar yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank my colleague, the Member for Cardiff North, for what she's said? She's right to highlight the positive stories that are contained within the statement that I've given today.

A gaf fi ddiolch i'm cyd-Aelod, Aelod Gogledd Caerdydd, am yr hyn y mae wedi'i ddweud? Mae hi'n iawn i dynnu sylw at y storïau cadarnhaol sydd yn y datganiad yr wyf wedi'i roi heddiw.

She asked specifically about female offenders, and clearly there is work that is going on with the national offender management service in that regard, and I'd be happy to talk to her separately about that. She asked specifically for numbers, rather than percentages. So, the number of actual full-time equivalents has fallen from 1,387 first-time entrants in 2013 to 954 young people in 2014. So, that in itself was a decline of 31 per cent. I will write to her with the full set of figures, rather than take the full time of the Chamber here now.

Gofynnodd yn benodol am droseddwyr benywaidd, ac wrth gwrs mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r gwasanaeth cenedlaethol rheoli troseddwyr yn hynny o beth, a byddwn yn hapus i siarad â hi ar wahân am hynny. Gofynnodd yn benodol am niferoedd, yn hytrach na chanrannau. Felly, mae'r nifer gwirioneddol cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng o 1,387 o bobl ifanc yn mynd i sefydliadau diogel am y tro cyntaf yn 2013 i 954 yn 2014. Felly, roedd hynny ynddo'i hun yn ostyngiad o 31 y cant. Ysgrifennaf ati â'r set lawn o ffigurau, yn hytrach na chymryd amser llawn y Siambr yma nawr.

14:55 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement. The One Wales Government, of course, as you will remember, first committed to considering the potential for the devolution of some or all of the criminal justice system back before 2011, and that was followed by the Welsh Government's response to Silk part 2, which said that Welsh Ministers should have executive responsibilities in relation to youth justice. So, the Silk commission, again, agreeing to state that:

Weinidog, diolch am y datganiad. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru'n Un, wrth gwrs, fel y byddwch yn cofio, am y tro cyntaf i ystyried potensial datganoli rhywfaint neu'r cyfan o'r system cyfiawnder troseddol yn ôl cyn 2011, ac yna cafwyd ymateb Llywodraeth Cymru i Silk rhan 2, a oedd yn dweud y dylai fod gan Weinidogion Cymru gyfrifoldebau gweithredol dros gyfiawnder ieuenctid. Felly, cytunodd comisiwn Silk, unwaith eto, i ddatgan:

'We…believe that the…treatment and rehabilitation of youth offenders should be devolved, particularly bearing in mind the close links that exist with services provided by local authorities.'

Rydym...yn credu y dylai...trin ac adsefydlu troseddwyr ifanc gael eu datganoli, yn enwedig ac ystyried y cysylltiadau agos sydd â gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol.

So, can you tell us what advancement you've made on those particular areas in terms of the devolved nature of the discussion? Also, could you tell us—I know you've responded to Mark Isherwood in terms of the cross-border co-ordination—do you believe that the current set-up is working, or can changes be made to improve that cross-border situation?

Felly, a allwch ddweud wrthym pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud yn y meysydd penodol hynny o ran natur ddatganoledig y drafodaeth? Hefyd, a allech ddweud wrthym—gwn eich bod wedi ymateb i Mark Isherwood ynglŷn â'r cydlynu trawsffiniol—a ydych yn credu bod y trefniant presennol yn gweithio, ynteu a ellir gwneud newidiadau i wella'r sefyllfa drawsffiniol?

The Minister for Local Government and Government Business announced the intention to proceed with a White Paper, followed by a Bill introduced by the National Assembly for Wales in 2016, but then the Welsh Government announced last year that it had decided not to introduce legislation during this Assembly term. Can you tell us a bit more about the delay, because I believe that a youth justice Bill could help to ensure that best practice is implemented across Wales and that the children first, offending second principle could be meaningfully applied? I'd be interested to hear your views as to whether you agree with that particular principle.

Cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y bwriad i fwrw ymlaen â Phapur Gwyn, ac yna Fil a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym 2016, ond yna cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y llynedd ei bod wedi penderfynu peidio â chyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Cynulliad hwn. A allwch ddweud ychydig mwy wrthym am yr oedi, oherwydd credaf y gallai Bil cyfiawnder ieuenctid helpu i sicrhau bod arfer gorau'n cael ei roi ar waith ledled Cymru ac y gellid defnyddio'r egwyddor plant yn gyntaf, troseddu'n ail mewn modd ystyrlon? Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich barn ynghylch a ydych yn cytuno â'r egwyddor benodol honno.

You rightly mentioned the bureau in Swansea, which has been praised for the success it has had in diverting young children from the criminal justice system, but what mechanisms are in place for sharing that best practice, now that they have been seen as one of the leaders in the restorative justice field? Will it help if legislation is introduced in the future?

Soniasoch yn briodol am y biwro yn Abertawe, sydd wedi cael ei ganmol am lwyddo i ddargyfeirio plant ifanc o'r system cyfiawnder troseddol, ond pa fecanweithiau sydd ar waith i rannu'r arfer gorau hwnnw, yn awr eu bod wedi cael eu gweld yn un o'r arweinwyr ym maes cyfiawnder adferol? A fyddai o gymorth cyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol?

I'd also like to ask briefly about other potential schemes that could be used for restorative justice. For example, last week, I was in London as part of the Money for Life awards, which are awards for young people coming up with money-saving schemes and money-creating schemes. The team that won was from Scotland, and they were young offenders in prison in Scotland. It was so that they could save for when they eventually leave—and I know that there's one in Swansea as well, with the credit union there. These are novel schemes that young people within the criminal justice system can be utilising so that they are not branded as criminals for the rest of their lives.

Hoffwn hefyd ofyn yn fyr am gynlluniau posibl eraill y gellid eu defnyddio ar gyfer cyfiawnder adferol. Er enghraifft, yr wythnos diwethaf, roeddwn yn Llundain fel rhan o wobrau Money for Life, sef gwobrau i bobl ifanc sy'n dyfeisio cynlluniau arbed arian a chynlluniau creu arian. Tîm o'r Alban a enillodd, ac roeddent yn droseddwyr ifanc yn y carchar yn yr Alban. Diben eu cynllun oedd eu galluogi i gynilo ar gyfer gadael yn y pen draw—a gwn fod yna un yn Abertawe hefyd, gyda'r undeb credyd yno. Mae'r rhain yn gynlluniau blaengar y gall pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol fod yn eu defnyddio fel nad ydynt yn cael eu brandio fel troseddwyr am weddill eu bywydau.

14:58

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Plaid Cymru spokesperson for her questions? She started by referring to Silk and the outcomes of Silk in respect of criminal justice. As she will be aware, it is likely that the outcome of the recent general election means that we will not be seeing the progress that we had anticipated in that area taking place, though I have today written to the new Secretary of State for Justice, Michael Gove, to explore future conversations around a number of issues—and to renew an acquaintance, obviously.

A gaf fi ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am ei chwestiynau? Dechreuodd drwy gyfeirio at Silk a chanlyniadau Silk o ran cyfiawnder troseddol. Fel y bydd hi'n gwybod, mae'n debygol bod canlyniad yr etholiad cyffredinol diweddar yn golygu na fyddwn yn gweld y cynnydd yr oeddem wedi'i ragweld yn y maes hwnnw'n digwydd, er fy mod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Gyfiawnder heddiw, Michael Gove, i drafod sgyrsiau yn y dyfodol ynglŷn â nifer o faterion—ac i ddod yn gyfarwydd ag ef eto, wrth gwrs.

In respect of cross-border arrangements, there were, I felt, relatively satisfactory meetings with the previous Government in respect of cross-border arrangements, and it's again too early to say how those relationships will develop under the new Government, I think.

O ran trefniadau trawsffiniol, yn fy marn i, cafwyd cyfarfodydd gweddol foddhaol â'r Llywodraeth flaenorol o ran trefniadau trawsffiniol, ac unwaith eto mae'n rhy gynnar i ddweud sut y bydd y cysylltiadau hynny'n datblygu o dan y Llywodraeth newydd, rwyf yn meddwl.

I congratulate the Member on using the opportunity to bring to bear another of her passions in her question—in other words, the issue of financial education. I think that the scheme that she outlined is of interest, and perhaps she'd like to write to me about that, and we can see if there are lessons that can be learned from it in Wales.

Rwyf yn llongyfarch yr Aelod am ddefnyddio'r cyfle yn ei chwestiwn i sôn am bwnc arall y mae'n teimlo'n angerddol amdano—mewn geiriau eraill, addysg ariannol. Credaf fod y cynllun a amlinellodd yn ddiddorol, ac efallai yr hoffai ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny, a chawn weld a oes gwersi y gellir eu dysgu o hynny yng Nghymru.

In respect of the previous proposed legislation, I think, obviously, she is aware of the content of the statement by my predecessor on that. I think what we have done is to take forward the joint Welsh Government and youth justice board strategy, which was launched by my predecessor, of course, Children and Young People First, last July. I think that provides us with the mechanism for the spreading of best practice through different networks within Wales. I think it's right to say that we have a very good working relationship with Youth Justice Board Cymru. My officials regularly meet with the youth justice board. I have had several meetings and we have looked, within my own policy board within the department, at the ways in which we can work even more closely with YJB in the future.

O ran y ddeddfwriaeth arfaethedig flaenorol, credaf ei bod, wrth gwrs, yn gwybod am gynnwys datganiad fy rhagflaenydd am hynny. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yw bwrw ymlaen â strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r bwrdd cyfiawnder ieuenctid, a lansiwyd gan fy rhagflaenydd, wrth gwrs, Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, fis Gorffennaf diwethaf. Credaf ei bod yn rhoi mecanwaith inni i ledaenu arfer gorau drwy wahanol rwydweithiau yng Nghymru. Credaf ei bod yn deg dweud bod gennym berthynas waith dda iawn â Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â'r bwrdd cyfiawnder ieuenctid. Rwyf wedi cael sawl cyfarfod ac rydym wedi edrych, o fewn fy mwrdd polisi fy hun yn yr adran, ar y ffyrdd y gallwn weithio'n agosach fyth â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn y dyfodol.

15:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I also welcome the reduction in youth offending figures, which, obviously, were down to very effective partnership working between the present Welsh Government and the previous coalition Government, of course, in actually achieving that, seeing as most of this is not devolved? But, I think, it's very good that that is happening. Can I also commend the restorative justice programmes? I have seen some of these in action and I think they're very effective. Will the Minister say how he's planning to roll out those programmes across the whole of Wales? Clearly, Swansea and Cardiff have been highlighted in his statement, and I think that many other parts of Wales would benefit from that as well.

Hoffwn hefyd groesawu'r gostyngiad yn y ffigurau troseddau ieuenctid, a oedd, yn amlwg, yn ganlyniad i waith partneriaeth effeithiol iawn rhwng Llywodraeth bresennol Cymru a'r Llywodraeth glymblaid flaenorol, wrth gwrs, o ran cyflawni hynny, gan nad yw'r rhan fwyaf o hyn wedi'i ddatganoli. Ond, credaf ei bod yn beth da iawn fod hynny'n digwydd. A gaf fi hefyd gymeradwyo'r rhaglenni cyfiawnder adferol? Rwyf wedi gweld rhai o'r rhain ar waith a chredaf eu bod yn effeithiol iawn. A wnaiff y Gweinidog ddweud sut y mae'n bwriadu cyflwyno'r rhaglenni hynny ledled Cymru gyfan? Yn amlwg, mae Abertawe a Chaerdydd wedi cael sylw yn ei ddatganiad, a chredaf y byddai sawl rhan arall o Gymru yn elwa o hynny hefyd.

In terms of the issue of prisoners, I am concerned about the impact of the changes to homeless priorities on young offenders as they leave prison and in ensuring that they have accommodation to go to. I'd be grateful if the Minister could say what work is being done by the Welsh Government to ensure that the change in priorities is not going to lead to an increase in reoffending among young prisoners, and whether there are arrangements in place to ensure that those people will have accommodation when they come out of prison. Equally, with regard to the point that Bethan Jenkins raised around the credit union—the very successful credit union project in Swansea prison—my understanding is that the National Offender Management Service has changed the arrangements around that credit union programme, which is putting the whole thing in jeopardy. I think that it has proved to be very good in terms of making sure that, as prisoners leave prison, they not only have resources they can draw on, but also that they are able to support their families through charging up their cards while they're in prison as part of that. I'd be grateful if the Minister could work with his colleague, the Minister for Communities and Tackling Poverty, in terms of liaising with NOMS and the justice ministry to try to ensure that that programme is kept in Swansea prison and possibly rolled out to other prisons in Wales as well, where, I think it would be of great value in terms of preventing reoffending, and particularly among young people who haven't got any record of financial management of their own resources.

O ran carcharorion, rwyf yn pryderu am effaith y newidiadau i flaenoriaethau digartrefedd ar droseddwyr ifanc wrth iddynt adael y carchar ac o ran sicrhau bod ganddynt lety i fynd iddo. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud pa waith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i sicrhau na fydd newid y blaenoriaethau'n arwain at gynnydd mewn aildroseddu ymhlith carcharorion ifanc, ac a oes trefniadau ar waith i sicrhau y bydd y bobl hynny'n cael llety pan fyddant yn dod allan o'r carchar. Yn yr un modd, o ran y pwynt a gododd Bethan Jenkins ynghylch yr undeb credyd—y prosiect undeb credyd llwyddiannus iawn yng ngharchar Abertawe—rwyf ar ddeall bod y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi newid y trefniadau ar gyfer y rhaglen undeb credyd honno, sy'n peryglu'r holl beth. Credaf fod y rhaglen wedi bod yn dda iawn o ran gwneud yn siŵr, wrth i garcharorion adael y carchar, nid yn unig fod adnoddau ar gael iddynt, ond hefyd eu bod yn gallu cefnogi eu teuluoedd drwy lenwi eu cardiau tra byddant yn y carchar fel rhan o hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog weithio gyda'i gydweithiwr, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, o ran cysylltu â NOMS a'r weinyddiaeth gyfiawnder i geisio sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chadw yng ngharchar Abertawe ac o bosibl ei chyflwyno i garchardai eraill yng Nghymru, yn ogystal, lle y credaf y byddai o werth mawr o ran atal aildroseddu, ac yn enwedig ymhlith pobl ifanc heb ddim hanes o reoli eu harian eu hunain.

15:02

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Okay, I am grateful to the Liberal Democrat's spokesperson for his recognition of the achievements that have been made in terms of reducing youth offending and first-time entry. Can I say to him in respect of rolling out of other projects, obviously, we have a £4.9 million youth crime prevention fund, which supports a variety of projects across Wales, as I mentioned in the statement. Youth offending teams and their management boards play a key role in determining how that funding is used. I certainly want to see the sharing of best practice within any of the schemes that we have. He will be aware that the former Minister for Local Government and Communities appointed a group to look at the whole issue of prisoners and housing, as a result of the deliberations that took place on the recent legislation that went through the Assembly, and that has made a number of recommendations. But, we also have in place, of course, the resettlement programme, which is there to improve the way in which local authorities, including youth offending teams, probation and the secure estate in Wales work together to resettle young people placed in custody and, indeed, those serving high-tariff community sentences once they've completed their sentences. Obviously, I can give the Member further details of that scheme, which the Welsh Government supports, if he wants to know more.

Iawn, rwyf yn ddiolchgar i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am gydnabod y llwyddiannau o ran lleihau troseddau ieuenctid a mynd i sefydliadau diogel am y tro cyntaf. A gaf fi ddweud wrtho o ran cyflwyno prosiectau eraill, yn amlwg, mae gennym gronfa £4.9 miliwn i atal troseddau ieuenctid, sy'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau ledled Cymru, fel y nodais yn y datganiad. Mae timau troseddau ieuenctid a'u byrddau rheoli'n chwarae rhan allweddol wrth benderfynu sut i ddefnyddio'r cyllid hwnnw. Yn sicr, hoffwn weld rhannu arfer gorau o fewn unrhyw un o'r cynlluniau sydd gennym. Bydd yn gwybod bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau blaenorol wedi penodi grŵp i edrych ar holl fater carcharorion a thai, yn sgil trafodaethau a gynhaliwyd ar y ddeddfwriaeth ddiweddar a aeth drwy'r Cynulliad, ac mae hwnnw wedi gwneud nifer o argymhellion. Ond, mae gennym hefyd, wrth gwrs, y rhaglen ailsefydlu, sydd yno i wella'r ffordd y mae awdurdodau lleol, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid, y gwasanaeth prawf a sefydliadau diogel yng Nghymru'n cydweithio i ailsefydlu pobl ifanc sy'n cael eu rhoi yn y ddalfa ac, yn wir, y rheini sy'n bwrw dedfrydau cymunedol tariff uchel cyn gynted ag y byddant wedi cwblhau eu dedfrydau. Wrth gwrs, gallaf roi manylion pellach i'r Aelod am y cynllun hwnnw, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, os hoffai gael gwybod mwy.

In respect of what he said about the credit unions in Swansea prison and the approach of NOMS, perhaps he could write to me in detail with his concerns around that and I will discuss that both with NOMS and with my colleague, the Minister for Tackling Poverty and Communities.

O ran yr hyn a ddywedodd am yr undebau credyd yng ngharchar Abertawe a dulliau NOMS, efallai y gallai ysgrifennu ataf yn fanwl â'i bryderon am hynny a thrafodaf hynny â NOMS a'm cydweithiwr, y Gweinidog Trechu Tlodi a Chymunedau.

15:04

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to join others, Dirprwy Lywydd, in very much welcoming these impressive reductions in young people going into custody and, indeed, young people entering the youth justice system for the first time. It is seriously good news for Wales, which will benefit our communities, the young people and their families, and, hopefully, result in far fewer victims of crime in the future. Amongst the wide-ranging benefits of these improvements, Minister, I think, is a substantial saving to the public purse. It's very expensive to put young people into custody, and it's very expensive to put young people through the justice system. I wonder if you could say a little bit about what recognition there is in terms of savings to the UK Government from these improvements and how that relates to the funding for the work required—Welsh Government funding and, indeed, UK Government funding.

Hoffwn ymuno ag eraill, Ddirprwy Lywydd, i groesawu'n fawr iawn y gostyngiadau trawiadol hyn yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r ddalfa ac, yn wir, yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Mae'n newyddion da iawn i Gymru, a bydd o fudd i'n cymunedau, i'r bobl ifanc ac i'w teuluoedd, a bydd yn golygu, rwyf yn gobeithio, fod llai o lawer o bobl yn dioddef troseddau yn y dyfodol. Ymhlith manteision eang y gwelliannau hyn, Weinidog, mae arbediad sylweddol i'r pwrs cyhoeddus. Mae'n ddrud iawn rhoi pobl ifanc yn y ddalfa, ac mae'n ddrud iawn rhoi pobl ifanc drwy'r system gyfiawnder. Tybed a allech ddweud ychydig am y gydnabyddiaeth o ran arbedion i Lywodraeth y DU yn sgil y gwelliannau hyn a sut y mae hynny'n berthnasol i'r cyllid ar gyfer y gwaith sydd ei angen—cyllid Llywodraeth Cymru ac, yn wir, cyllid Llywodraeth y DU.

15:05

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank my colleague, the Member for Newport East, for his recognition of the achievements that have been made here in Wales in respect of the reduction in youth offending? I think it's significant, I think it is a good news story for Wales and it is worth drawing attention to. I don't have to hand figures of the kind that he mentions in respect of savings to UK Government, but it's a very fair and interesting question and one I will explore.

A gaf fi ddiolch i'm cyd-Aelod, Aelod Dwyrain Casnewydd, am gydnabod y llwyddiannau sydd wedi bod yma yng Nghymru o ran y gostyngiad mewn troseddau ieuenctid? Credaf fod hyn yn arwyddocaol, credaf fod yma stori newyddion da i Gymru ac mae'n werth tynnu sylw ati. Nid oes rhaid imi roi ffigurau o'r math y mae'n sôn amdanynt ynglŷn ag arbedion i Lywodraeth y DU, ond mae'n gwestiwn teg a diddorol iawn ac yn un y byddaf yn ei archwilio.

15:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:06

## 6. Datganiad: Y Diweddaraf am y Gronfa Buddsoddi i Arbed

## 6. Statement: Update on the Invest-to-save Fund

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Item 6 is a statement by the Minister for Finance and Government Business—an update on the invest-to-save fund, and I call the Minister, Jane Hutt.

Datganiad yw eitem 6 gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth—diweddariad am y gronfa buddsoddi i arbed, a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

15:06 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Dirprwy Lywydd, I am glad to have the opportunity to update Assembly Members on the Welsh Government's invest-to-save fund. This Government is committed to the continuous improvement of services across all areas of the Welsh public sector. The financial settlement for Wales will continue to be challenging for the foreseeable future, and it is crucial that we continue to look for every opportunity to be innovative in our use of resources.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn falch o gael cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad am gronfa buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i wella gwasanaethau'n barhaus ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y setliad ariannol i Gymru'n parhau i fod yn heriol yn y dyfodol rhagweladwy, ac mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i chwilio am bob cyfle i ddefnyddio adnoddau mewn modd arloesol.

On 10 March, I published details of the latest projects that the invest-to-save fund is supporting in 2015-16. The response level to the last round was extremely encouraging, with a high level of interest and a good deal of evidence that the message of picking up good practice is followed. The 23 schemes that I announced in March was the first tranche of projects from the bidding round, and this afternoon I am pleased to be able to provide Members with details of further projects.

Ar 10 Mawrth, cyhoeddais fanylion y prosiectau diweddaraf y mae'r gronfa buddsoddi i arbed yn eu cefnogi yn 2015-16. Roedd lefel yr ymateb i'r rownd ddiwethaf yn hynod galonogol; cafwyd llawer o ddiddordeb a chryn dipyn o dystiolaeth bod y neges ynghylch efelychu arfer da'n cael ei dilyn. Y 23 o gynlluniau a gyhoeddais ym mis Mawrth oedd cyfran gyntaf prosiectau'r cylch ceisiadau, a'r prynhawn yma rwyf yn falch o allu rhoi manylion prosiectau eraill i'r Aelodau.

Eight hundred and twenty five thousand pounds is being allocated to Betsi Cadwaladr university health board for two projects, the first of which is the installation of LED lighting in their district general hospitals—Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, and Wrexham Maelor Hospital—which will be fully converted to the new technology to produce savings of approximately £103,000 per annum, and which will reduce the carbon emissions of the board by 483 tonnes per annum. During this bidding round, we have supported a total of six such projects across Wales with an investment of £1.5 million.

Mae wyth cant dau ddeg pum mil o bunnau'n cael ei ddyrannu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer dau brosiect. Y cyntaf yw gosod goleuadau LED yn ei ysbytai cyffredinol dosbarth—Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, ac Ysbyty Maelor Wrecsam—a gaiff eu trosi'n llawn i'r dechnoleg newydd i greu arbedion o oddeutu £103,000 y flwyddyn, ac a fydd yn lleihau allyriadau carbon y bwrdd tua 483 tunnell y flwyddyn. Yn ystod y cylch ceisiadau hwn, rydym wedi cefnogi cyfanswm o chwe phrosiect o'r fath ledled Cymru â buddsoddiad o £1.5 miliwn.

The second Betsi Cadwaladr scheme that we are supporting is the implementation of a stock control system to be implemented in the board's operating theatres. This system will improve the way in which vital operating equipment is used, with more effective usage of items and a reduction in obsolescence, all of which will lead to cash savings of almost £200,000 per annum for the board.

Yr ail gynllun Betsi Cadwaladr yr ydym yn ei gefnogi yw'r gwaith o greu system rheoli stoc i'w gweithredu yn theatrau llawdriniaethau'r bwrdd. Bydd y system yn gwella'r ffordd y mae offer llawdriniaeth hanfodol yn cael eu defnyddio, gan ddefnyddio eitemau'n fwy effeithiol a sicrhau bod llai ohonynt yn darfod; bydd hyn i gyd yn arwain at arbedion ariannol o bron i £200,000 y flwyddyn i'r bwrdd.

The third invest-to-save project relates to the development of a community hub in the Ringland area of Newport. We are allocating £375,000 to Newport City Council to implement a smaller model of the award-winning information station located in the centre of the city, which the invest-to -save fund has supported previously. This hub will build on the success of the information station and be a focus for a range of council services and other public and third sector agencies. As well as improving the range of services available within the community, the project will be generating cash-releasing savings of around £90,000 per annum.

Mae'r trydydd prosiect buddsoddi i arbed yn ymwneud â datblygu hwb cymunedol yn ardal Ringland Casnewydd. Rydym yn dyrannu £375,000 i Gyngor Dinas Casnewydd i sefydlu model llai o'r orsaf wybodaeth yng nghanol y ddinas sydd wedi ennill gwobrau, ac y mae'r gronfa buddsoddi i arbed wedi'i chefnogi o'r blaen. Bydd yr hwb hwn yn adeiladu ar lwyddiant yr orsaf wybodaeth ac yn ganolbwynt i amryw o wasanaethau'r cyngor ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn ogystal â gwella'r ystod o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, bydd y prosiect yn creu arbedion sy'n rhyddhau arian parod o tua £90,000 y flwyddyn.

Finally, £2.6 million will be allocated to Cardiff and Vale university health board. This funding will allow the board to invest in developing new patterns of service delivery and modernise and transform their services.

Yn olaf, dyrennir £2.6 miliwn i fwrdd iechyd prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd y cyllid hwn yn caniatáu i'r bwrdd fuddsoddi i ddatblygu patrymau newydd o ran darparu gwasanaethau ac o ran moderneiddio a gweddnewid ei wasanaethau.

The value of these projects is £3.8 million, and brings the total number of projects supported to date to 120, with a total investment value of almost £114 million. Every pound of investment due back to date has been repaid, and an independent evaluation of the fund found that the gross return generated by the fund is £3 for every £1 invested. As well as generating cash-releasing benefits, we continue to see innovation and an increased take-up of good practice in the delivery of public services.

Mae'r prosiectau hyn yn werth £3.8 miliwn, ac maent yn dod â chyfanswm nifer y prosiectau a gefnogwyd hyd yma i 120, buddsoddiad gwerth cyfanswm o bron i £114 miliwn. Mae pob punt a fuddsoddwyd a oedd yn ddyledus yn ôl hyd yma wedi cael ei had-dalu, a chanfu gwerthusiad annibynnol o'r gronfa fod yr enillion gros y mae'r gronfa'n eu creu yn £3 am bob £1 a fuddsoddir. Yn ogystal â chynhyrchu buddion sy'n rhyddhau arian, rydym yn parhau i weld arloesi'n digwydd a mwy o arferion da wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Although the fund has been successful in terms of generating savings and improving services, we will continue to challenge every public sector organisation to improve and embrace further innovation. The fund is used to support and encourage good practice. Although we've made some headway in the latest bidding round, there is more that we can do, and I am determined that we continue to look at all of the potential avenues open to us to spread good practice. The national asset working group has an important role to play in spreading good practice in the management of assets. This group consists of representatives from across Welsh local government, NHS Wales and the emergency services. The group has been specifically tasked with the identification of good practice in asset management and ensuring this knowledge is available to every relevant organisation in the Welsh public sector. I've also asked the group to assist with the development of an energy efficiency investment strategy, which will cover all Welsh public services. We have made progress in this area, with two schemes prior to 2015 and six in this latest round. By acting together we can ensure we benefit from economies of scale in the areas of procurement and financing. It is vital that we develop a strategy that is joined up, economical and effective.

Er bod y gronfa wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau, byddwn yn parhau i herio pob sefydliad yn y sector cyhoeddus i wella a chofleidio rhagor o arloesi. Mae'r gronfa'n cael ei defnyddio i gefnogi ac annog arfer da. Er ein bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn y cylch ceisiadau diweddaraf, mae mwy y gallwn ei wneud, ac rwyf yn benderfynol o barhau i edrych ar bob un o'r llwybrau posibl sy'n agored inni i ledaenu arfer da. Mae gan y gweithgor asedau cenedlaethol ran bwysig i'w chwarae o ran lledaenu arfer da wrth reoli asedau. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o lywodraeth leol Cymru, GIG Cymru a'r gwasanaethau brys. Gofynnwyd i'r grŵp yn benodol nodi arfer da o ran rheoli asedau a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i bob sefydliad perthnasol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r grŵp gynorthwyo i ddatblygu strategaeth buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni, a fydd yn cynnwys yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi gwneud cynnydd yn hyn o beth, gyda dau gynllun cyn 2015 a chwech yn y cylch diweddaraf hwn. Drwy weithio gyda'n gilydd gallwn sicrhau ein bod yn elwa ar arbedion maint o ran caffael ac ariannu. Mae'n hollbwysig datblygu strategaeth sy'n gydgysylltiedig, yn ddarbodus ac yn effeithiol.

The unique position that the fund has is to act as a test bed for the development of new ways of working in the application of new technology. There are lessons to be learnt from each of the 120 projects that we have so far supported. Officials are ensuring that these lessons are fed into future Welsh Government budget rounds and spending review discussions. This will help us to implement measures that can save resources in the short, medium and long term and give a greater strategic direction to the fund. Members will recall that, last year, the Public Policy Institute for Wales undertook an evaluation of how the invest-to-save fund can maximise organisational learning and further the spread of good practice.

Mae’r gronfa mewn sefyllfa unigryw gan ei bod yn gweithredu fel mainc arbrofi ar gyfer datblygu ffyrdd newydd o weithio i ddefnyddio’r dechnoleg newydd. Mae gwersi i'w dysgu o bob un o'r 120 o brosiectau yr ydym wedi eu cefnogi hyd yma. Mae swyddogion yn sicrhau bod y gwersi hyn yn cael eu bwydo i mewn i gylchoedd cyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a thrafodaethau ynglŷn ag adolygiadau o wariant. Bydd hyn yn ein helpu i roi ar waith fesurau a all arbed adnoddau yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir ac yn rhoi mwy o gyfeiriad strategol i'r gronfa. Bydd yr Aelodau'n cofio bod Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cynnal gwerthusiad y llynedd o sut y gall y gronfa buddsoddi i arbed hybu dysgu sefydliadol i’r eithaf a hyrwyddo’r gwaith o ledaenu arfer da.

The measures we’ve taken as a result of this work include shorter and more accessible case studies, continuing to develop links across all areas of the public sector in Wales, supporting potential projects, and being the link between different organisations working on similar projects. I’ve also taken into account the recommendations that the Finance Committee made in their report on the invest-to-save fund. Some of the measures taken include supporting bids based on their quality and not restricting support by theme or value, case studies being used as a tool for learning and the fund being championed across the public sector. We have also made inroads into the education sector, and my written statement of 10 March contained details of almost £1 million-worth of projects to Cardiff and Vale College and Cardiff Metropolitan University.

Mae'r camau yr ydym wedi’u cymryd o ganlyniad i'r gwaith hwn yn cynnwys astudiaethau achos byrrach a mwy hygyrch, parhau i ddatblygu cysylltiadau ar draws holl feysydd y sector cyhoeddus yng Nghymru, cefnogi prosiectau posibl, a bod yn gyswllt rhwng gwahanol sefydliadau sy'n gweithio ar brosiectau tebyg. Rwyf hefyd wedi ystyried yr argymhellion a wnaeth y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar y gronfa buddsoddi i arbed. Mae rhai o'r camau a gymerwyd yn cynnwys cefnogi cynigion yn seiliedig ar eu hansawdd ac nid cyfyngu cymorth yn ôl thema neu werth, defnyddio astudiaethau achos fel arf ar gyfer dysgu a hyrwyddo’r gronfa ar draws y sector cyhoeddus. Rydym hefyd wedi ennill tir yn y sector addysg, ac mae fy natganiad ysgrifenedig ar 10 Mawrth yn cynnwys manylion prosiectau gwerth bron i £1 miliwn i Goleg Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

I would like to take this opportunity to announce the launch of a further invest-to-save bidding round today. Eight million pounds is available to support more invest-to-save projects in this financial year. There was an excellent response to the latest bidding round and I want to make sure we keep up the momentum that we’ve generated. This further funding round starts today and will close on 24 July.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gyhoeddi lansiad cylch arall o geisiadau buddsoddi i arbed heddiw. Mae wyth miliwn o bunnau ar gael i gefnogi mwy o brosiectau buddsoddi i arbed yn y flwyddyn ariannol hon. Cafwyd ymateb ardderchog i'r cylch ceisiadau diweddaraf a hoffwn sicrhau ein bod yn cadw’r momentwm yr ydym wedi’i greu. Mae'r cylch cyllid pellach hwn yn dechrau heddiw a bydd yn cau ar 24 Gorffennaf.

There’s an ongoing challenge for everyone responsible for delivering public services in Wales. The invest-to-save fund has been extremely successful in providing short-term, interest-free finance for improvements that would either have been much smaller in scale or not yet implemented. We now have a large and growing number of examples of good practice to draw on, which are featured on our website and freely available to everyone. The Wales Audit Office and Academi Wales also have undertaken studies in this area, and there is a great deal of knowledge and expertise available to support those organisations willing to take up the challenge. I look forward to receiving further proposals in the near future and will update Members with our progress later this year.

Mae’n her barhaus i bawb sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gronfa buddsoddi i arbed wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ddarparu cyllid tymor byr, di-log ar gyfer gwelliannau a fyddai naill ai wedi bod yn llawer llai eu maint neu heb eu rhoi ar waith eto. Erbyn hyn mae gennym nifer fawr a chynyddol o enghreifftiau o arfer da i alw arnynt, sydd i'w gweld ar ein gwefan ac ar gael am ddim i bawb. Mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Academi Cymru hefyd wedi cynnal astudiaethau yn y maes hwn, ac mae llawer iawn o wybodaeth ac arbenigedd ar gael i gefnogi’r sefydliadau hynny sy'n barod i dderbyn yr her. Edrychaf ymlaen at dderbyn cynigion pellach yn y dyfodol agos a byddaf yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am ein cynnydd yn nes ymlaen eleni.

15:13

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Minister for today's latest update on invest-to-save? I'm pleased to hear that the Welsh Government has committed to continuous improvement across the public sector, and I think we would all want to see that. Of course, Minister, the question is: how is this being achieved on the ground? With that, we welcome news of the latest tranche of projects that you've just announced. I think the obvious question here is how these projects were decided on—how are you ensuring that, with each of these tranches of invest-to-save, a robust decision-making process is in place that is transparent and which we can have confidence in?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf heddiw am fuddsoddi i arbed? Rwyf yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'n barhaus ar draws y sector cyhoeddus, ac rwyf yn meddwl yr hoffem i gyd weld hynny. Wrth gwrs, Weinidog, y cwestiwn yw hyn: sut y mae hyn yn cael ei gyflawni ar lawr gwlad? O ran hynny, rydym yn croesawu'r newyddion am y gyfran ddiweddaraf o brosiectau yr ydych newydd eu cyhoeddi. Y cwestiwn amlwg yma yw sut y penderfynwyd ynglŷn â'r prosiectau hyn—sut yr ydych yn sicrhau, gyda phob un o'r cyfrannau buddsoddi i arbed hyn, fod proses gadarn ar waith i wneud penderfyniadau sy'n dryloyw ac y gallwn fod â ffydd ynddi?

Turning to the projects themselves and the six projects you mentioned specifically designed to reduce carbon emissions with, I think, £1.5 million, what monitoring is in place to ensure that the 483 tonnes—very exact—of reductions in carbon dioxide emissions that you mention are going to be achieved from that money? You mentioned the community hub in the Ringland area of Newport. That's an example of a project where you are allocating the money, I presume, to Newport City Council in the first instance. So, what safeguards are in place to ensure that all that money is being used for the purpose intended? Also, is there any scope for modification of the bid after the money has been granted if, as you talk about, the good practice that we see does actually suggest that there would be better ways of doing things? I think that that project was £90,000.

A throi at y prosiectau eu hunain a'r chwe phrosiect y soniasoch yn benodol amdanynt i leihau allyriadau carbon gyda £1.5 miliwn, rwyf yn meddwl, pa waith monitro sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y 483 o dunelli—manwl iawn—o ostyngiad yn yr allyriadau carbon deuocsid yr ydych yn sôn amdanynt yn cael eu cyflawni gyda'r arian hwnnw? Soniasoch am yr hwb cymunedol yn ardal Ringland Casnewydd. Dyna enghraifft o brosiect lle'r ydych yn dyrannu'r arian, rwyf yn tybio, i Gyngor Dinas Casnewydd yn y lle cyntaf. Felly, pa fesurau diogelu sydd ar waith i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd? Hefyd, a oes lle i addasu'r cais ar ôl i'r arian gael ei ganiatáu os bydd yr arfer da a welwn, fel y dywedwch, yn awgrymu mewn gwirionedd y byddai yna ffyrdd gwell o wneud pethau? Credaf mai £90,000 oedd y prosiect hwnnw.

How quickly will that money be returned to Welsh Government coffers? I know I'm stealing Mike Hedges's thunder a little bit here—I won't do it too much, Mike, don't worry—as I know that he's going to mention this; I'm sure he is. There does seem to be an ever-increasing leeway time in terms of the money coming back into the coffers. Providing money for invest-to-save is very worth while if those savings are then made, at what point does the Welsh Government itself reap the rewards of that and get money back into the coffers here for future budgets?

Pa mor gyflym y caiff yr arian hwnnw ei ddychwelyd i goffrau Llywodraeth Cymru? Gwn fy mod yn dwyn clodydd Mike Hedges ychydig yma—ni fyddaf yn gwneud gormod o hynny, Mike, peidiwch â phoeni—gan fy mod yn gwybod ei fod yn mynd i sôn am hyn; rwyf yn siŵr ei fod. Mae'n ymddangos bod hyblygrwydd yn cynyddu drwy'r amser o ran dychwelyd yr arian i'r coffrau. Mae rhoi arian i fuddsoddi i arbed yn werth chweil iawn os yw'r arbedion hynny'n cael eu gwneud, ond pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweld ffrwyth hynny ac yn cael arian yn ôl i'r coffrau yma ar gyfer cyllidebau'r dyfodol?

You mentioned £2.6 million that has been allocated to Cardiff and Vale to modernise services. How does this fit in, if it fits in at all, with the extra funding allocation you announced last year, which caused some confusion on the Finance Committee after you added the 'continuous improvement' stipulation to that? Is there a strategy here of how the invest-to-save funding is fitting in with other piecemeal budget increases, such as that to the health budget last year?

Soniasoch am £2.6 miliwn sydd wedi'i ddyrannu i Gaerdydd a'r Fro i foderneiddio gwasanaethau. Sut y mae hyn yn cyd-fynd, os yw'n cyd-fynd o gwbl, â'r dyraniad cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gennych y llynedd, a achosodd rywfaint o ddryswch ar y Pwyllgor Cyllid ar ôl ichi ychwanegu'r amod 'gwelliant parhaus' at hynny? A oes strategaeth yma o ran sut y mae'r arian buddsoddi i arbed yn cyd-fynd â chynyddiadau bach eraill i gyllidebau, fel yr un i'r gyllideb iechyd y llynedd?

Finally, Deputy Presiding Officer, you mentioned the benefits of economies of scale and the importance of procurement. I think procurement is being seen as an increasingly important part of the economic jigsaw in Wales. If we can get procurement right, then we're further along the road to getting other things right as well. You hinted at a new strategy—a new joined-up strategy, you called it—which you want to be in place and delivering dividends. When do you expect that strategy to be fully formed and in place and delivering those dividends, particularly in the area of procurement, because I think that that is something that would be very important to future investment in Wales?

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, soniasoch am fanteision arbedion maint a phwysigrwydd caffael. Mae caffael yn cael ei ystyried yn rhan gynyddol bwysig o'r jig-so economaidd yng Nghymru. Os gallwn sicrhau bod y caffael yn iawn, byddwn wedi mynd beth o'r ffordd tuag at wneud pethau eraill yn iawn hefyd. Roedd awgrym am strategaeth newydd—strategaeth newydd gydgysylltiedig, yn eich geiriau chi—yr hoffech iddi fod ar waith ac yn talu ar ei chanfed. Pryd ydych chi'n disgwyl i'r strategaeth honno fod wedi'i ffurfio'n llawn ac ar waith ac yn darparu'r buddion hynny, yn enwedig ym maes caffael, oherwydd credaf fod hynny'n rhywbeth pwysig iawn o ran buddsoddi yn y dyfodol yng Nghymru?

Very finally, Deputy Presiding Officer, on good practice, which your statement was peppered with references to—yes, we agree with good practice and learning from mistakes. I'd be interested—you've given us details of projects that have made the grade—to see a little bit more about projects that haven't made the grade, which might have fallen a little bit short of the grade, and, surely, those projects would like to know as well where they could improve things in the future. So, how are you making sure that not only the best practice, but slightly lower than best practice is being fed into the system, so that the invest-to-save model can be made as robust and as secure in the future, so that we all see those dividends?

Yn olaf un, Ddirprwy Lywydd, o ran arfer da, rhywbeth yr oedd eich datganiad yn frith o gyfeiriadau ato—ydym, rydym yn cytuno ag arfer da a dysgu o gamgymeriadau. Byddai gennyf ddiddordeb—rydych wedi rhoi manylion prosiectau sydd wedi cyrraedd y nod—cael gweld ychydig mwy am y prosiectau nad ydynt wedi cyrraedd y nod, a allai fod wedi bod ychydig yn brin o'r nod, ac, yn sicr, byddai'r prosiectau hynny hefyd yn hoffi gwybod sut y gallent wella pethau yn y dyfodol. Felly, sut ydych chi'n gwneud yn siŵr bod nid yn unig yr arfer gorau, ond arfer ychydig yn is na'r arfer gorau hefyd, yn cael ei fwydo i mewn i'r system, fel y gellir gwneud y model buddsoddi i arbed mor gadarn ac mor ddiogel yn y dyfodol, fel y gallwn i gyd weld y buddion hynny?

15:17 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Nick Ramsay, for your very constructive and helpful scrutiny of the statement today. Just to remind ourselves of the aim of the invest-to-save fund that began back in 2009-10—it's the aim of supporting projects that can demonstrate that they identify and create cash-releasing savings, deliver system-focused services and support key elements of the Welsh Government's public service efficiency and wider improvement agenda. I think that partly answers your last question, perhaps, about those projects that are coming forward that are not accepted.

Diolch yn fawr, Nick Ramsay, am eich craffu adeiladol a defnyddiol iawn ar y datganiad heddiw. Gadewch inni ein hatgoffa ein hunain o nod y gronfa buddsoddi i arbed a ddechreuodd yn ôl yn 2009-10—y nod yw cefnogi prosiectau sy'n gallu dangos eu bod yn adnabod ac yn creu arbedion sy'n rhyddhau arian parod, yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar systemau ac yn cefnogi elfennau allweddol o effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru a'i hagenda wella ehangach. Credaf fod hynny'n ateb eich cwestiwn olaf yn rhannol, efallai, ynglŷn â'r prosiectau hynny sy'n cael eu cyflwyno ac nad ydynt yn cael eu derbyn.

We are very clear about what the aims and objectives are. Of course, the investments are repayable but interest free, and organisations have to provide at least 25 per cent of the project cost themselves. So, there are clear criteria, but I would say, in terms of the new round that I've just announced and the further £8 million, there are projects that, perhaps, needed more work to bring them to consideration for funding. Of course, those projects are from across the public sector, and my officials are working with them to see if they can then make the grade in terms of opportunities for support.

Rydym yn glir iawn ynglŷn â'r nodau a'r amcanion. Wrth gwrs, mae'r buddsoddiadau'n ad-daladwy, ond yn ddi-log, ac mae'n rhaid i sefydliadau ddarparu o leiaf 25 y cant o gost y prosiect eu hunain. Felly, mae yna feini prawf clir, ond byddwn yn dweud, o ran y cylch newydd yr wyf newydd ei gyhoeddi a'r £8 miliwn pellach, roedd angen mwy o waith, efallai, ar rai prosiectau er mwyn iddynt allu cael eu hystyried am gyllid. Wrth gwrs, mae'r prosiectau hynny'n dod o bob rhan o'r sector cyhoeddus, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda hwy i weld a allant gyrraedd y nod o ran cyfleoedd i gael cymorth.

I think it's important just to recognise, in terms of your questions, the issues around the funding that I have made available. It is important that it's part of their business case that they demonstrate what they're going to deliver, not just in terms of cash-releasing savings, but as we move now into these energy efficiency schemes, they have to demonstrate that they are going to deliver on the carbon reduction that they identify. I think it's useful just to know, and I've highlighted what we expect of Betsi Cadwaladr University Local Health Board, for example in terms of the impact of LED lighting—as you say, a 483-tonne per annum reduction in carbon emissions, and that's for the three district general hospitals in the health board area. Of course, that is not only a carbon emissions reduction, but also cash-releasing savings, which, of course, will go to the front line in terms of our health service.

Credaf ei bod yn bwysig cydnabod, o ran eich cwestiynau, y materion sy'n ymwneud â'r cyllid yr wyf wedi'i ddarparu. Mae'n bwysig eu bod, yn rhan o'u hachos busnes, yn dangos yr hyn y maent yn mynd i'w gyflawni, nid dim ond o ran arbedion sy'n rhyddhau arian, ond wrth inni symud yn awr at y cynlluniau effeithlonrwydd ynni hyn, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn mynd i gyflawni'r gostyngiad carbon y maent yn ei nodi. Credaf ei bod yn ddefnyddiol gwybod, ac rwyf wedi tynnu sylw at yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, er enghraifft o ran effaith goleuadau LED—fel y dywedwch, 483 tunnell y flwyddyn yn llai o allyriadau carbon, ac mae hynny ar gyfer y tri ysbyty cyffredinol dosbarth yn ardal y bwrdd iechyd. Wrth gwrs, nid dim ond gostwng allyriadau carbon y mae hynny; mae hefyd yn creu arbedion sy'n rhyddhau arian parod, a fydd, wrth gwrs, yn mynd i'r rheng flaen o ran ein gwasanaeth iechyd.

I recently visited Cardiff Metropolitan University to see the new LED investment that they've made, which is not only transforming the lighting across their estate, but also reducing carbon emissions and making cash-releasing savings. I do encourage Members to visit some of these projects to see the impact. My question is: well, if they can do it in one university, why can't they do it in all universities? If they can do it in one hospital, why not all hospitals? That's the trick of making sure that this good practice is spread.

Yn ddiweddar, bûm yn ymweld â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i weld y buddsoddiad LED newydd y mae wedi'i wneud, sydd nid yn unig yn trawsnewid y goleuadau ar draws yr ystâd, ond hefyd yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwneud arbedion sy'n rhyddhau arian parod. Rwyf yn annog yr Aelodau i ymweld â rhai o'r prosiectau hyn i weld yr effaith. Fy nghwestiwn yw hyn: wel, os gallant wneud hynny mewn un brifysgol, pam na allant ei wneud ym mhob prifysgol? Os gallant ei wneud mewn un ysbyty, pam nad ym mhob ysbyty? Dyna'r gamp o ran gwneud yn siŵr bod yr arfer da hwn yn cael ei ledaenu.

On the issue of the support we've given, for example to Newport, it is to Newport City Council and it is a community hub. I mean, of course, it is built on the basis that they've already pioneered their very well-used and well-supported information station, which, as Members will know, if you've been to Newport, is the old station building. You will know, Nick Ramsay, of course, of the location. It was actually a finalist in the European customer services awards. It's received an award for best high-street service, so, again, I'm writing to all chief executives of local authorities with the support of the Minister for Public Services to say, 'Well, if they can do it in Newport, we can spread this practice elsewhere'. But this is about now locating the hub in Communities First, Flying Start, libraries, adult, education and social services—focusing it on the community in the refurbished Ringland community centre. So, again, this is a model of best practice that we hope will then be seen as an example by local government across Wales.

O ran y gefnogaeth yr ydym wedi'i rhoi, er enghraifft i Gasnewydd, i Gyngor Dinas Casnewydd y mae hynny ac mae'n hwb cymunedol. Hynny yw, wrth gwrs, mae'n cael ei adeiladu ar y sail eu bod eisoes wedi arloesi gyda'u gorsaf wybodaeth a gafodd lawer iawn o ddefnydd a chefnogaeth, sydd, fel y gŵyr yr Aelodau, os ydych wedi bod i Gasnewydd, yn hen adeilad yr orsaf. Byddwch chi, Nick Ramsay, wrth gwrs, yn gwybod ble y mae. Yn wir, cyrhaeddodd rownd derfynol gwobrau gwasanaethau i gwsmeriaid Ewrop. Mae wedi cael gwobr am y gwasanaeth gorau ar stryd fawr, felly, unwaith eto, rwyf yn ysgrifennu at brif weithredwr pob awdurdod lleol gyda chefnogaeth y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ddweud, 'Wel, os gallant ei wneud yng Nghasnewydd, gallwn ledaenu'r arfer hwn mewn mannau eraill'. Ond mae hyn yn awr yn fater o leoli'r hwb o fewn Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, llyfrgelloedd, gwasanaethau i oedolion, gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol—a'i ganolbwyntio ar y gymuned yng nghanolfan gymunedol Ringland ar ei newydd wedd. Felly, unwaith eto, mae hwn yn fodel o arfer gorau yr ydym yn gobeithio y bydd llywodraeth leol ledled Cymru'n ei weld fel esiampl.

In terms of modification, we have been very clear about what our expectations are, particularly in relation to the cash-releasing savings and the viability in terms of the business case, but, of course, there is potential for modification if that is appropriate.

O ran addasu, rydym wedi bod yn glir iawn ynglŷn â beth yw ein disgwyliadau, yn enwedig o ran yr arbedion sy'n rhyddhau arian parod a dichonoldeb o ran yr achos busnes, ond, wrth gwrs, mae'n bosibl addasu os yw hynny'n briodol.

Now, in terms of the scheme for Cardiff and Vale university health board, in fact, this announcement is in the latest tranche of schemes for the health board, particularly in terms of their voluntary early release scheme. As you know, the invest-to-save fund has supported a number of these schemes in the NHS since 2010-11 and, in fact, Cardiff and Vale has a good track record of maximising the benefits from the schemes that they've operated. This particular round of funding is targeted at managerial and support staff. The estimated savings per annum are £4.3 million, because the health board's moving to implementing new models of service delivery, and that's outlined in its plans and consultation—'Shaping Our Future Wellbeing'. That strategy is to become one of the leading providers of integrated healthcare in the UK within 10 years. So, you can see that there is innovation that is being delivered as a result of the ways in which we're taking forward the invest-to-save scheme.

Yn awr, o ran y cynllun ar gyfer bwrdd iechyd prifysgol Caerdydd a'r Fro, mewn gwirionedd, mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o'r gyfran ddiweddaraf o gynlluniau ar gyfer y bwrdd iechyd, yn enwedig o ran ei gynllun rhyddhau cynnar gwirfoddol. Fel y gwyddoch, mae'r gronfa buddsoddi i arbed yn cefnogi nifer o'r cynlluniau hyn yn y GIG ers 2010-11 ac, mewn gwirionedd, mae gan Gaerdydd a'r Fro hanes da o wneud y gorau o fuddion y cynlluniau y maent wedi'u gweithredu. Mae'r cylch penodol hwn o arian wedi'i dargedu at staff rheoli a chymorth. Amcangyfrifir y caiff £4.3 miliwn y flwyddyn ei arbed, gan fod y bwrdd iechyd yn symud tuag at weithredu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau, ac mae hynny wedi'i amlinellu yn eu cynlluniau a'u hymgynghoriad—'Llunio Ein Lles yn y Dyfodol'. Y strategaeth yw dod yn un o brif ddarparwyr gofal iechyd integredig y DU o fewn 10 mlynedd. Felly, gallwch weld bod yna arloesi'n cael ei gyflwyno o ganlyniad i'r ffyrdd yr ydym yn bwrw ymlaen â'r cynllun buddsoddi i arbed.

Now, you do raise the question, as well, about recovering investments. Every project is different in terms of cash releasing, so there are different challenges in terms of implementation, and different expectations in terms of repayment profiles, but each repayment profile is done on a case-by-case basis. The longest payback periods that we have at the moment are one project with a six-year repayment and a handful with five-year repayments, but the majority are repaid over a two to three-year period.

Yn awr, rydych yn holi, hefyd, am adennill buddsoddiadau. Mae pob prosiect yn wahanol o ran rhyddhau arian, felly mae heriau gwahanol o ran gweithredu, a disgwyliadau gwahanol o ran proffiliau ad-dalu, ond mae pob proffil ad-dalu'n cael ei wneud ar sail achos wrth achos. Y cyfnodau ad-dalu hiraf sydd gennym ar hyn o bryd yw un prosiect â chwe blynedd i ad-dalu a llond llaw â phum mlynedd i ad-dalu, ond mae'r rhan fwyaf yn cael eu had-dalu dros gyfnod o ddwy i dair blynedd.

15:23

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad. Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn gobeithio bod canlyniadau deilliannau'r buddsoddiadau yma yn mynd i fod o fudd mawr i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydych chi wedi gwneud datganiad bod yr arian yma un ai wedi cael ei dalu'n ôl, neu yn cael ei dalu'n ôl gan bob un o'r cynlluniau. Y cwestiwn sydd gen i ydy: pa fonitro sy'n digwydd i asesu gwerth y cynlluniau ac a ydyn nhw'n cyflawni eu hamcanion? Rŵan 'te, rwy'n gwybod eich bod chi wedi rhoi ateb hirfaith i Nick Ramsay, ond a oes yna asesiad manwl o arbedion effeithlonrwydd a gwelliant mewn gwasanaeth yn cael ei wneud, ac a ydy hwnnw bellach yn rhan o'r rhaglen fonitro?

Thank you for the statement. I am sure that we all hope that the resulting outcomes of these investments will be of great benefit to public services in Wales. You have made a statement that this funding has either been repaid or is being repaid by each one of the schemes. My question is: what monitoring is taking place to assess the value of the schemes and whether they are achieving their objectives? Now then, I know that you have given a very lengthy response to Nick Ramsay, but is there a detailed assessment being carried out of the efficiency savings and the service improvements, and is that now a part of the monitoring programme?

A gaf i ofyn un cwestiwn penodol ar un o'r cynlluniau yma, sef buddsoddiad sylweddol iawn o tua £13 miliwn, sy'n llawer iawn mwy na'r cynlluniau eraill, i gydgrynhoad band eang sector cyhoeddus Cymru gyfan? Rŵan, rwy'n cymryd bod hwn yn broject sydd yn cynnwys y Llywodraeth ei hun, wrth gwrs. Felly, beth ydy'r trefniadau o ran talu nôl y swm yma, a beth ydy'r deilliannau? A gawn ni ragor o fanylion—nid heddiw, o bosib, ond ar ffurf ysgrifenedig—am y cynllun hwnnw?

May I ask one specific question on one of these schemes, namely a very substantial investment of about £13 million, which is much greater than the other schemes, for the consolidation of the all-Wales public sector broadband? Now, I take it that this is a project that includes the Government itself, of course. Therefore what are the arrangements for the repayment of this sum, and what are the outcomes? Could you give us more details—possibly not today, but in written form—on that scheme?

Yn drydydd, pryd fyddwch chi yn cyhoeddi manylion y cynlluniau sydd wedi aeddfedu? Hynny ydy, mae'r arian wedi'i dalu nôl ac mae'r canlyniadau a'r deilliannau'n wybyddus, felly a fyddwch chi'n gwneud rhestr o'r rheini ac yn dangos yn fanwl beth ydy'r deilliannau a'r gwellhad sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r buddsoddiad? Rydych chi wedi sôn yn gyffredinol fod hyn yn rhan o'r ffordd rydych chi'n asesu'r cynlluniau, ond a fyddwch chi'n cyhoeddi hynny fel y gallwn ni gael teimlad o werth y cynlluniau a pha rai sydd wedi profi'n fwyaf llwyddiannus, ac, fel roeddech chi'n ei ddweud, er mwyn wedyn sicrhau bod rhannau eraill o wasanaethau cyhoeddus Cymru sydd mewn sefyllfa i elwa o'r cynlluniau yma yn gallu manteisio arnyn nhw? Diolch.

Thirdly, when will you announce the details of the matured schemes? The money has been repaid and the results and outcomes are known, but will you list those and show in detail the outcomes and improvements that have taken place as a result of the investment? You've alluded generally to the fact that this forms part of the way in which you assess the schemes, but will you actually publish the details so that we can get a feeling for the value of the schemes and for those that have been proven to be most successful and, as you said, in order to then ensure that other parts of the public services in Wales that are in a position to benefit from these schemes can take advantage of them? Thank you.

15:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much. Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Of course, as you say, the outcomes are key. It's not just the outcomes—and this is identified through very close monitoring of every project—and it's not just the expectations we have in terms of the cash-releasing benefits, but also the repayment schedules, which, of course, as I have already said, are on a case-by-case basis but very clearly monitored in terms of each scheme. Also, the delivery—and it goes back to touch on the point that Nick Ramsay made about the delivery of the projects themselves in terms of demonstrating good practice, and demonstrating new ways of delivering services—obviously, it's much easier to operationally monitor the impact of energy efficiency schemes than, perhaps, the transformation or the innovation that we see in some of the public service delivery. Of course, then, we also have other schemes where you can identify the impact—for example, of voluntary early release schemes. I would just say, because quite a lot of investment has gone into voluntary early release schemes, each scheme is administered by the human resource functions of each NHS organisation. Overall, it's governed by NHS Wales. So, we have to make sure that responsibility is clearly vested in those organisations that have developed the proposal and have developed the scheme. The voluntary early release scheme is designed and developed by professionals within the NHS in Wales, and managed by the finance directorate.

I will come back to you on the all-Wales broadband scheme in writing. On your third point in terms of publishing details of the schemes, well, you know, as I have identified in my statement, that the examples of good practice are featured on our website. We have had evaluation undertaken, which has included case studies. Of course, those case studies are regularly identified across the public sector in terms of the particular sectors, whether it be local government, the health service or, indeed, the emergency services, where we can draw attention to what has been achieved. Of course, as I said, the Wales Audit Office and Academi Wales are also not only undertaking studies, but identifying what can be available and what knowledge and expertise is available in terms of the lessons learned from invest-to-save.

Diolch yn fawr. Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Wrth gwrs, fel y dywedwch, mae'r canlyniadau'n allweddol. Nid dim ond y canlyniadau—a nodir hyn drwy fonitro pob prosiect yn agos iawn—ac nid dim ond y disgwyliadau sydd gennym o ran y buddion sy'n rhyddhau arian, ond hefyd yr amserlenni ad-dalu, sydd, wrth gwrs, fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud, ar sail achos-wrth-achos ond yn cael eu monitro'n glir iawn o ran pob cynllun. Hefyd, cyflwyno—ac mae hyn yn mynd yn ôl at y pwynt a wnaeth Nick Ramsay am gyflwyno'r prosiectau eu hunain o ran dangos arfer da, a dangos ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau—yn amlwg, mae'n haws o lawer monitro'n weithredol effaith cynlluniau effeithlonrwydd ynni nag, efallai, y trawsnewid neu'r arloesi a welwn wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Wrth gwrs, mae gennym gynlluniau eraill hefyd lle gallwch weld effaith cynlluniau rhyddhau cynnar gwirfoddol, er enghraifft. Hoffwn ddweud, oherwydd mae cryn dipyn o fuddsoddi wedi bod mewn cynlluniau rhyddhau cynnar gwirfoddol, fod pob cynllun yn cael ei weinyddu gan adran adnoddau dynol pob sefydliad GIG. Mae'r cwbl yn cael ei reoli gan GIG Cymru. Felly, rhaid inni wneud yn siŵr bod y cyfrifoldeb yn cael ei freinio'n glir yn y sefydliadau hynny sydd wedi datblygu'r cynnig ac wedi datblygu'r cynllun. Mae'r cynllun rhyddhau cynnar gwirfoddol wedi'i gynllunio a'i ddatblygu gan weithwyr proffesiynol yn y GIG yng Nghymru, a'i reoli gan y gyfarwyddiaeth cyllid.

Byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r cynllun band eang Cymru gyfan. O ran eich trydydd pwynt am gyhoeddi manylion y cynlluniau, wel, rydych yn gwybod, fel yr wyf wedi'i nodi yn fy natganiad, fod yr enghreifftiau o arfer da i'w gweld ar ein gwefan. Rydym wedi cynnal gwerthusiad, gan gynnwys astudiaethau achos. Wrth gwrs, caiff yr astudiaethau achos hynny eu nodi'n rheolaidd ar draws y sector cyhoeddus o ran y sectorau penodol, boed yn llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, neu, yn wir, y gwasanaethau brys, lle y gallwn dynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd. Wrth gwrs, fel y dywedais, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Academi Cymru hefyd nid yn unig yn cynnal astudiaethau, ond yn nodi beth all fod ar gael a pha wybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael o ran y gwersi a ddysgwyd o fuddsoddi i arbed.

15:29 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am a strong supporter and advocate of invest-to-save, and I obviously welcome the additional money. It makes sense, to me at least, to undertake capital expenditure to reduce ongoing revenue costs, especially at a time of reducing budgets. I'm pleased that the recommendation of the Finance Committee, including the minimum size of bid and not having themes but dealing with each bid on the basis of the quality of the bid, has been accepted and is being carried out by the Minister. I have three questions to the Minister. The first one is: how many schemes are taking over three years to pay back their investment? Does the Minister know how many local authorities are using their own reserves in order to engage in invest-to-save themselves? And, there have been a number of great successes in areas such as medicine management, and the use of solar panels. What is being done to spread such good practice, and, more importantly, to try and get further similar bids, from other bodies, to do the same things?

Rwyf yn gefnogwr ac yn eiriolwr cryf dros fuddsoddi i arbed, ac rwyf wrth gwrs yn croesawu'r arian ychwanegol. Mae'n gwneud synnwyr, i mi o leiaf, ymgymryd â gwariant cyfalaf i ostwng costau refeniw parhaus, yn enwedig ar adeg pan fo cyllidebau'n lleihau. Rwyf yn falch bod argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, gan gynnwys isafswm maint ceisiadau ac osgoi themâu ond ymdrin â phob cais ar sail ansawdd y cais, wedi ei dderbyn a bod y Gweinidog yn bwrw ymlaen ag ef. Mae gennyf dri chwestiwn i'r Gweinidog. Y cyntaf yw hyn: faint o gynlluniau sy'n cymryd dros dair blynedd i ad-dalu eu buddsoddiad? A yw'r Gweinidog yn gwybod faint o awdurdodau lleol sy'n defnyddio eu cronfeydd wrth gefn eu hunain er mwyn buddsoddi i arbed eu hunain? Hefyd, bu nifer o lwyddiannau gwych mewn meysydd fel rheoli moddion, a defnyddio paneli solar. Beth sy'n cael ei wneud i ledaenu arfer da o'r fath, ac, yn bwysicach, i geisio sicrhau bod ceisiadau tebyg eraill, gan gyrff eraill, yn gwneud yr un pethau?

15:30 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed, Mike Hedges. I'm very pleased also that you welcome the statement, and the additional investment that we're making. I would also say, as I do every time I make a statement on invest-to-save, how valuable the inquiry by the Finance Committee has been, and I am indeed very pleased to be implementing the recommendations.

Diolch yn fawr iawn, Mike Hedges. Rwyf yn falch iawn eich bod yn croesawu'r datganiad, a'r buddsoddiad ychwanegol yr ydym yn ei wneud. Byddwn hefyd yn dweud, fel yr wyf yn ei ddweud bob tro y gwnaf datganiad am fuddsoddi i arbed, pa mor werthfawr oedd ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, ac rwyf yn wir yn falch iawn o roi'r argymhellion ar waith.

I think I have already responded in terms of how we can ensure that we see repayments on a case-by-case basis. I think, if you look at it—as I said—the longest payback period we've got is one project with six years repayment, a handful with five-year repayments. Again, I'm very happy to provide Members with the schedule of the repayments for each project that is supported.

Credaf fy mod eisoes wedi ymateb o ran sut y gallwn sicrhau ein bod yn gweld ad-daliadau fesul achos. Credaf, os edrychwch ar hyn—fel y dywedais—mai'r cyfnod ad-dalu hiraf sydd gennym yw un prosiect ag ad-daliad chwe blynedd, llond llaw ag ad-daliadau pum mlynedd. Unwaith eto, rwyf yn hapus iawn i roi rhestr o ad-daliadau pob prosiect sy'n cael ei gefnogi i'r Aelodau.

I think on your point about the reserves, and where local government is drawing the money from in order to make up their 25 per cent of each project bid, towards the cost of an invest-to-save project and the fund in itself, I'm not aware of where they're drawing that funding from. I'm sure that's a matter that local authorities will have different means and ways of drawing on that funding, and that resource. Of course, it is something where we would like to encourage more local authorities to take up invest-to-save, and I think the project that we're announcing today, in terms of Newport—the Ringland project—will of course be something that local authorities will be looking at very carefully. I've already said that I'm working very much with the Minister for Natural Resources, and that we are looking at ways in which we can have a strategy, which is going to, particularly, look at energy efficiency, in terms of the role of invest-to-save.

Ynglŷn â'ch pwynt am y cronfeydd wrth gefn, ac o ble y mae llywodraeth leol yn cael yr arian i wneud eu 25 y cant o bob prosiect a gynigir, tuag at gost prosiect buddsoddi i arbed a'r gronfa ynddi'i hun, nid wyf yn gwybod o ble y maent yn cael yr arian hwnnw. Rwyf yn siŵr bod hynny'n fater lle bydd gan awdurdodau lleol wahanol ddulliau a ffyrdd o alw ar y cyllid hwnnw, ac ar yr adnoddau hynny. Wrth gwrs, mae'n rhywbeth lle'r hoffem annog mwy o awdurdodau lleol i ymgymryd â buddsoddi i arbed, a chredaf fod y prosiect yr ydym yn ei gyhoeddi heddiw, o ran Casnewydd—prosiect Ringland—wrth gwrs yn rhywbeth y bydd awdurdodau lleol yn edrych yn ofalus iawn arno. Rwyf eisoes wedi dweud fy mod yn gweithio'n helaeth gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a'n bod yn edrych ar ffyrdd y gallwn gael strategaeth a fydd yn edrych, yn arbennig, ar effeithlonrwydd ynni, o ran swyddogaeth buddsoddi i arbed.

15:32 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I welcome this report? Like Mike Hedges, and previous speakers, I very much support the invest-to-save scheme. Clearly, it has brought many benefits to the public sector in terms of, and savings, from a capital investment.

A gaf fi groesawu'r adroddiad hwn? Fel Mike Hedges, a siaradwyr blaenorol, rwyf yn cefnogi'r cynllun buddsoddi i arbed yn fawr iawn. Yn amlwg, mae wedi dod â llawer o fuddion i'r sector cyhoeddus, ac arbedion, o fuddsoddiad cyfalaf.

Just a few questions, Minister, because most of my questions have been taken by previous speakers. I'm very pleased to see that Newport City Council is undertaking an invest-to-save project. I'm just wondering—obviously, they are an exception, I think, amongst local authorities, in terms of that—to what extent has interest been expressed by the local authorities around Wales in also making use of this scheme. Clearly, with capital at a premium in local government, and with cuts in revenue, I would have thought that many local councils would be making more use of this scheme than they appear to be doing so.

Dim ond ychydig o gwestiynau, Weinidog, gan fod siaradwyr blaenorol wedi gofyn y rhan fwyaf o'm cwestiynau. Rwyf yn falch iawn o weld bod Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnal prosiect buddsoddi i arbed. Tybed—wrth gwrs, maent yn eithriad, rwyf yn meddwl, ymhlith awdurdodau lleol, o ran hynny—i ba raddau y mae'r awdurdodau lleol eraill o amgylch Cymru wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio'r cynllun hwn? Wrth gwrs, â diffyg cyfalaf mewn llywodraeth leol, a gyda thoriadau refeniw, byddwn yn meddwl y byddai llawer o gynghorau lleol yn defnyddio mwy ar y cynllun hwn nag y mae'n ymddangos eu bod yn ei wneud.

I also welcome the extra money—the £1 million of projects going into the education sector, noting that they appear to be limited to Cardiff and Vale College, and Cardiff Metropolitan University. I'd be interested in what expressions of interest you have received from other educational establishments, particularly in the further education sector, in terms of making use of invest-to-save as a means of making savings, as they also have to make significant cuts in their provision in the present financial year.

Rwyf hefyd yn croesawu'r arian ychwanegol—y gwerth £1 miliwn o brosiectau sy'n mynd i mewn i'r sector addysg, gan nodi ei bod yn ymddangos eu bod yn gyfyngedig i Goleg Caerdydd a'r Fro, a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Hoffwn glywed pa ddatganiadau o ddiddordeb a gawsoch gan sefydliadau addysg eraill, yn enwedig yn y sector addysg bellach, o ran defnyddio buddsoddi i arbed fel ffordd o wneud arbedion, gan fod yn rhaid iddynt hwythau wneud toriadau arwyddocaol yn eu darpariaeth yn y flwyddyn ariannol hon.

Finally, Minister, I think we're all very keen on spreading best practice around Wales from these invest-to-save projects, and, clearly, the case studies you've published are part of that. I'm just wondering how proactive is the Welsh Government in actually taking very good schemes, which you have funded through invest-to-save, and actually going out to local authorities, and other public sector bodies, grabbing them by the scruff of the neck, and saying, 'Have you seen this, have you thought of doing something along these lines?', as a means of, essentially, dragging them, kicking and screaming, if you like, towards making use of this fund, to make sure that best practice is spread around Wales.

Yn olaf, Weinidog, credaf ein bod i gyd yn awyddus iawn i ledaenu arfer gorau o amgylch Cymru o'r prosiectau buddsoddi i arbed hyn, ac, yn amlwg, mae'r astudiaethau achos yr ydych wedi'u cyhoeddi'n rhan o hynny. Tybed pa mor rhagweithiol yw Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd o ran cymryd cynlluniau da iawn, yr ydych wedi'u hariannu drwy fuddsoddi i arbed, a mynd at awdurdodau lleol, a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, a chydio ynddynt gerfydd eu gyddfau, a dweud, 'Ydych chi wedi gweld hyn, ydych chi wedi meddwl am wneud rhywbeth tebyg i hyn?', fel ffordd, yn y bôn, o'u llusgo, yn cicio ac yn sgrechian, os hoffwch, tuag at ddefnyddio'r gronfa hon, i wneud yn siŵr bod arfer gorau'n cael ei ledaenu ledled Cymru?

15:34

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Peter Black, and thank you also for your support for the invest-to-save fund. I do believe it is one financial tool that we have developed very strongly, with support across the Chamber in terms of Assembly engagement, particularly through the Finance Committee inquiry, but also in responding to my regular statements. These statements are important, not only to get the news over about the new investments that we're announcing, but also to spread the message about good practice and to stimulate interest, as you say, in terms of the very good schemes that are being developed across the sector. I think, in terms of local government, we, again, not only—. In terms of the £8 million that's available, I'm writing to all local authority chief executives again to encourage them to take up, and take an interest in, the scheme. There are some local authorities that are interested and that are talking to my officials about potential schemes. An area where they are particularly interested, unsurprisingly, is asset management, as well as the energy efficiency schemes. Also, in terms of the investment that we've already made in local government, it does demonstrate that there is increasing interest.

Diolch yn fawr, Peter Black, a diolch hefyd am eich cefnogaeth i'r gronfa buddsoddi i arbed. Credaf ei bod yn un arf ariannol yr ydym wedi'i ddatblygu'n gryf iawn, gyda chefnogaeth ar draws y Siambr o ran ymgysylltiad y Cynulliad, yn enwedig drwy ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, ond hefyd wrth ymateb i'm datganiadau rheolaidd. Mae'r datganiadau hyn yn bwysig, nid yn unig i gyfleu'r newyddion am y buddsoddiadau newydd yr ydym yn eu cyhoeddi, ond hefyd i ledaenu'r neges am arfer da ac i ysgogi diddordeb, fel y dywedwch, yn y cynlluniau da iawn sy'n cael eu datblygu ar draws y sector. Credaf ein bod unwaith eto, o ran llywodraeth leol, nid yn unig—. O ran yr £8 miliwn sydd ar gael, rwyf yn ysgrifennu at brif weithredwr pob awdurdod lleol unwaith eto i'w hannog i fanteisio ar y cynllun a chymryd diddordeb ynddo. Mae rhai awdurdodau lleol sydd â diddordeb ac sy'n siarad â'm swyddogion am gynlluniau posibl. Un maes y mae ganddynt ddiddordeb arbennig ynddo, ac nid yw hynny'n syndod, yw rheoli asedau, yn ogystal â'r cynlluniau effeithlonrwydd ynni. Hefyd, o ran y buddsoddiad yr ydym eisoes wedi'i wneud mewn llywodraeth leol, mae'n dangos bod diddordeb ar gynnydd.

As far as FE and HE are concerned, again, we need to encourage more further and higher education institutions to take up invest-to-save. I believe that we have supported Coleg Powys in an earlier scheme, and I will confirm that. But I would hope also that—. I am writing again to all the principals and vice-chancellors about the next round, and my oral statement today, of course, will accompany that letter.

O ran addysg bellach ac addysg uwch, unwaith eto, mae angen inni annog mwy o sefydliadau addysg bellach ac uwch i fanteisio ar fuddsoddi i arbed. Credaf ein bod wedi cefnogi Coleg Powys mewn cynllun cynharach, a byddaf yn cadarnhau hynny. Ond byddwn yn gobeithio hefyd—. Rwyf yn ysgrifennu eto at yr holl benaethiaid ac is-gangellorion am y cylch nesaf, a bydd fy natganiad llafar heddiw, wrth gwrs, yn cyd-fynd â'r llythyr hwnnw.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 15:36.*

*Sandy Mewies took the Chair at 15:36.*

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Finally, in terms of best practice, our officials are making presentations where and when they can to promote proactively invest-to-save. That might mean running a session at the Welsh Local Government Association annual conference. Ministers are also raising this—for example, the Health and Social Services Minister—not just with chairs but with health boards as well. The health service has grasped invest-to-save very fully, but we need to also ensure that, across the board, ministerially and through the sectors, we do promote and encourage more applications.

Yn olaf, o ran arfer gorau, mae ein swyddogion yn gwneud cyflwyniadau ble bynnag a phryd bynnag y gallant i hyrwyddo buddsoddi i arbed yn rhagweithiol. Gallai hynny olygu cynnal sesiwn yng nghynhadledd flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae Gweinidogion hefyd yn codi hyn—er enghraifft, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol—nid yn unig gyda chadeiryddion, ond gyda byrddau iechyd hefyd. Mae'r gwasanaeth iechyd wedi deall buddsoddi i arbed yn dda iawn, ond mae angen inni hefyd sicrhau, yn gyffredinol, fel Gweinidogion a thrwy'r sectorau, ein bod yn hyrwyddo ac yn annog mwy o geisiadau.

15:37

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:37

# 7. Datganiad: Adroddiad o Gynnydd Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20

# 7. Statement: EU Structural Funds 2014-20 Progress Report

Senedd.tv Fideo Video

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Item 7 is the EU structural funds 2014-20 progress report. I call on Jane Hutt, the Minister for Finance and Government Business.

Eitem 7 yw'r adroddiad ar gynnydd cronfeydd strwythurol 2014-20 yr UE. Galwaf ar Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

15:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I am pleased to update Members today on the progress of the European structural funds programmes in Wales for 2014–20, which, together with access to the single market, clearly show how vital UK membership of the European Union is to sustainable growth and jobs in Wales. Access to the single market is a major attraction to investors: around 500 firms from other EU regions are based in Wales, employing over 54,000 people. In addition, EU projects supported by the structural funds for 2007-13 created almost 30,700 jobs and 10,500 businesses, and helped 63,400 people into work, 46,500 people into further learning and 194,200 people to gain qualifications. Through the EU's common agricultural policy, around 16,000 farm businesses benefit from direct income payments in Wales.

Rwyf yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau heddiw am gynnydd rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop yng Nghymru ar gyfer 2014-20, sydd, ynghyd â mynediad i'r farchnad sengl, yn dangos yn glir pa mor hanfodol yw aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd i dwf a swyddi cynaliadwy yng Nghymru. Mae mynediad i'r farchnad sengl yn atyniad mawr i fuddsoddwyr: mae tua 500 o gwmnïau o rannau eraill o'r UE wedi'u lleoli yng Nghymru, ac yn cyflogi dros 54,000 o bobl. Hefyd, creodd prosiectau'r UE a gefnogwyd gan y cronfeydd strwythurol ar gyfer 2007-13 bron i 30,700 o swyddi a 10,500 o fusnesau, gan helpu 63,400 o bobl i mewn i waith, 46,500 o bobl i mewn i ddysgu pellach a 194,200 o bobl i ennill cymwysterau. Drwy bolisi amaethyddol cyffredin yr UE, mae tua 16,000 o fusnesau fferm yn elwa o daliadau incwm uniongyrchol yng Nghymru.

The new structural funds programmes, from 2014-20, worth £1.9 billion, present further opportunities to support sustainable economic growth and jobs. We are already making excellent progress with their delivery. Wales was the first nation in the UK, and among the first in the EU, to have its structural funds programmes agreed. This was made possible by the excellent co-operation between the Welsh Government, European Commission and our partners across the public, private and third sectors in Wales. Formal launch events to celebrate this important milestone were held in north and south Wales at the end of last year, and I was delighted to announce £20 million of EU funds for Aberystwyth University's £35 million Innovation and Enterprise Campus—the first project approval under the new EU funds.

In the six months since the programmes were agreed, I have announced further investments of EU funds, now totalling over £220 million, in 17 projects. These investments are supporting key areas such as enterprise, innovation, employment, skills, gender equality, and support for young people. Most recently, the First Minister announced £10 million of EU funds for Minesto's marine energy scheme in Anglesey, Deep Green. This is an excellent example of not only EU funds driving Wales's potential to be a world leader in this field, but also of putting foundations in place to attract inward investment, with the Swedish company now set to establish its UK headquarters here in Wales. This brings EU investments so far to some 12% per cent of the total EU allocation for 2014–20, and clearly shows that we have hit the ground running with programme delivery. Further EU investments will be announced over the coming weeks and months in areas including research, strategic infrastructure, and employment and skills, and these will put us firmly on track to achieving our target of committing around one third of the EU funds available to Wales by the end of this financial year. The new Ireland-Wales co-operation programme is also now up and running, with an open call for proposals now under way.

Mae rhaglenni newydd y cronfeydd strwythurol, o 2014-20, sy'n werth £1.9 biliwn, yn cynnig cyfleoedd pellach i gefnogi twf economaidd a swyddi cynaliadwy. Rydym eisoes yn gwneud cynnydd ardderchog o ran eu cyflwyno. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU, ac un o'r rhai cyntaf yn yr UE, i sicrhau cytundeb ar ei rhaglenni cronfeydd strwythurol. Gwnaed hyn yn bosibl drwy gydweithredu rhagorol rhwng Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd a'n partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru. Cynhaliwyd digwyddiadau lansio ffurfiol i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon yn y gogledd a'r de ddiwedd y llynedd, ac roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi £20 miliwn o arian yr UE ar gyfer y Campws Arloesi a Menter gwerth £35 miliwn ym Mhrifysgol Aberystwyth—y prosiect cyntaf i gael cymeradwyaeth dan gronfeydd newydd yr UE.

Yn ystod y chwe mis ers cytuno ar y rhaglenni, rwyf wedi cyhoeddi buddsoddiadau pellach o arian yr UE, sydd bellach dros £220 miliwn, mewn 17 prosiect. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cefnogi meysydd allweddol fel menter, arloesi, cyflogaeth, sgiliau, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, a chefnogaeth i bobl ifanc. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd y Prif Weinidog £10 miliwn o arian yr UE ar gyfer cynllun ynni morol Minesto yn Ynys Môn, Deep Green. Mae hon yn enghraifft wych, nid yn unig o arian yr UE yn gyrru potensial Cymru i fod yn arweinydd byd yn y maes hwn, ond hefyd o roi sylfeini yn eu lle i ddenu mewnfuddsoddi, ac mae'r cwmni o Sweden nawr yn bwriadu sefydlu ei bencadlys yn y DU yma yng Nghymru. Mae hyn yn dod â buddsoddiadau'r UE hyd yma i tua 12% y cant o gyfanswm dyraniad yr UE ar gyfer 2014-20, ac yn dangos yn amlwg ein bod wedi cael dechrau da o ran cyflwyno rhaglenni. Caiff buddsoddiadau pellach gan yr UE eu cyhoeddi dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf mewn meysydd sy'n cynnwys ymchwil, seilwaith strategol, a chyflogaeth a sgiliau, a bydd y rhain yn ein rhoi'n gadarn ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed o neilltuo tuag un rhan o dair o arian yr UE sydd ar gael i Gymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhaglen gydweithredu newydd rhwng Iwerddon a Chymru hefyd yn awr ar waith, ac mae galwad agored am gynigion wedi'i gwneud.

Partnership is, of course, essential to the successful delivery of EU funds in Wales, as it was in the development of the programmes. Building on the recommendations of Dr Grahame Guilford's review, the alignment of EU funds activity alongside existing and emerging key spatial and sectoral initiatives—including the enterprise zones, local growth zones, business improvement districts, and Communities First clusters—will be vital to achieve maximum impact. It will also be important for EU funds to be integrated as part of a coherent and prioritised package of public and private investments that will bring genuine transformational change for an area and maximise the impact on jobs and growth. To help progress this agenda, discussions with the key partners, including the two city region boards in south Wales, the north Wales economic ambition board, the chairs of the enterprise zones and other local and regional partnerships have taken place. It is vital that, through this dialogue, the views and priorities of the private sector are captured and used to shape delivery of the new programmes. This is particularly important in helping us to focus the delivery of new pan-Wales structural funds projects being taken forward by Welsh Government departments. We can't afford to miss any opportunity to align funding with emerging growth opportunities.

Mae partneriaeth, wrth gwrs, yn hanfodol i ddarparu arian yr UE yn llwyddiannus yng Nghymru, fel yr oedd yn natblygiad y rhaglenni. Gan adeiladu ar argymhellion adolygiad Dr Grahame Guilford, bydd alinio gweithgarwch cronfeydd yr UE ochr yn ochr â mentrau gofodol a sectoraidd allweddol sy'n bodoli eisoes a rhai newydd—gan gynnwys y parthau menter, parthau twf lleol, ardaloedd gwella busnes, a chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf—yn hanfodol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Bydd hefyd yn bwysig integreiddio cronfeydd yr UE fel rhan o becyn cydlynol wedi'i flaenoriaethu o fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat a fydd yn dod â newid trawsffurfiol gwirioneddol i ardaloedd ac yn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar swyddi a thwf. Er mwyn helpu i fwrw ymlaen â'r agenda hon, mae trafodaethau wedi'u cynnal â'r partneriaid allweddol, gan gynnwys y ddau fwrdd dinas-ranbarth yn y de, bwrdd uchelgais economaidd y gogledd, cadeiryddion y parthau menter a phartneriaethau lleol a rhanbarthol eraill. Mae'n hanfodol, drwy'r ddeialog hon, fod safbwyntiau a blaenoriaethau'r sector preifat yn cael eu clywed a'u defnyddio i lunio darpariaeth y rhaglenni newydd. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn ein helpu i roi pwyslais penodol wrth weithredu prosiectau cronfeydd strwythurol Cymru gyfan newydd a ddatblygir gan adrannau Llywodraeth Cymru. Ni allwn fforddio colli'r un cyfle i alinio ariannu â chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ran twf.

The new single Wales programme monitoring committee—a prime example of partners working together to achieve the right outcomes—has also been considering proposals for regional partnership engagement, including how the economic prioritisation framework can help guide EU investments. It is also promoting the integration and co-ordination across all of the European structural and investment funds, including the rural and fisheries funds, as well as with other EU funding programmes such as Horizon 2020. Going forward, the PMC's work programme includes examining how the success and impact of EU funds can best be measured. In this context, as I've said in previous statements to Members, and to stakeholders and beneficiaries that I've met during events and visits to projects across Wales, the delivery of the EU funds is not 'business as usual'. EU funds are being invested in support of fewer priorities, in a more focused way, to create a more prosperous, competitive, fairer and inclusive society.

Mae pwyllgor sengl monitro rhaglenni newydd Cymru—enghraifft berffaith o bartneriaid yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau iawn—hefyd wedi bod yn ystyried cynigion ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid rhanbarthol, gan gynnwys sut y gall y fframwaith blaenoriaethu economaidd helpu i arwain buddsoddiadau'r UE. Mae hefyd yn hyrwyddo'r gwaith o integreiddio a chydlynu ar draws pob un o'r cronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys y cronfeydd gwledig a physgodfeydd, yn ogystal ag â rhaglenni ariannu eraill yr UE fel Horizon 2020. Wrth symud ymlaen, mae rhaglen waith y Pwyllgor Monitro Rhaglenni'n cynnwys archwilio beth yw'r ffordd orau o fesur llwyddiant ac effaith cronfeydd yr UE. Yn y cyd-destun hwn, fel yr wyf wedi'i ddweud wrth yr Aelodau mewn datganiadau blaenorol, ac wrth randdeiliaid a buddiolwyr yr wyf wedi cwrdd â hwy yn ystod digwyddiadau ac ymweliadau â phrosiectau ledled Cymru, nid 'busnes fel arfer' yw'r gwaith o gyflenwi cronfeydd yr UE. Mae cronfeydd yr UE yn cael eu buddsoddi i gefnogi llai o flaenoriaethau, mewn ffordd fwy penodol, er mwyn creu cymdeithas fwy ffyniannus, cystadleuol, teg a chynhwysol.

EU funds will help tackle historical gaps between Wales and the UK in key areas such as competitive research funding, employment, and living standards; support investments such as the south-east Wales metro, which can deliver a step change in our economic performance; link with other major private and public investments in the Welsh economy to maximise impact on growth and jobs; create the best conditions for businesses to flourish and grow by improving access to repayable finance, increase skills and build our reputation for world-class research and innovation; ensure a stronger focus on raising aspirations and tackling poverty by helping those most in need to find and sustain employment; and position Wales as a leader in renewable energy by exploiting the potential of the marine energy sector.

Bydd cronfeydd yr UE yn helpu i ymdrin â bylchau hanesyddol rhwng Cymru a'r DU mewn meysydd allweddol megis cyllido cystadleuol i ymchwil, cyflogaeth, a safonau byw; yn cefnogi buddsoddiadau megis metro'r de-ddwyrain, a all sicrhau newid sylweddol yn ein perfformiad economaidd; yn cysylltu â buddsoddiadau preifat a chyhoeddus mawr eraill yn economi Cymru i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar dwf a swyddi; yn creu'r amodau gorau er mwyn i fusnesau ffynnu a thyfu drwy wella mynediad i gyllid ad-daladwy, gwella sgiliau a chryfhau ein henw da am ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf; yn sicrhau pwyslais cryfach ar godi dyheadau a threchu tlodi drwy helpu'r bobl fwyaf anghenus i ddod o hyd i waith a'i gadw; ac yn sefydlu Cymru fel arweinydd o ran ynni adnewyddadwy drwy fanteisio ar botensial y sector ynni morol.

So, to conclude, every area across Wales has, in one way or another, benefited from EU funds. I know that people, businesses and communities will experience even greater and lasting benefits from the delivery of the new programmes. I've written to the new Secretary of State for Business, Innovation and Skills and Ministers of the new UK Government to underline how vital EU funds are to Wales, including David Lidington, the Minister for Europe. I can also guarantee that, as a pro-European Government, we will keep on making the most robust case possible for the UK's continued membership of the EU.

Felly, i gloi, mae pob ardal ledled Cymru, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, wedi elwa ar gronfeydd yr UE. Gwn y bydd pobl, busnesau a chymunedau'n cael buddion parhaol mwy fyth o gyflwyno'r rhaglenni newydd. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau ac at Weinidogion Llywodraeth newydd y DU i danlinellu pa mor hanfodol yw cronfeydd yr UE i Gymru, gan gynnwys David Lidington, Gweinidog Ewrop. Gallaf hefyd warantu, fel Llywodraeth sydd o blaid Ewrop, y byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos mwyaf cadarn posibl o blaid parhad aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Finally, I want to ensure that the communities and people we represent are made fully aware of the benefits of EU funds to Wales, and how crucial a fully engaged UK is to the success of the EU, and the EU is to the prosperity and wellbeing of Wales and the UK.

Yn olaf, rwyf am sicrhau bod y cymunedau a'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli'n gwbl ymwybodol o fanteision cronfeydd yr UE i Gymru, pa mor bwysig yw ymroddiad llwyr y DU i lwyddiant yr UE, a pha mor bwysig yw'r UE i ffyniant a lles Cymru a'r DU.

15:44

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. A number of Assembly Members have stated they want to speak in this debate, and, because of its importance, I do hope to get them all in, but I would ask them to be, not brief, but as concise as they can be. Jenny Rathbone.

Diolch, Weinidog. Mae nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi dweud yr hoffent siarad yn y ddadl hon, ac, oherwydd ei bod mor bwysig, rwyf yn gobeithio rhoi cyfle iddynt i gyd, ond gofynnaf iddynt fod, nid yn fyr, ond mor gryno ag y gallant fod. Jenny Rathbone.

15:44

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the challenges that faces us is persuading not just Ministers in the new Government, who seem to be somewhat cynical, but also people in Wales that being part of Europe is important. I was doing research online into some of the projects that you've mentioned, Minister, and I can't find anything in the press at all about these important developments, like the Minesto development that the First Minister announced recently. So, I just wondered what you think we can do to translate some of these initiatives into stories so that people will be able to grasp why Europe is important to the future of Wales.

Un o'r heriau sy'n ein hwynebu yw darbwyllo nid dim ond Gweinidogion yn y Llywodraeth newydd, sy'n ymddangos braidd yn sinigaidd, ond hefyd bobl yng Nghymru fod bod yn rhan o Ewrop yn bwysig. Roeddwn yn gwneud rhywfaint o ymchwil ar-lein i rai o'r prosiectau yr ydych wedi sôn amdanynt, Weinidog, ac ni allaf ddod o hyd i ddim byd o gwbl yn y wasg am y datblygiadau pwysig hyn, megis datblygiad Minesto a gyhoeddodd y Prif Weinidog yn ddiweddar. Felly, tybed beth ydych chi'n meddwl y gallwn ei wneud i droi rhai o'r mentrau hyn yn straeon fel y bydd pobl yn gallu deall pam y mae Ewrop yn bwysig i ddyfodol Cymru.

I have some specific questions around—. You've mentioned and highlighted the importance of the development of the marine energy sector in your statement, and I just wondered if you can give us any idea of what developments are occurring in promoting wind energy, because, obviously, we have a huge coastline, and that gives us a very large amount of wind that we could be tapping into, but, so far, those companies that have endeavoured to do it in some parts of Wales haven't had a great deal of success. I was very pleased to read online about the Communities4Work programme, which has got £14.4 million in west Wales and the Valleys for those over 25 years old, because, although the Jobs Growth Wales programme is extremely important, it's also very important that we ensure that people who are older than that are also supported to get into work. I wondered if you could tell me a little bit about how that will work in practice, because it's a programme that's going to be delivered by the Government, but presumably not from Cardiff bay. So, it would be useful to know a little bit more about how that is going to be successful in getting those vulnerable people who need work into work.

Mae gennyf rai cwestiynau penodol ynglŷn â—. Rydych wedi crybwyll ac wedi nodi pwysigrwydd datblygiad y sector ynni morol yn eich datganiad. Tybed a allwch roi rhyw syniad inni pa ddatblygiadau sy'n digwydd o ran hyrwyddo ynni gwynt, oherwydd, yn amlwg, mae gennym arfordir enfawr, ac mae hynny'n rhoi llawer iawn o wynt inni y gallem fod yn manteisio arno, ond, hyd yma, nid yw'r cwmnïau hynny sydd wedi ceisio gwneud hynny mewn rhai rhannau o Gymru wedi cael llawer iawn o lwyddiant. Roeddwn yn falch iawn o ddarllen ar-lein am y rhaglen Cymunedau dros Waith, sydd wedi cael £14.4 miliwn yn y gorllewin a'r Cymoedd ar gyfer pobl dros 25 oed, oherwydd, er bod rhaglen Twf Swyddi Cymru'n eithriadol o bwysig, mae hefyd yn bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod pobl sy'n hŷn na hynny hefyd yn cael cymorth i gael gwaith. Tybed a allech ddweud ychydig wrthyf ynghylch sut y bydd hynny'n gweithio yn ymarferol, oherwydd mae'n rhaglen a ddarperir gan y Llywodraeth, ond yn ôl pob tebyg nid o fae Caerdydd. Felly, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod ychydig mwy am sut y bydd honno'n llwyddo i gael y bobl hynny sy'n agored i niwed ac y mae angen gwaith arnynt i mewn i waith.

The other question I had was around who decides what is a backbone project or isn't, because I noticed that one of the programmes that are under consideration on the website—the Cardiff University brain research and imaging centre—is badged as not a backbone project. Given that two weeks ago we had a brain surgeon and a clinical psychologist come and talk to us about the work of this very important centre, which is doing research into the causes of epilepsy, bipolar disease and dementia, amongst other diseases, and trying to map the correlation between the psychological wellbeing of individuals and the effect on their brain, it seems to me that that research has huge implications for people across the world who are suffering from brain-related diseases, but also they've been extremely successful in attracting very high-class professionals. I don't know whether you're able to touch on why that therefore is not considered to be a backbone project, and who decides that.

Roedd fy nghwestiwn arall yn ymwneud â phwy sy'n penderfynu beth sy'n brosiect asgwrn cefn neu beidio, oherwydd sylwais fod un o'r rhaglenni sy'n cael eu hystyried ar y wefan—canolfan ymchwil a delweddu'r ymennydd ym Mhrifysgol Caerdydd—wedi ei glustnodi'n un nad yw'n brosiect asgwrn cefn. O ystyried bod llawfeddyg yr ymennydd a seicolegydd clinigol wedi dod i siarad â ni bythefnos yn ôl am waith y ganolfan bwysig iawn hon, sy'n gwneud ymchwil i'r hyn sy'n achosi epilepsi, clefyd deubegynol a dementia, ymysg clefydau eraill, ac yn ceisio mapio'r gydberthynas rhwng lles seicolegol unigolion a'r effaith ar eu hymennydd, mae'n ymddangos i mi fod goblygiadau aruthrol i'r ymchwil hwnnw i bobl ledled y byd sy'n dioddef o glefydau sy'n gysylltiedig â'r ymennydd, ond maent hefyd wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ddenu gweithwyr proffesiynol o safon uchel iawn. Nid wyf yn gwybod a allwch grybwyll pam nad yw hwnnw felly'n cael ei ystyried yn brosiect asgwrn cefn, a phwy sy'n penderfynu hynny.

15:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Jenny Rathbone for her questions. Of course, as chair of the programme monitoring committee, she has a very important role to play, particularly in relation to the communication strategies that, of course, have to be adopted in terms of the new structural fund programmes. In fact, the PMC has approved a communication strategy, and we need to make sure that that communication strategy does, as you say, actually highlight the human-interest stories in terms of the beneficiaries in terms of the response to the impact of our new round of European structural funds. I hope all Members will have seen that today I issued a letter where we undertook a campaign focusing around Europe Day, with links to every local authority area in Wales, to highlight the beneficiaries in terms of business, individuals and communities. Again, that is an opportunity for you to share. I shall also be ensuring that all local authorities are aware of that information as well.

Diolch i Jenny Rathbone am ei chwestiynau. Wrth gwrs, a hithau'n gadeirydd y pwyllgor monitro rhaglenni, mae ganddi ran bwysig iawn i'w chwarae, yn enwedig o ran y strategaethau cyfathrebu y mae'n rhaid eu mabwysiadu, wrth gwrs, o ran rhaglenni newydd y cronfeydd strwythurol. Yn wir, mae'r pwyllgor monitro rhaglenni wedi cymeradwyo strategaeth gyfathrebu, ac mae angen inni wneud yn siŵr bod y strategaeth gyfathrebu honno, fel y dywedwch, yn tynnu sylw at y straeon o ddiddordeb dynol o ran y buddiolwyr o ran yr ymateb i effaith ein cylch newydd o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Rwyf yn gobeithio y bydd pob Aelod wedi gweld fy mod heddiw wedi cyhoeddi llythyr lle'r oeddem yn cynnal ymgyrch yn canolbwyntio ar Ddiwrnod Ewrop, gyda chysylltiadau â phob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, i dynnu sylw at y buddiolwyr o safbwynt busnesau, unigolion a chymunedau. Unwaith eto, mae hwnnw'n gyfle ichi rannu. Byddaf hefyd yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno hefyd.

Jenny Rathbone raises a number of questions. Obviously, the opportunities that we have with marine energy are considerable, and indeed there was press and publicity in terms of the Minesto announcement, which the First Minister made, but also to look at the opportunities in terms of energy efficiency and renewables, and, of course, we are very much dependent in terms of what comes forward in terms of proposals.

Mae Jenny Rathbone yn codi nifer o gwestiynau. Yn amlwg, mae gennym gyfleoedd sylweddol o ran ynni morol, ac yn wir cafwyd sylw yn y wasg a chyhoeddusrwydd ynglŷn â'r cyhoeddiad ynghylch Minesto, a wnaeth y Prif Weinidog, ond hefyd o ran edrych ar y cyfleoedd o ran effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, ac, wrth gwrs, rydym yn ddibynnol iawn ar yr hyn a ddaw o ran cynigion.

I'm glad that you welcome the Communities4Work over-25s project, because in west Wales and the Valleys, and, of course, north Wales, that is crucial in terms of jobs and growth and opportunities.

Rwyf yn falch eich bod yn croesawu'r prosiect Cymunedau dros Waith i rai dros 25, oherwydd yn y gorllewin a'r Cymoedd, ac, wrth gwrs, yn y gogledd, mae hynny'n hanfodol o ran swyddi a thwf a chyfleoedd.

I think, in terms of the backbone projects, it's very important that we look back, of course, to Grahame Guilford's economic prioritisation framework, because he very clearly identified the need to focus, to concentrate and to be clear about the areas where we are targeting our funding, and to ensure that we do take forward those backbone projects that have been successful in the previous round. So, the strategy and the criteria for approving backbone projects are very clearly laid out. We would wish to not only take forward those successful projects but also consider—and certainly decisions haven't been made, not fixed and final, about many of the expressions of interest that now are being considered.

O ran y prosiectau asgwrn cefn, mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych yn ôl, wrth gwrs, ar fframwaith blaenoriaethu economaidd Grahame Guilford, oherwydd roedd yn nodi'n glir iawn fod angen pwyslais penodol, canolbwyntio a bod yn glir ynghylch y meysydd lle'r ydym yn targedu ein cyllid, a sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r prosiectau asgwrn cefn hynny a fu'n llwyddiannus yn y cylch blaenorol. Felly, mae'r strategaeth a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo prosiectau asgwrn cefn wedi'u nodi'n glir iawn. Rydym nid yn unig am fwrw ymlaen â'r prosiectau llwyddiannus hynny ond hefyd ystyried—ac yn sicr nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud, nid yn bendant a therfynol, am lawer o'r datganiadau o ddiddordeb sydd bellach yn cael eu hystyried.

15:50

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Conservative spokesperson, Nick Ramsay.

Llefarydd y Ceidwadwyr, Nick Ramsay.

15:50

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair, and thank you, Minister, for today's update on the progress of EU structural funds. You referred to Grahame Guilford's review and the alignment of EU funds activity, including enterprise zones—there was a heck of a lot in your statement, to be honest, including business improvement districts. I agree with you that we need a coherent package of public and private investments and that neither sector can do this alone. As the Enterprise and Business Committee's report on the Horizon 2020 inquiry found, we need to provide solid examples, from now on, of how investment of funds will deliver sustainable growth. It's clear that the goalposts have changed from the spending of funds in the past.

Diolch, Gadeirydd, a diolch i chi, Weinidog, am y wybodaeth ddiweddaraf heddiw am hynt cronfeydd strwythurol yr UE. Cyfeiriasoch at adolygiad Grahame Guilford ac alinio gweithgarwch cronfeydd yr UE, gan gynnwys parthau menter—roedd llawer iawn yn eich datganiad, a dweud y gwir, gan gynnwys ardaloedd gwella busnes. Rwyf yn cytuno â chi fod arnom angen pecyn cydlynol o fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat ac na all y naill sector na'r llall wneud hyn ar ei ben ei hun. Fel y canfu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ymchwiliad Horizon 2020, mae angen inni ddarparu enghreifftiau solet, o hyn ymlaen, i ddangos sut y bydd buddsoddi'r cronfeydd yn sicrhau twf cynaliadwy. Mae'n amlwg bod y pyst wedi symud ers gwario'r cronfeydd yn y gorffennol.

You've mentioned the city region boards and say that discussions have taken place with those boards. Could you tell us a bit more about the outcomes of those discussions and how they're going to be playing their part? Private views are, I would agree with you, vitally important to shaping the new programmes. We've heard about them from the Wales monitoring committee, which you say has been very important in promoting integration across all EU structural funds. We know about the importance of that integration. A little bit more detail about how the committee has been promoting that integration wouldn't go amiss.

Rydych wedi sôn am fyrddau'r dinas-ranbarthau ac yn dweud bod trafodaethau wedi eu cynnal â'r byrddau hynny. A allech ddweud ychydig mwy wrthym am ganlyniadau'r trafodaethau hynny, a sut y byddant yn chwarae eu rhan? Mae safbwyntiau preifat, rwyf yn cytuno â chi, yn hanfodol bwysig wrth lunio'r rhaglenni newydd. Rydym wedi clywed amdanynt gan bwyllgor monitro Cymru, sydd fel y dywedwch wedi bod yn bwysig iawn o ran hybu integreiddio ar draws holl gronfeydd strwythurol yr UE. Rydym yn gwybod am bwysigrwydd yr integreiddio hwnnw. Byddai ychydig mwy o fanylion am sut y mae'r pwyllgor wedi bod yn hybu'r integreiddio hwnnw'n dda o beth.

Pardon my scepticism here, but you set out objectives of the EU funds, and top of the list is helping tackle the historical gaps between Wales and England. Now, we all know that the Welsh Government and this Assembly have been recognising the historical gaps between Wales and England, and, indeed, within Wales, for a long time. We were told that the first round of structural funds was supposed to deal with the problems of west Wales and the Valleys, for instance, and that didn't happen at the time. So, how are you going to ensure that the next round of structural funds is going to deliver that sort of sustainable growth that we would all like to see?

Maddeuwch fy amheuon yma, ond rydych yn nodi amcanion cronfeydd yr UE, ac ar frig y rhestr mae helpu i gau'r bylchau hanesyddol rhwng Cymru a Lloegr. Yn awr, rydym i gyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn yn cydnabod y bylchau hanesyddol rhwng Cymru a Lloegr, ac, yn wir, o fewn Cymru, ers amser maith. Dywedwyd wrthym fod cylch cyntaf y cronfeydd strwythurol i fod i ddatrys problemau'r gorllewin a'r Cymoedd, er enghraifft, ac ni ddigwyddodd hynny ar y pryd. Felly, sut ydych chi'n mynd i sicrhau y bydd y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol yn cyflawni'r math hwnnw o dwf cynaliadwy yr hoffem i gyd ei weld?

You touched on the metro in your initial contribution. I'd like to know more about how EU funds are going to be used to support the metro. There are some very tight timescales for the delivery of that programme and aligning it with the new rail franchises, for instance. So, how is that funding going to help? Have you approached the European Investment Bank at all? I know that they've been responsible for investment, particularly in transport rail infrastructure projects in the north of Spain, and elsewhere in Europe. In the past, there has been criticism that Welsh Government hasn't accessed EIB funding as much as it could have, so are we looking at least at the potential for getting funding from the investment bank?

Soniasoch yn sydyn am y metro yn eich cyfraniad cychwynnol. Hoffwn gael gwybod mwy am y ffordd y caiff cronfeydd yr UE eu defnyddio i gefnogi'r metro. Mae amserlenni'n dynn iawn ar gyfer cyflwyno'r rhaglen honno a'i halinio â'r masnachfreintiau rheilffyrdd newydd, er enghraifft. Felly, sut y bydd y cyllid hwnnw'n helpu? A ydych wedi cysylltu â Banc Buddsoddi Ewrop o gwbl? Gwn eu bod wedi bod yn gyfrifol am fuddsoddi, yn enwedig mewn prosiectau seilwaith rheilffyrdd trafnidiaeth yng ngogledd Sbaen, ac mewn mannau eraill yn Ewrop. Yn y gorffennol, cafwyd beirniadaeth nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cymaint o gyllid Banc Buddsoddi Ewrop ag y gallai fod wedi ei wneud, felly a ydym o leiaf yn edrych ar y potensial o ran cael cyllid gan y banc buddsoddi?

The Finance Committee report of July 2014 contained a number of recommendations, many of which you accepted or accepted in principle. I'd be grateful if we could have—I'm not expecting a full response today, but if we could have an update on how those recommendations have been implemented and progress that's been made—. To pick one of the recommendations, recommendation 6 of that report spoke about the need for review of representation in the Wales House in Brussels and the need to tailor its services better to the needs of businesses in Wales. That's one example of an area I think it'd be important if we had an update from the Welsh Government on, on how improvements have been made. That committee report also mentioned the need for a champion—a better championing of European issues in Brussels. I know that, in your response to that report, you—Welsh Government—said that you felt that ministerial presence there was enough of a championing. There was a disagreement about that within the committee and within this Chamber. I'd be grateful to know how you are better at championing Wales's representation there in what is, we all agree, a very, very important future progress being made with accessing of European structural funds.

Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ym mis Gorffennaf 2014 yn cynnwys nifer o argymhellion, a chafodd llawer ohonynt eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor gennych. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael—nid wyf yn disgwyl ymateb llawn heddiw, ond pe gallem gael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r argymhellion hynny wedi'u gweithredu a'r cynnydd sydd wedi'i wneud—. A dewis un o'r argymhellion, roedd argymhelliad 6 yr adroddiad hwnnw'n sôn am yr angen i adolygu cynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel a'r angen i deilwra ei wasanaethau'n well i anghenion busnesau yng Nghymru. Dyna un enghraifft o faes yr wyf yn meddwl y byddai'n bwysig inni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru amdano, ynglŷn â sut y mae gwelliannau wedi'u gwneud. Roedd adroddiad y pwyllgor hefyd yn sôn am yr angen am hyrwyddwr—hyrwyddo materion Ewropeaidd yn well ym Mrwsel. Gwn eich bod chi—Llywodraeth Cymru—wedi dweud yn eich ymateb i'r adroddiad hwnnw eich bod o'r farn bod presenoldeb gweinidogion yno'n ddigon o hyrwyddo. Bu anghytuno ynghylch hynny yn y pwyllgor ac yn y Siambr hon. Byddai'n dda gennyf gael gwybod sut yr ydych yn hyrwyddo cynrychiolaeth Cymru yno'n well o ran yr hyn yr ydym i gyd yn cytuno ei fod yn gynnydd pwysig iawn, iawn yn y dyfodol o ran cael mynediad i gronfeydd strwythurol Ewrop.

15:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Nick Ramsay. I'm glad you welcome the fact that we are very much engaging cross-sectoral interests in the next round of structural funds, particularly a focus on the private sector. In fact, it was only yesterday that I met with all the chairs of the enterprise zones. I have already had one meeting with the chairs of the enterprise zones, I met them from across Wales—in fact, I know they're very interested in this statement today—to talk about, as I said in my statement, how we can align their interests and growth sectoral interests particularly with opportunities with the new structural funds. But, as I said when I met with, also, chairs of the city region boards, both Cardiff and Swansea—and I'm shortly meeting with the north Wales economic ambition board representatives as well—we need to be more focused, we need to ensure that we get their advice in terms of what we should and could take forward, which will have the greatest impact to ensure that we are making that step-change in the economy that we seek. I think this is very important in terms of this round: it's focusing on results.

Diolch yn fawr, Nick Ramsay. Rwyf yn falch eich bod yn croesawu'r ffaith ein bod yn wir yn cynnwys buddiannau traws-sector yng nghylch nesaf y cronfeydd strwythurol, gan ganolbwyntio'n enwedig ar y sector preifat. Yn wir, ddoe ddiwethaf cefais gyfarfod â holl gadeiryddion y parthau menter. Rwyf eisoes wedi cael un cyfarfod â chadeiryddion y parthau menter, cyfarfûm â hwy o bob rhan o Gymru—yn wir, gwn fod ganddynt ddiddordeb mawr yn y datganiad hwn heddiw—i drafod, fel y dywedais yn fy natganiad, sut y gallwn alinio eu buddiannau hwy a'u buddiannau mewn twf sectoraidd yn arbennig â chyfleoedd o ran y cronfeydd strwythurol newydd. Ond, fel y dywedais pan gyfarfûm, hefyd, â chadeiryddion byrddau'r dinas-ranbarthau, Caerdydd ac Abertawe—a byddaf yn cwrdd â chynrychiolwyr bwrdd uchelgais economaidd y gogledd cyn bo hir, hefyd—mae angen mwy o ffocws arnom, mae angen inni sicrhau ein bod yn gofyn eu cyngor o ran yr hyn y dylem ac y gallem fwrw ymlaen ag ef, a fydd yn cael yr effaith fwyaf er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y newid sylweddol hwnnw a geisiwn i'r economi. Credaf fod hyn yn bwysig iawn o ran y cylch hwn: mae'n fater o ganolbwyntio ar ganlyniadau.

This goes back to the question about backbone projects and what we should focus on. It's got to have a limited number of key objectives; results have to be identified for each priority axis of our structural fund programmes; we have to have clear, specific objectives, realistic results, and we need to show more clearly what impact the funding will have, what it will create, and how it can unlock wider private sector investment. That's the sort of discussion that I've been having with the key economic players, alongside the Minister for Economy, Science and Transport.

Mae hyn yn mynd yn ôl at y cwestiwn am brosiectau asgwrn cefn a'r hyn y dylem ganolbwyntio arno. Rhaid iddo fod â nifer cyfyngedig o amcanion allweddol; rhaid nodi canlyniadau ar gyfer pob echelin blaenoriaethol yn ein rhaglenni cronfeydd strwythurol; rhaid inni fod ag amcanion clir, penodol, canlyniadau realistig, ac mae angen inni ddangos yn gliriach beth fydd effaith yr arian, beth y bydd yn ei greu, a sut y gall ddatgloi buddsoddi ehangach yn y sector preifat. Dyna'r math o drafodaeth yr wyf wedi bod yn ei chael â'r chwaraewyr economaidd allweddol, ochr yn ochr â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Also, as a result of this, we know that we can't singlehandedly raise our GDP as a result of structural funds. We can close the gap; they can use them to make vital contributions to the Welsh economy and labour market. And I think we need to use structural funds alongside all other levers at our disposal in terms of our ambitions for the Welsh economy. But I do think it's important to look back to the impact of the recession. We did suffer a deeper recession than the rest of the UK, particularly west Wales and the Valleys, and had significant budget cuts. But we also were very innovative at the time in identifying a new programme, the ProAct programme, and also ReAct, to help us lead Wales out of the recession using structural funds to that benefit.

Hefyd, o ganlyniad i hyn, rydym yn gwybod na allwn godi ein CMC o ganlyniad i gronfeydd strwythurol yn unig. Gallwn gau'r bwlch; gallant eu defnyddio i wneud cyfraniadau hanfodol i economi Cymru a'r farchnad lafur. A chredaf fod angen inni ddefnyddio'r cronfeydd strwythurol ochr yn ochr â phob dull arall sydd ar gael inni o ran ein huchelgeisiau ar gyfer economi Cymru. Ond credaf ei bod yn bwysig edrych yn ôl ar effaith y dirwasgiad. Dioddefasom ddirwasgiad dyfnach na gweddill y DU, yn enwedig yn y gorllewin a'r Cymoedd, a thoriadau sylweddol yn y gyllideb. Ond roeddem hefyd yn arloesol iawn ar y pryd gan nodi rhaglen newydd, y rhaglen ProAct, a hefyd ReAct, i'n helpu i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad gan ddefnyddio cronfeydd strwythurol i'r perwyl hwnnw.

I will finally say that, in terms of the European Investment Bank, we're already very engaged with the EIB. They're an active investor in the Welsh economy. They've completed two deals this year—£230 million loaned to Welsh Water and £51 million loaned to the second largest windfarm in the world, Gwynt y Môr—back to Jenny Rathbone's point about wind energy. That is, of course, located eight miles off the north Wales coast. They've invested in Swansea University's innovation campus, and, of course, also we are engaging with them in terms of the Juncker package in terms of the European fund for strategic investments. And we do welcome the Commission's emphasis on greater utilisation of repayable finance.

Yn olaf, o ran Banc Buddsoddi Ewrop, rydym eisoes yn gwneud llawer â Banc Buddsoddi Ewrop. Maent yn fuddsoddwr gweithgar yn economi Cymru. Maent wedi cwblhau dau gytundeb eleni—benthyca £230 miliwn i Dŵr Cymru a benthyca £51 miliwn i'r ail fferm wynt fwyaf yn y byd, Gwynt y Môr—yn ôl at bwynt Jenny Rathbone am ynni gwynt. Mae honno, wrth gwrs, wyth milltir oddi ar arfordir y gogledd. Maent wedi buddsoddi yng nghampws arloesi Prifysgol Abertawe, ac, wrth gwrs, rydym hefyd yn ymgysylltu â hwy o ran y pecyn Juncker o ran y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol. Ac rydym yn croesawu pwyslais y Comisiwn ar ddefnyddio mwy o gyllid ad-daladwy.

Finally, I did respond in some detail to the Finance Committee's report, particularly responding in my statement on the EU funding ambassadors and their roles and the fact that I now regularly meet with all representatives in the Wales House and also encourage them to bring in wider representations in terms of the private and third sectors.

Yn olaf, ymatebais yn eithaf manwl i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, gan ymateb yn benodol yn fy natganiad am lysgenhadon cyllid yr UE a'u swyddogaethau a'r ffaith fy mod yn awr yn cwrdd yn rheolaidd â holl gynrychiolwyr Tŷ Cymru a hefyd yn eu hannog i gyflwyno sylwadau ehangach ynglŷn â'r sector preifat a'r trydydd sector.

15:59

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Like others this afternoon, I would like to welcome the statement you're making, Minister, this afternoon, but also the statement that we received some days ago from the Deputy Minister on the rural development programme. I think both statements together really do make the case that the Government really has hit the ground running and achieved all of our ambitions in terms of preparing for this round of structural funds. I think that's something that we very much can welcome.

Fel eraill y prynhawn yma, hoffwn groesawu'r datganiad yr ydych yn ei wneud, Weinidog, y prynhawn yma, ond hefyd y datganiad a gawsom rai diwrnodau'n ôl gan y Dirprwy Weinidog ar y rhaglen datblygu gwledig. Credaf fod y ddau ddatganiad gyda'i gilydd yn cyflwyno'r achos fod y Llywodraeth mewn gwirionedd wedi cael dechrau da i'w gwaith ac wedi cyflawni pob un o'n huchelgeisiau o ran paratoi am y cylch hwn o gronfeydd strwythurol. Credaf fod hynny'n rhywbeth y gallwn ei groesawu'n fawr.

I think we should also welcome the very clear statement you made, Minister, that this is a pro-European Government and will continue to make the case for membership of the European Union. It's absolutely fundamental, I believe, to the success of our economy and an important part of who we are as a society that we want to pool and share our sovereignty with our friends, comrades and colleagues on the European mainland. I hope that this Government will continue to make that case as we use structural funds in a constructive way in order to improve our economic performance, but also to improve economic performance for a purpose. I was very pleased to hear what you said about Grahame Guilford's review. I think that's also achieving some of the ambitions that we had for it and is certainly helping to route this round of funding in a very clear economic target, in a way that, perhaps, wasn't always the case. I think that's certainly something that I very much welcome and I think will be welcomed elsewhere as well.

Credaf y dylem hefyd groesawu'r datganiad clir iawn a wnaethoch, Weinidog, fod hon yn Llywodraeth sydd o blaid Ewrop ac y bydd yn parhau i gyflwyno'r achos o blaid aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n gwbl sylfaenol, yn fy marn i, i lwyddiant ein heconomi ac yn rhan bwysig o bwy ydym ni fel cymdeithas ein bod am gyfuno a rhannu ein sofraniaeth â'n cyfeillion, ein cymrodyr a'n cydweithwyr ar dir mawr Ewrop. Rwyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i gyflwyno'r achos hwnnw wrth inni ddefnyddio cronfeydd strwythurol mewn ffordd adeiladol i wella ein perfformiad economaidd, ond hefyd i wella'r perfformiad economaidd at ddiben. Roeddwn yn falch iawn o glywed yr hyn a ddywedasoch am adolygiad Grahame Guilford. Credaf fod hwnnw hefyd yn cyflawni rhai o'r uchelgeisiau a oedd gennym ar ei gyfer ac mae'n sicr yn helpu i gyfeirio'r cylch ariannu hwn mewn targed economaidd clir iawn, mewn ffordd nad oedd, efallai, bob amser yn digwydd. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr wyf yn ei groesawu'n fawr iawn a chredaf y caiff ei groesawu'n fawr iawn mewn mannau eraill hefyd.

But, in terms of setting targets, you yourself, Minister, and others before you, have said that you want to be very clear that this is the last round of funding that Wales receives at the highest level and we need to be very clear about how we achieve that. We can certainly achieve targets on GDP and growth, and I think the Conservative spokesperson has mentioned that already. But let us also ensure that we have very clear targets that aren't simply about achieving targets on growth, but are also about the eradication of poverty and tackling climate change—hard-wiring sustainable growth into what we're doing. We all know that it's possible to achieve targets on GDP without actually touching the issues of poverty in some of our most vulnerable communities. I think it would be an absolute tragedy if we put in place targets that are simply there to achieve political objectives in terms of paperwork, but don't actually change the opportunities and life chances of people living in some of our most vulnerable communities. So, I hope that we'll be able to see very clear targets for that.

Ond, o ran gosod targedau, rydych chi eich hun, Weinidog, ac eraill o'ch blaen, wedi dweud eich bod am fod yn glir iawn mai hwn yw'r cylch olaf o gyllid a gaiff Cymru ar y lefel uchaf ac mae angen inni fod yn glir iawn am sut mae gwneud hynny. Gallwn yn sicr gyrraedd y targedau ar CMC a thwf, ac rwyf yn credu bod llefarydd y Ceidwadwyr wedi sôn am hynny eisoes. Ond gadewch inni hefyd sicrhau bod gennym dargedau clir iawn nad ydynt yn ymwneud â chyrraedd targedau twf yn unig, ond hefyd yn ymwneud â dileu tlodi ac ymdrin â newid yn yr hinsawdd—gwneud twf cynaliadwy'n rhan annatod o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym i gyd yn gwybod ei bod yn bosibl cyrraedd targedau ar CMC heb gyffwrdd â materion tlodi yn rhai o'n cymunedau mwyaf bregus. Credaf y byddai'n drasiedi lwyr pe baem yn rhoi targedau ar waith dim ond er mwyn cyflawni amcanion gwleidyddol o ran gwaith papur, ond rhai nad ydynt yn newid cyfleoedd a rhagolygon bywyd pobl sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf bregus. Felly, rwyf yn gobeithio y gallwn weld targedau clir iawn ar gyfer hynny.

My final point, Minister, is that of integration. This, again, was raised by our Conservative friend. Integration is absolutely fundamental if we are going to achieve the greatest impact on the economy and on the communities that we represent—the integration not just of the two major structural funds, but other funds from Horizon 2020 through to rural development plan funds as well. Integration was a fundamental part of how we were going to approach this spending in this round. I hope, Minister, you'll be able to give us an indication of how that integration, in terms of projects and in terms of not only reporting but management as well, is something that the Government will be able to achieve and that you will achieve the ambitions that you've set yourself.

Fy mhwynt olaf, Weinidog, yw integreiddio. Codwyd hyn, unwaith eto, gan ein cyfaill Ceidwadol. Mae integreiddio'n hollol hanfodol os ydym am gael yr effaith fwyaf ar yr economi ac ar y cymunedau a gynrychiolwn—integreiddio nid yn unig y ddwy gronfa strwythurol fawr, ond cronfeydd eraill o Horizon 2020 hyd at gronfeydd y cynllun datblygu gwledig hefyd. Roedd integreiddio'n rhan sylfaenol o'r ffordd yr oeddem am ymdrin â'r gwariant hwn yn y cylch hwn. Rwyf yn gobeithio, Weinidog, y byddwch yn gallu rhoi syniad inni o sut y mae'r integreiddio hwnnw, o ran prosiectau ac o ran nid dim ond adrodd ond rheoli yn ogystal, yn rhywbeth y bydd y Llywodraeth yn gallu ei gyflawni ac y byddwch yn gallu cyflawni'r uchelgeisiau yr ydych wedi'u gosod i chi eich hun.

16:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Alun Davies. I obviously welcome your support for the statement and I will focus, to start off with, by responding to one of your final points about the importance of integration, because you welcomed in your opening remarks the statement made by the Deputy Minister for Farming and Food on the rural development plan and the funding for the programme last week. That demonstrated the real opportunity that we've got in terms of bringing together not only our structural funds with our rural development funds, but also the integration of the other funds that, of course, I've mentioned today in terms of centrally managed funds, not just the territorial co-operation programmes, like the Ireland-Wales programme, but also those other directly managed funds, such as Erasmus, Horizon 2020 and LIFE+. I think that I fully expressed that integration in my statement on the role of the EU funding ambassadors who, of course, have that as their key objective, in terms of widening the opportunities that we have to take advantage of the European Commission's funding streams in its wider sense.

Diolch yn fawr, Alun Davies. Rwyf wrth gwrs yn croesawu eich cefnogaeth i'r datganiad ac rwyf am ganolbwyntio, i ddechrau, drwy ymateb i un o'ch pwyntiau olaf ynglŷn â phwysigrwydd integreiddio, oherwydd yn eich sylwadau agoriadol roeddech yn croesawu'r datganiad a wnaeth y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd am y cynllun datblygu gwledig a'r arian ar gyfer y rhaglen yr wythnos diwethaf. Roedd hynny'n dangos y cyfle gwirioneddol sydd gennym o ran dwyn ynghyd nid yn unig ein cronfeydd strwythurol â'n cronfeydd datblygu gwledig, ond hefyd o ran integreiddio'r cronfeydd eraill hynny yr wyf, wrth gwrs, wedi sôn amdanynt heddiw o ran cronfeydd a reolir yn ganolog, nid dim ond y rhaglenni cydweithredu tiriogaethol, fel rhaglen Cymru-Iwerddon, ond hefyd y cronfeydd eraill hynny a reolir yn uniongyrchol, megis Erasmus, Horizon 2020 a LIFE+. Credaf fy mod wedi mynegi'r integreiddio hwnnw'n llawn yn fy natganiad ar swyddogaeth llysgenhadon cyllid yr UE; dyna, wrth gwrs, yw eu hamcan allweddol, o ran ehangu'r cyfleoedd a gawn i fanteisio ar ffrydiau ariannu'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei ystyr ehangach.

I'm glad that you recognise that we are very much in tune with the business community in terms of how we address this round of structural funds. But, also, I would say that we are very much in tune with the business community, I would say, as a pro-European Government. We recognise that the Confederation of British Industry Wales chair, Chris Sutton, said after the general election that he wanted to be sure that CBI Wales would be campaigning to stay within a reformed EU. Also, Elgan Morgan, of the South Wales Chamber of Commerce, commented that

Rwyf yn falch eich bod yn cydnabod ein bod yn bendant yn gytûn â'r gymuned fusnes o ran sut mae ymdrin â'r cylch hwn o gronfeydd strwythurol. Ond, hefyd, byddwn yn dweud ein bod yn bendant yn gytûn â'r gymuned fusnes, byddwn yn dweud, fel Llywodraeth sydd o blaid Ewrop. Rydym yn cydnabod bod cadeirydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru, Chris Sutton, wedi dweud ar ôl yr etholiad cyffredinol ei fod am fod yn sicr y byddai CBI Cymru'n ymgyrchu i aros o fewn UE diwygiedig. Hefyd, dywedodd Elgan Morgan, o Siambr Fasnach De Cymru

'Leaving the EU would complicate relationships between Welsh businesses and their European customers and may discourage businesses from pursing export possibilities altogether.'

Byddai gadael yr UE yn cymhlethu'r berthynas rhwng busnesau Cymru a'u cwsmeriaid Ewropeaidd a gallai atal busnesau rhag mynd ar drywydd posibiliadau i allforio'n gyfan gwbl.

We do look to the business community to make those points very powerfully in relation to the importance of the EU to Wales.

Rydym yn gobeithio y bydd y gymuned fusnes yn gwneud y pwyntiau hynny'n rymus iawn ynglŷn â phwysigrwydd yr UE i Gymru.

We have to be clear about our economic targets and what we achieve in terms of that overall economic and wider social and environmental benefit from being part of the European Union, and being able to benefit from all the range of structural funds. So, I very much welcome your comments on the importance of using the structural funds to tackle poverty, and tackling inequalities as a result, and also the environmental benefits that can accrue from the particular measures, which are very key in this round, in terms of tackling climate change and promoting energy efficiency and renewables. I mean, we have just spent 20 per cent of our structural funds on eradicating poverty and, of course, the Minister for Communities and Tackling Poverty is monitoring that very carefully. But, it's certainly not just 20 per cent, because we know that if we're creating opportunities for jobs, particularly for those who are hardest to reach and furthest from the labour market, we will be tackling poverty if we're also tackling the issues that affect whole communities. And by giving new prospects through the private as well as the public sector through the structural funds, we will be making the step change difference that we wish to see.

Rhaid inni fod yn glir ynghylch ein targedau economaidd a'r hyn yr ydym yn ei gyflawni o ran y budd economaidd cyffredinol hwnnw a budd cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, a gallu manteisio ar yr holl gronfeydd strwythurol. Felly, rwyf yn croesawu'n fawr eich sylwadau am bwysigrwydd defnyddio'r cronfeydd strwythurol i drechu tlodi, ac ymdrin ag anghydraddoldebau o ganlyniad, a hefyd y manteision amgylcheddol a all ddeillio o'r mesurau penodol, sy'n allweddol iawn yn y cylch hwn, o ran ymdrin â newid yn yr hinsawdd a hybu effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Hynny yw, rydym newydd wario 20 y cant o'n cronfeydd strwythurol ar ddileu tlodi ac, wrth gwrs, mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi'n monitro hynny'n ofalus iawn. Ond, mae'n sicr yn fwy na dim ond 20 y cant, oherwydd gwyddom, os ydym yn creu cyfleoedd swyddi, yn enwedig i'r bobl anoddaf eu cyrraedd sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, y byddwn yn trechu tlodi os byddwn hefyd yn ymdrin â'r materion sy'n effeithio ar gymunedau cyfan. A thrwy roi rhagolygon newydd drwy'r sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus drwy'r cronfeydd strwythurol, byddwn yn gwneud y gwahaniaeth sylweddol yr ydym am ei weld.

16:06 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru spokesperson, Alun Ffred Jones.

Llefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.

16:06 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr am gael cyfrannu at y datganiad yma. Prif bwrpas y cronfeydd strwythurol, wrth gwrs, ydy codi lefel GDP a GVA yn yr ardaloedd sy'n derbyn y cymorth yna, ac rwy'n derbyn y pwyntiau roedd Alun Davies yn eu gwneud ynglŷn â dileu tlodi hefyd. Yn anffodus, er gwaethaf y gwariant a'r canmol ar y rhaglenni, nid yw'r deilliannau disgwyliedig hynny wedi digwydd yma yng Nghymru. Mae lefel cymharol GDP y pen yn ardal gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi aros yn gyson isel, ac mae'r ardaloedd hynny lle mae tlodi a difreintedd hefyd wedi aros heb symud rhyw lawer. Y cwestiwn, felly, ydy: pam fod hynny wedi digwydd er gwaethaf y buddsoddiad eithaf sylweddol sydd wedi digwydd dros y ddegawd ddiwethaf yma?

Thank you very much for this opportunity to contribute to this statement. The main purpose of the structural funds, of course, is to raise the level of GDP and DVA in those areas that receive that support, and I accept the points that Alun Davies made in relation to the eradication of poverty as well. Unfortunately, despite the expenditure and the praise of the programmes, the expected outcomes haven't taken place here in Wales. The comparative level of GDP per head in the west Wales and the Valleys area has remained consistently low, and those areas where there's poverty and deprivation have also remained without a great deal of movement. So, the question is: why has that happened despite this rather significant investment that has been made over this past decade?

Roeddech chi'n cyfeirio yn eich datganiad bod angen inni fod yn fwy 'focused'—'not business as usual' oedd eich disgrifiad chi. Felly, sut mae'r Llywodraeth yn mynd i sicrhau bod yr arian nesaf yma yn mynd i roi hwb gwirioneddol i gyflogaeth a chyfoeth yng Nghymru, ac i newid y sefyllfa, sydd wedi profi yn anodd iawn i'w gyflawni hyd yn hyn? Ac nid wyf yn glir o'r datganiad beth ydy'r blaenoriaethau hynny, na'r strategaeth i'w cyflawni.

You referred in your statement that we need to be more focused—not business as usual, which was your description of it. So, how is the Government going to ensure that this next tranche of funding is going to give a genuine boost to wealth and employment in Wales, and to change the situation, which has proven very difficult to achieve up till now? And it's not clear from the statement what those priorities are, or what the strategy is to achieve them.

Mae adroddiad Guilford yn dweud yn glir bod angen cael arweiniad clir, ac mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn awgrymu efallai nad WEFO ydy'r llwybr gorau i'w ddilyn er mwyn gosod y cyfeiriad yma. Rydych wedi cyfeirio at y sector preifat. Ein barn ni ym Mhlaid Cymru ydy y dylid sefydlu corff dan arweiniad y sector preifat i weithio ochr yn ochr â'r Llywodraeth. A ydych chi wedi ystyried hyn, ac os ydych chi wedi ei wrthod o, a allwch chi esbonio pam eich bod chi wedi gwneud hynny?

The Guilford report states very clearly that there is a need for clear leadership, and the report of the Finance Committee suggests that perhaps WEFO isn't the best path to follow to set that direction. You've referred to the private sector. Our opinion in Plaid Cymru is that a body should be established, led by the private sector, to work side by side with the Government. Have you considered this, and if you've rejected that suggestion, could you tell us why you've done so?

Ac yn olaf, yr unig gyfeiriad yn y datganiad at unrhyw gynlluniau penodol ydy hwnnw i'r metro fel cynllun y bydd disgwyl i'r cronfeydd strwythurol gyfrannu atyn nhw. Rŵan, rydym eisoes yn sôn am wario £1 biliwn o hawl benthyca'r Llywodraeth ar gynllun yr M4. A oes gennych chi ryw syniad faint o gyfraniad y byddwch chi'n disgwyl i'r cronfeydd strwythurol ei wneud i'r metro, gan gofio bod yna ardaloedd eraill yng Nghymru hefyd yn disgwyl hwb o'r fath? Oes yna gynlluniau eraill ar y gweill, fel y metro, y gallwch chi gyfeirio atyn nhw mewn rhannau eraill o Gymru a fydd yn derbyn arian dan y rownd nesaf o gronfeydd strwythurol? Diolch.

Finally, the only reference in the statement to any specific schemes is that to the metro as a scheme that structural funds are expected to contribute towards. Now, we're already talking about spending £1 billion of the Government's borrowing ability on the M4 scheme. Have you any idea of how much of a contribution you expect the structural funds to make to the metro, remembering the fact that there are other areas in Wales that are also expecting a boost of that kind? Are there other schemes in the pipeline, such as the metro, that you can refer to in other parts of Wales that will receive funding under this next tranche of structural funds? Thank you.

16:09 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. I hope my statement and, indeed, my responses to questions demonstrated my commitment particularly to engaging with the private sector in this new round of structural funds, and also recognised, just in terms of your points about what kind of change we are going to see, what this step change and what the transformation that we're going to see as a result of the new round of structural funds are. We've got to recognise where we've come from, and that the west Wales and the Valleys region—and, of course, that includes all of north Wales—has suffered a deeper recession than the rest of the UK. You know, we've got to remember where we've come from and how we've addressed that over the period, particularly over the deepest period of recession, and how we've used our structural funds to benefit this region, particularly supporting jobs and growth, and also recognise that we do have this economic prioritisation framework now in this new round. It is a key tool, maximising the impact of EU funds. It's focused around key economic opportunities. It maps significant existing and planned investments within the Welsh economy, and we are maximising the impact of our investment to meet Europe 2020 and Welsh Government goals, and that's about greater focus and concentration of resources. I've already responded to the questions and points about the integration agenda and the real synergy that exists so that we can also use European structural investment funds to have better outcomes.

Diolch yn fawr, Alun Ffred Jones. Rwyf yn gobeithio bod fy natganiad ac, yn wir, fy atebion i gwestiynau wedi dangos fy ymrwymiad penodol i ymgysylltu â'r sector preifat yn y cylch newydd hwn o gronfeydd strwythurol, gan gydnabod hefyd, o ran eich pwyntiau ynghylch pa fath o newid yr ydym yn mynd i'w weld, beth yw'r newid sylweddol hwn a beth yw'r trawsnewid yr ydym yn mynd i'w weld o ganlyniad i'r cylch newydd o gronfeydd strwythurol. Mae'n rhaid inni gydnabod o ble'r ydym wedi dod, a bod rhanbarth y gorllewin a'r Cymoedd—ac, wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys y gogledd i gyd—wedi dioddef dirwasgiad dyfnach na gweddill y DU. Wyddoch chi, mae'n rhaid inni gofio o ble'r ydym wedi dod a sut yr ydym wedi ymdrin â hynny dros y cyfnod, yn enwedig dros gyfnod dyfnaf y dirwasgiad, a sut yr ydym wedi defnyddio ein cronfeydd strwythurol er budd y rhanbarth hwn, yn enwedig i gefnogi swyddi a thwf, a chydnabod hefyd fod gennym y fframwaith blaenoriaethu economaidd hwn yn awr yn y cylch newydd hwn. Mae'n offeryn allweddol i wneud yn fawr o effaith cronfeydd yr UE. Mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd economaidd allweddol. Mae'n mapio buddsoddiadau sylweddol sy'n digwydd ar hyn o bryd a rhai arfaethedig o fewn economi Cymru, ac rydym yn gwneud yn fawr o effaith ein buddsoddi i gyrraedd targedau Ewrop 2020 a Llywodraeth Cymru, ac mae hynny'n golygu mwy o ffocws a chanolbwyntio adnoddau. Rwyf eisoes wedi ymateb i'r cwestiynau a'r pwyntiau am yr agenda integreiddio a'r synergedd go iawn sy'n bodoli fel y gallwn hefyd ddefnyddio cronfeydd buddsoddi strwythurol Ewrop i gael gwell canlyniadau.

On your points about the delivery and management of the funds, the WAO report published last April did recognise significant improvements that have been achieved since previous programmes. And, in fact, Grahame Guilford's review also recognised that we do have the right foundations in place to maximise our investments. Those investments, of course—and it's worth, again, repeating them—are in research and innovation, SME competitiveness, the low-carbon economy, connectivity, sustainable development, and helping increase skills and employment. All of those are key to delivering on economic growth and jobs across Wales.

O ran eich pwyntiau ynghylch darparu a rheoli'r cronfeydd, roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd fis Ebrill diwethaf yn cydnabod bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers y rhaglenni blaenorol. Ac, a dweud y gwir, roedd adolygiad Grahame Guilford hefyd yn cydnabod bod y sylfeini cywir gennym i wneud y gorau o'n buddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hynny, wrth gwrs—ac mae'n werth, unwaith eto, eu hailadrodd—ym meysydd ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau bach a chanolig, yr economi carbon isel, cysylltedd, datblygu cynaliadwy, a helpu i gynyddu sgiliau a chyflogaeth. Mae'r rhain i gyd yn allweddol i sicrhau twf economaidd a swyddi ledled Cymru.

Just in terms of the projects that we have approved—I haven't listed them; it would have been an even longer statement—I do also draw attention again to my links in the Europe Day letter that I have written to all Members. There are links to all the beneficiaries in their communities. The projects that we have already approved include entrepreneurship support from Business Wales for west Wales and the Valleys, which is £30.4 million. There is £10.1 million for east Wales. I've mentioned the Aberystwyth innovation and enterprise campus. Also, ReAct III, tackling poverty through sustainable employment—that's £16.7 million. Agile Nation for west Wales and the Valleys and east Wales—that's skills for growth in terms of tackling gender inequality. Active inclusion is about £16.6 million. The lead organisation is the Wales Council for Voluntary Action. That's a backbone project, tackling poverty through sustainable employment. Deep Green from Minesto—again, that's private sector-led—meeting the renewable energy and energy efficiency scheme. And there are many more to announce; those, of course, are just some of them.

O ran y prosiectau yr ydym wedi eu cymeradwyo—nid wyf wedi eu rhestru; byddai wedi bod yn ddatganiad hwy fyth—tynnaf sylw unwaith eto at fy nghysylltiadau yn y llythyr Diwrnod Ewrop yr wyf wedi'i ysgrifennu at yr holl Aelodau. Mae cysylltiadau â'r holl fuddiolwyr yn eu cymunedau. Mae'r prosiectau yr ydym eisoes wedi'u cymeradwyo'n cynnwys cefnogaeth entrepreneuriaeth gan Busnes Cymru i'r gorllewin a'r Cymoedd, sef £30.4 miliwn. Mae £10.1 ar gyfer y dwyrain. Rwyf wedi sôn am y campws arloesi a menter yn Aberystwyth. Hefyd, ReAct III, i drechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy—dyna £16.7 miliwn. Cenedl Hyblyg i'r gorllewin a'r Cymoedd a'r dwyrain—sef sgiliau ar gyfer twf o ran ymdrin ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae cynhwysiant gweithredol tua £16.6 miliwn. Y sefydliad arweiniol yw Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae hwnnw'n brosiect asgwrn cefn i drechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy. Deep Green o Minesto—eto, dan arweiniad y sector preifat—i fodloni'r cynllun effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Ac mae llawer mwy i'w cyhoeddi; dim ond rhai ohonynt yw'r rheini, wrth gwrs.

You mentioned the fact that I mentioned the metro as one kind of transformational scheme that is, of course, now very primed for European investment. Of course, the Minister for the Economy, Science and Transport will be coming forth shortly in terms of the details of the scheme, but, clearly, the Commission is very interested in it.

Soniasoch fy mod wedi crybwyll y metro fel un math o gynllun trawsnewidiol sydd, wrth gwrs, erbyn hyn yn barod iawn ar gyfer buddsoddiad Ewropeaidd. Wrth gwrs, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi manylion y cynllun cyn bo hir, ond, yn amlwg, mae gan y Comisiwn ddiddordeb mawr ynddo.

16:13

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, one matter that's long been the subject of debate is the way that the European structural fund programmes relate to each other Wales-wide and, for me particularly, in terms of south-east Wales and the recognition that the economy of south-east Wales very much relates to the economy of the surrounding Valleys, for example, and it can be quite artificial to try and make distinctions between them. I wonder if you could tell the Chamber how the current programme that will roll out for several years to come will achieve that integration. I note in your statement that you speak of the single Wales programme monitoring committee promoting integration and co-ordination across all European structural and investment funds, and I wonder if you could flesh that out a little in terms of those issues and say to what extent the economy of south-east Wales will be supported during this round of funding to benefit that area but also, of course, the regional economy that, in part, depends upon it.

Weinidog, un mater sydd wedi bod yn destun dadlau ers peth amser yw'r ffordd y mae rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewrop yn ymwneud â'i gilydd ledled Cymru ac, i mi yn enwedig, o ran y de-ddwyrain a'r gydnabyddiaeth bod yr economi yn y de-ddwyrain yn gysylltiedig i raddau helaeth ag economi'r Cymoedd cyfagos, er enghraifft, a gall fod yn eithaf artiffisial ceisio gwahaniaethu rhyngddynt. Tybed a allech ddweud wrth y Siambr sut y bydd y rhaglen gyfredol a gyflwynir am lawer o flynyddoedd i ddod yn sicrhau'r integreiddio hwnnw? Rwyf yn sylwi yn eich datganiad eich bod yn sôn y bydd pwyllgor sengl monitro rhaglenni Cymru'n hyrwyddo integreiddio a chydlynu ar draws yr holl gronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewropeaidd, a tybed a allech ymhelaethu ychydig ar hynny o ran y materion hynny a dweud i ba raddau y caiff economi'r de-ddwyrain ei chefnogi yn ystod y cylch ariannu hwn er budd yr ardal honno, ond hefyd, wrth gwrs, yr economi ranbarthol sydd, yn rhannol, yn dibynnu arno.

Within that, can you say any more than you've said already today about the south-east Wales metro and, indeed, the marine energy sector, because, obviously, the metro system is very important to that wider south-east Wales economy, overlapping the Valleys and the area outside the Valleys? And, of course, there are ambitious projects for a roll-out of marine energy in terms of the lagoons, on from Swansea, if, indeed, that's given the go-ahead, to both sides of the mouth of the Usk—Newport to Cardiff and from Newport down to Magor. So, it would be very interesting for the Chamber, I think, Minister, if you could say any more in terms of how these funds might help facilitate those projects.

O fewn hynny, a allwch ddweud mwy nag yr ydych wedi'i ddweud eisoes heddiw am y metro yn y de-ddwyrain ac, yn wir, y sector ynni morol, oherwydd, yn amlwg, mae system y metro'n bwysig iawn i'r economi ehangach yn y de-ddwyrain, ac yn gorgyffwrdd â'r Cymoedd a'r ardal y tu allan i'r Cymoedd? Ac, wrth gwrs, mae prosiectau uchelgeisiol i gyflwyno ynni morol o ran y lagwnau, ymlaen o Abertawe, os, yn wir, y caiff hynny'r golau gwyrdd, at ddwy ochr ceg afon Wysg—Casnewydd i Gaerdydd ac o Gasnewydd i lawr i Fagwyr. Felly, byddai'n ddiddorol iawn i'r Siambr, rwyf yn meddwl, Weinidog, pe gallech ddweud mwy ynglŷn â sut y gallai'r arian hwn helpu i hwyluso'r prosiectau hynny.

16:15

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, John Griffiths and of course, Member for Newport East, which is very important in terms of the east Wales representation across this Chamber, and it's fully represented in terms of the geographical as well as sectoral representation on the programme monitoring committee as well. I won't repeat again the announcements that have already been made in terms of the structural and investment funds that we've already announced. In fact, all of them, except for the particular Minesto in north Wales's marine energy project—entrepreneurship support, apprenticeships, Jobs Growth Wales, Active Inclusion—involve money to east Wales as well as to north, west Wales and the Valleys.

Diolch yn fawr, John Griffiths ac wrth gwrs, Aelod Dwyrain Casnewydd, sy'n bwysig iawn o ran cynrychiolaeth y dwyrain ar draws y Siambr hon, ac mae wedi'i gynrychioli'n llawn o ran cynrychiolaeth ddaearyddol yn ogystal â chynrychiolaeth sectoraidd ar y pwyllgor monitro rhaglenni hefyd. Nid wyf am ailadrodd y cyhoeddiadau sydd eisoes wedi eu gwneud o ran y cronfeydd strwythurol a buddsoddi yr ydym wedi'u cyhoeddi eisoes. Yn wir, mae pob un ohonynt, ac eithrio'r Minesto penodol ym mhrosiect ynni morol y gogledd— cefnogi entrepreneuriaeth, prentisiaethau, Twf Swyddi Cymru, Cynhwysiant Gweithredol—yn golygu arian i'r dwyrain yn ogystal ag i'r gogledd, y gorllewin a'r Cymoedd.

So, it is very important that, in all our areas and communities, we can say, 'If you are in receipt of, or are a beneficiary of, Jobs Growth Wales, whether you live in Newport, Barry or indeed, Deeside or Bangor, you are part of the all-Wales Jobs Growth Wales; you are a beneficiary as a result of that funding'. So, it is vitally important that this is seen as an all-Wales opportunity, although, of course, we have to target our resources where we have to, where the need is greatest economically and socially, and that is within west Wales and the Valleys.

Felly, mae'n bwysig iawn ein bod, ym mhob un o'n hardaloedd a'n cymunedau, yn gallu dweud, 'Os ydych yn derbyn Twf Swyddi Cymru neu'n un o'i fuddiolwyr, p'un a ydych yn byw yng Nghasnewydd, yn y Barri neu yn wir, yng Nglannau Dyfrdwy neu ym Mangor, rydych yn rhan o Twf Swyddi Cymru i Gymru gyfan; rydych yn fuddiolwr o ganlyniad i'r arian hwnnw'. Felly, mae'n hanfodol bwysig fod hyn yn cael ei weld fel cyfle i Gymru gyfan, er bod yn rhaid inni, wrth gwrs, dargedu ein hadnoddau lle y mae'n rhaid inni, lle y mae'r angen economaidd a chymdeithasol mwyaf, sef yn y gorllewin a'r Cymoedd.

But, there are a number of projects that, of course, can benefit both west Wales and the Valleys in east Wales and, of course, the metro is one of those, as an integrated public transport project, which is what the European Commission is looking for. As I said, we will be getting more information about that very shortly from the Minister for Economy, Science and Transport.

Ond, mae nifer o brosiectau a all, wrth gwrs, fod o fudd i'r gorllewin ac i'r Cymoedd yn y dwyrain ac, wrth gwrs, mae'r metro'n un o'r rheini, fel prosiect trafnidiaeth gyhoeddus integredig, sef yr hyn y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn chwilio amdano. Fel y dywedais, byddwn yn cael mwy o wybodaeth am hynny'n fuan iawn gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

I would also like to say—you mentioned marine energy—that we are putting in proposals to what's known as the Juncker package—the European fund for strategic investments. We've contributed a list for potential UK pipeline projects that actually, from north to south, include Anglesey energy island in terms of an integrated suite of investments in low-carbon energy, but also down to Swansea bay tidal lagoon. I know that the company is developing proposals for Newport and Cardiff, but then, on an all-Wales basis, we are talking about flood and coastal risk management, the Green Growth fund, environmental protection scheme and indeed, the metro itself, also, is featured in the list of proposals that we've put forward.

Hoffwn ddweud hefyd—soniasoch am ynni morol—ein bod yn cyflwyno cynigion i'r hyn a elwir yn becyn Juncker—y gronfa Ewropeaidd ar gyfer buddsoddiadau strategol. Rydym wedi cyfrannu rhestr o brosiectau piblinell posibl yn y DU sydd, o'r gogledd i'r de, yn cynnwys ynys ynni Ynys Môn o ran cyfres integredig o fuddsoddiadau mewn ynni carbon isel, ond hefyd i lawr at forlyn llanw bae Abertawe. Gwn fod y cwmni'n datblygu cynigion ar gyfer Casnewydd a Chaerdydd, ond wedyn, ar sail Cymru gyfan, rydym yn sôn am reoli risg arfordirol a llifogydd, y gronfa Twf Gwyrdd, cynllun amddiffyn yr amgylchedd ac yn wir, mae'r metro ei hun, hefyd, yn ymddangos yn y rhestr o gynigion yr ydym wedi eu cyflwyno.

16:18 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Liberal Democrats' spokesperson, Eluned Parrott.

Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Eluned Parrott.

16:18 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gadeirydd. I'd like to thank you for the statement. Of course, my party would agree wholeheartedly on the importance of our membership of the European Union, not only in terms of the funding that we receive as a result, but, of course, in terms of the opportunities for us to work with partners on an environmental and economic basis.

Diolch, Gadeirydd. Hoffwn ddiolch ichi am y datganiad. Wrth gwrs, byddai fy mhlaid yn cytuno'n llwyr ynglŷn â phwysigrwydd ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, nid dim ond o ran y cyllid a gawn o ganlyniad i hynny, ond, wrth gwrs, o ran y cyfleoedd inni i weithio gyda phartneriaid ar sail amgylcheddol ac economaidd.

I am glad to see that early progress has been made on some of the pragmatic elements of the programme, but for me the fundamental question, as it has been for the other opposition spokespeople, is: are we always focused on the primary goal here? Structural funds are obviously awarded to us on the basis that the GVA of west Wales and the Valleys is so shockingly far below the EU average, despite the fact that we are part of one of the richest countries on the planet.

Rwyf yn falch o weld bod cynnydd cynnar wedi'i wneud ar rai o elfennau pragmatig y rhaglen, ond i mi y cwestiwn sylfaenol, fel i lefarwyr y gwrthbleidiau eraill, yw hyn: a ydym bob amser yn canolbwyntio ar y prif nod yma? Mae cronfeydd strwythurol yn amlwg yn cael eu dyfarnu inni ar y sail bod gwerth ychwanegol crynswth y gorllewin a'r Cymoedd mor syfrdanol o bell islaw cyfartaledd yr UE, er gwaethaf y ffaith ein bod yn rhan o un o'r gwledydd cyfoethocaf ar y blaned.

Now, the Welsh Government has consistently said that the aim of these programmes should be to lift our nation out of this position and the question I ask is: can we be confident that what we're doing here is so fundamentally different that it will have that impact? The recent Institute of Welsh Affairs report by Gerald Holtham on the economic strategy for Wales—or the lack thereof—pointed out that to close the gap between Wales and the rest of the UK would require growth of 4 per cent a year for 20 years. We've been stuck at 72 per cent of the UK average GVA per head since the dawn of devolution. No progress has been made at all in all of that time, despite previous rounds of structural funds, so there is no room here for complacency.

Yn awr, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn gyson y dylai fod yn nod i'r rhaglenni hyn geisio codi ein cenedl allan o'r sefyllfa hon a'r cwestiwn yr wyf yn ei ofyn yw hyn: a allwn fod yn ffyddiog fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yma mor sylfaenol wahanol fel y bydd yn cael yr effaith honno? Mae adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig gan Gerald Holtham ar y strategaeth economaidd i Gymru—neu ddiffyg strategaeth o'r fath—yn tynnu sylw at y ffaith y byddai angen tyfu 4 y cant y flwyddyn am 20 mlynedd i gau'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU. Rydym wedi aros yn ein hunfan ar 72 y cant o GYC cyfartalog y DU y pen ers dechrau datganoli. Nid oes dim cynnydd wedi'i wneud o gwbl yn yr holl amser hwnnw, er gwaethaf cylchoedd cronfeydd strwythurol blaenorol, felly nid oes lle yma i fod yn hunanfodlon.

The fundamental question, as I say, is: will these programmes that we are now moving forward with transform the GVA of Wales? How are we monitoring how those programmes contribute to that measure? The previous rounds of funding have not budged our relative GVA; will our use of this round be so significantly different that we will see a significantly different outcome?

Y cwestiwn sylfaenol, fel y dywedais, yw hyn: a fydd y rhaglenni hyn yr ydym yn awr yn bwrw ymlaen â hwy'n trawsnewid gwerth ychwanegol crynswth Cymru? Sut ydym ni'n monitro sut y mae'r rhaglenni hynny'n cyfrannu at y mesur hwnnw? Nid yw cylchoedd cyllid blaenorol wedi newid ein GYC cymharol; a fyddwn yn defnyddio'r cylch hwn mewn modd mor sylweddol wahanol nes y byddwn yn gweld canlyniad sylweddol wahanol?

The Minister has mentioned the south Wales metro and the tidal lagoons, clearly these are huge projects with massive potential, but conservative estimates of the cost of the metro proposals are something in the region of £1.5 billion, concentrated in a very small area of Wales, and, of course, we have only £1.9 billion in total to work with. Clearly, the importance of working with the Juncker plan there is critical to make sure that we are able to lever in additional investment, and my party would very wholeheartedly work alongside you and support you in your efforts to lever in that funding, because it's so important.

Mae'r Gweinidog wedi sôn am fetro'r de a'r morlynnoedd llanw; yn amlwg mae'r rhain yn brosiectau mawr â photensial aruthrol, ond oddeutu £1.5 biliwn yw amcangyfrifon ceidwadol cost cynigion y metro, wedi'i chanoli mewn ardal fach iawn o Gymru, ac, wrth gwrs, dim ond £1.9 biliwn sydd gennym i'w wario i gyd. Yn amlwg, mae pwysigrwydd gweithio gyda chynllun Juncker yno'n hanfodol er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu denu buddsoddiad ychwanegol, a byddai fy mhlaid yn gweithio'n galed iawn ochr yn ochr â chi ac yn eich cefnogi yn eich ymdrechion i ddenu'r cyllid hwnnw, oherwydd ei fod mor bwysig.

I recognise the engagement efforts, Minister, that you've been making, but I do have a few questions about some of the practical things. Are we involving new people in the engagement work that we are doing, trying to put together the partnerships we're talking about, or are we working with the same people, with the same projects and the same ideas to the likely same results? Can I ask how you are monitoring and assessing the impact in terms of GVA of each of these individual programmes? Will each of these individual programmes make a contribution to that massive GVA deficit that we have to make up? And how are you monitoring how each of these individual parts of the jigsaw make up a whole that is worth having? Ultimately, how will any of these costed programmes, you know, lift us out of the position we are in, not just in the south Wales Valleys and south-east Wales, where much of the talk is concentrated, but how will we make sure that all of the people of Wales come on this journey with us to a better future? Also, looking at the approved programmes, it's clear that some of them are continued funding for projects that have been ongoing for some years, not programmes that have a clear start and end point, so what is going to happen to those programmes after structural funds? If the aim is truly to lift us out of qualifying for structural funds, what is your exit strategy for leaving structural funds and to be able to continue with the social programmes that you wish to do that are currently funded in this way?

Rwyf yn cydnabod yr ymdrechion i ymgysylltu, Weinidog, yr ydych wedi bod yn eu gwneud, ond mae gennyf rai cwestiynau am rai o'r pethau ymarferol. A ydym yn cynnwys pobl newydd yn y gwaith ymgysylltu yr ydym yn ei wneud, i geisio creu'r partneriaethau yr ydym yn sôn amdanynt, ynteu a ydym yn gweithio gyda'r un bobl, gyda'r un prosiectau a'r un syniadau tuag at yr un canlyniadau tebygol? A gaf fi ofyn sut yr ydych yn monitro ac yn asesu effaith pob un o'r rhaglenni unigol hyn o ran GYC? A fydd pob un o'r rhaglenni unigol hyn yn cyfrannu at y diffyg GYC enfawr hwnnw y mae'n rhaid inni wneud iawn amdano? A sut ydych chi'n monitro sut y mae pob un o'r rhannau unigol hyn o'r jig-so'n ffurfio cyfan sy'n werth ei gael? Yn y pen draw, sut y bydd unrhyw un o'r rhaglenni hyn sydd wedi'u costio, wyddoch chi, yn ein codi allan o'r sefyllfa yr ydym ynddi, nid dim ond yng nghymoedd y de ac yn y de-ddwyrain, lle y mae llawer o'r sgwrs wedi'i chanoli, ond sut y byddwn yn gwneud yn siŵr bod holl bobl Cymru'n dod ar y daith hon gyda ni at well dyfodol? Hefyd, o edrych ar y rhaglenni a gymeradwywyd, mae'n amlwg bod rhai ohonynt yn arian sy'n parhau ar gyfer prosiectau sydd wedi bod ar y gweill ers rhai blynyddoedd, ac nid yn rhaglenni â dechrau a diwedd clir, felly beth sy'n mynd i ddigwydd i'r rhaglenni hynny ar ôl y cronfeydd strwythurol? Os yw'n wir mai'r nod yw ein codi o'r sefyllfa lle'r ydym yn gymwys i gael cronfeydd strwythurol, beth yw eich strategaeth ymadael ar gyfer gadael y cronfeydd strwythurol a gallu parhau â'r rhaglenni cymdeithasol yr hoffech fwrw ymlaen â hwy sy'n cael eu hariannu fel hyn ar hyn o bryd?

Finally, on monitoring, who or what is ensuring that the economic prioritisation framework and the data feeding into that are objective and accurate? What independent research will be done to assess progress and to inform decisions? You know, I am particularly interested in the question of whether or not you've developed research techniques for measuring the impact of programmes, as opposed to outputs from programmes, on the basis of the EU's continued emphasis on the importance of measuring those longitudinal impacts, rather than the outputs that we have seen previously.

Yn olaf, ynglŷn â monitro, pwy neu beth sy'n sicrhau bod y fframwaith blaenoriaethu economaidd a'r data sy'n bwydo i mewn iddo'n wrthrychol ac yn gywir? Pa ymchwil annibynnol a wneir i asesu cynnydd ac i lywio penderfyniadau? Wyddoch chi, mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y cwestiwn hwn: a ydych wedi datblygu technegau ymchwil i fesur effaith y rhaglenni, yn hytrach nag allbynnau rhaglenni, ar sail pwyslais parhaus yr UE ar bwysigrwydd mesur yr effeithiau hydredol hynny, yn hytrach na'r allbynnau a welsom o'r blaen?

16:23

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Eluned Parrott, and thank you, again, as ever, for your support and robust answer on benefiting from membership of the European Union. We are talking about building on the 2007-13 round over the next seven years in a transformational way. I agree that that's ambitious, but, you know, what we are aiming to deliver in terms of investment is to create a further 7,000 new businesses; create an additional 27,000 new jobs; help some 25,000 businesses secure the funding they need to boost their growth potential or to undertake research and innovation; help another 40,000 people gain employment; help an additional 194,000 people gain qualifications; and help over 12,000 economically inactive people to be work and job ready. That is the expectation in terms of the outcomes of this new round of investment of European structural funds.

Diolch yn fawr, Eluned Parrott, a diolch, unwaith eto, fel arfer, am eich cefnogaeth a'ch ateb cadarn ynglŷn ag elwa ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn sôn am adeiladu ar gylch 2007-13 dros y saith mlynedd nesaf mewn ffordd drawsffurfiol. Rwyf yn cytuno bod hynny'n uchelgeisiol, ond, wyddoch chi, yr hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni o ran buddsoddi yw creu 7,000 yn rhagor o fusnesau newydd; creu 27,000 o swyddi newydd ychwanegol; helpu tua 25,000 o fusnesau i sicrhau'r cyllid sydd ei angen arnynt i roi hwb i'w potensial i dyfu neu i ymgymryd ag ymchwil ac arloesi; helpu 40,000 yn rhagor o bobl i gael gwaith; helpu 194,000 yn rhagor o bobl i ennill cymwysterau; a chynorthwyo dros 12,000 o bobl sy'n economaidd anweithgar i fod yn barod am waith a swyddi. Dyna'r disgwyliad o ran canlyniadau'r cylch newydd hwn o fuddsoddi cronfeydd strwythurol Ewrop.

You're quite right to focus on monitoring and evaluation, as we are. I've already mentioned the priority access and the fact we need key objectives and results to be identified. Specific objectives have to be clear and realistic in terms of what they expect to deliver, and we need much wider impacts than just the numbers in terms of beneficiaries. We need to unlock wider private sector investment, and we do need to ensure that the results focus of the new programmes set out more realistically what we and the European Commission expect these programmes to deliver. That's why, as you know, we've got narrow objectives, we've got results indicators and more specific targets. I think, just in terms of the implication of the results focus, we'll see a greater proportion of targeting in each project; we've reduced the number of priorities and objectives that we're trying to deliver; and targeting means different things for each objective, but it could mean identifying areas of genuine specialisation for research and innovation, SMEs or targeting energy efficiency measures. Of course, that means that we've got to have that good monitoring and evaluation to understand what the programmes are delivering in terms of results. We've developed a comprehensive strategy to guide the monitoring and the evaluation over the programme period, and it does cover a broad suite of programme level evaluations, but we also need to ensure that we get the best methods for monitoring and evaluation. The programme monitoring committee also has a key role to play in monitoring progress of the programmes, helping us to measure success. This is actually one of the first areas they've chosen to look at, and I think it's the first time that the PMC have done this. So, of course, this is going to be very important in feeding back to the sectors as well as to the Welsh Government in terms of the impact of that monitoring. So, I welcome your robust scrutiny. We want to deliver in the way that we all aspire to ensure that the structural funds can play their part in ensuring that it makes a vital contribution to the Welsh economy and the labour market.

Rydych yn hollol iawn i ganolbwyntio ar fonitro a gwerthuso, fel yr ydym ninnau. Rwyf eisoes wedi sôn am fynediad blaenoriaethol a'r ffaith bod arnom angen nodi amcanion a chanlyniadau allweddol. Rhaid i amcanion penodol fod yn glir ac yn realistig o ran yr hyn y maent yn disgwyl ei gyflawni, ac mae arnom angen effeithiau llawer ehangach na dim ond niferoedd o ran y buddiolwyr. Mae angen inni ddatgloi buddsoddi ehangach gan y sector preifat, ac mae angen inni sicrhau bod pwyslais y rhaglenni newydd ar ganlyniadau'n nodi'n fwy realistig yr hyn yr ydym ni a'r Comisiwn Ewropeaidd yn disgwyl i'r rhaglenni hyn ei gyflawni. Dyna pam, fel y gwyddoch, y mae gennym amcanion cul, mae gennym ddangosyddion canlyniadau a thargedau mwy penodol. O ran goblygiadau'r pwyslais ar ganlyniadau, credaf y byddwn yn gweld cyfran fwy o dargedu ym mhob prosiect; rydym wedi lleihau nifer y blaenoriaethau a'r amcanion yr ydym yn ceisio eu cyflawni; ac mae targedu'n golygu pethau gwahanol ar gyfer pob amcan, ond gallai olygu adnabod meysydd o arbenigedd gwirioneddol ar gyfer ymchwil ac arloesi, busnesau bach a chanolig neu dargedu mesurau effeithlonrwydd ynni. Wrth gwrs, mae hynny'n golygu bod angen y gwaith monitro a gwerthuso da hwnnw arnom i ddeall yr hyn y mae'r rhaglenni'n ei gyflawni o ran canlyniadau. Rydym wedi datblygu strategaeth gynhwysfawr i arwain y monitro a'r gwerthuso dros gyfnod y rhaglen, ac mae'n ymdrin â chyfres eang o werthusiadau ar lefel rhaglenni, ond mae angen inni sicrhau hefyd ein bod yn defnyddio'r dulliau gorau ar gyfer monitro a gwerthuso. Mae gan y pwyllgor monitro rhaglenni ran allweddol i'w chwarae hefyd wrth fonitro cynnydd y rhaglenni, i'n helpu i fesur llwyddiant. A dweud y gwir, dyma yw un o'r meysydd cyntaf y maent wedi dewis edrych arnynt, ac rwyf yn meddwl mai dyma'r tro cyntaf i'r pwyllgor monitro rhaglenni wneud hyn. Felly, wrth gwrs, bydd hyn yn bwysig iawn o ran rhoi adborth i'r sectorau yn ogystal ag i Lywodraeth Cymru o ran effaith y monitro. Felly, rwyf yn croesawu eich craffu cadarn. Rydym yn awyddus i gyflawni yn y modd yr ydym i gyd yn ymgyrraedd ato i sicrhau y gall y cronfeydd strwythurol chwarae eu rhan i sicrhau eu bod yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi Cymru a'r farchnad lafur.

16:26 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The final speaker is Jeff Cuthbert. We've run out of time. Can I ask you to go directly to your questions and be brief so that the Minister can give brief answers?

Jeff Cuthbert yw'r siaradwr olaf. Mae ein hamser ar ben. A gaf fi ofyn ichi fynd yn syth at eich cwestiynau a bod yn gryno fel y gall y Gweinidog roi atebion cryno?

16:26 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'll be very brief. Can I too welcome the statement from the Minister today? As a former Chair of the all-Wales programme monitoring committee and as an Assembly Member that represents a constituency in the convergence area, I am well aware of the importance of these moneys to Wales. Minister, do you agree with me that those who argue for withdrawal from the EU are recklessly placing at risk some of our key vocational schemes, such as our excellent apprenticeship programme that's admired across the UK, and, indeed, employment programmes like Jobs Growth Wales—arguably the finest of its kind in Europe? They will be placed clearly at risk if we withdraw from Europe. Secondly, Minister, I was very pleased to hear you say in answer to an earlier question that 20 per cent of funds will still be attached to our tackling poverty agenda. So, can you confirm for me that this current programme and report take account of this commitment, and that suitable partnerships will be developed with the third sector, local government and indeed other partners to be sure that this commitment is seen through?

Iawn, byddaf yn gryno iawn. A gaf finnau hefyd groesawu datganiad y Gweinidog heddiw? A minnau'n gyn Gadeirydd pwyllgor monitro rhaglenni Cymru gyfan ac yn Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli etholaeth yn yr ardal gydgyfeirio, rwyf yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr arian hwn i Gymru. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod y bobl sy'n dadlau dros dynnu allan o'r UE yn peryglu'n ddi-hid rai o'n cynlluniau galwedigaethol allweddol, megis ein rhaglen brentisiaethau ardderchog sy'n destun edmygedd ledled y DU, ac, yn wir, rhaglenni cyflogaeth fel Twf Swyddi Cymru —o bosibl y gorau o'i math yn Ewrop? Byddant mewn perygl amlwg os tynnwn allan o Ewrop. Yn ail, Weinidog, roeddwn yn falch iawn o'ch clywed yn dweud wrth ateb cwestiwn yn gynharach y bydd 20 y cant o'r arian yn dal i fod ynghlwm wrth ein hagenda trechu tlodi. Felly, a allwch gadarnhau bod y rhaglen gyfredol hon a'r adroddiad yn rhoi ystyriaeth i'r ymrwymiad hwn, ac y caiff partneriaethau addas eu datblygu gyda'r trydydd sector, llywodraeth leol ac yn wir partneriaid eraill er mwyn sicrhau y cedwir at yr ymrwymiad hwn?

16:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Caerphilly's Jeff Cuthbert, former Chair of the programme monitoring committee, for his questions. I will keep on making the most robust case possible for the UK's continued membership of the European Union. It's essential for the prosperity of Wales and the wider UK, and I hope that the statement today—this afternoon—demonstrates the important role of the structural fund programmes for 2014-20, which have been agreed by the Commission, and the funding allocated to Wales and all sectors, making sure that they're used to their full effect. Of course, we do have a long way to go in terms of the particular focus on tackling poverty, so we will ensure that the 20 per cent that is ring-fenced in terms of tackling poverty is not the only contribution that's made; it will be across the whole of the investment of European structural funds, and indeed the directly managed funds, that we will ensure that we are tackling the inequalities and the poverty that, of course, can blight our communities and our people, but we will also ensure that we can overcome that through robust support of our structural funds and membership of the European Union.

Diolch i Jeff Cuthbert o Gaerffili, cyn-Gadeirydd y pwyllgor monitro rhaglenni, am ei gwestiynau. Byddaf yn parhau i gyflwyno'r achos cryfaf posibl o blaid parhad aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n hanfodol i ffyniant Cymru a'r DU yn ehangach, ac rwyf yn gobeithio y bydd y datganiad heddiw—y prynhawn yma—yn dangos swyddogaeth bwysig rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ar gyfer 2014-20, y cytunodd y Comisiwn arnynt, a'r arian a ddyrennir i Gymru ac i bob sector, gan sicrhau y cânt eu defnyddio mor effeithiol â phosibl. Wrth gwrs, mae gennym ffordd bell i fynd o ran y pwyslais penodol ar drechu tlodi, felly byddwn yn sicrhau nad yr 20 y cant sydd wedi'i neilltuo ar gyfer trechu tlodi yw'r unig gyfraniad a wneir; byddwn yn sicrhau wrth fuddsoddi'r holl gronfeydd strwythurol Ewropeaidd, ac yn wir y cronfeydd a reolir yn uniongyrchol, ein bod yn ymdrin â'r anghydraddoldebau a'r tlodi a all, wrth gwrs, andwyo ein cymunedau a'n pobl, ond byddwn yn sicrhau hefyd ein bod yn gallu goresgyn hynny drwy gefnogi'n gadarn ein cronfeydd strwythurol a'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

16:29

## 8. Datganiad: Cydlyniant Cymunedol—Cynnydd a Heriau

## 8. Statement: Community Cohesion—Progress and Challenges

Senedd.tv Fideo Video

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Item 8 is the statement on community cohesion—progress and challenges. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Eitem 8 yw'r datganiad ar gydlyniant cymunedol—cynnydd a heriau. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

16:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Chair. I'm pleased to be making a statement on the annual update to the national community cohesion delivery plan. Not only do I want to update Members on the progress that has been made so far, but I also want to reflect on the challenges that lie ahead as we continue to develop greater community cohesion across Wales.

Diolch, Gadeirydd. Rwy'n falch o fod yn gwneud datganiad ar y diweddariad blynyddol i'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer cydlyniant cymunedol. Rwyf nid yn unig eisiau rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn, ond rwyf hefyd yn awyddus i fyfyrio ar yr heriau sydd o'n blaenau wrth i ni barhau i ddatblygu mwy o gydlyniant cymunedol ledled Cymru.

These are certainly challenging times, particularly when austerity and welfare reform are having a detrimental impact on our communities, testing their resilience. In times of greater hardship, negative views and stereotypes can become entrenched in relation to particular people or communities. These negative stereotypes often have a disproportionate impact on more disadvantaged communities, including Gypsies and Travellers, refugees and asylum seekers.

Mae hwn yn sicr yn gyfnod heriol, yn enwedig pan fo cyni cyllidol a diwygio lles yn cael effaith andwyol ar ein cymunedau, gan roi prawf ar eu cydnerthedd. Mewn adegau o fwy o galedi, gall barn a stereoteipiau negyddol ymwreiddio o ran pobl neu gymunedau penodol. Mae'r stereoteipiau negyddol hyn yn aml yn cael effaith anghymesur ar gymunedau mwy difreintiedig, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

The community cohesion programme aims to mitigate some of these negative impacts. A delivery plan was launched in June 2014 and is being delivered across Wales through eight Welsh Government-funded regional community cohesion co-ordinator posts based within local authorities. The plan provides an overarching national structure across seven outcome areas. Co-ordinators are playing a key role in translating this into regional and local delivery. The first two outcome areas in the delivery plan are tackling hate crime and tackling modern slavery. These include supporting the delivery of our hate crimes and incidents framework for action, and the work of regional anti-slavery forums. We know there is significant under-reporting on both issues across Wales, and work has included supporting the national hate crime and report centre and first responders to aid awareness and provide support for victims. For example, co-ordinators have told us that 3,000 front-line staff have now received training on tackling hate crime and modern slavery.

Nod y rhaglen cydlyniant cymunedol yw lliniaru rhai o’r effeithiau negyddol hyn. Cafodd cynllun cyflawni ei lansio ym mis Mehefin 2014 ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws Cymru trwy wyth swydd cydgysylltydd cydlyniant cymunedol rhanbarthol a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi'u seilio o fewn awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn darparu strwythur cenedlaethol trosfwaol ar draws saith maes canlyniad. Mae cydgysylltwyr yn chwarae rhan allweddol mewn trosi hyn i gyflawni yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae’r ddau faes canlyniad cyntaf yn y cynllun cyflawni yn mynd i'r afael â throseddau casineb ac yn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi cyflawni ein fframwaith troseddau casineb a digwyddiadau ar gyfer gweithredu, a gwaith fforymau gwrth-gaethwasiaeth rhanbarthol. Rydym yn gwybod bod tanadrodd sylweddol ar y ddau fater ar draws Cymru, ac mae gwaith wedi cynnwys cefnogi'r ganolfan genedlaethol ar gyfer adrodd am droseddau casineb ac ymatebwyr cyntaf i gynorthwyo ymwybyddiaeth a darparu cymorth i ddioddefwyr. Er enghraifft, mae cydgysylltwyr wedi dweud wrthym bod 3,000 o staff rheng flaen wedi derbyn hyfforddiant erbyn hyn ar fynd i'r afael â throseddau casineb a chaethwasiaeth fodern.

The Housing (Wales) Act 2014 has placed a duty on all local authorities to undertake accommodation assessments for Gypsies and Travellers. Co-ordinators ensure communities are engaged with developing policies and services. This has included the development of regional approaches to share effective practice. Through these structures, co-ordinators have managed tensions, particularly where proposals for new sites have increased anxiety locally. Greater cultural awareness has included the roll-out of training to over 450 local authority staff and 77 members, and a number of targeted approaches with communities, such as myth-busting. Understanding immigration and the impacts upon communities has been an ongoing focus for the co-ordinators, particularly where large-scale economic projects are providing challenges to cohesion locally and areas where there is already a large migrant population. I am pleased to have announced funding for a strategic migration contract through the Welsh Refugee Council and the Centre on Migration, Policy and Society this year to develop data on migration patterns. Strategic groups and approaches have been put in place. For example, a community safety and cohesion board is being supported in Anglesey around Wylfa Newydd nuclear power station, and a multi-agency group is being supported in Cardiff to scope what work is needed on services for asylum seekers in the changing economic climate.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnal asesiadau llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae cydgysylltwyr yn sicrhau bod cymunedau yn ymgysylltu â datblygu polisïau a gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu dulliau rhanbarthol i rannu arferion effeithiol. Drwy’r strwythurau hyn, mae cydlgysylltwyr wedi rheoli tensiynau, yn enwedig pan fo cynigion ar gyfer safleoedd newydd wedi cynyddu pryder yn lleol. Mae mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol wedi cynnwys cyflwyno hyfforddiant i dros 450 o staff awdurdod lleol a 77 o aelodau, ac mae nifer o ddulliau wedi’u targedu gyda chymunedau, fel chwalu mythau. Mae deall mewnfudo a'r effeithiau ar gymunedau wedi bod yn bwyslais parhaus i'r cydgysylltwyr, yn enwedig lle mae prosiectau economaidd ar raddfa fawr yn golygu heriau i gydlyniant yn lleol ac mewn ardaloedd lle ceir poblogaeth ymfudol fawr eisoes. Rwy’n falch o fod wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer contract ymfudo strategol drwy Gyngor Ffoaduriaid Cymru a'r Ganolfan ar Ymfudo, Polisi a Chymdeithas eleni i ddatblygu data ar batrymau mudo. Mae grwpiau a dulliau strategol wedi eu rhoi ar waith. Er enghraifft, mae bwrdd diogelwch cymunedol a chydlyniant yn cael ei gefnogi ar Ynys Môn o amgylch gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd, ac mae grŵp aml-asiantaeth yn cael ei gefnogi yng Nghaerdydd i gwmpasu pa waith sydd ei angen ar wasanaethau i geiswyr lloches yn yr hinsawdd economaidd sy'n newid.

Communities First clusters help to foster good relations locally and support outreach to our most deprived communities. Co-ordinators have worked in collaboration to explore ways to increase engagement through community involvement plans and training, particularly across protected characteristics in the Equality Act 2010. For example, over 400 Communities First cluster staff have undertaken training on community cohesion, and co-ordinators continue to sit on regional forums to help link clusters with the delivery plan outcomes.

Mae clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn helpu i feithrin cysylltiadau da yn lleol ac yn cefnogi allgymorth i'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae cydgysylltwyr wedi gweithio ar y cyd i archwilio ffyrdd o gynyddu ymgysylltiad drwy gynlluniau cyfranogiad cymunedol a hyfforddiant, yn enwedig ar draws nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Er enghraifft, mae dros 400 o staff clwstwr Cymunedau yn Gyntaf wedi dilyn hyfforddiant ar gydlyniant cymunedol, ac mae cydgysylltwyr yn parhau i eistedd ar fforymau rhanbarthol i helpu i gysylltu clystyrau â chanlyniadau'r cynllun cyflawni.

The final areas in the delivery plan are focused on mainstreaming and ensuring policies and services are responsive to change. Co-ordinators have linked with work through single integrated plans to ensure cohesion outcomes support delivery and to help foster good relations through strategic equality plans. Robust community data are beginning to emerge across Wales, and this has been supported by the development of tension-monitoring processes, ensuring that any developing risk can be effectively dealt with through multi-agency solutions. Co-ordinators have reported that support has been given for dealing with 104 tension cases on a national basis. The annual report demonstrates practical examples of the support that co-ordinators have been able to put in place locally. However, although I'm pleased with the extent of partnership work taking place across Wales, it is far from job done. There are continuing challenges that will stretch our communities and the structures that have been put in place across Wales. Welfare reform will continue to have a significant impact in Wales, and the negative rhetoric around immigration has the potential to divide communities. In this environment, this Government is committed to ensuring there is no scapegoating of any particular communities. Furthermore, the recent announcement of the counter-extremism Bill will have impacts for our Muslim communities. I am absolutely committed to ensuring we continue to tackle extremism through good community cohesion.

Mae'r meysydd olaf yn y cynllun cyflawni yn canolbwyntio ar brif ffrydio a sicrhau bod polisïau a gwasanaethau yn ymateb i newid. Mae'r cydgysylltwyr wedi cysylltu â gwaith drwy gynlluniau integredig unigol i sicrhau bod canlyniadau cydlyniant yn cefnogi darpariaeth, ac i helpu meithrin cysylltiadau da trwy gynlluniau cydraddoldeb strategol. Mae data cymunedol cadarn yn dechrau dod i'r amlwg ar draws Cymru, ac mae hyn wedi cael ei gefnogi gan y gwaith o ddatblygu prosesau monitro tensiwn, gan sicrhau y gall unrhyw berygl sy'n datblygu gael ei drin yn effeithiol trwy atebion amlasiantaethol. Mae cydgysylltwyr wedi adrodd bod cefnogaeth wedi ei roi ar gyfer ymdrin â 104 o achosion tensiwn ar sail genedlaethol. Mae'r adroddiad blynyddol yn dangos enghreifftiau ymarferol o'r gefnogaeth y mae cydgysylltwyr wedi gallu ei rhoi ar waith yn lleol. Fodd bynnag, er fy mod i'n falch â faint o waith partneriaeth sy'n digwydd ledled Cymru, mae llawer i'w wneud eto. Mae heriau parhaus a fydd yn ymestyn ein cymunedau a'r strwythurau sydd wedi'u rhoi ar waith ar draws Cymru. Bydd diwygio lles yn parhau i gael effaith sylweddol yng Nghymru, ac mae gan y rhethreg negyddol o gwmpas mewnfudo y potensial i rannu cymunedau. Yn yr amgylchedd hwn, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau na wneir bwch dihangol o unrhyw gymunedau penodol. Hefyd, bydd cyhoeddiad diweddar y Bil gwrth-eithafiaeth yn cael effeithiau ar gyfer ein cymunedau Mwslimaidd. Rwy'n gwbl ymroddedig i sicrhau ein bod yn parhau i fynd i'r afael ag eithafiaeth trwy gydlyniant cymunedol da.

Last week, I launched a consultation on protecting community assets. This has an impact upon cohesion, particularly where assets symbolise a sense of place. Local government reform will bring further responsibilities for local authorities to engage with communities.

Yr wythnos diwethaf, lansiais ymgynghoriad ar ddiogelu asedau cymunedol. Mae hyn yn effeithio ar gydlyniant, yn enwedig pan fo asedau yn symboleiddio ymdeimlad o le. Bydd diwygio llywodraeth leol yn dod â rhagor o gyfrifoldebau i awdurdodau lleol i ymgysylltu â chymunedau.

The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 has identified 'a Wales of cohesive communities' as one of the seven national goals. This will help to enhance sustainability, and local authorities will need to evidence how this is being achieved. Furthermore, strategic equality plans across Wales are in the process of being reviewed and I am particularly keen to see how the strengthening good relations element of the Equality Act 2010 can be evidenced and met. In this changing environment I will be reviewing the focus of the cohesion programme post March 2016 and looking to see how this fits with priorities in my portfolio area.

Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi nodi 'Cymru o gymunedau cydlynol' fel un o'r saith nod cenedlaethol. Bydd hyn yn helpu i wella cynaliadwyedd, a bydd angen i awdurdodau lleol ddangos sut mae hyn yn cael ei gyflawni. Ar ben hynny, mae cynlluniau cydraddoldeb strategol ar draws Cymru yn y broses o gael eu hadolygu ac rwy'n arbennig o awyddus i weld sut y gellir amlygu a diwallu elfen cryfhau cysylltiadau da Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr amgylchedd newidiol hwn byddaf yn adolygu pwyslais y rhaglen gydlyniant ar ôl Mawrth 2016 ac yn edrych i weld sut mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau ym maes fy mhortffolio i.

So, in summary, Chair, I am pleased with the progress co-ordinators have made on a local and regional basis, and I am confident the seven outcome areas identified in the delivery plan will be met by March 2016. However, there are challenges ahead in the short and medium term, and partnership working will be key to ensuring we meet the cohesion wellbeing goal and protect the most vulnerable people within our communities.

Felly, yn fyr, Gadeirydd, rwy'n fodlon ar y cynnydd y mae cydgysylltwyr wedi'i wneud ar sail leol a rhanbarthol, ac rwy'n hyderus y bydd y saith maes canlyniad a nodwyd yn y cynllun cyflawni yn cael eu diwallu erbyn Mawrth 2016. Fodd bynnag, mae heriau o'n blaenau yn y tymor byr a chanolig, a bydd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i sicrhau ein bod yn diwallu'r nod cydlyniant lles ac yn amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

16:36

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister. Again, I have a large number of people who'd like to speak, and I remind you that these are statements, so, if people could proceed to their questions as quickly as possible, I will get everyone in. Conservative spokesperson, Mark Isherwood.

Diolch yn fawr, Weinidog. Unwaith eto, mae gen i nifer fawr o bobl a hoffai siarad, ac rwy'n eich atgoffa mai datganiadau yw'r rhain, felly, pe gallai pobl fynd ymlaen i'w cwestiynau cyn gynted ag y bo modd, byddaf yn cael pawb i mewn. Llefarydd y Ceidwadwyr, Mark Isherwood.

16:36

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. You refer to tackling hate crime—a clear priority everybody shares. Regarding disability hate crime, how do you respond to the newly published figures showing 150 reported cases in Wales in 2013-14, which, unfortunately, was up from two years previously quite significantly and now represents 7.5 per cent of reported incidents across the UK, which is clearly disproportionate to Wales's population size? And, in this context, how, if at all, will the Welsh Government be responding to this month's report by HM Inspectorate of Constabulary, HM Crown Prosecution Service Inspectorate and HM Inspectorate of Probation, which showed that all three criminal justice agencies have undertaken some initiatives to improve the way they deal with disability hate crime, but, overall, performance was disappointing, and police, CPS, and probation service recognise that further work is needed to ensure that disability hate crime victims are recognised and given appropriate support and service by the criminal justice system?

Diolch. Rydych yn cyfeirio at fynd i'r afael â throseddau casineb—blaenoriaeth glir y mae pawb yn ei rhannu. O ran troseddau casineb anabledd, sut yr ydych chi'n ymateb i'r ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos 150 o achosion wedi eu cofnodi yng Nghymru yn 2013-14, a oedd, yn anffodus, wedi cynyddu o ddwy flynedd ynghynt yn eithaf sylweddol ac sydd erbyn hyn yn cynrychioli 7.5 y cant o ddigwyddiadau a gofnodwyd ar draws y DU, sy'n amlwg yn anghymesur â maint poblogaeth Cymru? Ac, yn y cyd-destun hwn, sut, os o gwbl, y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiad y mis hwn gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, a oedd yn dangos bod pob un o'r tair asiantaeth cyfiawnder troseddol wedi ymgymryd â rhai mentrau i wella'r ffordd y maent yn ymdrin â throseddau casineb anabledd, ond, ar y cyfan, roedd perfformiad yn siomedig, ac mae'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r gwasanaeth prawf yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb anabledd yn cael eu cydnabod ac yn cael cefnogaeth a gwasanaeth priodol gan y system cyfiawnder troseddol?

You also, quite rightly and properly—and we welcome it—reference action to tackle modern slavery. In this context, I know one of your predecessors made a statement to the Assembly some years ago, referring to entry points into the UK for trafficking of modern slaves, particularly from the west, from Ireland. I'm wondering what work, directly or through the relevant agencies, the Welsh Government has taken to address that.

Rydych hefyd, yn gwbl briodol ac yn iawn—ac rydym yn ei groesawu—yn cyfeirio at gamau gweithredu i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n gwybod bod un o'ch rhagflaenwyr wedi gwneud datganiad i'r Cynulliad rai blynyddoedd yn ôl, gan gyfeirio at bwyntiau mynediad i'r DU ar gyfer masnachu mewn caethweision modern, yn enwedig o'r gorllewin, o'r Iwerddon. Rwy'n meddwl tybed pa waith, yn uniongyrchol neu drwy asiantaethau perthnasol, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i fynd i'r afael â hynny.

And in terms, finally, of modern slavery, of course, we have the momentous 2015 UK Modern Slavery Act, passed earlier this year, the first of its kind in Europe, and one of the first globally to specifically address slavery and trafficking in the twenty-first century. I know the Welsh Government engaged with the UK Government in the development of this legislation; what role will the Welsh Government be playing with the new UK Government in its development and implementation across the UK and, specifically, in Wales?

Ac, yn olaf, o ran caethwasiaeth fodern, wrth gwrs, mae gennym Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 bwysig y DU, a basiwyd yn gynharach eleni, y cyntaf o'i bath yn Ewrop, ac un o'r rhai cyntaf yn fyd-eang i fynd i'r afael yn benodol â chaethwasiaeth a masnachu pobl yn y unfed ganrif ar hugain. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon; pa ran fydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae gyda Llywodraeth newydd y DU wrth ei datblygu a'i gweithredu ar draws y DU ac, yn benodol, yng Nghymru?

Regarding Gypsy and Traveller engagement on accommodation assessments, clearly, we welcome that, and that's key. But how is that ensuring that it recognises not only that the Gypsy and Traveller communities are not a homogenous community, and have sometimes separate accommodation needs, but also something referenced, I think, during the development of legislation here, in the Housing (Wales) Act 2014, the fact that we need sites, not only officially provided by local authorities, but sites owned by individual families themselves?

O ran ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr ar asesiadau llety, yn amlwg, rydym yn croesawu hynny, ac mae hynny'n allweddol. Ond sut y mae hynny'n sicrhau ei fod yn cydnabod nid yn unig nad yw cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn gymuned homogenaidd, a bod ganddynt anghenion llety ar wahân weithiau, ond hefyd yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato, rwy'n meddwl, yn ystod y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth yma, yn Neddf Tai (Cymru) 2014, y ffaith bod angen safleoedd, nid yn unig wedi'u darparu yn swyddogol gan awdurdodau lleol, ond safleoedd sy'n eiddo i deuluoedd unigol eu hunain?

You refer to understanding immigration and also to refugees. What work are you doing to help the public better understand that immigration and asylum are different things, that refugees are successful asylum seekers and that, as well as broader understanding, we need to understand the specific issues around those two matters, as reflected in the 21 May celebration of sanctuary in Wales in the Pierhead and also, the event that you're—and it's welcome—going to speak at and sponsor on 16 June with the North Wales Association for Multicultural Integration, as it develops into a centre for cultural engagement, working to secure community cohesion through cultural engagement? I put a plug in for this now to all Members: 16 June, after Plenary—

Rydych yn cyfeirio at ddeall mewnfudo a hefyd at ffoaduriaid. Pa waith ydych chi'n ei wneud i helpu'r cyhoedd i ddeall bod mewnfudo a lloches yn bethau gwahanol, bod ffoaduriaid yn geiswyr lloches llwyddiannus ac, yn ogystal â dealltwriaeth ehangach, bod angen i ni ddeall y materion penodol sy'n ymwneud â'r ddau fater hynny, fel yr adlewyrchir yn y dathliad ar 21 Mai o noddfa yng Nghymru yn y Pierhead, a hefyd, y digwyddiad yr ydych chi—ac mae i'w groesawu—yn mynd i siarad ynddo a'i noddi ar 16 Mehefin gyda Chymdeithas Gogledd Cymru ar gyfer Integreiddio Amlddiwylliannol, wrth iddo ddatblygu i fod yn ganolfan ar gyfer ymgysylltu diwylliannol, gan weithio i sicrhau cydlyniant cymunedol drwy ymgysylltu diwylliannol? Rwy'n rhoi cyhoeddusrwydd i hyn yn awr ar gyfer yr holl Aelodau: 16 Mehefin ar ôl areithiau'r Cyfarfod Llawn—

16:40

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you complete your question, please?

A wnewch chi orffen eich cwestiwn, os gwelwch yn dda?

16:40

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—speeches from the Minister, myself, and entertainment from international performers.

[Yn parhau.] —gan y Gweinidog, minnau, ac adloniant gan berfformwyr rhyngwladol.

Finally, matters that are relevant to community cohesion, which were not specifically referenced in your report, such as returning ex-forces veterans, such as people—

Yn olaf, materion sy'n berthnasol i gydlyniant cymunedol, na chyfeiriwyd atynt yn benodol yn eich adroddiad, megis cyn-filwyr sydd wedi gadael y lluoedd, sy'n dychwelyd, megis pobl—

16:40

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you complete your questions, please? Now.

A wnewch chi orffen eich cwestiynau, os gwelwch yn dda? Nawr.

16:40

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—with substance misuse, and ex-offenders. How is this strategy addressing community cohesion in that context?

[Yn parhau.]—gyda chamddefnyddio sylweddau, a chyn-droseddwyr. Sut mae'r strategaeth hon yn mynd i'r afael â chydlyniant cymunedol yn y cyd-destun hwnnw?

16:40 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Mark Isherwood for his questions. In relation to the increase in the number of disability hate crimes, I think the fact that we are promoting awareness of hate crime—of which, of course, disability hate crime is just one—I think we will see an increase in the number of crimes reported. I recently met with the community cohesion co-ordinator in Wrexham, and several people from a variety of backgrounds; there was somebody there representing the transgender community, people who had been victims of racial abuse, and disability abuse and hate crime, too. I think, talking to them, they very much welcomed the fact that we were raising awareness, and also, by doing so, and working with the police, that they felt confident that, if they went and reported a hate crime, they would be dealt with in the appropriate way. So, I think it's very important we have Hate Crime Awareness Week. We had it last October, and we'll be having it again this year. We gave funding to the four police and crime commissioners to support work in that area, and I think, as we take this awareness forward, we will see an increase in the number of crimes.

Diolch i Mark Isherwood am ei gwestiynau. Ynglŷn â'r cynnydd yn nifer y troseddau casineb anabledd, rwy'n meddwl bod y ffaith ein bod yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb—nad yw, wrth gwrs, trosedd casineb anabledd ddim ond yn un ohonynt—credaf y byddwn yn gweld cynnydd yn y nifer o droseddau yr adroddir amdanynt. Cyfarfûm yn ddiweddar â chydgysylltydd cydlyniant cymunedol yn Wrecsam, a nifer o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd; roedd rhywun yno yn cynrychioli'r gymuned drawsryweddol, pobl a oedd wedi bod yn dioddef cam-drin hiliol, a cham-drin anabledd a throseddau casineb, hefyd. Rwy'n meddwl, o siarad â hwy, eu bod yn croesawu'n fawr y ffaith ein bod yn codi ymwybyddiaeth, a hefyd, drwy wneud hynny, a gweithio gyda'r heddlu, eu bod yn teimlo'n hyderus, pe byddent yn mynd ac yn rhoi gwybod am drosedd casineb, y byddent yn cael eu trin yn y ffordd briodol. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod gennym Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Fe'i cawsom fis Hydref diwethaf, a byddwn yn ei chael eto eleni. Rhoddwyd cyllid gennym i'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu i gefnogi gwaith yn y maes hwnnw, ac rwy'n meddwl, wrth inni ddatblygu'r ymwybyddiaeth hon, y byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y troseddau.

In relation to slavery, this is a matter now for the Minister for Public Services. When I was in that portfolio, certainly—you mentioned specifically slaves being trafficked from Ireland, and coming in there—I visited Holyhead and worked very closely with the north Wales anti-slavery co-ordinator, and, again, worked very closely with the UK Government on the Modern Slavery Bill, as it was then—it's now an Act. I think Wales really led the way in relation to modern slavery. We were the first country in the UK to have a co-ordinator. We still have Stephen Chapman, our anti-slavery co-ordinator, working very closely. Again, these things have to be done in partnership. It's very important that all four countries work closely together in that respect.

O ran caethwasiaeth, mae hwn yn fater i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus erbyn hyn. Pan oeddwn i yn y portffolio hwnnw, yn sicr—soniasoch yn benodol am gaethweision yn cael eu masnachu o Iwerddon, ac yn dod i mewn yno—ymwelais â Chaergybi a gweithio'n agos iawn gyda chydgysylltydd gwrth-gaethwasiaeth gogledd Cymru, ac, unwaith eto, gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU ar y Bil Caethwasiaeth Fodern, fel yr oedd bryd hynny—mae bellach yn Ddeddf. Rwy'n meddwl bod Cymru yn wir wedi arwain y ffordd o ran caethwasiaeth fodern. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gael cydgysylltydd. Mae Stephen Chapman gennym o hyd, ein cydgysylltydd gwrth-gaethwasiaeth, yn gweithio'n agos iawn. Unwaith eto, mae'n rhaid gwneud y pethau hyn mewn partneriaeth. Mae'n bwysig iawn bod y pedair gwlad yn gweithio'n agos gyda'i gilydd yn hynny o beth.

In relation to Gypsy and Traveller communities, we do expect local authorities to make sure that they have the provision that's needed in that area. We have the accommodation assessments you refer to. I think the Housing Act will produce better estimates of need across Wales and give more powers to ensure sites are built. You're quite right in pointing out that it's not just local authorities; sometimes it is individuals that want their own sites. Just last week—Julie Morgan's not in the Chamber, but Julie Morgan chairs the cross-party Gypsy and Traveller group, and I met with her not last week, sorry, but the week before. I went along and met with several representatives from their communities to hear their issues and the difficulties that they specifically face. I think it's really important that the community cohesion co-ordinators play a very specific role in ensuring that Gypsy and Traveller communities are engaged within the local housing and planning processes.

O ran cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol wneud yn siwr bod ganddynt y ddarpariaeth sydd ei hangen yn y maes hwnnw. Mae'r asesiadau llety yr ydych yn cyfeirio atynt gennym. Rwy'n credu y bydd y Ddeddf Tai yn cynhyrchu gwell amcangyfrifon o angen ledled Cymru ac yn rhoi mwy o bwerau i sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadeiladu. Rydych chi'n hollol iawn i dynnu sylw at y ffaith nad yw hyn yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn unig; weithiau mae unigolion sy'n dymuno cael eu safleoedd eu hunain. Dim ond yr wythnos diwethaf—nid yw Julie Morgan yn y Siambr, ond mae Julie Morgan yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol Sipsiwn a Theithwyr, a chwrddais â hi nid yr wythnos diwethaf, mae'n ddrwg gennyf, ond yr wythnos cyn hynny. Es i draw a chwrdd â sawl cynrychiolydd o'u cymunedau i glywed eu problemau a'r anawsterau y maent yn eu hwynebu yn benodol. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig bod y cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol yn chwarae rhan benodol iawn o ran sicrhau bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynnwys o fewn prosesau tai a chynllunio lleol.

In relation to refugees, clearly refugees and dispersal areas are a matter for the Home Office, but, again, it's very important that we work closely with the UK Government. Just today I've written to James Brokenshire, the relevant Minister, regarding an issue that was raised with me following my meeting with asylum seekers and refugees at the sanctuary project that you mentioned.

O ran ffoaduriaid, yn amlwg mae ffoaduriaid ac ardaloedd gwasgaru yn fater i'r Swyddfa Gartref, ond, unwaith eto, mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU. Heddiw ddiwethaf yr wyf wedi ysgrifennu at James Brokenshire, y Gweinidog perthnasol, ynglŷn â mater a godwyd gyda mi yn dilyn fy nghyfarfod gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid yn y prosiect noddfa a grybwyllwyd gennych.

16:44

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Community cohesion is of great importance to the type of society I want to live in. I know from my own constituency the importance of having extended family living in the same community, where they're able to provide help and support to both elderly relatives and young mothers and children. Of course, the bedroom tax is causing many double carers, and we have a large number of double carers, who care for both their parents and their grandchildren, to move out of their communities, removing their ability to support, and breaking down community cohesion. Communities First has had a tremendously positive effect in my constituency, as the Minister's well aware from her visit to Bonymaen, which, again, I thank her for. She was very warmly received, and she actually met a number of people who were benefitting from Communities First in that area in terms of not just social benefit, but actually getting back into employment as well.

Mae cydlyniant cymunedol yn bwysig iawn i'r math o gymdeithas yr wyf fi eisiau byw ynddi. Rwy'n gwybod o fy etholaeth fy hun pa mor bwysig yw cael teulu estynedig yn byw yn yr un gymuned, lle maen nhw'n gallu rhoi cymorth a chefnogaeth i berthnasau oedrannus a mamau ifanc a phlant. Wrth gwrs, mae'r dreth ystafell wely yn peri i lawer o ofalwyr dwbl, ac mae gennym nifer fawr o ofalwyr dwbl, sy'n gofalu am eu rhieni a'u hwyrion/hwyresau, symud allan o'u cymunedau, gan ddileu eu gallu i gefnogi, a chwalu cydlyniant cymunedol. Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cael effaith hynod o gadarnhaol yn fy etholaeth i, fel y mae'r Gweinidog yn ymwybodol iawn o'i hymweliad â Bonymaen, yr wyf, unwaith eto, yn diolch iddi amdano. Cafodd hi groeso brwd iawn, ac fe wnaeth hi gwrdd, mewn gwirionedd, â nifer o bobl a oedd yn elwa ar Gymunedau yn Gyntaf yn yr ardal honno nid o ran budd cymdeithasol yn unig, ond drwy fynd yn ôl i gyflogaeth wirioneddol hefyd.

I have two questions for the Minister. On mainstreaming, is it still the Government's policy to support programme bending? And, lower super output areas have the smallest data sets used by the Welsh Government in deciding Communities First and other areas. Is there any way of influencing these boundaries prior to the next census, because they do have a tremendous effect on areas that are either in or out, quite often because they're attached to wealthier areas?

Mae gennyf ddau gwestiwn i'r Gweinidog. Ar brif ffrydio, a yw'n dal i fod yn bolisi gan y Llywodraeth i gefnogi plygu rhaglenni? A, gan ardaloedd cynnyrch ehangach haen is y mae'r setiau data lleiaf a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth benderfynu ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill. A oes unrhyw ffordd o ddylanwadu ar y ffiniau hyn cyn y cyfrifiad nesaf, oherwydd maent yn cael effaith aruthrol ar feysydd sydd naill ai i mewn neu allan, yn aml oherwydd eu bod ynghlwm wrth ardaloedd cyfoethocach?

16:45

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mike Hedges for his comments and questions. I think you're quite right. I think the bedroom tax is, unfortunately, along with welfare reform, increasing anxiety and tensions in our communities. You referred specifically to Communities First, and I certainly think they have a major role to play. I was very happy to visit the Communities First area in your constituency and it was very good to see people feeling much more part of their community, having, perhaps, not played that sort of role before they engaged with Communities First.

Diolch i Mike Hedges am ei sylwadau a'i gwestiynau. Rwy'n meddwl eich bod yn llygad eich lle. Rwy'n meddwl bod y dreth ystafell wely, yn anffodus, ynghyd â diwygio lles, yn cynyddu pryder a thensiynau yn ein cymunedau. Cyfeiriasoch yn benodol at Cymunedau yn Gyntaf, ac rwy'n sicr yn credu bod ganddyn nhw ran bwysig i'w chwarae. Roeddwn yn hapus iawn i ymweld â'r ardal Cymunedau yn Gyntaf yn eich etholaeth ac roedd yn dda iawn i weld pobl yn teimlo'n llawer mwy o ran o'u cymuned, heb, efallai, fod wedi chwarae'r math honno o ran cyn iddynt ymgysylltu â Chymunedau yn Gyntaf.

In relation to the output areas, local authorities do have some flexibility. I think, sometimes, this is overlooked. Whilst I appreciate that we have to have specific areas, there is that flexibility for local authorities to look beyond that. Whether there'll be an opportunity to look further is something that I'm happy to have a further look at.

O ran ardaloedd cynnyrch, mae gan awdurdodau lleol rywfaint o hyblygrwydd. Rwy'n meddwl, weithiau, bod hynny'n cael ei anwybyddu. Er fy mod yn gwerthfawrogi bod yn rhaid inni gael ardaloedd penodol, mae'r hyblygrwydd hwnnw ar gael i awdurdodau lleol edrych y tu hwnt i hynny. Mae pa un a fydd cyfle i edrych ymhellach yn rhywbeth yr wyf i'n hapus i edrych ymhellach arno.

16:46

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Plaid Cymru spokesperson—Lindsay Whittle.

Diolch yn fawr. Llefarydd Plaid Cymru—Lindsay Whittle.

16:46

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Minister, whilst no one in this Chamber could certainly argue about the sentiments behind the plan, and whilst raising awareness is important, I think tackling the issues effectively is the key. We all want to live in a Wales free from prejudice to people from all parts of our community. I believe immigration fears are now out of control, due largely to the right-wing gutter press.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, er na allai neb yn y Siambr hon yn sicr ddadlau am y teimladau y tu ôl i'r cynllun, a thra bod codi ymwybyddiaeth yn bwysig, rwy’n meddwl mai mynd i'r afael â'r materion yn effeithiol yw'r allwedd. Rydym i gyd am fyw mewn Cymru sy’n rhydd o ragfarn i bobl o bob rhan o'n cymuned. Rwy’n credu bod ofnau mewnfudo bellach allan o reolaeth, yn bennaf oherwydd y wasg gwter yr adain dde.

I grew up on a council estate where, in our street of 50 houses, we had five Polish, one Italian, one Irish and three English families. All of those are now firmly entrenched in our community. But I know you, Dirprwy Lywydd, you want questions. Minister, what role do you see local service boards performing in helping to improve community cohesion? My next question is: the national community cohesion delivery plan refers to seven hoped-for outcomes over the next few years—now, this is a before and after exercise—so what information do you have already about the level of community cohesion in various parts of Wales? In other words, will the strategy bring about a reduction in hate crime and antisocial behaviour and better relationships between communities? Because, unless you have hard statistics about the present situation, how will you know whether the delivery plan is working or not? I look forward to the day when prejudice of all kind is banished to the gutter where, quite frankly, it rightly belongs. Thank you.

Cefais fy magu ar stad o dai cyngor lle, yn ein stryd ni o 50 o dai, roedd gennym bum teulu Pwyleg, un Eidaleg, un Gwyddelig a tri theulu o Loegr. Mae pob un o'r rheini bellach wedi'u sefydlu ei hunain yn gadarn yn ein cymuned. Ond rwy’n eich adnabod chi, Ddirprwy Lywydd, rydych chi eisiau cwestiynau. Weinidog, pa ran yr ydych chi'n gweld byrddau gwasanaethau lleol yn ei chwarae wrth helpu i wella cydlyniant cymunedol? Fy nghwestiwn nesaf yw: mae’r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer cydlyniant cymunedol yn cyfeirio at saith canlyniad y gobeithir amdanynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf—nawr, ymarfer cyn ac ar ôl yw hwn—felly pa wybodaeth sydd gennych chi eisoes am lefel y cydlyniant cymunedol mewn gwahanol rannau o Gymru? Mewn geiriau eraill, a fydd y strategaeth yn sicrhau gostyngiad mewn troseddau casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwell perthynas rhwng cymunedau? Oherwydd, oni bai bod gennych ystadegau pendant am y sefyllfa bresennol, sut y byddwch chi'n gwybod pa un a yw'r cynllun cyflawni yn gweithio ai peidio? Rwy'n edrych ymlaen at y dydd pan fydd rhagfarn o bob math yn cael ei alltudio i'r gwter lle, a dweud y gwir, y dylai fod mewn gwirionedd. Diolch yn fawr.

16:47

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Lindsay Whittle. I absolutely agree with those sentiments. It’s interesting that in Wrexham, which I represent, we’ve always had a very large Polish community. As a child, growing up, we always had a very large Polish community. Then, we had several thousand migrant workers from Poland and suddenly it was an issue, whereas never before had it been an issue. It was very sad to see that. But, fortunately, again, through raising awareness, through having community cohesion co-ordinators, I think that has been largely ruled out now.

Diolch i chi, Lindsay Whittle. Cytunaf yn llwyr â'r teimladau yna. Mae'n ddiddorol yn Wrecsam, lle'r wyf fi'n ei gynrychioli, ein bod bob amser wedi bod â chymuned Bwylaidd fawr iawn. Fel plentyn, yn tyfu, roedd gennym bob amser gymuned Bwylaidd fawr iawn. Yna, cawsom sawl mil o weithwyr mudol o Wlad Pwyl ac yn sydyn roedd yn broblem, er nad oedd wedi bod yn broblem erioed o'r blaen. Roedd yn drist iawn gweld hynny. Ond, yn ffodus, unwaith eto, drwy godi ymwybyddiaeth, drwy gael cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol, rwy’n meddwl bod hynny wedi cael ei ddileu i raddau helaeth erbyn hyn.

In relation to your questions, I think local service boards, and certainly the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, will ensure that local authorities, for instance, build on the work that’s being delivered by community cohesion co-ordinators. That will contribute to the goal of a Wales of cohesive communities. My officials will be working very closely with local service boards and with local authorities, developing guidance to help ensure that the national delivery plan is reflected. There’s also the strategic equality plan. Again, officials are working to develop that, and I think they will all very much dovetail. What we want to see is those good relations being strengthened.

O ran eich cwestiynau, rwy’n meddwl y bydd byrddau gwasanaethau lleol, ac yn sicr Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, yn sicrhau bod awdurdodau lleol, er enghraifft, yn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei gyflwyno gan gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol. Bydd hynny’n cyfrannu at y nod o greu Cymru o gymunedau cydlynol. Bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r byrddau gwasanaethau lleol a gydag awdurdodau lleol, gan ddatblygu canllawiau i helpu i sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cael ei adlewyrchu. Ceir y cynllun cydraddoldeb strategol hefyd. Unwaith eto, mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu hwnnw, ac rwy’n meddwl y byddant i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda iawn. Yr hyn yr ydym am ei weld yw’r cysylltiadau da hynny’n cael eu cryfhau.

You're quite right, we do need to see the evaluation and the monitoring of the community cohesion plans that we have. The co-ordinators bring forward regular reports, which officials monitor very closely. I will need to bring them all together. This, obviously, is the first annual report on this particular plan, for 2014-16, and this is the first report after my predecessor, Jeff Cuthbert, gave funding for the co-coordinators to continue. I think that has been very much welcomed. But, it is really important that those reports are assessed. Certainly, the discussions I've had with the co-ordinators and with other partners working out in the community show that whilst we've seen a rise in the increase of numbers being reported, that is a consequence of raising awareness. Those issues have always been there. Certainly, from talking to the people who have been badly affected and some of the communities, such as the transgender community, which I mentioned before, and people who've been the victims of disability and hate crime, that's clearly the case.

Rydych yn hollol iawn, mae angen i ni weld gwerthuso a monitro'r cynlluniau cydlyniant cymunedol sydd gennym. Mae'r cydgysylltwyr yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd, y mae swyddogion yn eu monitro'n ofalus iawn. Bydd angen i mi ddod â nhw i gyd at ei gilydd. Hwn, yn amlwg, yw'r adroddiad blynyddol cyntaf ar y cynllun penodol hwn, ar gyfer 2014-16, a dyma'r adroddiad cyntaf ar ôl i fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert, roi arian i'r cyd-cydgysylltwyr i barhau. Credaf fod hynny wedi cael ei groesawu yn fawr. Ond, mae'n bwysig iawn bod yr adroddiadau hynny'n cael eu hasesu. Yn sicr, mae'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda chydgysylltwyr a chyda phartneriaid eraill sy'n gweithio yn y gymuned yn dangos, er ein bod wedi gweld cynnydd yn y niferoedd o ran adrodd amdanynt, bod hynny o ganlyniad i godi ymwybyddiaeth. Mae'r materion hynny wedi bod yno erioed. Yn sicr, o siarad â'r bobl sydd wedi cael eu heffeithio yn wael a rhai o'r cymunedau, megis y gymuned drawsryweddol, a grybwyllais o'r blaen, a phobl sydd wedi bod yn ddioddefwyr troseddau anabledd a chasineb, mae hynny'n amlwg yn wir.

16:50 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Peter Black.

16:50 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. Minister, can I welcome this report? The society we live in today is a multinational, multicultural society, and that fact enriches all our lives. I think that we need to ensure that any threats to the cohesion of that community are dealt with, and I very much support actions by the Welsh Government and others to strengthen the cohesion of those communities and make sure that we are all able to work together and live together in a way that benefits everybody in those communities.

Diolch, Gadeirydd. Weinidog, a gaf i groesawu'r adroddiad hwn? Mae'r gymdeithas yr ydym ni'n byw ynddi heddiw yn gymdeithas ryngwladol, amlddiwylliannol, ac mae'r ffaith honno yn cyfoethogi ein bywydau. Credaf fod angen i ni sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw fygythiadau i gydlyniant y gymuned honno, ac rwy'n cefnogi yn fawr iawn y camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac eraill i gryfhau cydlyniant y cymunedau hynny a gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gallu gweithio gyda'n gilydd a byw gyda'n gilydd mewn ffordd sydd er budd pawb yn y cymunedau hynny.

Your statement raises a number of issues. I've one particular question on the actual statement itself in relation to the Gypsy and Traveller provision in the Housing (Wales) Act 2014. I am just interested in whether you can give us some progress on what bids are currently in to the Welsh Government in terms of funding for new sites around Wales. I think that was an issue when we came to scrutinise that Bill, and it would be interesting to know where exactly we stand in terms of that provision.

Mae eich datganiad yn codi nifer o faterion. Mae gen i un cwestiwn penodol ar y datganiad ei hun ynglŷn â'r ddarpariaeth i Sipsiwn a Theithwyr yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Mae gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod tybed a allwch chi roi unrhyw wybodaeth newydd i ni ar ba gynigion sydd i mewn ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru o ran cyllid ar gyfer safleoedd newydd o amgylch Cymru. Credaf fod honno'n broblem pan ddaethom i graffu ar y Bil hwnnw, a byddai'n ddiddorol gwybod ble yn union yr ydym ni'n sefyll o ran y ddarpariaeth honno.

I think the biggest threat to the cohesion of those communities is poverty and deprivation. Certainly, the programmes that the Government are pursuing will help to alleviate that poverty, but, as the Communities, Equality and Local Government Committee's current inquiry into poverty has shown, much of what the Welsh Government is doing is about the alleviation of poverty as opposed to the eradication of poverty. Certainly, that has value in itself, and certainly we need more levers at our disposal if we are, I think, to properly eradicate poverty in our communities. But, in terms of the programmes you have in place to alleviate poverty, Communities First is certainly one of your flagships. So, I'd be interested in what work is now ongoing in terms of improving the monitoring of that programme to ensure that we have robust data to ensure that the funding of Communities First is being properly spent and actually delivering the programmes and outcomes that I think the Welsh Government would want to see from it.

Rwy'n meddwl mai'r bygythiad mwyaf i gydlyniant y cymunedau hynny yw tlodi ac amddifadedd. Yn sicr, bydd y rhaglenni y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno yn helpu i liniaru'r tlodi hwnnw, ond, fel y mae ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i dlodi wedi dangos, mae llawer o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ymwneud â lleddfu tlodi yn hytrach na dileu tlodi. Yn sicr, mae gan hynny werth ynddo'i hun, ac yn sicr mae angen mwy o ddulliau arnom os ydym yn fy marn i, am ddileu tlodi yn briodol yn ein cymunedau. Ond, o ran y rhaglenni sydd gennych ar waith i liniaru tlodi, mae Cymunedau yn Gyntaf yn sicr yn un o'ch enghreifftiau blaenllaw. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod pa waith sy'n mynd rhagddo erbyn hyn o ran gwella monitro'r rhaglen honno i sicrhau bod gennym ddata cadarn i sicrhau bod cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei wario'n briodol ac yn darparu mewn gwirionedd y rhaglenni a'r canlyniadau rwy'n meddwl y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno eu gweld o ganlyniad.

Also, Flying Start is another important part of that. I would like to raise a specific issue in my community, which Bethan Jenkins raised earlier in business questions, in relation to Flying Start in Croeserw and Glyncorrwg in my region, where that provision is under threat, as the parents understand it, because of funding issues, and the provider in those two communities is talking about ending that provision in July. Both I and Bethan Jenkins have, I know, raised that matter with the local authority, and we understand that they say they're looking for additional providers, but it does appear that one of the problems that they're encountering in terms of the long-term funding is that they think that the funding for that programme is only guaranteed until May 2016, when the Assembly elections come up, and that a future Government is not carrying on that funding after that. So, I would be grateful if you could look into that particular issue and give us some assurances, and give the communities of Croeserw and Glyncorrwg assurances that that Flying Start provision will continue past September, when it is threatened to end, and that the local authority have got assurances that it will continue past those elections in 2016.

Hefyd, mae Dechrau'n Deg yn rhan bwysig arall o hynny. Hoffwn godi mater penodol yn fy nghymuned i, a gododd Bethan Jenkins yn gynharach yn y cwestiynau busnes, ynglŷn â Dechrau'n Deg yng Nghroeserw a Glyncorrwg yn fy rhanbarth i, lle mae'r ddarpariaeth honno o dan fygythiad, yn ôl yr hyn y mae rhieni yn ei ddeall, oherwydd materion cyllid, ac mae'r darparwr yn y ddwy gymuned hyn yn siarad am roi terfyn ar y ddarpariaeth ym mis Gorffennaf. Rwyf i a Bethan Jenkins, rwy'n gwybod, wedi codi'r mater hwnnw gyda'r awdurdod lleol, ac rydym yn deall eu bod yn dweud eu bod yn chwilio am ddarparwyr ychwanegol, ond mae'n ymddangos mai un o'r problemau y maent yn eu hwynebu o ran y cyllid hirdymor yw eu bod yn meddwl bod y cyllid ar gyfer y rhaglen ddim ond wedi ei warantu hyd at fis Mai 2016, pan fydd etholiadau'r Cynulliad yn digwydd, ac na fydd Llywodraeth yn y dyfodol yn cynnal y cyllid hwnnw ar ôl hynny. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech edrych ar y mater penodol hwnnw a rhoi rhywfaint o sicrwydd i ni, a rhoi sicrwydd i gymunedau Croeserw a Glyncorrwg y bydd y ddarpariaeth Dechrau'n Deg honno yn parhau y tu draw i fis Medi, pan y ceir bygythiad y bydd yn dod i ben, a bod yr awdurdod lleol wedi cael sicrwydd y bydd yn parhau y tu draw i'r etholiadau hynny yn 2016.

16:54

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Peter Black, for your questions. In relation to Gypsy and Traveller sites, I haven't got the information about the specific bids to hand, but I just recently approved a further £3 million of funding, which is going towards two site extensions and four refurbishment projects during this financial year. You'll be aware we've invested nearly £9.2 million on refurbishment projects and one new site since 2011, but I can certainly provide the Member with details about the specifics in relation to that funding.

Diolch i chi, Peter Black, am eich cwestiynau. O ran safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, nid wyf wedi cael y wybodaeth am y cynigion penodol i law, ond yn ddiweddar, cymeradwyais £3 miliwn o gyllid ychwanegol, sy'n mynd tuag at ddau estyniad safle a phedwar prosiect adnewyddu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi buddsoddi bron i £9.2 miliwn mewn prosiectau adnewyddu ac un safle newydd ers 2011, ond gallaf yn sicr roi manylion i'r Aelod am fanylion penodol y cyllid.

You're absolutely right, Communities First is our flagship anti-poverty programme, and it is delivering real benefits across Wales, but it is really important that we look at how we eradicate poverty. You'll be aware, as you've heard me say in the Chamber and in committee, that we've got a new approach now. It's very much cross-Government; it's about ensuring that we work with all sectors, including the private sector, because I think, perhaps, we haven't worked as closely with the private sector as we should have in our ambition to eradicate poverty. We must have robust data and, again, the Member will be aware of the work that's been going on in relation to that and aligning with our other tackling poverty programmes. You mentioned Flying Start. We've got Families First, and I include Supporting People. I think it's really important that all those programmes work very closely together.

Rydych yn hollol iawn, Cymunedau yn Gyntaf yw ein rhaglen gwrth-dlodi flaenllaw, ac mae'n sicrhau manteision gwirioneddol ledled Cymru, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn edrych ar sut yr ydym yn dileu tlodi. Byddwch yn ymwybodol, fel yr ydych wedi fy nghlywed yn dweud yn y Siambr ac yn y pwyllgor, bod gennym ddull newydd erbyn hyn. Mae'n draws-llywodraethol i raddau helaeth; mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn gweithio gyda phob sector, gan gynnwys y sector preifat, oherwydd fy mod yn credu, efallai, nad ydym wedi gweithio mor agos â'r sector preifat ag y dylem yn ein huchelgais i ddileu tlodi. Mae'n rhaid inni gael data cadarn ac, unwaith eto, bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd ynglŷn â hynny ac ynglŷn â chyfuno â'n rhaglenni trechu tlodi eraill. Soniasoch am Dechrau'n Deg. Mae gennym Teuluoedd yn Gyntaf, ac rwy'n cynnwys Cefnogi Pobl. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod yr holl raglenni hyn yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd.

I heard Bethan Jenkins's question to the Minister for Finance and Government Business and, clearly, that is something that I will need to look into. I am very happy to look into it. This Government has provided a great deal of funding, both capital and revenue, to ensure that we reach our programme for government commitment of doubling the number of children benefitting from Flying Start from 18,000 to 36,000. I wouldn't want to see any of that provision under threat and I will certainly look into that. It's very difficult to say what we'll be doing past May 2016. We need to have, apparently, the emergency budget, which is on 8 July. We need, then, to have the comprehensive spending review and we need to look very closely. But, I think every Member in this Chamber would say that Flying Start is an excellent programme that has really benefitted so many young children. We've now got 25 per cent of those children now receiving Flying Start support.

Clywais gwestiwn Bethan Jenkins i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ac, yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth y bydd angen i mi edrych i mewn iddo. Rwy'n hapus iawn i edrych i mewn iddo. Mae'r Llywodraeth hon wedi rhoi llawer iawn o arian, cyfalaf a refeniw, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein rhaglen ar gyfer ymrwymiad y llywodraeth i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar Dechrau'n Deg o 18,000 i 36,000. Ni fyddwn am weld dim o'r ddarpariaeth honno dan fygythiad a byddaf yn sicr yn edrych i mewn i hynny. Mae'n anodd iawn dweud beth y byddwn ni'n ei wneud ar ôl Mai 2016. Mae angen i ni gael, mae'n debyg, y gyllideb frys, sydd ar 8 Gorffennaf. Mae arnom angen, wedyn, cael yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ac mae angen i ni edrych yn ofalus iawn. Ond, rwy'n credu y byddai pob Aelod yn y Siambr hon yn dweud bod Dechrau'n Deg yn rhaglen ardderchog sydd wedi bod o fudd gwirioneddol i gymaint o blant ifanc. Erbyn hyn mae gennym 25 y cant o'r plant hynny bellach yn derbyn cefnogaeth Dechrau'n Deg.

16:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mohammad Asghar—will you move directly to your questions, please?

Mohammad Asghar—a wnewch chi symud yn syth at eich cwestiynau, os gwelwch yn dda?

16:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. I thank the Minister for her statement today and I also welcome the measures taken to tackle hate crime in Wales. Raising awareness and encouraging the reporting of hate crime is vital if victims are to be reassured that it is worth reporting such incidents. My question is: does the Minister agree that the victim must be kept informed of progress at all stages of the investigation by the relevant authorities and provided with the support they need? On another point, namely homophobic bullying in schools, will the Minister advise what progress has been made in implementing the 11 recommendations made by Estyn on how schools and local authorities can tackle the bullying of pupils with protected characteristics? With regard to promoting greater community cohesion, will the Minister advise if all local authorities in Wales have now set the hate crime objectives in Wales? Recent events have led to an increased mistrust of Muslim communities in Wales and an increase in Islamophobia. In these circumstances, it is easy to overlook the fact that anti-Semitic incidents reached a record level last year. Will the Minister advise what measures have been implemented to work with Welsh Jewish communities in Wales to tackle anti-Semitism? I warmly welcome measures such as Show Racism the Red Card, which tackles racism in sport. A recent study found that there are only 19 black and ethnic minority coaches in 552 top coaching positions at professional English football clubs. Since coaches provide strong role models for young people taking up sports, I ask the Minister what discussions has she had with sport organisations in Wales about increasing the number of BME coaches and trainers in Wales? I thank the Minister once again for the statement and I am going to support everything.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Rwy’n diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw ac rwy’n croesawu hefyd y mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru. Mae codi ymwybyddiaeth ac annog adrodd am droseddau casineb yn hanfodol os yw dioddefwyr i gael tawelwch meddwl ei bod yn werth rhoi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath. Fy nghwestiwn i yw: a yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid i'r dioddefwr gael gwybod am gynnydd yn ystod pob cam o'r ymchwiliad gan yr awdurdodau perthnasol a chael y cymorth sydd ei angen arnynt? Ar bwynt arall, sef bwlio homoffobaidd mewn ysgolion, a wnaiff y Gweinidog roi gwybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r 11 o argymhellion a wnaed gan Estyn ar sut y gall ysgolion ac awdurdodau lleol fynd i'r afael â bwlio disgyblion â nodweddion gwarchodedig? O ran hyrwyddo mwy o gydlyniant cymunedol, a wnaiff y Gweinidog roi gwybod os yw’r holl awdurdodau lleol yng Nghymru bellach yn pennu’r amcanion troseddau casineb yng Nghymru? Mae digwyddiadau diweddar wedi arwain at fwy o ddrwgdybiaeth o’r cymunedau Mwslimaidd yng Nghymru a chynnydd mewn Islamoffobia. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n hawdd anwybyddu’r ffaith bod digwyddiadau gwrth-Semitig wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed y llynedd. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod pa fesurau sydd wedi eu gweithredu i weithio gyda chymunedau Iddewig Cymreig yng Nghymru i fynd i'r afael â gwrth-Semitiaeth? Rwy’n croesawu'n fawr fesurau fel Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, sy'n mynd i'r afael â hiliaeth mewn chwaraeon. Canfu astudiaeth ddiweddar mai dim ond 19 o hyfforddwyr sy'n bobl dduon neu'n dod o leiafrifoedd ethnig sydd yn y 552 o’r swyddi hyfforddi uchaf mewn clybiau pêl-droed proffesiynol yn Lloegr. Gan fod hyfforddwyr yn darparu esiampl gref i bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, gofynnaf i'r Gweinidog pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda sefydliadau chwaraeon yng Nghymru am gynyddu nifer yr hyfforddwyr Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru? Diolch i'r Gweinidog unwaith eto am y datganiad ac rwy’n mynd i gefnogi popeth.

16:58 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Mohammad Asghar. You’re absolutely right, it’s vital that we do raise awareness and that people do feel that if they report a crime they will be dealt with in an appropriate manner, and, of course, yes, they must be kept informed of what action is being taken every step of the way. Those are discussions that I’ve certainly had with police and crime commissioners. I mentioned in an earlier answer that we provide funding to the four police and crime commissioners to help them participate in Hate Crime Awareness Week and I think that’s very important.

Diolch i chi, Mohammad Asghar. Rydych yn hollol iawn, mae'n hanfodol ein bod yn codi ymwybyddiaeth a bod pobl yn teimlo os ydynt yn rhoi gwybod am drosedd, y byddant yn cael eu trin mewn modd priodol, ac, wrth gwrs, oes, mae’n rhaid iddynt gael gwybod pa gamau sy’n cael eu cymryd bob cam o'r ffordd. Mae'r rheini'n drafodaethau yr wyf yn sicr wedi’u cael gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu. Soniais mewn ateb cynharach ein bod yn darparu cyllid i'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu er mwyn eu helpu i gymryd rhan yn yr Wythnos Ymwybyddiaeth o Drosedd Casineb, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

In relation to homophobic bullying, I work very closely with my colleague the Minister for Education and Skills. It’s something that we both take very seriously, and I know that he’s issued guidance in relation to that.

O ran bwlio homoffobig, rwy’n gweithio'n agos iawn gyda fy nghydweithiwr y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'n rhywbeth y mae'r ddau ohonom yn ei gymryd o ddifrif, a gwn ei fod wedi cyhoeddi arweiniad ynglŷn â hynny.

You're quite right about the Jewish community. I think it was during Hate Crime Awareness Week last October that I met with some of the Jewish community in Cardiff in a synagogue and listened to their concerns. Many of them said it was the first time they've really felt threatened. They lived in Cardiff and had been brought up in Cardiff, but for the first time—and, I think, you know, when we look at the global events you can see why—they, perhaps, feel a little more afraid. Again, Alun Michael, the south Wales police and crime commissioner and Sophie Howe, the deputy police and crime commissioner, were with me, and they heard what the Jewish community was saying and I know that they are working very closely with the community.

Rydych chi'n hollol iawn am y gymuned Iddewig. Rwy'n credu mai yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb fis Hydref diwethaf y cwrddais â rhai o'r gymuned Iddewig yng Nghaerdydd mewn synagog a gwrando ar eu pryderon. Dywedodd llawer ohonynt ei bod y tro cyntaf iddynt wir deimlo dan fygythiad. Roeddent yn byw yng Nghaerdydd ac wedi eu magu yng Nghaerdydd, ond am y tro cyntaf—ac, rwy'n meddwl, wyddoch chi, pan edrychwn ar y digwyddiadau byd-eang, gallwch weld pam—maent, efallai, yn teimlo ychydig yn fwy ofnus. Unwaith eto, roedd Alun Michael, comisiynydd yr heddlu a throseddu de Cymru a Sophie Howe, y dirprwy gomisiynydd heddlu a throseddu, gyda mi, a chlywsant yr hyn yr oedd y gymuned Iddewig yn ei ddweud ac yr wyf yn gwybod eu bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r gymuned honno.

In relation to the Muslim community, I mentioned there will be the new counter-extremism Bill coming forward, and I'm going to work very closely with my colleague, the Minister for Public Services, to measure the impact of that in relation to my portfolio. I think it's absolutely vital that we work in Wales to ensure our relationships with our Muslim communities remain strong; they are strong at the moment. We all want to live in a safe and cohesive society, and it's really important that we work closely with them.

O ran y gymuned Fwslimaidd, soniais y bydd y Bil gwrth-eithafiaeth newydd yn cael ei gyflwyno, ac rwy'n mynd i weithio'n agos iawn gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, i fesur effaith hynny yng nghyswllt fy mhortffolio. Rwy'n credu ei fod yn hollol hanfodol ein bod yn gweithio yng Nghymru i sicrhau bod ein perthynas â'n cymunedau Mwslimaidd yn parhau yn gryf; mae'n gryf ar hyn o bryd. Rydym i gyd eisiau byw mewn cymdeithas ddiogel a chydlynus, ac mae'n bwysig iawn ein bod ni'n gweithio'n agos â hwy.

In relation to your question, you're right—Show Racism the Red Card is an excellent campaign. We've got the diversity in the football players, haven't we, certainly in the Premiership, but we don't have that diversity in our coaches; you're absolutely right. I've had discussions with Sport Wales. Again, funding has been provided for them to work out in the communities to raise that diversity, not just with the coaches but also in the participants too.

O ran eich cwestiwn, rydych chi'n iawn—mae Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth yn ymgyrch ardderchog. Mae gennym amrywiaeth yn y chwaraewyr pêl-droed sydd gennym, onid oes, yn sicr yn yr Uwch Gynghrair, ond nid oes gennym yr amrywiaeth honno yn ein hyfforddwyr; rydych yn hollol iawn. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda Chwaraeon Cymru. Unwaith eto, mae arian wedi cael ei ddarparu ar eu cyfer i weithio allan yn y cymunedau i godi'r amrywiaeth honno, nid yn unig gyda'r hyfforddwyr ond ymhlith y cyfranogwyr hefyd.

17:00

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Finally, Jeff Cuthbert, and I'm afraid, again, can you go straight to questions, please?

Diolch yn fawr. Yn olaf, Jeff Cuthbert, ac mae'n ddrwg gennyf, unwaith eto, a allwch chi fynd yn syth at eich cwestiynau, os gwelwch yn dda?

17:00

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, again. Diolch, acting Llywydd; I'll go straight to my question and it follows from the point raised by Mohammad Asghar. Minister, I'm sure you agree with me that, in Wales, we have a great tradition of different peoples from different backgrounds and faiths living alongside each other for decades, even centuries. So, will you agree with me about the need to continue supporting and working jointly with Wales's Muslim and Jewish communities, in particular, through vehicles such as the faith communities forum, so that we can ensure a healthy and regular dialogue between people from different backgrounds in Wales, and combat the attraction to some young people of travelling to the middle east and joining extremist groups?

Iawn, unwaith eto. Diolch, Lywydd dros dro; af yn syth at fy nghwestiwn ac mae'n dilyn o bwynt a godwyd gan Mohammad Asghar. Weinidog, rwy'n siŵr eich bod cytuno â mi, yng Nghymru, bod gennym draddodiad gwych o wahanol bobloedd o wahanol gefndiroedd a ffydd yn byw ochr yn ochr â'i gilydd ers degawdau, canrifoedd hyd yn oed. Felly, a wnewch chi gytuno â mi am yr angen i barhau i gefnogi a gweithio ar y cyd gyda chymunedau Mwslimaidd ac Iddewig Cymru, yn arbennig, drwy gyfryngau megis y fforwm cymunedau ffydd, fel y gallwn sicrhau deialog iach a rheolaidd rhwng pobl o wahanol gefndiroedd yng Nghymru, a brwydro yn erbyn yr atyniad i rai pobl ifanc deithio i'r dwyrain canol ac ymuno â grwpiau eithafol?

17:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely, and I pay tribute to the work that Jeff Cuthbert did as my predecessor. You heard my answer about the Muslim and Jewish communities to Mohammad Asghar. The faith communities forum is such an excellent forum for both of them; the First Minister chairs it, I'm the deputy chair, and that's how we engage and consult with them on areas of policy and strategy. To have all the faiths around the table working together is very encouraging, and it facilitates that dialogue that's needed between Welsh Government and the faith communities to ensure that we are able to tackle any matters that affect the economic, social, environmental and cultural life here in Wales.

Gwnaf , yn sicr, a thalaf deyrnged i'r gwaith a wnaeth Jeff Cuthbert fel fy rhagflaenydd. Rydych wedi clywed fy ateb am y cymunedau Mwslemaidd ac Iddewig i Mohammad Asghar. Mae'r fforwm cymunedau ffydd yn fforwm mor ardderchog ar gyfer y ddwy gymuned; y Prif Weinidog sy'n ei gadeirio, fi yw'r dirprwy gadeirydd, a dyna sut yr ydym yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â hwy ar feysydd polisi a strategaeth. Mae cael pob ffydd o amgylch y bwrdd yn gweithio gyda'i gilydd yn galonogol iawn, ac mae'n hwyluso'r ddeialog sydd ei hangen rhwng Llywodraeth Cymru a'r cymunedau ffydd i sicrhau ein bod yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yma yng Nghymru.

17:02 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

17:02

Senedd.tv Fideo Video

## 9. Y Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015

## 9. The Smoke-free (Private Vehicles) Regulations 2015

**Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Item 9 is the Smoke-free (Private Vehicles) Regulations 2015. I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Eitem 9 yw Rheoliadau (Cerbydau Preifat) Di-fwg 2015. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5767 Jane Hutt

Motion NDM5767 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mai 2015.

Approves that the draft The Smoke-free Premises etc. (Wales) (Amendment) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 5 May 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:02 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you very much, Chair. I'm very pleased to bring forward these regulations. Their aim is to protect children under the age of 18 from the harms associated with second-hand smoke when travelling in private vehicles.

Diolch yn fawr, Gadeirydd. Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r rheoliadau hyn. Eu nod yw amddiffyn plant iau na 18 oed rhag y niwed sy'n gysylltiedig â mwg ail-law wrth deithio mewn cerbydau preifat.

Exposure to second-hand smoke is a real and substantial threat to children's health. It causes a variety of health conditions such as lower respiratory tract infections, asthma, middle-ear disease and other serious infections. Many of the 4,000 chemicals contained in second-hand smoke are highly toxic and more than 50 are known to cause cancer.

Mae dod i gysylltiad â mwg ail-law yn fygythiad gwirioneddol a sylweddol i iechyd plant. Mae'n achosi amrywiaeth o gyflyrau iechyd megis heintiau'r llwybr anadlol is, asthma, clefyd canol y glust a heintiau difrifol eraill. Mae llawer o'r 4,000 o gemegion a geir mewn mwg ail-law yn wenwynig iawn ac mae mwy na 50 y gwyddys eu bod yn achosi canser.

In the confined space of cars, children are more vulnerable to second-hand smoke because they breathe more rapidly and inhale more pollutants than adults. Children cannot escape from the toxic chemicals contained in second-hand smoke when travelling in cars, and they usually have little choice over whether or not they travel in cars and are not in a position to require an adult from refraining from smoking.

Yn y lle cyfyng sydd mewn ceir, mae plant yn fwy agored i fwg ail-law am eu bod yn anadlu'n gyflym ac yn anadlu mwy o lygryddion nag oedolion. Ni all plant ddianc rhag y cemegau gwenwynig a geir mewn mwg ail-law wrth deithio mewn ceir, ac nid oes ganddynt fel arfer fawr o ddewis o ran pa un a ydynt yn teithio mewn ceir ai peidio ac nid ydynt mewn sefyllfa i fynnu bod oedolyn yn ymatal rhag smygu.

It is my firm view that one effective way to eliminate harm from second-hand tobacco smoke is to introduce regulations that prevent smoking in private vehicles where there are children under the age of 18 present. It is very interesting to see, Chair, that the results of our recent consultation on the regulations show that 86 per cent of all respondents agreed with this approach.

Fy marn gadarn i yw mai un ffordd effeithiol o ddileu niwed o fwg tybaco ail-law yw cyflwyno rheoliadau sy'n atal smygu mewn cerbydau preifat pan fo plant iau na 18 oed yn bresennol. Mae'n ddiddorol iawn gweld, Gadeirydd, bod canlyniadau ein hymgynghoriad diweddar ar y rheoliadau yn dangos bod 86 y cant o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r ymagwedd hon.

I'd like to provide just a few details of the regulations for Members. They extend the scope of the current regulations to provide that private vehicles are smoke free when they are enclosed and have two or more persons present in the vehicle, at least one of whom is aged under 18. The regulations then make it an offence to smoke in such a vehicle and an offence for a driver to fail to prevent smoking in such circumstances. The regulations introduce a fixed-penalty notice of £50 for each offence.

Hoffwn roi ychydig o fanylion y rheoliadau i'r Aelodau. Maent yn ymestyn cwmpas y rheoliadau presennol er mwyn darparu bod cerbydau preifat yn rhydd o fwg pan eu bod yn gaeedig a phan fo dau neu fwy o bobl yn bresennol yn y cerbyd, a bod o leiaf un ohonynt yn iau na 18 oed. Mae'r rheoliadau wedyn yn ei gwneud yn drosedd i smygu mewn cerbyd o'r fath ac yn drosedd i yrrwr fethu â rhwystro smygu mewn amgylchiadau o'r fath. Mae'r rheoliadau yn cyflwyno hysbysiad o gosb benodedig o £50 am bob trosedd.

The regulations designate police forces as enforcement authorities for smoke-free private vehicles because, unlike local authorities, they are able to require a vehicle to stop if they suspect that an offence is being committed. Local authorities will, however, also be able to enforce the regulations, and there will be an important role for local authority regulatory officers in working jointly with the police on local enforcement activities. It is intended that all enforcement officers will use their discretion in deciding whether or not to issue warnings or fixed-penalty notices, or whether, indeed, to refer an alleged offence directly to court. In order to raise awareness of the new regulations, the Welsh Government will run a campaign in advance of them coming into force on 1 October this year, if the regulations are approved this afternoon, to inform people of the new offences.

Mae'r rheoliadau yn dynodi heddluoedd fel awdurdodau gorfodi ar gyfer cerbydau preifat di-fwg oherwydd, yn wahanol i awdurdodau lleol, maen nhw'n gallu ei gwneud yn ofynnol i gerbyd stopio os ydynt yn amau bod trosedd yn cael ei chyflawni. Bydd awdurdodau lleol, fodd bynnag, hefyd yn gallu gorfodi'r rheoliadau, a bydd swyddogaeth bwysig i swyddogion rheoleiddio awdurdodau lleol o ran gweithio ar y cyd â'r heddlu ar weithgareddau gorfodi lleol. Bwriedir y bydd pob swyddog gorfodi yn defnyddio ei ddisgresiwn wrth benderfynu a yw am gyflwyno rhybuddion neu hysbysiadau cosb benodedig, neu, yn wir, pa un ai i gyfeirio trosedd honedig yn uniongyrchol i'r llys. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y rheoliadau newydd, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch cyn iddynt ddod i rym ar 1 Hydref eleni, os bydd y rheoliadau'n cael eu cymeradwyo y prynhawn yma, i roi gwybod i bobl am y troseddau newydd.

The underlying purpose of these regulations is not to produce a great spike in enforcement actions but to make a further contribution to the changed culture that we have so successfully set out to create here in Wales in relation to smoking. People who smoke in cars where children are present tell us that they themselves understand that it is harmful and that they want to stop. This change in the law is designed to provide that one final push to translate that understanding into actual behaviour. It will protect children from entirely avoidable harm, and I recommend the regulations to the Assembly.

Nid diben sylfaenol y rheoliadau hyn yw creu cynnydd sylweddol mewn camau gorfodi, ond yn hytrach gwneud cyfraniad pellach at y diwylliant sydd wedi newid yr ydym wedi mynd ati mor llwyddiannus i'w greu yma yng Nghymru ynglŷn â smygu. Mae pobl sy'n smygu mewn ceir pan fo plant yn bresennol yn dweud wrthym a'u bod eisiau rhoi'r gorau iddi. Mae'r newid hwn yn y gyfraith wedi ei gynllunio i ddarparu'r un ymdrech olaf honno i drosi'r ddealltwriaeth honno i ymddygiad gwirioneddol. Bydd yn amddiffyn plant rhag niwed y gellir ei osgoi yn gyfan gwbl, ac rwy'n argymell y rheoliadau i'r Cynulliad.

17:06 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I rise in support of the motion before the Assembly today. We know that passive smoking is a major risk to public health; it's responsible for all sorts of chronic ill health and reduces life expectancy. Whilst adults, of course, can make an informed decision to avoid passive smoking, children and particularly those in enclosed spaces, such as cars, cannot and are forced to breathe in what is a poison and is harmful to them. It's very clear from the evidence that has been presented to the Assembly, from various sources, including the British Lung Foundation and Action on Smoking and Health Wales and, indeed, the Welsh Government's own research that the public do have an appetite for this ban and that we act today with their support.

Codaf i gefnogi'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad heddiw. Rydym yn gwybod bod smygu goddefol yn risg fawr i iechyd y cyhoedd; mae'n gyfrifol am bob mathau o salwch cronig ac yn lleihau disgwyliad oes. Er bod oedolion, wrth gwrs, yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i osgoi smygu goddefol, nid yw plant ac yn enwedig y rhai mewn mannau caeedig, megis ceir, yn gallu gwneud hynny ac maent yn cael eu gorfodi i anadlu i mewn yr hyn sy'n wenwyn ac sy'n niweidiol iddynt. Mae'n glir iawn o'r dystiolaeth sydd wedi ei chyflwyno i'r Cynulliad, o wahanol ffynonellau, gan gynnwys Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint a Gweithredu ar Smygu ac Iechyd Cymru ac, yn wir, ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun, bod y cyhoedd yn awyddus i weld y gwaharddiad hwn a'n bod yn gweithredu heddiw gyda'u cefnogaeth hwy.

I'm very pleased to see that we are also acting in concert with the UK Government, which, of course, has taken the lead on this issue. I think it is appropriate that we take action in conjunction with them to introduce this ban on the same date. Of course, I think there is one regret and that is that we haven't moved towards this position perhaps a little sooner, particularly given the consensus on the most part in this Assembly Chamber, but I am very pleased that we're having these regulations brought before the Assembly today, and I really do hope and trust that we will receive a significant public health dividend as a result of them passing before us.

Rwy'n falch iawn o weld ein bod hefyd yn gweithredu ar y cyd â Llywodraeth y DU, sydd, wrth gwrs, wedi arwain ar y mater hwn. Credaf ei bod yn briodol ein bod yn cymryd camau ar y cyd â hwy i gyflwyno'r gwaharddiad hwn ar yr un dyddiad. Wrth gwrs, rwy'n credu ein bod yn edifarhau un peth a hynny yw nad ydym wedi symud tuag at y sefyllfa hon efallai ychydig yn gynharach, yn enwedig o ystyried y consensws ar y cyfan yn y Siambr hon yn y Cynulliad, ond rwy'n falch iawn ein bod yn cael y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad heddiw, ac rwyf wir yn gobeithio ac yn hyderu y byddwn yn elwa'n sylweddol o ran iechyd cyhoeddus o ganlyniad iddynt ddod ger ein bron.

Of course, let's not forget that there is also a saving to be accrued to the public purse as a result of this in terms of the long-term health impact that we are avoiding in terms of the poison that children and young people are inhaling at the moment in these very enclosed spaces. So, this certainly has my support today and, in line with our tradition on these Conservative benches, there will be, of course, a free vote on tobacco-related matters, including on this, but I can assure you that there is significant support.

Wrth gwrs, gadewch i ni beidio ag anghofio bod arbedion i'w cronni i'r pwrs cyhoeddus o ganlyniad i hyn o ran yr effaith tymor hir ar iechyd yr ydym yn ei osgoi o ran y gwenwyn y mae plant a phobl ifanc yn ei fewnanadlu ar hyn o bryd yn y mannau caeedig iawn hyn. Felly, yn sicr mae hyn yn cael fy nghefnogaeth i heddiw ac, yn unol â'n traddodiad ar y meinciau Ceidwadol hyn, fe fydd, wrth gwrs, pleidlais rydd ar faterion sy'n gysylltiedig â thybaco, gan gynnwys hyn, ond gallaf eich sicrhau bod cefnogaeth sylweddol.

17:08 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, congratulations, this is an excellent day, and certainly you have my full support. These regulations support the United Nations Convention on the Rights of the Child. I was going to say that I welcome the surveys that have been carried out that show that 84 per cent of those questioned support the banning of smoking in cars, but I'll take your 86 per cent no problem at all. There are still too many children saying that they are being passengers in cars where the driver or the other passenger is smoking, and the statistics on harm caused to children by passive smoking speak for themselves. You are an extremely irresponsible parent or adult if you smoke in a car with a child present.

Wel, Weinidog, llongyfarchiadau, mae hwn yn ddiwrnod ardderchog, ac yn sicr mae gennych fy nghefnogaeth lawn. Mae'r rheoliadau hyn yn cefnogi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roeddwn yn mynd i ddweud fy mod yn croesawu'r arolygon a gynhaliwyd sy'n dangos bod 84 y cant o'r rhai a holwyd yn cefnogi gwahardd smygu mewn ceir, ond byddaf yn derbyn eich 86 y cant dim problem o gwbl. Mae gormod o blant yn dal i ddweud eu bod yn deithwyr mewn ceir lle mae'r gyrrwr neu'r teithiwr arall yn smygu, ac mae'r ystadegau ar niwed a achosir i blant drwy smygu goddefol yn siarad drostynt eu hunain. Rydych yn rhiant neu oedolyn hynod o anghyfrifol os ydych yn smygu mewn car pan fo plentyn yn bresennol.

I have two questions, though, Minister. I wonder if you could help me. Although the police are named as the enforcement authority, because they have the power to stop a vehicle if they suspect an offence is being committed, part of the regulations—I think it's paragraph 6.7 of the explanatory memorandum—state that a local authority can also act as an enforcement authority. I think the public need to know in what circumstances the local authority can fulfil that role. It's easy for a police officer to stop a vehicle because they're usually in uniform, but most council staff are not. The second question is that the regulations also state,

Mae gennyf ddau gwestiwn, er hynny, Weinidog. Tybed a allech chi fy helpu. Er bod yr heddlu yn cael eu henwi fel yr awdurdod gorfodi, oherwydd bod ganddynt y pŵer i stopio cerbyd os ydynt yn amau bod trosedd yn cael ei chyflawni, mae rhan o'r rheoliadau—rwy'n credu mai paragraff 6.7 o'r Memorandwm Esboniadol ydyw—yn datgan y gall awdurdod lleol hefyd weithredu fel awdurdod gorfodi. Rwy'n meddwl bod angen i'r cyhoedd wybod ym mha amgylchiadau y gall yr awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth honno. Mae'n hawdd i swyddogion yr heddlu stopio cerbyd gan eu bod fel arfer yn eu lifrai, ond nid yw'r mwyafrif o staff cyngor. Yr ail gwestiwn yw bod y rheoliadau hefyd yn nodi,

'A person smoking in a car is also committing an offence if a non-smoking passenger is over 18.'

bod person sy'n smygu mewn car hefyd yn cyflawni trosedd os yw teithiwr nad yw'n smygu yn hŷn na 18 oed.

That's paragraph 6.3 of the explanatory memorandum. I think that needs to be clear in your publicity campaign as well. But this has wholehearted support, I hope, in this Chamber.

Paragraff 6.3 o'r memorandwm esboniadol yw hwnnw. Credaf fod angen iddo fod yn glir yn eich ymgyrch gyhoeddusrwydd hefyd. Ond mae cefnogaeth lwyr i hyn, rwy'n gobeithio, yn y Siambr hon.

17:09 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I could make it clear from the outset, the Liberal Democrat group will have a free vote on the issues before us this afternoon. As you can imagine, the issue of banning behaviour is a complex one for those of us who believe in the freedom of the individual, and look to balance the needs of that freedom of the individual against the role of the state.

Os caf ei gwneud yn glir o'r cychwyn cyntaf, bydd y grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn cael pleidlais rydd ar y materion sydd ger ein bron y prynhawn yma. Fel y gallwch ddychmygu, mae'r mater o wahardd ymddygiad yn un cymhleth i'r rheini ohonom sy'n credu yn rhyddid yr unigolyn, ac sy'n edrych i gydbwyso anghenion y rhyddid hwnnw i'r unigolyn yn erbyn swyddogaeth y wladwriaeth.

I find these even more challenging than smoking in public places bans, because at what point do we say that the car, as a private vehicle, as an object owned by an individual—it's not right to smoke in front of your children in a car—at what point do we start saying to people that they can't smoke in the presence of their children in their own homes? I note, yesterday, the reporting of a case across the border in England, where one of the factors stated in a child protection case was actually the exposure of that child to high levels of smoke. But it is clear from the medical evidence that is available that smoking in the confined space of a vehicle is more detrimental to children's health than smoking in the wider environment, perhaps, of a home. The evidence is clear of the additional adverse effects of second-hand smoke on children in particular, as opposed to adults, and I have no disagreement with that.

Rwy'n gweld y rhain hyd yn oed yn fwy heriol na'r gwaharddiadau ar smygu mewn mannau cyhoeddus, oherwydd ar ba bwynt yr ydym yn dweud bod y car, fel cerbyd preifat, fel gwrthrych sy'n eiddo i unigolyn—nid yw'n iawn i smygu yng ngŵydd eich plant mewn car—ar ba bwynt ydym ni'n dechrau dweud wrth bobl nad ydynt yn cael smygu ym mhresenoldeb eu plant yn eu cartrefi eu hunain? Nodaf, ddoe, yr adroddwyd am achos ar draws y ffin yn Lloegr, pan mai un o'r ffactorau a nodwyd mewn achos o amddiffyn plentyn oedd mewn gwirionedd rhoi'r plentyn hwnnw mewn sefyllfa o lefelau uchel o fwg. Ond mae'n amlwg o'r dystiolaeth feddygol sydd ar gael fod smygu yn y lle cyfyng sydd mewn cerbyd yn fwy niweidiol i iechyd plant na smygu yn yr amgylchedd ehangach, fel cartref efallai. Mae'r dystiolaeth yn glir o effeithiau andwyol ychwanegol mwg ail-law ar blant yn arbennig, yn hytrach nag oedolion, ac nid wyf yn anghytuno o gwbl â hynny.

I know that my colleague, Peter Black, if called to speak this afternoon, will raise the issue of the legal age of smoking. So, somebody is legally able to smoke at the age of 16, although not able to purchase tobacco, but under this regulation, there is a question about prosecuting somebody under the age of 18 as a child, when, actually, legally, they're able to smoke. So, there are issues around the inconsistency, I think, as a society, we place on issues around purchasing tobacco and the legal age of being able to carry tobacco and smoke it, but I'm sure my colleague Peter Black will explore those further.

Gwn y bydd fy nghyd-aelod, Peter Black, os gelwir arno i siarad y prynhawn yma, yn codi'r mater o oedran smygu cyfreithlon. Felly, mae rhywun yn cael smygu yn 16 oed yn gyfreithlon, er nad yw'n cael prynu tybaco, ond o dan y rheoliad hwn, mae cwestiwn ynghylch erlyn rhywun iau na 18 oed fel plentyn, pan, mewn gwirionedd, yn ôl y gyfraith, mae'n cael smygu. Felly, mae materion yn ymwneud ag anghysondeb, rwy'n meddwl, fel cymdeithas, a roddwn ar faterion yn ymwneud â phrynu tybaco a'r oedran cyfreithlon o gael cario tybaco a'i smygu, ond rwy'n siŵr y bydd fy nghyd-Aelod, Peter Black yn archwilio y rheini ymhellach .

In conclusion, acting Presiding Officer, I guess the test is the same one as it always is for liberals. John Stuart Mill, in his seminal work of 1859 on liberty said that,

I gloi, Lywydd dros dro, mae'n debyg bod y prawf yr un ag yw bob amser i ryddfrydwyr. Yn ei waith arloesol o 1859 ar ryddid, meddai John Stuart Mill,

‘the only purpose for which power can be rightly exercised over any member of a civilized community, against his will, is to prevent harm to others. His own good, either physical or moral, is not a sufficient warrant.’

yr unig ddiben ar gyfer arfer pŵer yn gywir dros unrhyw aelod o gymuned wâr, yn erbyn ei ewyllys, yw atal niwed i eraill. Nid yw ei les ei hun, naill ai'n gorfforol neu’n foesol, yn warant ddigonol.

On that basis, I have made the decision to support the regulations today.

Ar sail hynny, rwyf wedi gwneud y penderfyniad i gefnogi'r rheoliadau heddiw.

17:12

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I served on the committee that was set up to look at the smoking ban and I fully supported that ban, because I thought that, at the time, and I still think, the evidence was very clear that second-hand smoke is harmful to other people and it is damaging. Clearly, there were people who were being forced to work or who were working in an environment where second-hand smoke was present. That regulation that was passed by the Assembly and now, throughout the UK, was there to protect those workers in that environment, among many others.

Roeddwn i'n gwasanaethu ar y pwyllgor a sefydlwyd i edrych ar y gwaharddiad ar smygu ac rwy’n llwyr gefnogi’r gwaharddiad hwnnw, gan fy mod yn meddwl, ar y pryd, ac rwy’n dal i feddwl, bod y dystiolaeth yn glir iawn bod mwg ail-law yn niweidiol i bobl eraill ac yn andwyol. Yn amlwg, roedd pobl a oedd yn cael eu gorfodi i weithio neu a oedd yn gweithio mewn amgylchedd lle’r oedd mwg ail-law yn bresennol. Roedd y rheoliad hwnnw a gafodd ei basio gan y Cynulliad ac erbyn hyn, ar hyd a lled y DU, yno i amddiffyn y gweithwyr hynny yn yr amgylchedd hwnnw, ymhlith llawer o rai eraill.

However, I do have reservations about the Order before us today. Kirsty Williams has just raised one of them and I think the main reservation, or one of them, is around enforcement. It is legal, of course, to smoke in public at the age of 16, although not to actually buy tobacco until you’re 18. I’ve never quite worked out how the 16-year-olds get hold of tobacco, because presumably it’s also illegal to buy tobacco for someone under the age of 18, but nevertheless it is legal to smoke in public at the age of 16. So, this poses the problem that if you were driving a car with a 17-year-old in it and no other passengers and that 17-year-old was smoking, would the driver then be liable, under these regulations, to be prosecuted because he has allowed that 17-year-old to smoke? Whereas the 17-year-old is obviously damaging his own body by smoking and it may well be that the driver is also a smoker too, but the driver, of course, would be over the age of 18 and therefore, would not be caught. So, I think enforcement can be difficult under certain circumstances. It’s also going to be difficult to enforce, full stop. We see, at the moment, it is, of course, illegal to use your mobile phone in your hand while driving. I’ve seen so many people still doing that. It’s very difficult to enforce that and I think it would be even more difficult to actually enforce this particular regulation as well.

Fodd bynnag, mae gennyf amheuon ynghylch y Gorchymyn sydd o'n blaenau heddiw. Mae Kirsty Williams newydd godi un ohonynt ac mae’r brif amheuaeth rwy'n credu, neu un ohonynt, yn ymwneud â gorfodi. Mae'n gyfreithlon, wrth gwrs, i smygu yn gyhoeddus yn 16 oed, er nad yw prynu tybaco yn gyfreithlon mewn gwirionedd tan eich bod yn 18 oed. Dydw i erioed wedi deall sut y mae’r rhai 16 mlwydd oed yn cael gafael ar dybaco, oherwydd yn ôl pob tebyg mae hefyd yn anghyfreithlon i brynu tybaco i rywun iau na 18 oed, ond serch hynny, mae'n gyfreithlon i smygu yn gyhoeddus yn 16 oed. Felly, mae hyn yn codi’r broblem, pe byddech yn gyrru car gyda rhywun 17 mlwydd oed ynddo a dim teithwyr eraill a bod yr un 17 mlwydd oed yn smygu, a fyddai'r gyrrwr wedyn yn atebol, o dan y rheoliadau hyn, i gael ei erlyn oherwydd ei fod wedi caniatáu i rywun 17 mlwydd oed i smygu? Er bod yr unigolyn 17 mlwydd oed yn amlwg yn niweidio ei gorff ei hun drwy smygu ac y gallai’r gyrrwr hefyd fod yn ysmygwr, ond byddai’r gyrrwr, wrth gwrs, yn hŷn na 18 oed, ac felly, ni fyddai'n cael ei ddal. Felly, rwy’n meddwl y gall gorfodi fod yn anodd o dan rai amgylchiadau. Mae hefyd yn mynd i fod yn anodd ei orfodi, beth bynnag. Rydym yn gweld, ar hyn o bryd, ei bod, wrth gwrs, yn anghyfreithlon defnyddio eich ffôn symudol yn eich llaw tra eich bod yn gyrru. Rwyf wedi gweld cymaint o bobl yn dal i wneud hynny. Mae'n anodd iawn gorfodi hynny ac rwy’n meddwl y byddai'n anoddach fyth mewn gwirionedd, i orfodi'r rheoliad penodol hwn hefyd.

Also, I think there is an issue here in terms of how far we go in taking this protection against second-hand smoke. Are we next going to be saying, as Kirsty Williams has suggested, 'Well, if it's going to be illegal to smoke in the confines of your vehicle when you have someone under the age of 18 in that vehicle with you, should we then make it illegal to smoke in the confines of your own home when someone is under the age of 18?' I think there is a danger that we are on that particular slope towards that particular measure. I think that people have to take responsibility for their own actions. Parents have responsibility for the safety and the health of their children, and they need to take that responsibility seriously, but I don't think it is the role of the state to intervene in this way—in a way to prevent parents or others from harming in this particular way. I think that, yes, we have had to protect workers in their place of work, but, when we start talking about private vehicles and private homes, I think we are in danger of taking that particular measure too far. For that reason, Chair, I'll be voting against this measure.

Hefyd, rwy'n meddwl bod problem yma o ran pa mor bell yr ydym yn mynd o ran cymryd yr amddiffyniad hwn yn erbyn mwg ail-law. A ydym ni nesaf yn mynd i fod yn dweud, fel y mae Kirsty Williams wedi awgrymu, 'Wel, os yw'n mynd i fod yn anghyfreithlon i smygu o fewn eich cerbyd pan fydd gennych rywun o dan 18 oed yn y cerbyd gyda chi, a ddylem wedyn ei gwneud yn anghyfreithlon i smygu o fewn eich cartref eich hun pan fydd rhywun yno sy'n iau na 18 oed? 'Rwy'n credu bod perygl ein bod ar y llethr penodol hwnnw tuag at y mesur penodol hwnnw. Credaf fod yn rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Mae gan rieni gyfrifoldeb am ddiogelwch ac iechyd eu plant, ac mae angen iddynt gymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif, ond nid wyf yn credu mai lle'r wladwriaeth yw ymyrryd yn y ffordd hon—mewn ffordd i atal rhieni neu eraill rhag niweidio yn y ffordd benodol hon. Credaf, oes, mae'n rhaid i ni amddiffyn gweithwyr yn eu gweithle, ond, pan fyddwn yn dechrau siarad am gerbydau preifat a chartrefi preifat, rwy'n meddwl ein bod mewn perygl o fynd â'r mesur penodol hwnnw yn rhy bell. Am y rheswm hwnnw, Gadeirydd, byddaf yn pleidleisio yn erbyn y mesur hwn.

17:16 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

17:16 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you, Chair. I'll try and respond to a number of those points. In any situation where you are making law, you are likely to find yourself with a balance of competing rights that you have to consider, and in this case it's very clear: parents have rights, but children have rights too. And, actually, this Assembly has been particularly strong in its recognition of the rights that children have, and I'm very clear in my mind that, in this situation, the rights of children not to have their health adversely affected by the pernicious effects of second-hand smoking in the confined circumstances of a car trump the rights of adults to carry out that activity.

Diolch, Gadeirydd. Ceisiaf ymateb i nifer o'r pwyntiau hynny. Mewn unrhyw sefyllfa lle rydych yn gwneud cyfraith, rydych yn debygol o'ch cael eich hun â chydbwysedd o hawliau sy'n cystadlu y mae'n rhaid i chi eu hystyried, ac yn yr achos hwn mae'n glir iawn: mae gan rieni hawliau, ond mae gan blant hawliau hefyd. Ac, mewn gwirionedd, mae'r Cynulliad hwn wedi bod yn arbennig o gryf yn ei gydnabyddiaeth o'r hawliau sydd gan blant, ac rwy'n glir iawn yn fy meddwl, yn y sefyllfa hon, bod hawliau plant i beidio â chael eu heffeithio'n andwyol gan effeithiau niweidiol smygu ail-law o dan amgylchiadau cyfyng car yn bwysicach na hawliau oedolion i gyflawni'r gweithgaredd hwnnw.

The whole home and car argument, I think, is simply a canard. There's an absolutely clear distinction between the two. If you're in your own home, you can go into another room. There are other spaces that you can go to. A child who is in a car, where smoke is present, cannot choose to go and sit on the roof. There is no other place for them to go to. Really, the argument doesn't bear examination.

Chwedl wag yn unig yw'r holl ddadl cartref a char, yn fy marn i. Mae gwahaniaeth cwbl glir rhwng y ddau. Os ydych chi yn eich cartref eich hun, gallwch fynd i mewn i ystafell arall. Mae yna fannau eraill y gallwch fynd iddynt. Ni all plentyn sydd mewn car, lle mae mwg yn bresennol, ddewis mynd i eistedd ar y to. Nid oes unrhyw le arall iddynt fynd iddo. Mewn gwirionedd, nid yw'r ddadl yn gwrthsefyll archwiliad.

Peter's point about the fact that, you know, there are contradictions in the law between different ages at which different activities can take place, is absolutely true. When you're introducing a new piece of legislation, you have to find a way through it, and, for the sake of simplicity and for the sake of enforcement, we have decided to design the law in the way that we have here. As far as enforcement is concerned, I simply repeat the point I made at the beginning: this law will not have succeeded if what we get are huge numbers of people continuing to violate the law and, therefore, having to be prosecuted. It's part of creating a different culture in which people who understand the point that Darren Millar made about the responsibility that parents have not to smoke where children are present is reinforced and they can turn that understanding—and, indeed, in many cases, their desire to do that—into the way that they behave.

Mae pwynt Peter am y ffaith, wyddoch chi, bod gwrthddywediadau yn y gyfraith rhwng gwahanol oedrannau lle gall gwahanol weithgareddau ddigwydd, yn hollol wir. Pan eich bod yn cyflwyno darn newydd o ddeddfwriaeth, mae'n rhaid i chi ddod o hyd i ffordd drwyddo, ac, er mwyn symlrwydd ac er mwyn gorfodi, rydym wedi penderfynu cynllunio'r gyfraith yn y ffordd sydd gennym yma. Cyn belled ag y mae gorfodi yn y cwestiwn, rwy'n ailadrodd y pwynt a wneuthum ar y dechrau: ni fydd y gyfraith hon wedi llwyddo os mai'r hyn a gawn fydd nifer fawr o bobl yn parhau i fynd yn groes i'r gyfraith ac, felly, yn gorfod cael eu herlyn. Mae'n rhan o greu diwylliant gwahanol lle mae pobl sy'n deall y pwynt a wnaeth Darren Millar am y cyfrifoldeb sydd gan rieni i beidio â smygu pan fo plant yn bresennol yn cael ei atgyfnerthu a gallant droi'r ddealltwriaeth honno—ac, yn wir, mewn llawer o achosion, eu dymuniad i wneud hynny—i mewn i'r ffordd y maent yn ymddwyn.

Let me say that we will make sure that the points that Lindsay made about clarity and communication with the public are part of what we do. It's why we've got this lead-in time, to make sure that we are able to make sure that, where there is any ambiguity in people's understanding, we can make sure that we help them to gain a full understanding of what we are about to do.

Gadewch i mi ddweud y byddwn yn sicrhau bod y pwyntiau a wnaeth Lindsay am eglurder a chyfathrebu â'r cyhoedd yn rhan o'r hyn a wnawn. Dyna pam y mae gennym yr amser cyflwyno hwn, i wneud yn siŵr ein bod yn gallu gwneud yn siŵr, os oes unrhyw amwysedd o ran yr hyn y mae pobl yn ei ddeall, y gallwn sicrhau ein bod yn eu helpu i gael dealltwriaeth lawn o'r hyn yr ydym ar fin ei wneud.

Let me end by echoing a point that Darren made: if we do pass the regulations today, we will have the additional benefit of being able to introduce our regulations in Wales on the same day as they will be introduced across our border. That is bound to make education and enforcement easier, and it's an additional argument for taking the step that I hope the Assembly will take this afternoon in putting these regulations onto the statute book in Wales.

Gadewch i mi orffen drwy adleisio pwynt a wnaeth Darren: os ydym yn pasio'r rheoliadau heddiw, bydd gennym y fantais ychwanegol o allu cyflwyno ein rheoliadau yng Nghymru ar yr un diwrnod ag y byddant yn cael eu cyflwyno ar draws ein ffin. Mae hynny'n sicr o wneud addysg a gorfodaeth yn haws, ac mae'n ddadl ychwanegol ar gyfer cymryd y cam yr wyf yn gobeithio y bydd y Cynulliad yn ei gymryd y prynhawn yma wrth roi'r rheoliadau hyn ar y llyfr statud yng Nghymru.

17:19

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I'll defer this vote until voting time.

Diolch yn fawr, Weinidog. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe ohiriaf y bleidlais hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:19

## 10. Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015

## 10. The National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015

Senedd.tv Fideo Video

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Item 10 is the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015, and I call on the First Minister to move the motion—Carwyn Jones.

Eitem 10 yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015, a galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig y cynnig—Carwyn Jones.

Cynnig NDM5768 Jane Hutt

Motion NDM5768 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2015.

Approves that the draft The National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 30 April 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:19

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you, Chair. The purpose of the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015 is to list offices that, if held by an individual, will disqualify that individual from Assembly membership. There are three things that were sought to be achieved with this disqualification Order: firstly, cross-party consensus in the Assembly on principles for disqualification; secondly, to have the Order in place well in advance of the Assembly elections, so there's clarity for prospective candidates for Assembly membership; and, thirdly, that the Order be made bilingually even though it is an Order in Council.

Diolch, Gadeirydd. Diben Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yw rhestru'r swyddi a fydd, os cânt eu dal gan unigolyn, yn anghymhwyso'r unigolyn hwnnw rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Mae tri pheth y ceisiwyd eu cyflawni gyda'r Gorchymyn anghymwyso hwn: yn gyntaf, consensws trawsbleidiol yn y Cynulliad ar egwyddorion ar gyfer anghymwyso; yn ail, i gael y Gorchymyn ar waith ymhell cyn etholiadau'r Cynulliad, fel bod eglurder ar gyfer darpar ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth o'r Cynulliad; ac, yn drydydd, bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn ddwyieithog er mai Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ydyw.

I know that the Constitutional and Legislative Affairs Committee's inquiry and report on disqualification from Assembly membership allowed us to achieve cross-party consensus on the principles, as the report was endorsed by the Assembly in its debate on 5 November last year. There was a clear message from the committee's report, namely promoting democratic participation and the right to stand as an Assembly Member are paramount, so disqualification should be restricted to as few citizens as possible. We did take this message on board. We then produced a draft Order, which lists only those posts and offices for which we believe there is a compelling argument for disqualification from Assembly membership; for example, where the post is of such a nature that it needs to be politically impartial or would give rise to a significant conflict of interest. There was an eight-week public consultation, and so therefore an opportunity for anyone to comment on the draft Order before it was laid. As a result of that consultation, we have made one addition to the list of disqualifying offices, namely all members of the employment tribunals and employment appeal tribunal.

Gwn fod ymholiad ac adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar anghymwyso rhag bod yn aelod Cynulliad yn ein galluogi i gyflawni consensws trawsbleidiol ar yr egwyddorion, gan fod yr adroddiad wedi ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn ei ddadl ar 5 Tachwedd y llynedd. Roedd neges glir o adroddiad y pwyllgor, sef bod hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod Cynulliad yn hollbwysig, felly dylai anghymwyso gael ei gyfyngu i gyn lleied ag y bo modd o ddinasyddion. Ystyriwyd y neges hon gennym. Yna cynhyrchwyd Gorchymyn drafft, sy'n rhestru dim ond y swyddi a'r swyddogaethau hynny lle credwn fod dadl gref dros anghymhwyso rhag bod yn aelod Cynulliad; er enghraifft, pan fo'r swydd o natur sy'n golygu bod angen iddi fod yn wleidyddol ddiduedd neu a fyddai'n arwain at wrthdaro buddiannau sylweddol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos, ac felly rhoddwyd cyfle i unrhyw un wneud sylwadau ar y Gorchymyn drafft cyn iddo gael ei osod. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw, rydym wedi gwneud un ychwanegiad at y rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso, sef pob aelod o'r tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r tribiwnlys apêl cyflogaeth.

I'm pleased that the CLA committee also reported on the draft Order, and that it welcomed the shorter list of disqualifying offices in line with its earlier recommendations. It also welcomed the fact that the Order is bilingual, but noted, of course, the different format compared to Assembly statutory instruments. This is to fit in with the requirements of the Privy Council in terms of how they format Orders for the approval of the council.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd wedi adrodd ar y Gorchymyn drafft, a'i fod wedi croesawu'r rhestr fyrrach o swyddi anghymwyso yn unol â'i argymhellion cynharach. Roedd hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Gorchymyn yn ddwyieithog, ond nododd, wrth gwrs, y fformat gwahanol o'i gymharu ag offerynnau statudol y Cynulliad. Mae hyn er mwyn cyd-fynd â gofynion y Cyfrin Gyngor o ran sut y maent yn fformatio Gorchmynion ar gyfer cymeradwyaeth y cyngor.

If the Assembly sees fit, Chair, to agree the motion today, the Order can be made at the July meeting of the Privy Council, with a proposed coming into force date of 1 September. That gives us time to work with the Electoral Commission to produce for public information a comprehensive list of disqualifying offices, bringing together the disqualifications derived from other sources, such as the Government of Wales Act itself, as well as, of course, the disqualification Order. So, Chair, I move the motion.

Os bydd y Cynulliad yn gweld yn dda, Gadeirydd, i gytuno ar y cynnig heddiw, gall y Gorchymyn gael ei wneud yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Cyfrin Gyngor, gyda dyddiad arfaethedig dod i rym o 1 Medi. Mae hynny'n rhoi amser i ni weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i gynhyrchu ar gyfer gwybodaeth gyhoeddus rhestr gynhwysfawr o swyddi anghymwyso, gan ddwyn ynghyd y anghymwysiadau sy'n deillio o ffynonellau eraill, megis Deddf Llywodraeth Cymru ei hun, yn ogystal, wrth gwrs, â'r Gorchymyn anghymwyso. Felly, Gadeirydd, cynigiaf y cynnig.

17:22 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Diolch yn fawr. Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

17:22 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. We reported on this Order on 20 May, and the First Minister has already referred to that. I only want to say a few words, really. Following a request from the First Minister in January 2014, we were pleased to report on the issues surrounding disqualification from membership of the Assembly, and that report was published in July 2014. Then it was debated here last November—again, as the First Minister has referred. So, this Order is a result of those proceedings and, in our view, is to be welcomed.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Adroddwyd ar y Gorchymyn hwn gennym ar 20 Mai, ac mae'r Prif Weinidog eisoes wedi cyfeirio at hynny. Dim ond ychydig o eiriau yr wyf i eisiau eu dweud, mewn gwirionedd. Yn dilyn cais gan y Prif Weinidog ym mis Ionawr 2014, roeddem yn falch o adrodd ar y materion sy'n ymwneud ag anghymwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad, a chyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw ym mis Gorffennaf 2014. Yna, cafwyd dadl arno yma fis Tachwedd diwethaf—unwaith eto, fel y mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio ato. Felly, mae'r Gorchymyn hwn yn ganlyniad i'r trafodion hynny ac, yn ein barn ni, mae i'w groesawu.

In reporting on today's Order, we particularly welcome the reduction in the number of disqualifying offices compared with the 2010 Order. That is in line with the recommendation in our July report that disqualification should be restricted to as few citizens as possible as a means of promoting democratic participation. We also strongly welcome the fact that this Order is to be made bilingually, unlike the 2010 Order. Again, the First Minister has referred to this.

Wrth adrodd ar y Gorchymyn heddiw, rydym yn croesawu'n arbennig y gostyngiad yn y nifer o swyddi anghymwyso o'i gymharu â Gorchymyn 2010. Mae hynny yn unol â'r argymhelliad yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf y dylai anghymwyso gael ei gyfyngu i gyn lleied ag y bo modd o ddinasyddion fel ffordd o hybu cyfranogiad democrataidd. Rydym hefyd yn croesawu yn gryf y ffaith y bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei wneud yn ddwyieithog, yn wahanol i Orchymyn 2010. Unwaith eto, mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at hyn.

One of the key themes of our July report was the need to raise awareness about these issues to avoid a repeat of the unfortunate events of 2011 concerning the disqualification of Assembly Members. This debate marks the time for all key players—the Welsh Government, the Electoral Commission and political parties—to start raising awareness of the Order and to promote and encourage people to stand for election to this Assembly. Thank you.

Un o themâu allweddol ein hadroddiad ym mis Gorffennaf oedd yr angen i godi ymwybyddiaeth am y materion hyn er mwyn osgoi ailadrodd digwyddiadau anffodus 2011 yn ymwneud ag anghymwyso Aelodau'r Cynulliad. Mae'r ddadl hon yn nodi'r amser ar gyfer yr holl gyfranogwyr allweddol—Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a phleidiau gwleidyddol—i ddechrau codi ymwybyddiaeth o'r Gorchymyn ac i hyrwyddo ac annog pobl i sefyll ar gyfer eu hethol i'r Cynulliad hwn. Diolch yn fawr.

17:24 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like others, I very much welcome the fact that we are debating this issue today well in advance of the election next year. I think that we all—as has just been referred to by David Melding—seek to avoid the difficulties that became apparent following the election in 2011. I think it's absolutely essential that anybody who seeks election to this place is very clear on any issues that might prevent them taking their seat here. I also recognise, through the report that was carried out by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, that there is a conflict between the Government of Wales Act and previous Orders, and there certainly has been a conflict at different times. I hope that when these matters are devolved to this place we will have an early opportunity to discuss those issues and to resolve any potential conflicts. I also agree very much with the principles that were outlined by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. It appears to me that they set out very clearly those areas where citizens must always have the unfettered right to stand for election to this place and to other posts and elected offices. But they also set out very clearly that we cannot allow for conflicts of interest to take place, and, where there are clear conflicts of interest, there needs to be a mechanism in place to enable those conflicts to be resolved. In some cases, that will include disqualification from membership.

Fel eraill, rwy'n croesawu'n fawr y ffaith ein bod yn cael dadl ar y mater hwn heddiw ymhell cyn etholiad y flwyddyn nesaf. Rwy'n meddwl ein bod i gyd—fel y mae David Melding newydd gyfeirio ato—yn ceisio osgoi'r anawsterau a ddaeth i'r amlwg yn dilyn yr etholiad yn 2011. Rwy'n credu ei fod yn gwbl hanfodol bod unrhyw un sy'n ceisio cael ei ethol i'r lle hwn yn glir iawn ar unrhyw faterion a allai ei atal rhag cymryd ei sedd yma. Rwyf hefyd yn cydnabod, trwy'r adroddiad a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, bod gwrthdaro rhwng Deddf Llywodraeth Cymru a Gorchmynion blaenorol, a bu gwrthdaro yn sicr ar wahanol adegau. Fy ngobaith yw, pan fydd y materion hyn yn cael eu datganoli i'r lle hwn, y byddwn yn cael cyfle cynnar i drafod y materion hynny ac i ddatrys unrhyw wrthdaro posibl. Rwyf hefyd yn cytuno i raddau helaeth â'r egwyddorion a amlinellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Ymddengys i mi eu bod yn nodi'n glir iawn y meysydd hynny lle mae'n rhaid i ddinasyddion bob amser gael yr hawl dilyffethair i sefyll etholiad i'r lle hwn ac i swyddi a swyddogaethau etholedig eraill. Ond maent hefyd yn gosod yn glir iawn na allwn ganiatáu i wrthdaro buddiannau ddigwydd, a, pryd y ceir gwrthdaro buddiannau clir, bod angen cael dull ar waith i alluogi datrys y gwrthdrawiadau hynny. Mewn rhai achosion, bydd hynny'n cynnwys anghymwyso rhag bod yn aelod.

It appears to me that the one area that isn't covered by this Order and isn't covered by other pieces of legislation is that which pertains to members of principal local authorities. It is clear to me, and I think to any of us who were in the Chamber for the exchange during First Minister's questions earlier today, that there is a clear conflict of interest between membership here and membership of a principal local authority. It appears to me that this is an issue that needs to be reviewed and needs to be resolved. Now, I'm sure that, in replying to the debate, the First Minister will tell us that this isn't the area and the place to do it, and I may well accept that. However, the principle of who is able to be a Member here and how we are able to contribute to debates has to be one that is resolved. My view is very strongly that this place funds local government, creates the structures within which local government operates, and then takes decisions that pertain to the operation of local government. It is therefore not compatible with membership here to be also, at the same time, a member of those local authorities. I think that's an absolutely clear principle. It is not a party-political principle; it's a principle of democratic accountability. I hope that, in accepting the Order this afternoon, we will also ensure that we are able to return to this matter in due course.

Ymddengys i mi mai'r un maes nad yw wedi cael sylw gan y Gorchymyn hwn ac nad yw wedi ei gwmpasu gan ddarnau eraill o ddeddfwriaeth yw'r un sy'n ymwneud ag aelodau o brif awdurdodau lleol. Mae'n amlwg i mi, ac rwy'n meddwl i unrhyw un ohonom a oedd yn y Siambr ar gyfer y trafod yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog yn gynharach heddiw, bod gwrthdaro buddiannau amlwg rhwng aelodaeth yma ac aelodaeth o brif awdurdod lleol. Ymddengys i mi fod hwn yn fater sydd angen ei adolygu ac sydd angen ei ddatrys. Nawr, rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog wrth ymateb i'r ddadl, yn dweud wrthym nad dyma'r maes a'r lle i wneud hynny, ac efallai'n wir y byddaf yn derbyn hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r egwyddor o bwy sy'n gallu bod yn Aelod yma a sut yr ydym yn cael cyfrannu at drafodaethau fod yn un a gaiff ei datrys. Fy marn i yn gryf iawn yw bod y lle hwn yn ariannu llywodraeth leol, yn creu strwythurau y mae llywodraeth leol yn eu gweithredu, ac yna'n cymryd penderfyniadau sy'n ymwneud â gweithrediad llywodraeth leol. Felly, nid yw'n cyd-fynd ag aelodaeth yma i fod hefyd, ar yr un pryd, yn aelod o'r awdurdodau lleol hynny. Rwy'n credu bod honno'n egwyddor hollol glir. Nid yw'n egwyddor plaid wleidyddol; egwyddor o atebolrwydd democrataidd ydyw. Gobeithiaf, wrth dderbyn y Gorchymyn y prynhawn yma, y byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu dychwelyd at y mater hwn maes o law.

17:26

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I wasn't going to address that particular issue, but I think it's important that we distinguish between the sort of conflicts that are set out in the Order, which are largely to do with Assembly funding and employment issues, and the role of an elected councillor, which I think is very much different in terms of how that person operates. I certainly believe that there are changes being put forward by the Standards of Conduct Committee in terms of declarations of interest that will address some of the points that Alun Davies has raised, and, certainly, that, I think, is to be welcomed.

Nid oeddwn yn mynd i fynd i'r afael â'r mater penodol yna, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn gwahaniaethu rhwng y math o wrthdaro a nodir yn y Gorchymyn, sydd yn bennaf yn ymwneud â chyllid a materion cyflogaeth y Cynulliad, a swyddogaeth cynghorydd etholedig, sy'n wahanol iawn o ran sut y mae'r person hwnnw yn gweithredu yn fy marn i. Rwy'n sicr yn credu bod newidiadau yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o ran datganiadau o fuddiant a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau y mae Alun Davies wedi'u codi, ac, mae hynny, yn sicr, i'w groesawu yn fy marn i.

I just wanted to raise a couple of points on this particular Order, Chair. In the Welsh Government's response to the Constitutional and Legislative Affairs Committee report—and I think the First Minister has alluded to this—they said that the Welsh Government intends, working as necessary with the Electoral Commission, to introduce a comprehensive, non-statutory, list of all the disqualifying provisions of which we are aware, from whatever source, and make it publicly available to parties and potential candidates. Now, I accept it may well be that the current competence of the Assembly prevents us from including that comprehensive list in this particular Order. In the explanatory note to this Order, it does say that this Order does not contain a definitive list of disqualifying offices and memberships, and refers us to, in particular, section 16 of the Government of Wales Act 2006, which I believe does contain additional disqualifying criteria, some of which I don't think are necessarily appropriate. I do think that we do need to get a grip on that and make sure that, in publicising the disqualifications, everyone is aware that this Order may not be fully comprehensive, and that that fully comprehensive list is available to candidates at a very early date, and to political parties, so that everyone is aware of exactly where they stand on this issue. This debate, for me, is very much like revisiting an old friend, of course, but certainly I don't want to revisit that friend again when it comes to after the next election in 2016. So, I think it is very important that we do have that definitive list set out, and that people are aware of exactly what they can and cannot do.

Roeddwn i eisiau codi dim ond un neu ddau o bwyntiau ar y Gorchymyn penodol hwn, Gadeirydd. Yn ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol—ac rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi cyfeirio at hyn—roeddent yn dweud bod Llywodraeth Cymru, gan weithio yn ôl yr angen gyda'r Comisiwn Etholiadol, yn bwriadu cyflwyno rhestr gynhwysfawr, anstatudol o'r holl ddarpariaethau anghymwyso yr ydym yn ymwybodol ohonynt, o ba ffynhonnell bynnag, a sicrhau ei bod ar gael yn gyhoeddus i bleidiau ac ymgeiswyr posibl. Nawr, rwy'n derbyn efallai bod cymhwysedd presennol y Cynulliad yn ein hatal rhag cynnwys y rhestr gynhwysfawr honno yn y Gorchymyn penodol hwn. Yn y nodyn esboniadol i'r Gorchymyn hwn, mae'n dweud nad yw'r Gorchymyn hwn yn cynnwys rhestr derfynol o swyddi ac aelodaeth anghymwyso, ac mae'n ein cyfeirio at, yn benodol, adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y credaf sy'n cynnwys meini prawf anghymwyso ychwanegol, rhai ohonynt nad wyf yn credu sy'n briodol o reidrwydd. Rwy'n meddwl bod angen inni roi ystyriaeth i hynny a gwneud yn siŵr, wrth roi cyhoeddusrwydd i'r anghymwysiadau, bod, pawb yn ymwybodol efallai na fydd y Gorchymyn hwn yn gwbl gynhwysfawr, a bod y rhestr gynhwysfawr lawn ar gael i ymgeiswyr yn fuan iawn, ac i bleidiau gwleidyddol, fel bod pawb yn gwbl ymwybodol o ble y maent yn sefyll ar y mater hwn. Mae'r ddadl hon, i mi, yn debyg iawn i ailymweld â hen ffrind, wrth gwrs, ond yn sicr nid wyf eisiau ailymweld â'r ffrind hwnnw eto ar ôl yr etholiad nesaf yn 2016. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod gennym y rhestr derfynol honno wedi'i gosod, a bod pobl yn ymwybodol o beth yn union y cânt ac na chânt ei wneud.

The second point I wanted to raise was in relation to recommendation 2 of the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report, where they recommend

Mae'r ail bwynt yr wyf am ei godi yn ymwneud ag argymhelliad 2 adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a'r Materion Deddfwriaethol, lle maent yn argymell

'that the UK Government brings forward appropriate legislation to amend the Government of Wales Act 2006 to provide that disqualification from a particular public office should take effect on taking the oath or affirmation of allegiance as an Assembly Member.'

bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth briodol i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddarparu y dylai anghymhwyso o swydd gyhoeddus arbennig ddod i rym ar gymryd y llw neu gadarnhad o deyrngarwch fel Aelod Cynulliad.

Now, again, I understand that that is not necessarily within our competence, but I do think that's a very important principle that should apply in regard to this. It would certainly enable us to avoid some difficulties, particularly where there are unintended clashes or problems arising from this Order. So, could the First Minister tell us whether he has had any discussions with the current UK Government in terms of this particular issue, and, if not, how do you propose to take forward that recommendation to try to get something in place at the earliest possible moment? Thank you, Chair.

Nawr, unwaith eto, rwy'n deall nad yw hynny o reidrwydd o fewn ein cymhwysedd, ond rwy'n credu bod honno'n egwyddor bwysig iawn a ddylai fod yn berthnasol i hyn. Byddai'n sicr yn ein galluogi i osgoi rhai anawsterau, yn enwedig pan geir gwrthdaro neu broblemau anfwriadol yn deillio o'r Gorchymyn hwn. Felly, a wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym pa un a yw wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth bresennol y DU o ran y mater penodol hwn, ac, os nad yw, sut yr ydych chi'n bwriadu datblygu'r argymhelliad hwnnw i geisio cael rhywbeth wedi'i sefydlu cyn gynted fyth ag y bo modd? Diolch, Gadeirydd.

17:30 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

17:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Could I thank Members for their contributions to the debate? In terms of what my colleague Alun Davies said, the issue of members of principal local authorities also being Members of the Assembly is not before us today, but he certainly makes a point in saying that it will soon be the case, we understand, that it will not be possible to be a Member of Parliament and an Assembly Member at the same time, so there is a certain logic to saying, then, that it should apply to all elected institutions. That, perhaps, is for another day, and I understand, of course, Peter Black's objection to that, given the situation that he finds himself in. [Laughter.] He's not the only one; I know that—I'm not having a go at him.

A gaf i ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl? O ran yr hyn a ddywedodd fy nghyd-Aelod, Alun Davies, nid yw'r mater o aelodau o brif awdurdodau lleol hefyd yn Aelodau o'r Cynulliad ger ein bron heddiw, ond mae'n sicr yn gwneud pwynt wrth ddweud y bydd hynny'n digwydd yn fuan, yr ydym yn deall, na fydd yn bosibl i fod yn Aelod Seneddol ac yn Aelod Cynulliad ar yr un pryd, felly mae'n rhesymol i ddweud, felly, y dylai fod yn berthnasol i bob sefydliad etholedig. Mae hynny, efallai, ar gyfer diwrnod arall, ac rwy'n deall, wrth gwrs, gwrthwynebiad Peter Black i hynny, o ystyried y sefyllfa y mae'n canfod ei hun ynddi. [Chwerthin.] Nid yw ef yr unig un; mi wn i hynny—nid wyf yn ymosod arno.

In terms of the issues that Peter Black raises, they are important issues, firstly, in terms of an exhaustive list, or a list of disqualifications that candidates can have access to. In this Order, we felt it wasn't appropriate to repeat the disqualifications that appear on the face of the Government of Wales Act at section 16, but, nevertheless, it will be important that candidates are aware of the totality of the disqualifications, and that is something for the Electoral Commission to make people aware of and, indeed, for political parties to do. There is a certain untidiness here, and he refers to it in his second point, namely that we do not have complete control over this issue. In principle, of course, the issue of who should be disqualified from being a Member of this institution should rest with this institution. That's not the case at the moment. My hope, certainly, is that we will get that power as we see the devolution of elections to this institution, in terms of elections here and to local government, and that we will then see full control over the issue of disqualifications, so that it isn't simply a case of the Assembly itself making this Order today, but we will also then be able to examine whether the disqualifications that appear in section 16 are appropriate. I hope that is something that is devolved, in order to give the proper level of control to this institution in terms of its own electoral arrangements.

O ran y materion y mae Peter Black yn eu codi, maent yn faterion pwysig, yn gyntaf, o ran rhestr gynhwysfawr, neu restr o anghymwysiadau y gall ymgeiswyr eu gweld. Yn y Gorchymyn hwn, roeddem yn teimlo nad oedd yn briodol i ailadrodd yr anghymwysiadau sy'n ymddangos ar wyneb Deddf Llywodraeth Cymru yn adran 16, ond, serch hynny, bydd yn bwysig bod ymgeiswyr yn ymwybodol o gyfanrwydd yr anghymwysiadau, ac mae hynny'n rhywbeth i'r Comisiwn Etholiadol i wneud pobl yn ymwybodol ohono ac, yn wir, i bleidiau gwleidyddol ei wneud. Mae rhyw flerwch yma, ac mae'n cyfeirio ato yn ei ail bwynt, sef nad oes gennym reolaeth lwyr dros y mater hwn. Mewn egwyddor, wrth gwrs, dylai'r mater o bwy ddylai gael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r sefydliad hwn orwedd gyda'r sefydliad hwn. Nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd. Fy ngobaith i, yn sicr, yw y byddwn yn cael y pŵer hwnnw wrth i ni weld datganoli etholiadau i'r sefydliad hwn, o ran etholiadau yma ac i lywodraeth leol, ac y byddwn wedyn yn gweld rheolaeth lawn dros y mater o anghymwysiadau, fel nad yw hyn yn syml yn fater o'r Cynulliad ei hun yn gwneud y Gorchymyn hwn heddiw, ond byddwn hefyd wedyn yn gallu ystyried a yw'r anghymwysiadau sy'n ymddangos yn adran 16 yn briodol. Gobeithiaf fod hynny'n rhywbeth a gaiff ei ddatganoli, er mwyn rhoi lefel briodol o reolaeth i'r sefydliad hwn o ran ei drefniadau etholiadol ei hun.

17:32 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff y cynnig ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:32

## 11. Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015

## 11. The Regulation of Private Rented Housing (Licensing Authority Training Requirements) (Wales) Regulations 2015

Senedd.tv
Fideo Video

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Item 11 is the Regulation of Private Rented Housing (Licensing Authority Training Requirements) (Wales) Regulations 2015, and I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Eitem 11 yw Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi yr Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015, a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5769 Jane Hutt

Motion NDM5769 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mai 2015.

Approves that the draft The Regulation of Private Rented Housing (Training Requirements) (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 5 May 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:32

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Chair. I move the motion to approve the Regulation of Private Rented Housing (Licensing Authority Training Requirements) (Wales) Regulations 2015.

Diolch, Gadeirydd. Cynigiaf y cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi yr Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:32.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:32.*

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

As Members are aware, the Housing (Wales) Act 2014 was passed by the National Assembly for Wales in July 2014. The Act received Royal Assent the following September, and certain provisions in Part 1 of the Act were subsequently commenced by way of an Order. Part 1 introduces a number of measures to improve letting and management practices in the private rented sector in Wales. These include a requirement for private landlords to register, and for landlords and agents who carry out letting and management tasks to apply for a licence. A licence will be granted to a fit-and-proper applicant who has successfully completed the necessary training requirements.

Fel y gŵyr yr Aelodau, cafodd Deddf Tai (Cymru) 2014 ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol y mis Medi canlynol, a chafodd darpariaethau penodol yn Rhan 1 o'r Ddeddf eu cychwyn wedi hynny drwy gyfrwng Gorchymyn. Mae Rhan 1 yn cyflwyno nifer o fesurau i wella arferion gosod a rheoli yn y sector rhentu preifat yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i landlordiaid preifat i gofrestru, ac i landlordiaid ac asiantau sy'n cyflawni tasgau gosod a rheoli i wneud cais am drwydded. Bydd trwydded yn cael ei chaniatáu i ymgeisydd addas a phriodol sydd wedi cwblhau'r gofynion hyfforddi angenrheidiol yn llwyddiannus.

Under section 19 of the Act, before the licensing authority grants a licence, the requirements in relation to training specified in regulations made by the Welsh Ministers must be met, or they must be satisfied that they will be met. These regulations set out the general requirements, including the five broad subject areas that any training courses must cover. The regulations allow for the licensing authority to set the more detailed content of the courses that landlords and agents must complete in order to be licensed. There are already non-mandatory courses for landlords and agents, such as the landlord accreditation Wales one-day course, which has been running for the last eight years. Enabling the licensing authority to set the required course syllabus will ensure training is fit for purpose. It will draw on tried and tested contents whilst also meeting the general principles required by the legislation.

O dan adran 19 o'r Ddeddf, cyn i'r awdurdod trwyddedu roi trwydded, mae'n rhaid i'r gofynion yn ymwneud â hyfforddiant a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gael eu bodloni, neu mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon y byddant yn cael eu bodloni. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion cyffredinol, gan gynnwys y pum maes pwnc eang y mae'n rhaid i unrhyw gyrsiau hyfforddi eu cwmpasu. Mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu osod cynnwys mwy manwl y cyrsiau y mae'n rhaid i landlordiaid ac asiantau eu cwblhau er mwyn cael eu trwyddedu. Mae cyrsiau eisoes ar gael nad ydynt yn orfodol ar gyfer landlordiaid ac asiantau, fel y cwrs undydd achredu landlordiaid Cymru, sydd wedi bod yn rhedeg am yr wyth mlynedd diwethaf. Bydd galluogi'r awdurdod trwyddedu i osod maes llafur gofynnol y cwrs yn sicrhau bod hyfforddiant yn addas i'w ddiben. Bydd yn tynnu ar gynnwys profedig ond hefyd yn bodloni'r egwyddorion cyffredinol sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

The regulations also set out the procedure the licensing authority must follow for approving training courses and authorising training providers, along with review provisions in relation to any decision not to approve or authorise. The regulations also provide for the licensing authority to charge a fee for approving courses and authorising training providers in line with its published fees policy. The National Assembly for Wales procedure for making these regulations is the affirmative procedure by virtue of section 142(3)(a) of the Act.

Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ei dilyn ar gyfer cymeradwyo cyrsiau hyfforddi ac awdurdodi darparwyr hyfforddiant, ynghyd â darpariaethau adolygu yn ymwneud ag unrhyw benderfyniad i beidio â chymeradwyo neu awdurdodi. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer yr awdurdod trwyddedu i godi ffi ar gyfer cymeradwyo cyrsiau ac awdurdodi darparwyr hyfforddiant yn unol â'i bolisi ffioedd cyhoeddedig. Y weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwneud y rheoliadau hyn yw'r weithdrefn gadarnhaol yn rhinwedd adran 142 (3) (a) o'r Ddeddf.

In December last year, I consulted on the policy intention behind these regulations. Responses indicated a majority support for the proposals, and, therefore, I'm happy to move this motion to approve these regulations. I would welcome Members' support.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, ymgynghorais ar y bwriad polisi y tu ôl i'r rheoliadau hyn. Dangosodd yr ymatebion gefnogaeth fwyafrifol i'r cynigion, ac, felly, rwy'n hapus i gynnig y cynnig hwn i gymeradwyo'r rheoliadau hyn. Byddwn yn croesawu cefnogaeth yr Aelodau.

17:35

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Act itself, by not working with the sector, failed to take action to increase affordable housing supply, and failed to target bad landlords. However, there is merit in a training scheme—[Interruption.] It's not for me. There is merit in a training scheme developed with business organisations and the sector to meet the requirements that will protect tenants and sustain supply. However, the draft Regulation of Private Rented Housing (Training Requirements) (Wales) Regulations presented create a conflict of interest if the licensing authority is going to provide training itself, and be the sole regulator of third-party training providers and courses. The authority would also have unchecked powers in other areas, such as adding to the core content in regulation 4(f). There's no right of appeal for third-party providers who've had their authorisation or training course withdrawn. In fact, regulation 7 only gives the ability to make written representations on a decision at first instance.

Wrth gwrs, methodd y Ddeddf ei hun, drwy beidio â gweithio gyda'r sector, â chymryd camau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, a methodd â thargedu landlordiaid gwael. Fodd bynnag, mae rhinwedd mewn cynllun hyfforddi—[Torri ar draws.] Nid yw i mi. Mae rhinwedd mewn cynllun hyfforddi a ddatblygwyd gyda sefydliadau busnes a'r sector i fodloni'r gofynion a fydd yn diogelu tenantiaid a chynnal cyflenwad. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau drafft Rheoliadau Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) a gyflwynwyd yn creu gwrthdaro buddiannau os yw'r awdurdod trwyddedu yn mynd i ddarparu hyfforddiant ei hun, a bod yr unig reoleiddiwr ar ddarparwyr hyfforddiant a chyrsiau trydydd parti. Byddai gan yr awdurdod hefyd bwerau heb eu gwirio mewn meysydd eraill, megis ychwanegu at y cynnwys craidd yn rheoliad 4 (f). Does dim hawl i apelio i ddarparwyr trydydd parti y mae eu hawdurdodiad neu eu cwrs hyfforddi wedi cael ei dynnu'n ôl. Mewn gwirionedd, nid yw rheoliad 7 ond yn rhoi'r gallu i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar benderfyniad am y tro cyntaf.

There's no mention, in the regulations, of continuous professional development, which was a universally respected element of the voluntary landlord accreditation Wales scheme. The advantage of continuous professional development is that it encourages landlords and agents to do continuous training throughout the validity period of their licence rather than doing a one-day training course, and that's that. There's also still uncertainty over whether agents will have to undertake separate training to landlords or not, where separate training would be preferable if the content is to remain relevant.

Does dim sôn, yn y rheoliadau, am ddatblygiad proffesiynol parhaus, a oedd yn elfen uchel ei pharch yn gyffredinol o gynllun achredu landlordiaid gwirfoddol Cymru. Y fantais o ddatblygiad proffesiynol parhaus yw ei fod yn annog landlordiaid ac asiantau i wneud hyfforddiant parhaus drwy gydol cyfnod dilysrwydd eu trwydded yn hytrach na gwneud cwrs hyfforddi undydd, a dyna ni. Mae hefyd ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch pa un a fydd yn rhaid i asiantau ymgymryd â hyfforddiant ar wahân i landlordiaid ai peidio, pryd y byddai hyfforddiant ar wahân yn well os yw'r cynnwys am barhau i fod yn berthnasol.

There's nothing in the regulations to help prepare landlords for the introduction of licensing now, and some matters, I'm told, need clarifying as a matter of urgency. With regard to the overall licensing fees, there's no statutory capping or independent oversight. So, what does the Welsh Government intend to do to ensure that there isn't a conflict of interest in the licensing authority's proposed role of being a training provider and the sole regulator of training? What is the Welsh Government doing to ensure that there are training options available for every landlord and agent, whatever their needs, location or circumstance. Real agents have to complete the same or different training to landlords. Does this demonstrate an end to the principle of continuous professional development in the private rented sector—something that was seen as a positive aspect of the landlord accreditation Wales scheme? How do these regulations prepare landlords and agents for what is to come? Is the Minister concerned that the licensing authority's proposed powers are unchecked? Will it simply not have too much discretion in the licensing process? Should the licensing authority not be accountable to an independent body of some form?

Does dim byd yn y rheoliadau i helpu i baratoi landlordiaid ar gyfer cyflwyno trwyddedu yn awr, ac mae angen egluro rhai materion, dywedir wrthyf, fel mater o frys. Gyda golwg ar y ffioedd trwyddedu cyffredinol, does dim capio statudol na goruchwyliaeth annibynnol. Felly, beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau yn swyddogaeth arfaethedig yr awdurdod trwyddedu o fod yn ddarparwr hyfforddiant a'r unig reoleiddiwr hyfforddiant? Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod dewisiadau hyfforddiant ar gael ar gyfer pob landlord ac asiant, beth bynnag fo eu hanghenion, eu lleoliad neu eu hamgylchiadau. Mae'n haid i asiantau real gwblhau'r un hyfforddiant neu hyfforddiant gwahanol i landlordiaid. A yw hyn yn dangos diwedd ar yr egwyddor o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector rhentu preifat—rhywbeth a gafodd ei ystyried yn agwedd gadarnhaol ar gynllun achredu landlordiaid Cymru? Sut mae'r rheoliadau hyn yn paratoi landlordiaid ac asiantau ar gyfer yr hyn sydd i ddod? A yw'r Gweinidog yn pryderu bod pwerau arfaethedig yr awdurdod trwyddedu heb eu gwirio? Oni fydd yn cael gormod o ddisgresiwn yn y broses drwyddedu? Oni ddylai'r awdurdod trwyddedu fod yn atebol i gorff annibynnol o ryw fath?

These regulations as drafted are not fit for purpose. Although training is something that gathers the support, I think, of all parties in this Chamber, we cannot support these regulations as currently drafted.

Nid yw'r rheoliadau hyn fel y'u drafftiwyd yn addas i'w diben. Er bod hyfforddiant yn rhywbeth sy'n denu cefnogaeth, rwy'n credu, pob plaid yn y Siambr hon, ni allwn gefnogi'r rheoliadau hyn fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd.

17:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

17:38

## Lesley Griffiths

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you. The Welsh Conservatives didn't support the Bill, and then the Act, so I'm not surprised at Mark Isherwood's comments.

Diolch yn fawr. Nid oedd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi'r Bil, ac yna'r Ddeddf, felly dydw i ddim yn synnu at sylwadau Mark Isherwood.

We all know how increasingly important private rented housing is becoming. A strong private rented sector is an essential part of a well-functioning housing market. Our priority here was to ensure that our tenants were protected. There are a number of reasons why I've taken this approach. My prime concern is to ensure all approved training courses meet a minimum standard, and obviously cover all the required topics, which will appear on the published syllabus, which will be set by the licensing authority. It's also important that those wishing to undertake courses know that the course they will be taking will meet the requirements that will be needed for them to become licensed. It's really important also—and this approach will ensure that—that the licensing authority will be able to maintain contact with those whose courses have been approved, to ensure they are aware when a course syllabus has changed, for instance.

Rydym i gyd yn gwybod pa mor gynyddol bwysig y mae tai rhent preifat yn dod. Mae sector rhentu preifat cryf yn rhan hanfodol o farchnad dai sy'n gweithio'n dda. Ein blaenoriaeth yma oedd sicrhau bod ein tenantiaid yn cael eu hamddiffyn. Mae nifer o resymau pam yr wyf wedi cymryd yr ymagwedd hon. Fy mhrif bryder yw sicrhau bod yr holl gyrsiau hyfforddi cymeradwy yn bodloni safon ofynnol, ac yn amlwg yn cynnwys yr holl bynciau angenrheidiol, a fydd yn ymddangos ar y maes llafur a gyhoeddir, a fydd yn cael ei osod gan yr awdurdod trwyddedu. Mae hefyd yn bwysig bod y rhai sy'n dymuno ymgymryd â chyrsiau yn gwybod y bydd y cwrs y byddant yn ei ddilyn yn bodloni'r gofynion y bydd eu hangen er mwyn iddynt ddod yn drwyddedig. Mae'n bwysig iawn hefyd—a bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau hynny—y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu cadw mewn cysylltiad â'r rhai y mae eu cyrsiau wedi eu cymeradwyo, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol pan fo maes llafur y cwrs wedi newid, er enghraifft.

The training element is a key component of the objective of Part 1 of the Act, and the regulations will come into force on 3 June 2015. Then the licensing authority can begin the process of developing the training courses, which will need to be in place to allow for applications for licences to be made. Thank you.

Mae'r elfen hyfforddi yn elfen allweddol o amcan Rhan 1 y Ddeddf, a bydd y rheoliadau yn dod i rym ar 3 Mehefin, 2015. Yna gall yr awdurdod trwyddedu ddechrau'r broses o ddatblygu'r cyrsiau hyfforddi, y bydd angen iddynt fod ar waith i ganiatáu ar gyfer gwneud ceisiadau am drwyddedau. Diolch yn fawr.

17:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

17:39

# 12. Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i Amrywio Trefn Ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 Bil Cymwysterau Cymru

# 12. Motion under Standing Order 26.36 to Vary the Order of Consideration of Stage 3 Amendments to the Qualifications Wales Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Item 12 is a motion under Standing Order 26.36 to vary the order of consideration of Stage 3 amendments to the Qualifications (Wales) Bill. I call on the Minister for Education and Skills to move the motion—Huw Lewis.

Cynnig yw eitem 12 o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn yr ystyriaeth o welliannau Cyfnod 3 i Fil Cymwysterau (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau i gynnig y cynnig—Huw Lewis.

Cynnig NDM5770 Jane Hutt

Motion NDM5770 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni Fil Cymwysterau Cymru yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

Agrees to dispose of sections and schedules to the Qualifications Wales Bill at Stage 3 in the following order:

a) adran 2

a) section 2

b) atodlenni 1 a 2

b) schedules 1 and 2

c) adrannau 3-11

c) sections 3-11

d) atodlen 3

d) schedule 3

e) adrannau 12-57

e) sections 12-57

f) atodlen 4

f) Schedule 4

g) adrannau 58-60

g) sections 58-60

h) adran 1

h) section 1

i) Teitl Hir

i) Long title

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:40

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't have any speakers. So, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff y cynnig ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:40

# 13. Cyfnod Pleidleisio

# 13. Voting Time

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 13 is voting time. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the Smoke-free (Private Vehicles) Regulations 2015. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 46. There voted against 1. Therefore, the regulations are agreed.

Y cyfnod pleidleisio yw Eitem 13. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly pleidleisiwn yn gyntaf ar y Rheoliadau (Cerbydau Preifat) Di-fwg 2015. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 46 o blaid. Pleidleisiodd 1 yn erbyn. Felly, caiff y rheoliadau eu derbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 46, Yn erbyn 1, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 46, Against 1, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5767

Result of the vote on motion NDM5767

17:40

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was I. [Laughter.]

Fi oedd yr un. [Chwerthin.]

17:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is the democratic process.

Dyma'r broses ddemocrataidd.

We'll now vote on the Regulation of Private Rented Housing (Licensing Authority Training Requirements) (Wales) Regulations 2015. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 35. There voted against 12. Therefore, the motion is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi yr Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015. Galwaf am bleidlais ar y cynnig, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 35 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Caiff y cynnig ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 35, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 35, Against 12, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5769 | Result of the vote on motion NDM5769

17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:41.*

*The meeting ended at 17:41.*